

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

03/12/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol](#)
[Questions to the Minister for Health and Social Services](#)

[Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol](#)
[Questions to the Counsel General](#)

[Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad](#)
[Questions to the Assembly Commission](#)

[Datganiad: Cyflwyno Bil Arfaethedig Aelod—y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio \(Cymru\)](#)
[Statement: Introduction of a Member-proposed Bill—Safe Nurse Staffing Levels \(Wales\) Bill](#)

[Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21\(iv\): Plismona](#)
[Debate by Individual Members under Standing Order 11.21\(iv\): Policing](#)

[Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Agwedd Llywodraeth Cymru tuag at Hybu Masnach a Mewfuddsoddi](#)
[The Enterprise and Business Committee's Report on the Welsh Government's Approach to the Promotion of Trade and Inward Investment](#)

[Dadl Plaid Cymru: y Bartneriaeth Masnach a Buddsoddi Trawsatlantig](#)
[Plaid Cymru Debate: the Transatlantic Trade and Investment Partnership](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)
[Voting Time](#)

[Dadl Fer: Cymru ar y Blaen—Gwerthuso Cylchffordd Cymru](#)
[Short Debate: Wales Takes the Chequered Flag—an Appraisal of the Circuit of Wales](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awr yn eistedd.

Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Questions to the Minister for Health and Social Services

Cyflwr Asperger

Asperger's Syndrome

13:30 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol y strategaeth i'r rhai sy'n dioddef o gyflwr Asperger? OAQ(4)0531(HSS)

1. Will the Minister make a statement on the future of the strategy for those suffering from Asperger's syndrome? OAQ(4)0531(HSS)

13:30 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

Diolch yn fawr am y cwestiwn. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda grŵp rhanddeiliaid sy'n cynghori ar y maes hwn o bolisi ac ymarfer. Yn y flwyddyn newydd, bydd y grŵp yn cyflwyno cynigion i ddiweddarau ein cynllun gweithredu strategol ar gyfer anhwylderau ar y sbectrwm awtistiaeth, a gyhoeddwyd yn 2008. Bydd y cynigion hyn yn cyfeirio at ddyfodol y gwasanaethau i bobl â chyflwr Asperger.

Thank you very much for the question. The Welsh Government is working with a stakeholder group that is advising on this area of policy and practice. In the new year, the group will present proposals to update our strategic action plan for autism spectrum disorders, published in 2008. These proposals will refer to the future of services for people with Asperger's syndrome.

13:31 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr. Mae Gwynedd, a Môn, a nifer o siroedd eraill, yn gweld gostyngiad sylweddol yn yr arian sydd ar gael i weithredu'r strategaeth. Rydych wedi tynnu'r warchodaeth oddi ar yr arian hwn. A gaf i ofyn i chi ailystyried hyn, ac esbonio sut y byddwch chi'n sicrhau parhad y strategaeth wedi diflaniad yr arian i mewn i'r gefnogaeth gyffredinol i gynghorau lleol?

Thank you very much. Gwynedd and Anglesey, and a number of other counties, are seeing a significant decrease in the funding available to implement the strategy. You have removed the protection for this funding. Can I ask you to reconsider this, and to explain how you will secure the future of the strategy after this funding disappears into general support for local authorities?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:31 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Llywydd, the Member is right to point to the fact that, after a number of years in which we have provided a specific ring-fenced grant for the implementation of the autism policy, we have transferred it, as from next year, into the revenue support grant. It is £880,000. It is the right thing to do. It is in line with our general policy. The policy, as you know, is this: when a service is new, or where a service is being remodelled, we provide money from the centre. Once you get to a point where that is a mainstream service, it is right to transfer the money to those who are responsible for it.

Llywydd, ar ôl nifer o flynyddoedd lle rydym wedi bod yn darparu grant penodol wedi'i neilltuo ar gyfer gweithredu'r polisi awtistiaeth, mae'r Aelod yn gywir yn tynnu sylw at y ffaith ein bod wedi ei drosglwyddo, o'r fwyddyn nesaf ymlaen, i mewn i'r grant cynnal refereniw. Mae'n £880,000. Dyma'r peth iawn i'w wneud. Mae'n cydymffurfio â'n polisi cyffredinol. Fel y gwyddoch, dyma'r polisi: pan fydd gwasanaeth yn newydd neu lle bydd gwasanaeth yn cael ei ailfodelu, rydym yn darparu arian o'r canol. Pan fyddwch yn cyrraedd pwynt lle nad yw hwnnw'n wasanaeth prif ffrwd, mae'n iawn trosglwyddo'r arian i'r rhai sy'n gyfrifol amdano.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

However, I understand the anxieties that there are in the field, that the money that they have been able to identify in the past might disappear into the RSG. I have written, therefore, to all local authorities in Wales, to set out my expectations that they will continue to provide that money in a way that is clearly identifiable. I have agreed that my officials will track that money with local authorities, to make sure that it does not get siphoned off into any other service.

Fodd bynnag, rwy'n deall y pryderon sydd yna y gallai'r arian y maent wedi gallu cael gafael arno yn y gorffennol ddiflannu i mewn i'r Grant Cynnal Refereniw. O'r herwydd, rwyf wedi ysgrifennu at bob awdurdod lleol yng Nghymru yn nodi fy nisgwyladau y byddant yn parhau i ddarparu'r arian hwnnw mewn ffordd sy'n hawdd ei adnabod. Rwyf wedi cytuno y bydd fy swyddogion yn olrhain yr arian hwnnw gydag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau nad yw'n cael ei ddargyfeirio i unrhyw wasanaeth arall.

13:32 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, three years after the Winterbourne View scandal, it emerged that more people with learning disabilities in England are continuing to be admitted to hospital than are being discharged. That is despite Government promises to the contrary. The Bubb report into the scandal has called for action. While no Welsh patients were involved in this awful episode, what can we learn from this case?

Weinidog, dair blynedd ar ôl sgandal Winterbourne View, daeth yn amlwg fod mwy o bobl ag anabledau dysgu yn Lloegr yn parhau i gael eu derbyn i'r ysbyty nag sy'n cael eu rhyddhau. Mae hynny er gwaethaf addewidion y Llywodraeth i'r gwrthwyneb. Mae adroddiad Bubb ar y sgandal wedi galw am weithredu. Er nad oedd cleifion o Gymru yn rhan o'r digwyddiad ofnadwy hwn, beth y gallwn ei ddysgu o'r achos hwn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:33 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Joyce Watson for that. I have read the Bubb report. I think that there are three things that we are able to learn from the report, as far as people with autism, including those with Asperger's syndrome, can be drawn from it. First of all, in our Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 last year, we particularly provide new provision for the safeguarding of adults using our services. That will be something important. We will use the regulation and inspection Bill, which I hope to bring to the floor of the Assembly early next year, to respond as well to some of the conclusions being drawn from the Winterbourne View episode. Finally, we are fortunate, I believe, that Dr Margaret Flynn, who was the author of the inquiry into Winterbourne View, is now working in Wales in a number of different capacities, and we are able to draw on her expertise as well.

Hoffwn ddiolch i Joyce Watson am hynny. Rwyf wedi darllen adroddiad Bubb. Credaf fod tri pheth y gallwn ei ddysgu o'r adroddiad, o ran pobl ag awtistiaeth, yn cynnwys rhai â syndrom Asperger. Yn gyntaf oll, yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 y llynedd, rydym yn cynnwys darpariaeth newydd benodol ar gyfer diogelu oedolion sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Bydd hynny'n rhywbeth pwysig. Byddwn yn defnyddio'r Bil rheoleiddio ac arolygu, y gobeithiaf ei gyflwyno ar lawr y Cynulliad ddechrau'r flwyddyn nesaf, i ymateb yn ogystal i rai o'r casgliadau y deuir iddynt ar sail digwyddiad Winterbourne View. Yn olaf, rydym yn ffodus, rwy'n credu, fod Dr Margaret Flynn, awdur yr ymchwiliad i Winterbourne View, bellach yn gweithio yng Nghymru ar sawl gwedd wahanol, a gallwn ninnau fanteisio ar ei harbenigedd hefyd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:34

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, returning to your answer to Alun Ffred Jones on your autism policy, as you called it, is it not the fact of the matter and is it not the truth that that autism policy really does need beefing up? During the last cross-party autism group meeting in the Assembly, on 19 November, Members virtually unanimously expressed their view that autism is no longer a key priority for the Welsh Government. That is how they see it. Across the border in England, they have an autism Act that they are pressing ahead with. We do not have the same equity here. David Malins, a representative of the National Autistic Society Cymru, spoke about the need for Wales to have a legal statutory instrument to ensure consistency of support. Will you now accept that an Act is the way to go? It is working in England; it can work here. Let us give those people in Wales who are suffering from autism issues the support they need.

Weinidog, i ddychwelyd at eich ateb i Alun Ffred Jones ar eich polisi awtistiaeth, fel y galwasoch ef, onid y ffaith a'r gwirionedd yw bod gwir angen cryfhau'r polisi awtistiaeth hwnnw? Yn ystod cyfarfod diwethaf y grŵp awtistiaeth trawsbleidiol yn y Cynulliad, ar 19 Tachwedd, mynegodd yr Aelodau eu barn bron yn unfrydol nad yw awtistiaeth yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru bellach. Dyna sut y maent yn ei gweld hi. Ar draws y ffin yn Lloegr, mae ganddynt Ddeddf awtistiaeth y maent yn bwrw ymlaen â hi. Nid oes gennym yr un ecwiti yma. Siaradodd David Malins, cynrychiolydd o Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru, am yr angen i Gymru gael offeryn statudol cyfreithiol i sicrhau cefnogaeth gyson. A wneuch chi dderbyn yn awr mai Deddf yw'r ffordd orau ymlaen? Mae'n gweithio yn Lloegr; gall weithio yma. Gadewch i ni roi'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i'r bobl hynny yng Nghymru sy'n dioddef o broblemau awtistiaeth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:35

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, Llywydd, I would not start from where the Member started. I think that the 2008 autistic spectrum disorder action plan has produced real pluses for autism services in Wales, with £12 million extra invested in those services since that time. However, as a result of discussions, partly on the floor of this Chamber, with the previous Deputy Minister for Social Services, we have embarked on a refresh of that policy. We have a stakeholder group working on it, and it has met eight times already. It met in November, and it has provided advice to me as to the next steps that we should take. The idea of an autism Act is part of what is discussed. I am open-minded about it. I will see the advice that I get. If it is true that there are things that we could do to strengthen the legislative basis of these services, then I am very willing to look at that.

Wel, Lywydd, ni fyddwn yn dechrau o ble y dechreuodd yr Aelod. Credaf fod Cynllun Gweithredu Strategol Cymru ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig 2008 wedi cynhyrchu pethau hynod o gadarnhaol o ran gwasanaethau awtistiaeth yng Nghymru, gyda £12 miliwn o fuddsoddiad ychwanegol yn y gwasanaethau hynny ers cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, o ganlyniad i drafodaethau, yn rhannol ar lawr y Siambr hon, gyda'r cyn-Ddirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, rydym wedi dechrau adnewyddu'r polisi hwnnw. Mae gennym grŵp rhanddeiliaid sy'n gweithio arno ac mae'r grŵp wedi cyfarfod wyth gwaith yn barod. Cyfarfu ym mis Tachwedd ac mae wedi darparu cyngor ar fy nghyfer ar y camau nesaf y dylem eu rhoi ar waith. Mae'r syniad o Ddeddf awtistiaeth yn rhan o'r hyn sy'n cael ei drafod. Rwy'n agored fy meddwl am y peth. Byddaf yn gweld y cyngor a gaf. Os yw'n wir fod yna bethau y gallem eu gwneud i gryfhau sail ddeddfwriaethol y gwasanaethau hyn, yna rwy'n barod iawn i edrych ar hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Sbectrwm Awtistiaeth

The Autism Spectrum

13:36

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth a ddarperir i bobl ar y sbectrwm awtistig yng Nghymru? OAQ(4)0520(HSS)

2. Will the Minister make a statement on assistance provided to people on the autistic spectrum in Wales? OAQ(4)0520(HSS)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:36

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Peter Black for that question. Since 2008, assistance to people on the autistic spectrum has been delivered through the spectrum disorder strategic action plan. This includes a local authority infrastructure with local ASD leads and a national co-ordinating group. Developments have drawn on more than £12 million of additional investment over that period.

Diolch i Peter Black am y cwestiwn. Ers 2008, mae cymorth i bobl ar y sbectrwm awtistig wedi cael ei gyflwyno drwy'r cynllun gweithredu strategol ar gyfer anhwylderau'r sbectrwm awtistig (ASD). Mae'n cynnwys seilwaith awdurdod lleol gydag arweinwyr ASD lleol a grŵp cydgysylltu cenedlaethol. Mae'r datblygiadau wedi elwa o dros £12 miliwn o fuddsoddiad ychwanegol dros y cyfnod hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:36

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, Minister, and thank you also for the letter that you sent to me in response to a question that I raised with the First Minister specifically on this issue. However, I think that it is quite clear that the Claire Dyer case in Swansea highlighted a significant number of gaps in provision, which do need to be addressed. In my casework as well, I have also had a particular issue in relation to the provision of autism specialist consultants. In your letter, you state that the autism spectrum disorder adult diagnostic pre/post counselling network across Wales includes consultant psychiatrists and other practitioners supporting people with autism in Wales. However, none of those is a specialist autism consultant. Would you be willing to have a look at that to see whether that need can be met in Wales?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog, a diolch hefyd am y llythyr a anfonasoch ataf mewn ymateb i gwestiwn a godais gyda'r Prif Weinidog yn benodol ar y mater hwn. Fodd bynnag, credaf ei bod yn gwbl glir fod achos Claire Dyer yn Abertawe wedi tynnu sylw at nifer sylweddol o fylchau yn y ddarpariaeth, ac mae angen mynd i'r afael â hwy. Yn fy ngwaith achos hefyd, rwyf wedi cael problem benodol ynghylch y ddarpariaeth o feddygon ymgynghorol sy'n arbenigo ar awtistiaeth. Yn eich llythyr, rydych yn dweud fod rhwydwaith cynghori cyn/ôl-ddiagnostig yr anhwylder sbectrwm awtistig i oedolion ledled Cymru yn cynnwys seiciatryddion ymgynghorol ac ymarferwyr eraill sy'n cefnogi pobl ag awtistiaeth yng Nghymru. Fodd bynnag, nid oes yr un o'r rhai hynny'n feddyg ymgynghorol sy'n arbenigo ar awtistiaeth. A fuasech yn barod i edrych ar hynny i weld a oes modd i'r angen hwnnw gael ei ddiwallu yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:37

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am willing to look at the issue, of course. Peter Black is right to say that the network has increased the number of clinicians qualified to provide adult diagnostic services in autism. I think that the clinical world is moving away from ever-further dissection into specific specialisms and more towards people who are able to provide a holistic service, with the additional ability that they need to respond to particular needs. The pre and post counselling network is developing a community of practice in this area. It is meeting for the first time today, in fact, and I look to the network to be able to provide the necessary clinical skills to provide a service in this area.

Rwy'n barod i edrych ar y mater hwn, wrth gwrs. Mae Peter Black yn gywir yn dweud fod y rhwydwaith wedi cynyddu nifer y clinigwyr sy'n gymwys i ddarparu gwasanaethau diagnostig ar gyfer oedolion awtistig. Credaf fod y byd clinigol yn symud i ffwrdd oddi wrth y dyrannu pellach i arbenigeddau penodol a thuag at bobl sy'n gallu darparu gwasanaeth holistaidd gyda'r gallu ychwanegol sydd ei angen arnynt i ymateb i anghenion penodol. Mae'r rhwydwaith cwnsela cyn ac ar ôl diagnosis yn datblygu cymuned o ymarferwyr yn y maes hwn. Mae'n cyfarfod am y tro cyntaf heddiw, mewn gwirionedd, ac rwy'n gobeithio y bydd y rhwydwaith yn gallu darparu'r sgiliau clinigol angenrheidiol ar gyfer darparu gwasanaeth yn y maes hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

One of the problems that some of my constituents encounter is the transition from child to adult services. What importance is given by the Welsh Government to managing the transition of those with autism from child to adult?

Un o'r problemau y mae rhai o fy etholwyr yn dod ar eu traws yw'r pontio rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion. Faint o bwys y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar reoli'r trawsnewid o blentyn i oedolyn i rai ag awtistiaeth?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member is absolutely right, and it is an issue not confined simply to this area. The point at which someone moves from being a child, and in receipt of paediatric services, to an adult is often where there are difficult transition points, and I am aware that it is an issue in relation to autism services, too. Just this morning, in fact, I helped to launch, with South Wales Police, a Keep Safe Cymru card, which is designed to make sure that young people, including those with Asperger's, who may get into trouble because they have communication difficulties, are able to have those difficulties identified. People whom I spoke to at that event specifically mentioned the usefulness of the card for people who are at the cusp of services for young adults and adults themselves. So, the Member is absolutely right and it is an issue that we are attending to.

Mae'r Aelod yn llygad ei le, ac nid yw hwn yn fater sy'n gyfyngedig i'r maes hwn yn unig. Mae'r pwynt y bydd rhywun yn symud o fod yn blentyn sy'n cael gwasanaethau pediatrig i fod yn oedolyn yn aml yn digwydd lle y ceir adegau anodd yn y broses o bontio ac rwy'n ymwybodol ei fod yn broblem o ran gwasanaethau awtistiaeth hefyd. Y bore yma, a dweud y gwir, helpais i lansio cerdyn Cadw'n Ddiogel Cymru gyda Heddlu De Cymru, a luniwyd i wneud yn siŵr fod pobl ifanc, yn cynnwys rhai â syndrom Asperger, a allai fynd i drafferth oherwydd bod ganddynt anawsterau cyfathrebu, yn gallu nodi'r anawsterau hynny. Soniodd y bobl y siaradais â hwy yn y digwyddiad hwnnw yn benodol am ddefnyddioldeb y cerdyn ar gyfer pobl sydd eu hunain ar drothwy gwasanaethau ar gyfer oedolion ifanc ac oedolion. Felly, mae'r Aelod yn llygad ei le ac mae'n fater rydym yn mynd i'r afael ag ef.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:39 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, the UK Government has made £1.2 million available for innovation in autism services and to increase autism awareness in England. What is the Welsh Government doing to recognise the diverse needs of people with autism, by funding new and innovative models of support for autism services, as in England?

Weinidog, mae Llywodraeth y DU wedi rhyddhau £1.2 miliwn ar gyfer arloesedd mewn gwasanaethau awtistiaeth ac i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn Lloegr. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gydnabod anghenion amrywiol pobl ag awtistiaeth drwy ariannu modelau newydd ac arloesol o gefnogaeth i wasanaethau awtistiaeth, fel yn Lloegr?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:40 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have already identified some of the things that we are doing here in Wales. I will mention one or two more in a moment. I have to say to the Member that the constant belief that there is more money available for everything in England turns out absolutely not to be true once you examine it. Every time an announcement is made, of millions more for this and millions more for that, I ask my officials where the Barnett consequential for that money is and, every time, I am told, of course, that it is not new money at all. There is no new money; it is simply old money. You re-badge money and re-announce money. It is money moved from one thing to the next, and so it goes on.

Rwyf eisoes wedi nodi rhai o'r pethau rydym yn eu gwneud yma yng Nghymru. Byddaf yn sôn am un neu ddau arall mewn munud. Mae'n rhaid i mi ddweud wrth yr Aelod ei bod yn ymddangos nad yw'r gred gyson fod mwy o arian ar gael ar gyfer popeth yn Lloegr yn wir pan ewch i edrych ar y peth. Bob tro y caiff cyhoeddiad ei wneud am filiynau'n mynd tuag at y peth hwn a miliynau'n fwy tuag at y peth arall, rwy'n gofyn i fy swyddogion ble mae symiau canlyniadol Barnett ar gyfer yr arian hwnnw, a bob tro, caf ar ddeall wrth gwrs nad yw'n arian newydd o gwbl. Nid oes unrhyw arian newydd; hen arian ydyw, dyna'i gyd. Rydych yn ail-labelu arian ac yn ailgyhoeddi arian. Mae'n arian sy'n cael ei symud o un peth i'r llall, ac felly y bydd hi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

So, here in Wales, I have already said that we have spent more than £12 million of new money—genuinely new money—on these services since 2008. We have the pre and post counselling network, and we have the community monitoring and support service, which is a genuinely innovative service designed to meet the needs of young people, particularly with autism, whose needs are below what you would need for a specialist service, but who still need support at the community level. That is provided on a regional basis, it has £0.25 million investment from the Welsh Government, and it happens in all parts of Wales.

Felly, yma yng Nghymru, rwyf eisoes wedi dweud ein bod wedi gwario dros £12 miliwn o arian newydd—arian sy'n wirioneddol newydd—ar y gwasanaethau hyn ers 2008. Mae gennym rwydwaith cwnsela cyn ac ar ôl diagnosis ac mae gennym y gwasanaeth monitro a chymorth cymunedol, sy'n wasanaeth gwirioneddol arloesol a luniwyd i fodloni anghenion pobl ifanc, yn enwedig rhai ag awtistiaeth. Mae anghenion y gwasanaeth cymunedol yn llai na'r hyn y buasai ei angen arnoch ar gyfer gwasanaeth arbenigol ond mae'n parhau i fod angen cymorth ar lefel gymunedol. Mae hwnnw'n cael ei ddarparu ar sail ranbarthol, mae wedi cael buddsoddiad o £0.25 miliwn gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n digwydd ym mhob rhan o Gymru.

13:41 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Sut mae'r Llywodraeth yn mesur y lefel o ddarpariaeth sydd i'r rhai sydd ar y sbectrwm awtistiaeth o safbwynt gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg? A allwch chi ddweud wrthym faint o gynnydd sydd wedi bod yn y gwasanaethau hynny yn y blynyddoedd diwethaf?

How does the Government assess the level of provision available to those on the autism spectrum from the point of view of services through the medium of Welsh? Can you tell us how much progress there has been in the provision of those services over the past few years?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:41 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Wrth gwrs, mae'n hollol bwysig i gael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg pan fydd pobl yn wynebu sialensiau cyfathrebu. Rwy'n cydnabod y pwynt y mae'r Aelod yn ei godi. Nid oes gen i'r ffigurau y prynhawn yma, ond rwy'n hollol fodlon gofyn a oes ffigurau ar gael ac i roi adborth yn ôl i'r Aelod am yr ymdrech yr ydym yn ei wneud yn y maes hwn ac ym maes iechyd meddwl yn gyffredinol, i dyfu'r gwasanaethau yr ydym yn gallu eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Of course, to get services running through the medium of Welsh, it is essential that we resolve the problems of communication. I acknowledge the point that the Member is making. I do not have the figures with me this afternoon, but I am quite happy to ask for those figures, if they are available, and I will report back to the Member, on the efforts that we are making in this field and in the mental health field generally, to grow the services that we are able to provide through the medium of Welsh.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:42

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, on 2 April this year, World Autism Awareness Day, I helped to launch the autism heroes awards, which were set up by my constituent Jo Salmon and her daughter, Holly, who has Asperger's syndrome. These awards recognise excellence achieved in the world of autism in Wales, and the winners are announced at Holly's ball every year, which is a major fundraising event to support people with autism and their families.

Weinidog, ar 2 Ebrill eleni, Diwrnod Ymwybyddiaeth Awtistiaeth y Byd, bûm yn helpu i lansio'r gwobrau arwyr awtistiaeth a sefydlwyd gan fy etholwr Jo Salmon a'i merch, Holly, sydd â syndrom Asperger. Mae'r gwobrau hyn yn cydnabod rhagoriaeth a gyflawnwyd ym myd awtistiaeth yng Nghymru ac mae'r enillwyr yn cael eu cyhoeddi yn naws Holly bob blwyddyn, sef digwyddiad codi arian mawr i gefnogi pobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd.

The nominations for next year's autism heroes are open until 31 December, and I would urge everyone who knows someone who should qualify for an award to nominate them. Minister, will you agree with me that the efforts of volunteers and fundraisers in helping to raise awareness of autism need to be recognised and valued?

Mae'r enwebiadau ar gyfer arwyr awtistiaeth y flwyddyn nesaf yn agored tan 31 Rhagfyr, a byddwn yn annog pawb sy'n adnabod rhywun a fyddai'n gymwys i gael gwobr i'w henwebu. Weinidog, a ydych yn cytuno â mi fod angen cydnabod a gwerthfawrogi ymdrechion gwirfoddolwyr a rhai sy'n codi arian gan helpu i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth?

13:43

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Could I congratulate Jeff Cuthbert and in particular, his constituents, on the fantastic work that they do in this field? So much of what goes on in the autism and Asperger's field relies on the efforts of parents, volunteers, carers and the fantastic contribution that they make. We have ensured that there is parent and carer representation on the stakeholder group that I mentioned earlier, which is refreshing the ASD action plan. It is drawing on exactly the sort of experience that you have mentioned that we want to capture, in the way that we refresh that plan for the future.

A gaf fi longyfarch Jeff Cuthbert, a'i etholwyr yn benodol, ar y gwaith gwych y maent yn ei wneud yn y maes hwn? Mae cymaint o'r hyn sy'n digwydd ym maes awtistiaeth a syndrom Asperger yn dibynnu ar ymdrechion rhieni, gwirfoddolwyr, gofalywyr a'r cyfraniad gwych y maent yn ei wneud. Rydym wedi sicrhau bod cynrychiolaeth o blith rhieni a gofalywyr ar y grŵp rhanddeiliaid a grybwyllais yn gynharach, sy'n adnewyddu'r cynllun gweithredu ASD. Mae'n pwysu ar yr union fath o brofiad y soniasoch amdano rydym am ei gipio, yn y ffordd y byddwn yn adnewyddu'r cynllun hwnnw ar gyfer y dyfodol.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:43

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

First this afternoon, I call the Welsh Conservatives' spokesperson, Darren Millar.

Yn gyntaf y prynhawn yma, galwaf ar lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Darren Millar.

13:44

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Presiding Officer. Minister, a study by the Institute of Education at University College London found that Wales had the UK's highest proportion of obese and overweight 11-year-olds. What action is the Welsh Government taking to tackle that problem?

Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, mae astudiaeth gan y Sefydliad Addysg yng Ngholeg Prifysgol Llundain yn dangos mai Cymru sydd â'r gyfran uchaf yn y DU o ddisgyblion 11 oed sy'n ordew a thros bwysau. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r broblem honno?

13:44

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Darren Millar puts his finger on a very important issue. He will have seen, I think, the recent McKinsey report published just two weeks ago, which analysed, across not just the United Kingdom but Europe and beyond, a very large number of actions, which Governments and health services are taking to try to address the issue of obesity. That concluded that there is no single set of actions that have been found to be successful anywhere. It actually concluded that the most effective actions of which it is aware are not ones that the health service provides after the problem has occurred, but those things that Governments can do, for example, to cut down on the level of sugar in processed foods, to create an environment in which people are encouraged to walk and to exercise rather than to use their cars, and therefore to prevent the problem becoming one that the health service has to try to rescue.

Mae Darren Millar yn tynnu sylw at fater pwysig iawn. Bydd wedi gweld, rwy'n credu, yr adroddiad McKinsey diweddar a gyhoeddwyd bythefnos yn unig yn ôl, a oedd yn dadansoddi, nid yn unig ledled y Deyrnas Unedig ond ledled Ewrop a thu hwnt, nifer fawr iawn o gamau gweithredu y mae Llywodraethau a gwasanaethau iechyd yn eu cymryd i geisio mynd i'r afael â phroblem gordewdra. Daeth i'r casgliad nad oes un set o gamau gweithredu y gwelwyd eu bod yn llwyddiannus ar gael yn unman. Mewn gwirionedd, daeth i'r casgliad nad y camau y mae'r gwasanaeth iechyd yn eu darparu ar ôl i'r broblem ddigwydd yw'r camau gweithredu mwyaf effeithiol y mae'n ymwybodol ohonynt, ond yn hytrach y pethau hynny y gall Llywodraethau eu gwneud, er enghraifft lleihau lefel y siwgr mewn bwydydd wedi'u prosesu, creu amgylchedd ar gyfer annog pobl i gerdded ac i wneud ymarfer corf yn lle defnyddio'u ceir, a thrwy hynny osgoi gadael i'r broblem ddod yn un sy'n rhaid i'r gwasanaeth iechyd geisio ei datrys..

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for your response, Minister. I was a little bit disappointed that you did not make reference to your public health White Paper, of course, which made reference to trying to tackle the obesity epidemic in Wales. One thing that has been excluded from the public health White Paper, quite surprisingly, is the ability of the Welsh Government to introduce health impact assessments through the planning system and, indeed, through the licensing system. Why is that something that has been omitted?

Diolch am eich ymateb, Weinidog. Roeddwn ychydig yn siomedig na chyfeiriasoch at eich Papur Gwyn iechyd y cyhoedd, wrth gwrs, a oedd yn cyfeirio at geisio mynd i'r afael â'r epidemig o ordewdra yng Nghymru. Un peth sydd wedi ei eithrio o'r Papur Gwyn iechyd y cyhoedd, sy'n dipyn o syndod, yw gallu Llywodraeth Cymru i gyflwyno asesiadau effaith ar iechyd drwy'r system gynllunio ac yn wir, drwy'r system drwyddedu. Pam y cafodd hynny ei hepgor?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, I am very pleased to talk about the public health White Paper and the measures that we have identified there in relation to obesity. Darren Millar will be aware that, as a result of earlier discussions on the floor of the Assembly, we are carrying out a further round of discussions with organisations to see whether there are any further legislative ideas that could be contributed to the White Paper and the Bill that will follow. As far as health impact assessments are concerned, I have read the responses that have come in on the public health White Paper, and I think that they make a cogent case for health impact assessments. Discussions are going on across Government as to how we might best take that agenda forward.

Wrth gwrs, rwy'n falch iawn i drafod Papur Gwyn iechyd y cyhoedd a'r mesurau rydym wedi'u nodi ynddo mewn perthynas â gordewdra. Bydd Darren Millar gwybod ein bod yn cynnal rownd arall o drafodaethau gyda sefydliadau, o ganlyniad i drafodaethau cynharach ar lawr y Cynulliad, i weld a oes unrhyw syniadau deddfwriaethol pellach y gellid eu cyfrannu at y Papur Gwyn a'r Bil a fydd yn dilyn. Cyn belled ag y mae asesiadau o effaith ar iechyd yn y cwestiwn, rwyf wedi darllen yr ymatebion a ddaeth i mewn ar Bapur Gwyn iechyd y cyhoedd, ac rwy'n credu eu bod yn cyflwyno achos cryf dros asesiadau effaith ar iechyd. Mae trafodaethau'n digwydd ar draws y Llywodraeth ynglŷn â'r ffordd orau i ni symud yr agenda honno ymlaen.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Would you agree that the public health Bill, as it will be published, is the appropriate vehicle to introduce health impact assessments, particularly given that it can look at the planning and licensing system at the same time and given the omission of such impact assessments in the Well-being of Future Generations (Wales) Bill or in any discussions on the Planning (Wales) Bill to date?

A fyddech yn cytuno mai Bil iechyd y cyhoedd, fel y bydd yn cael ei gyhoeddi, yw'r cyfrwng priodol i gyflwyno asesiadau o'r effaith ar iechyd, yn enwedig o ystyried y gall edrych ar y system gynllunio a thrwyddedu ar yr un pryd ac o ystyried bod asesiadau effaith o'r fath wedi cael eu hepgor yn y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) neu mewn unrhyw drafodaethau ar y Bil Cynllunio (Cymru) hyd yn hyn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:46 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Darren is absolutely right to identify the public health Bill as a potential legislative means for putting health impact assessments on a statutory basis. I have certainly not ruled that out. There are some other possible routes to achieving this, and I continue to explore them as well.
- Mae Darren yn llygad ei le yn cydnabod Bil iechyd y cyhoedd fel modd deddfwriaethol posibl ar gyfer gosod asesiadau effaith ar iechyd ar sail statudol. Yn sicr, nid wyf wedi diystyru hynny. Mae rhai llwybrau eraill posibl ar gael ar gyfer cyflawni hyn ac rwy'n parhau i'w harchwilio hwy hefyd.
- 13:47 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to Plaid Cymru's spokesperson, Elin Jones.
- Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Elin Jones.
- 13:47 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, home carers perform one of the most important aspects of health and social care. A report this week in England found that 60% of care workers were on zero-hour contracts and around a third earned less than the minimum wage because they were not paid for travelling time. Is there any evidence that the situation in Wales is any different?
- Weinidog, mae gofawyr cartrefi yn cyflawni un o'r agweddau pwysicaf ar iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd adroddiad yn Lloegr yr wythnos hon yn dangos bod 60% o weithwyr gofal ar gontractau dim oriau a thua thraean yn ennill llai na'r isafswm cyflog am nad ydynt yn cael eu talu am amser teithio. A oes unrhyw dystiolaeth fod y sefyllfa yng Nghymru yn wahanol?
- 13:47 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- There is evidence of the nature of the domiciliary care market in Wales, because some significant research has been carried out and published in Wales about it in recent months. It shows that the pattern in Wales is different to the pattern in England, but it does not show that what goes on in England is eliminated here in Wales. It shows, to my mind, that there is a real job of work to do in persuading those firms that provide domiciliary care that cutting costs upfront simply lead to them incurring those costs through staff turnover, for example, and that they would be better off thinking about ways in which they can invest in the terms, conditions, pay and training of their staff that leads to those staff wanting to stay with those companies, to provide a service that is therefore improving and, in the end, leads to better business outcomes for the firms concerned.
- Ceir dystiolaeth o natur y farchnad gofal cartref yng Nghymru, oherwydd bod rhywfaint o waith ymchwil arwyddocaol wedi cael ei wneud a'i gyhoeddi yng Nghymru yn ei chylch dros y misoedd diwethaf. Mae'n dangos bod y patrwm yng Nghymru yn wahanol i'r patrwm yn Lloegr, ond nid yw'n dangos nad yw'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr yn digwydd yma yng Nghymru. Mae'n dangos, yn fy marn i, fod angen gwneud llawer o waith ar ddarbwylllo cwmnïau sy'n darparu gofal cartref fod torri costau cychwynnol yn arwain yn syml at orfod ysgwyddo'r costau hynny drwy drosiant staff, er enghraifft, ac y buasai'n well iddynt feddwl am ffyrdd o fuddsoddi yn nhelerau, amodau, cyflog a hyfforddiant eu staff, gan beri i'r staff hynny fod eisiau aros gyda'r cwmnïau, er mwyn darparu gwasanaeth sydd felly'n gwella ac yn y pen draw, yn arwain at ganlyniadau busnes gwell i'r cwmnïau dan sylw.
- 13:48 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I have an aspiration that all homecare workers would earn at least the living wage, and I hope that you share that aspiration. One of the first homecare companies in the UK to pay a living wage to its workers is a Pembrokeshire company called Care in Hand. In your discussions with local authorities, have you had discussions with them that the contracts that they have with domiciliary care providers rule out zero-hour contracts and insist on payment for travelling time and at least the minimum wage, if not a living wage?
- Hoffwn weld pob gweithiwr gofal cartref yn ennill y cyflog byw fan lleiaf ac rwy'n gobeithio eich bod yn rhannu'r un dyhead. Un o'r cwmnïau gofal cartref cyntaf yn y DU i dalu cyflog byw i'w gweithwyr yw cwmni Care in Hand yn Sir Benfro. Yn eich trafodaethau gydag awdurdodau lleol, a ydych wedi cael trafodaethau gyda hwy na ddylai contractau sydd ganddynt â darparwyr gofal cartref gynnwys contractau dim oriau a mynnu tâl am amser teithio ac o leiaf yr isafswm cyflog, os nad y cyflog byw?

- 13:49 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 I congratulate the Pembrokeshire company that the Member has mentioned. There is no excuse, in my view, for anybody to be paid below the minimum wage. That is a statutory right that people have. Firms that seem to erode that, by trying to get round it in some ways, are firms that we need to identify and to have that out with them. Beyond that, it is a matter for local authorities to carry out the negotiations with local suppliers that lead to domiciliary care services. In these times, when there is so little money to do all the things that we know need to be done, we cannot enter into those conversations in the naive belief that simply scolding local authorities will get us to the place that we want to be. They will be trying, I am sure, their very best to provide domiciliary care services that meet the needs of their local population, while attending to the legitimate rights of the people who provide those services.
- Rwy'n llongyfarch y cwmni o Sir Benfro a gafodd ei grybwyll gan yr Aelod. Ni does unrhyw esgus, yn fy marn i, dros dalu llai na'r isafswm cyflog i neb. Mae honno'n hawl statudol i bawb. Mae'r cwmnïau sydd i'w gweld yn erydu hynny drwy geisio dod o hyd i ffyrdd o'i osgoi yn gwmnïau y mae angen i ni eu nodi a'u herio. Y tu hwnt i hynny, mater i awdurdodau lleol yw cynnal trafodaethau â chyflenwyr lleol sy'n arwain at wasanaethau gofal cartref. Ar adegau fel hyn, pan nad oes fawr o arian ar gyfer gwneud yr holl bethau y gwyddom fod angen eu gwneud, ni allwn fod yn rhan o'r trafodaethau hynny yn y gred naif y bydd rhoi pryd o dafod i awdurdodau lleol a dim mwy yn ein galluogi i gyrraedd lle rydym eisiau bod. Byddant yn ceisio'u gorau glas, rwy'n sicr, i ddarparu gwasanaethau gofal yn y cartref sy'n diwallu anghenion eu poblogaeth leol, gan ofalu am hawliau cyfreithlon y bobl sy'n darparu'r gwasanaethau hynny.
- Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:50 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 You will recall, during the passage of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, that Jocelyn Davies AM proposed to amend that legislation to ban zero-hour contracts in the social care sector. At that time, the response of the Welsh Government was to be cautious in that it feared that it did not have the competence to legislate on this. Since then, we have had the judgment of the Supreme Court on the Agricultural Sector (Wales) Act 2014. Do you think that it is now appropriate for the Welsh Government to use that judgment and your experience to use the forthcoming legislation on regulation to introduce a ban on zero-hour contracts for social care workers?
- Yn ystod taith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, byddwch yn cofio fod Jocelyn Davies AC wedi cynnig diwygio'r ddeddfwriaeth honno i wahardd contractau dim oriau yn y sector gofal cymdeithasol. Ar y pryd, ymateb Llywodraeth Cymru oedd y dylid bod yn ofalus gan ei bod yn ofni nad oedd ganddi'r cymhwysedd i ddeddfu ar hyn. Ers hynny, rydym wedi cael dyfarniad y Goruchaf Lys ar Ddeddf y Sector Amaethyddol (Cymru) 2014. A ydych chi'n credu ei bod yn briodol yn awr i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r dyfarniad hwnnw a'ch profiad i ddefnyddio'r ddeddfwriaeth arfaethedig ar reoleiddio i gyflwyno gwaharddiad ar contractau dim oriau ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol?
- Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:51 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 I think that the previous Deputy Minister, in taking the social services Bill through the Assembly, was absolutely right in the advice that she gave us that we should not put that Bill in peril, with all the work that it is required to do, by risking it ending up in the Supreme Court for many long months. In the meantime, though, as Elin Jones says, we have had the Supreme Court judgment on the agricultural wages Bill. It will be a material factor in the consideration of the regulation and inspection Bill, and I take notice of the points that she has made this afternoon.
- Credaf fod y Dirprwy Weinidog blaenorol, wrth symud y Bil gwasanaethau cymdeithasol drwy'r Cynulliad, yn llygad ei lle o ran y cyngor a roddodd i ni na ddylem roi'r Bil hwnnw mewn perygl, gyda'r holl waith y mae gofyn iddo ei wneud, a'i roi mewn perygl o lanio yn y Goruchaf Lys am fisoedd lawer. Yn y cyfamser, fodd bynnag, fel y dywed Elin Jones, rydym wedi cael dyfarniad y Goruchaf Lys ar y Bil cyflogau amaethyddol. Bydd yn ffactor berthnasol wrth ystyried y Bil rheoleiddio ac arolygu, ac rwy'n nodi'r pwyntiau y mae hi wedi'u gwneud y prynhawn yma.
- Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
 We now move to the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Kirsty Williams.
- Symudwn yn awr at lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol Cymreig, Kirsty Williams.
- Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:51 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats
 Thank you, Presiding Officer. Minister, this week, we mark World AIDS Day. In England, they provide postal HIV testing as a way of giving people convenient, discreet and timely HIV tests. Will you commit to introducing a similar scheme here to ensure that we help the 24% of those living with HIV who are undiagnosed to access the timely treatment that they need?
- Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, yr wythnos hon, rydym yn nodi Diwrnod AIDS y Byd. Yn Lloegr, maent yn darparu profion HIV drwy'r post fel ffordd o roi profion HIV cyfleus, cyfrinachol ac amserol i bobl. A wnewch chi ymrwmo i gyflwyno cynllun tebyg yma i sicrhau ein bod yn helpu'r 24% o'r rhai sy'n byw gyda HIV ac sydd heb gael diagnosis i gael mynediad i'r driniaeth amserol sydd ei hangen arnynt?
- Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:52

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have had an inquiry made following Eluned Parrott's question to the First Minister, I believe, yesterday. The advice that I have had so far—but I will say that it is advice provided within 24 hours—Is that the Terrence Higgins Trust provides that service in Wales now and, therefore, that Welsh patients are able to have HIV tests done through the post by taking blood themselves and using the Terrence Higgins Trust service to get a result via the post. However, I am meeting representatives of the Terrence Higgins Trust myself later today. I believe that you and Darren Millar may have met them already, and I will explore that with them then. If it is not available in Wales, it is a service that we would like to see available here.

Rwyf wedi gwneud ymholiad yn dilyn cwestiwn Eluned Parrott i'r Prif Weinidog ddoe, rwy'n credu. Y cyngor a gafais hyd yn hyn—ond byddaf yn dweud ei fod yn gyngor a gafodd ei roi o fewn 24 awr—yw bod Ymddiriedolaeth Terrence Higgins yn darparu'r gwasanaeth hwnnw yng Nghymru yn awr ac felly bod cleifion yng Nghymru yn gallu cael profion HIV wedi'u gwneud drwy'r post drwy gymryd gwaed eu hunain a defnyddio gwasanaeth Ymddiriedolaeth Terrence Higgins i gael canlyniad drwy'r post. Fodd bynnag, byddaf yn cyfarfod â chynrychiolwyr o Ymddiriedolaeth Terrence Higgins yn nes ymlaen heddiw. Rwy'n credu efallai eich bod chi a Darren Millar wedi cyfarfod â hwy eisoes a byddaf yn edrych ar hynny gyda hwy wedyn. Os nad yw ar gael yng Nghymru, mae'n wasanaeth y byddem yn hoffi ei gael yma.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:53

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful for that positive answer. My understanding is that it is run by Public Health England across the border, but I am grateful that the Minister demonstrates a desire to move to such a system in Wales. Minister, there is no medical evidence that those with HIV need to have their medication assessed on more than a three or even six-monthly basis, and there is no evidence that there is an issue with patients stockpiling their medicines and not taking them. Why is it that Cardiff and the Vale health board is the only LHB in Wales that will prescribe only 30 days' worth of medication at its HIV clinics, making it inconvenient for patients and putting additional pressure on clinics?

Diolch am yr ateb cadarnhaol. Fy nealltwriaeth i yw ei fod yn cael ei redeg gan Iechyd y Cyhoedd Lloegr dros y ffin ond rwy'n ddiolchgar bod y Gweinidog yn dangos awydd i symud i system o'r fath yng Nghymru. Weinidog, nid oes tystiolaeth feddygol fod angen i bobl â HIV gael eu meddyginiaeth wedi'i hasesu yn amlach na bob tri mis neu hyd yn oed bob chwe mis ac nid oes unrhyw dystiolaeth fod problem gyda chleifion yn pentyrru eu meddyginiaethau ac yn peidio â'u cymryd. Pam mai bwrdd iechyd Caerdydd a'r Fro yw'r unig Fwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru nad yw'n rhoi presgripsiwn am fwy na gwerth 30 diwrnod o feddyginiaeth yn eu clinigau HIV, gan ei gwneud yn anghyfleus i gleifion yn ogystal â rhoi pwysau ychwanegol ar glinigau?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:53

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The general advice that the National Institute for Health and Care Excellence and others provide is that 28-day prescriptions are the best way to make sure that people get medicines that they then use accurately and to eliminate waste in the system. However, I have pursued this matter previously, again as the result of an individual matter that Eluned Parrott has brought to my attention, and made it clear, as I believed, to the NHS in Wales that while that is the starting point, it is not an absolute rule, that it should apply it sensibly in the circumstances of individual patients, that where there are individuals who are stable and whose regime could be equally well served by a longer prescription and where clinicians are confident that the individual is capable of managing their medication over that long period, that there is no barrier in the rules that we have set down in Wales to that happening.

Y cyngor cyffredinol sy'n cael ei ddarparu gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal ac erall yw mai presgripsiynau 28 diwrnod yw'r ffordd orau o wneud yn siŵr fod pobl yn cael meddyginiaethau ac yna'n eu defnyddio'n gywir, ac er mwyn dileu gwasttraff yn y system. Fodd bynnag, rwyf wedi mynd ar drywydd y mater hwn o'r blaen, unwaith eto o ganlyniad i fater penodol y tynnodd Eluned Parrott fy sylw ato, a chredais fy mod wedi egluro wrth GIG Cymru, er mai dyna'r man cychwyn, nid yw'n rheol absoliwt. Dylai ei chymhwyso'n synhwyrol yn ôl amgylchiadau cleifion unigol, a lle y ceir unigolion sefydlog y gallai eu gweithdrefn feddyginiaeth weithio'n llawn cystal o gael presgripsiwn hwy, a lle y mae clinigwyr yn hyderus fod yr unigolyn yn gallu rheoli eu meddyginiaeth dros gyfnod hir, nid oes unrhyw rwystr yn y rheolau a osodwyd gennym yng Nghymru i atal hynny rhag digwydd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:54

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. Perhaps you could try again to have that discussion with officials at Cardiff and the Vale.

Minister, there has been a trial scheme in England that has examined the use of pre-exposure prophylaxis for those who are most at risk of contracting HIV. It has been so successful that the pilot has been accelerated. Will you commit to examining the use of PrEP as a way of reducing onward transmission of new infections in Wales?

Diolch i chi, Weinidog. Efallai y gallech geisio cael y drafodaeth honno eto gyda swyddogion yng Nghaerdydd a'r Fro.

Weinidog, cynhaliwyd cynllun treialu yn Lloegr a edrychai ar y defnydd o broffylacsis cyn-gysylltiol ar gyfer y bobl sy'n wynebu'r perygl mwyaf o ddal HIV. Mae wedi bod mor llwyddiannus fel bod y cynllun peilot wedi cael ei gyflymu. A wnewch chi ymrwymo i archwilio'r defnydd o broffylacsis cyn-gysylltiol fel ffordd o leihau trosglwyddo heintiau newydd yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:55 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Absolutely. I am not aware of the experiment, but if there is success being reported in it and there is evidence that we can draw on in Wales, I am very happy to commit to doing that.

Yn sicr. Nid wyf yn ymwybodol o'r arbrawf ond os oes llwyddiant yn cael ei adrodd ohono a bod tystiolaeth y gallwn ei ddefnyddio yng Nghymru, rwy'n hapus iawn i ymrwymo i wneud hynny.

13:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
We will now move back to the questions on the paper. Question 3, OAQ(4)0530(HSS), has been withdrawn.

Byddwn yn awr yn symud yn ôl at y cwestiynau ar y papur. Mae cwestiwn 3, OAQ(4)0530(HSS), wedi cael ei dynnu'n ôl.

Anghenion Maethol Pobl Hŷn

The Nutritional Needs of Older People

13:55 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
4. Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod anghenion maethol pobl hŷn sy'n byw mewn gofal preswyl yng Nghymru yn cael eu bodloni?
OAQ(4)0523(HSS)

4. What steps is the Minister taking to ensure that the nutritional needs of older people living in residential care in Wales are met? OAQ(4)0523(HSS)

13:55 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I thank Lynne Neagle for that question. Our public health White Paper set out an intention to introduce mandatory nutritional standards in care home settings. The proposals were explored in the consultation process. They will now be developed further in the light of responses received.

Diolch i Lynne Neagle am y cwestiwn. Mae ein Papur Gwyn ar iechyd y cyhoedd yn nodi bwriad i gyflwyno safonau maeth gorfodol mewn cartrefi gofal. Cafodd y cynigion eu harchwilio yn ystod y broses ymgynghori. Byddant yn awr yn cael eu datblygu ymhellach yng ngoleuni'r ymatebion a ddaeth i law.

13:56 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you, Minister. You will remember that I wrote to you recently, highlighting the unified menu planning system developed in Torfaen, which aims to improve the nutritional standards of meals provided in residential care and which was cited as an example of best practice in the recent 'A Place to Call Home?' report. It is a really fantastic initiative developed through a partnership between Torfaen trading standards and Aneurin Bevan Local Health Board, which are very keen to see this rolled out across Wales. I have also written to the Minister for finance about the project, as I think that it is a very worthy candidate for invest-to-save funding. Will you commit to working with us so that this exciting project, pioneered in Torfaen, can contribute to the wider drive to improve health and nutritional standards within care home settings in Wales?

Diolch i chi, Weinidog. Byddwch yn cofio fy mod wedi ysgrifennu atoch yn ddiweddar yn tynnu sylw at y system gynllunio bwydlenni unedig a ddatblygwyd yn Nhorfaen sy'n anelu at wella safonau maeth prydau a ddarperir ym maes gofal preswyl ac a gafodd ei nodi fel enghraifft o arfer gorau yn yr adroddiad diweddar 'Lle i'w Alw'n Gartref?'. Mae'n fenter wirioneddol wych a ddatblygwyd drwy bartneriaeth rhwng safonau masnach Torfaen a Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan, sy'n awyddus iawn i weld hyn yn gweithredu ledled Cymru. Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid ynglŷn â'r prosiect gan fy mod yn meddwl ei fod yn ymgeisydd teilwng iawn ar gyfer cyllid buddsoddi i arbed. A wnech chi ymrwymo i weithio gyda ni fel y gall y prosiect cyffrous hwn, a ddechreuwyd yn Nhorfaen, gyfrannu at yr ymdrech ehangach i wella safonau iechyd a maeth mewn cartrefi gofal yng Nghymru?

13:56 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I thank Lynne Neagle for her letter. I am aware of the excellent work that has been carried out in Torfaen on the development of its menu planning system. I know that the Minister for finance has indeed received a letter about invest-to-save possibilities. The invest-to-save latest call for proposals opened on 7 October. Expressions of interest have to be in by 7 January. There is £20 million set aside by the Minister for finance for that round, so I would certainly encourage those organisations that have been involved in the Torfaen project to consider making an expression of interest within that call.

Diolch Lynne Neagle am ei llythyr. Rwy'n ymwybodol o'r gwaith ardderchog a wnaed yn Nhorfaen ar ddatblygu ei system gynllunio bwydlenni. Gwn fod y Gweinidog Cyllid wedi derbyn llythyr ynghylch posibilïadau buddsoddi i arbed. Agorodd yr alwad ddiweddaraf am gynigion buddsoddi i arbed ar 7 Hydref. Mae'n rhaid i ddatganiadau o ddiddordeb ddod i law erbyn 7 Ionawr. Neilltuwyd £20 miliwn gan y Gweinidog Cyllid ar gyfer y cylch hwnnw felly byddwn yn sicr yn annog sefydliadau a gymerodd ran ym mhrosiect Torfaen i ystyried cyflwyno datganiad o ddiddordeb o fewn y cyfnod hwnnw.

13:57

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is really good to hear about the mandatory process to be, but it is a matter of how that message is going to get through, because the older people's commissioner's review into care homes exposed blatant inconsistencies in residential and care homes in terms of nutritional support. She highlighted poor meal choice, the limited availability of food outside of formal regime, and the lack of support to help residents with their meals, which, of course, can then result in them losing the physical ability to feed themselves. In fact, one in three residents are already suffering from malnutrition upon entry to a care or residential home setting. As regards this evidential report on this particular aspect on nutrition, how will this now actually influence your future direction and actions?

Mae'n wirioneddol braf clywed am y broses orfodol sydd i ddod, ond mae'n fater o sut mae'r neges honno'n mynd i gael ei chlywed gan fod adolygiad y comisiynydd pobl hŷn o gartrefi gofal wedi nodi anghysondebau amlwg mewn cartrefi preswyl a gofal o ran cymorth gyda maeth. Tynnodd sylw at ddewis gwael o brydau bwyd, diffyg bwyd ar gael y tu allan i drefn ffurfiol a diffyg cefnogaeth i helpu trigolion gyda'u prydau bwyd, sydd wrth gwrs yn gallu peri iddynt gollir gallu corfforol i fwydo eu hunain. Yn wir, mae un o bob tri o drigolion eisoes yn dioddef o ddiffyg maeth ar ôl cyrraedd cartref gofal neu breswyl. O ran yr adroddiad tystiolaethol ar yr agwedd benodol hon ar faeth, sut y bydd hyn yn awr yn dylanwadu ar eich cyfeiriad a'ch camau gweithredu yn y dyfodol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:58

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that question. In some ways, Llywydd, it is the other side of the coin to the question that Darren Millar raised earlier, because our proposals for mandatory nutritional standards are both about addressing obesity, where that is to be found, but also about addressing malnutrition where we see that in care home settings. Janet Finch-Saunders is absolutely right to draw attention to what the older person's commissioner said. The commissioner will be launching tomorrow a piece of work to celebrate the Torfaen scheme that Lynne Neagle has mentioned. Our mandatory nutritional standards would mean that care homes would have to abide by those standards. They will be statutory in nature, and therefore they would meet some of the concerns that the older person's commissioner identifies in her report.

Diolch am y cwestiwn. Mewn rhai ffyrdd, Lywydd, ochr arall y geiniog yw hwn i'r cwestiwn a gododd Darren Millar yn gynharach gan fod ein cynigion ar gyfer safonau maeth gorfodol ill dau'n mynd i'r afael â gordewdra, lle mae i'w weld, ond hefyd am fynd i'r afael â'r diffyg maeth mae hynny i'w weld mewn cartrefi gofal. Mae Janet Finch-Saunders yn llygad ei lle yn tynnu sylw at yr hyn a ddywedodd y comisiynydd pobl hŷn. Bydd y comisiynydd yn lansio gwaith yfory i ddathlu cynllun Torfaen y soniodd Lynne Neagle amdano. Buasai ein safonau maeth gorfodol yn golygu y byddai'n rhaid i gartrefi gofal gadw at y safonau hynny. Byddant yn statudol o ran eu natur ac felly buasent yn ateb rhai o'r pryderon y nododd y comisiynydd pobl hŷn yn ei hadroddiad.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

While the quality of food in care homes is important, so are the times that residents can have food. Again, I refer to the older people's commissioner. In her report, there is a general lack of choice about what to eat, and when and where to eat. I have visited some homes where mealtimes are actually buzzing, and I have visited other care homes where, quite frankly, it is like a monastery—no-one speaks at all. There should be interaction between staff and residents, and between residents and residents. What improvements will you be expecting care homes to make in being much more responsive to residents' needs, especially those who are suffering from dementia? I know of one lady who asked for a piece of toast at 9 o'clock and was denied it. That cannot be right.

Er bod ansawdd bwyd mewn cartrefi gofal yn bwysig, mae'r amseroedd y gall trigolion gael bwyd hefyd yn bwysig. Unwaith eto, rwy'n cyfeirio at y comisiynydd pobl hŷn. Yn ei hadroddiad, mae diffyg dewis cyffredinol ynghylch beth i'w fwyta a phryd a ble i fwyta. Rwyf wedi ymweld â rhai cartrefi gofal lle mae amser bwyd yn hynod o fywiog ac rwyf wedi ymweld â rhai eraill sy'n debyg i fynachlog, a dweud y gwir—nid oes neb yn siarad o gwbl. Dylai fod rhyngweithio rhwng y staff a'r preswylwyr, a rhwng preswylwyr a'i gilydd. Pa welliannau y byddwch yn disgwyl i gartrefi gofal eu gwneud i geisio bod yn llawer mwy ymatebol i anghenion preswylwyr yn enwedig y rhai sy'n dioddef o ddementia? Gwn am un fenyw a ofynnodd am ddarn o dost am 9 o'r gloch a dywedwyd wrthi na allai ei gael. Ni all hynny fod yn iawn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course not. Lindsay Whittle points to a debate that I think the older people's commissioner has very usefully drawn to the surface. She says two things on this. If you have heard her speak, you will know that she talks about the importance of nutritional standards and making sure that meals are there that prevent malnutrition. She also talks about the fact that these are people's homes, and that if you were living in your own home, you would be able to choose what you ate yourself and if you chose some unhealthy choices, no-one would be there to tell you that you could not make them. So, how do you marry together both our wish to make sure that residential care services provide food that is right for people, from a health point of view, and at the same time not ending up with a regimented regime, of the sort that Lindsay has just mentioned, where people appear to have no choice over the way they live their own lives? There are some tensions between those two things.

In extra-care homes, where restaurant facilities are the way that meals are provided, people are able to make those choices for themselves, using them when they want to and not using them when it does not suit them. So, we have models that we can draw on to do things better and the older people's commissioner's report will help us in doing that.

Wrth gwrs nad yw'n iawn. Mae Lindsay Whittle yn tynnu sylw at ddadl a amlygwyd yn hynod ddefnyddiol gan y comisiynydd pobl hŷn. Mae hi'n dweud dau beth am hyn. Os ydych chi wedi ei chlywed yn siarad, byddwch yn gwybod ei bod yn sôn am bwysigrwydd safonau maeth a sicrhau bod prydau bywyd yno i atal diffyg maethiad. Mae hi hefyd yn sôn am y ffaith mai cartrefi pobl yw'r rhain, a phe baech chi'n byw yn eich cartref eich hun, byddech yn gallu dewis yr hyn rydych yn ei fwyta eich hun a phe baech yn dewis rhai dewisiadau llai iach, ni fyddai neb yno i ddweud wrthyh na fyddech yn cael gwneud y dewisiadau hynny. Felly, sut rydych chi'n plethu ein dymuniad i wneud yn siŵr bod gwasanaethau gofal preswyl yn darparu bywyd sy'n iawn i bobl, o safbwynt iechyd, ac ar yr un pryd yn osgoi creu gweithdrefn ddisgybledig o'r math y mae Lindsay newydd ei chrybwyll, lle mae'n ymddangos nad oes gan bobl ddewis ynghylch y ffordd y maent yn byw eu bywydau? Mae rhai tensiynau rhwng y ddau beth.

Mewn cartrefi gofal ychwanegol, lle darperir prydau bywyd drwy gyfleusterau bwyty, gall pobl wneud y dewisiadau hynny drostynt eu hunain gan eu defnyddio pan fyddant eisiau gwneud hynny a pheidio â'u defnyddio pan nad ydynt eisiau gwneud hynny. Felly, mae gennym fodelau y gallwn eu defnyddio i wneud pethau'n well a bydd adroddiad y comisiynydd pobl hŷn yn ein helpu yn hynny o beth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:01

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, mae'r grŵp trawsbleidiol ar glefyd seliag a dermatitis herpetiformis hefyd wedi derbyn tystiolaeth nad yw deietau arbenigol ar gael mewn rhai cartrefi, ac roedd Vaughan Gething, wrth ymateb i'r ddadl fer yn ddiweddar, yn esbonio eich bod yn mynd i gynnwys y rheini hefyd mewn safonau gorfodol. Yn y cyfamser, roedd y Dirprwy Weinidog yn derbyn nad oedd y dystiolaeth yn dda ynglŷn â'r ddarpariaeth ar lawr gwlad. A gaf ofyn i chi, felly, ofyn i'r arolygiaeth wneud yn siŵr bod arolygwyr yn cwestiynu'r ddarpariaeth yn y cartrefi hyn wrth iddynt gynnal arolygon?

Minister, the cross-party group on coeliac disease and dermatitis herpetiformis also received evidence that specialist diets are not available in certain residential homes, and Vaughan Gething, in response to a short debate recently, explained that you were to include those too within the mandatory standards. In the meantime, the Deputy Minister accepted that the evidence base was not robust in terms of provision on the ground. May I ask you, therefore, to ask the inspectorate to ensure that inspectors question provision within these homes as they carry out their inspections?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:01

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Clywais y Dirprwy Weinidog yn ymateb i'r ddadl fer ar y pwnc hwnnw, a diddorol oedd y ddadl hefyd, yn fy marn i. Fel y mae'r Aelod yn dweud, mae'r arolygiaeth yn mynd i mewn i bob cartref preswyl ledled Cymru, felly rwy'n hapus i siarad â phennaeth yr adran honno ynghylch yr hyn y gellir ei wneud yn y cyfamser yn y maes hwn.

I heard the Deputy Minister responding to the short debate on that particular issue, and the debate was very interesting, in my view. As the Member says, the inspectorate visits all residential homes the length and breadth of Wales, so I am happy to speak to the head of the inspectorate to ask what can be done in the meantime in this area.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:02

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I have heard and welcomed the very positive responses that you have made up to now about nutritional standards for people living in residential care homes. Could you give us an idea of the timeline of when these are going to be introduced and whether good schemes, such as the one mentioned by Lynne Neagle in Torfaen, will in future be pointed to as good practice? Lastly, on Lindsay's Whittle's point about extra-care homes, which actually do move very close to being people's own homes, even though they are shared as a community, what measures can the Welsh Government take to encourage the development of such facilities?

Weinidog, rwyf wedi clywed ac wedi croesawu'r ymatebion cadarnhaol iawn rydych chi wedi eu rhoi hyd yn hyn ynglŷn â safonau maeth ar gyfer pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl. A wnewch chi roi syniad i ni o'r llinell amser o ran pryd mae'r rhain yn mynd i gael eu cyflwyno ac a fydd cynlluniau da, fel yr un a grybwyllwyd gan Lynne Neagle yn Nhorfaen, yn cael eu nodi yn y dyfodol fel arferion da? Yn olaf, ynglŷn â phwynt Lindsay Whittle am gartrefi gofal ychwanegol, sydd mewn gwirionedd yn agos iawn at fod yn gartrefi pobl eu hunain, er eu bod yn cael eu rhannu fel cymuned, pa gamau y gall Llywodraeth Cymru eu rhoi ar waith i annog datblygu cyfleusterau o'r fath?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:03

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Llywydd, I was very pleased to visit with Sandy Mewies an extra-care facility in her constituency, which managed to do exactly what we have been talking about this afternoon—marrying the support that people need with the freedom for them to make their own choices about their own lives to the maximum extent.

In relation to the timetable, we are working through the consultation responses. There were 115 responses on this aspect of the White Paper alone. They were most often supporting the proposals in the White Paper, but asking us to take them further by applying mandatory standards to other settings, too. So, there is a job of work for us to do, alongside the timetable that we have already set out for the White Paper.

Problemau Iechyd Meddwl

Lywydd, roeddwn yn falch iawn o ymweld â chyfleuster gofal ychwanegol gyda Sandy Mewies yn ei hetholaeth, a oedd yn llwyddo i wneud yn union yr hyn rydym wedi bod yn sôn amdano y prynhawn yma—plethu'r cymorth sydd ei angen ar bobl gyda'r rhyddid iddynt wneud eu dewisiadau eu hunain am eu bywydau eu hunain i'r graddau mwyaf posibl.

Mewn perthynas â'r amserlen, rydym yn gweithio drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Cafwyd 115 o ymatebion ar yr agwedd hon o'r Papur Gwyn yn unig. Roeddent gan amlaf yn cefnogi'r cynigion yn y Papur Gwyn, ond yn gofyn i ni fynd â nhw ymhellach drwy gymhwyso safonau gorffodol i leoliadau eraill hefyd. Felly, mae yna waith i ni ei wneud, ochr yn ochr â'r amserlen rydym eisoes wedi ei nodi ar gyfer y Papur Gwyn.

Mental Health Problems

14:03

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru sydd â phroblemau iechyd meddwl? OAQ(4)0532(HSS)

5. Will the Minister make a statement on services for young people in Wales who have mental health problems? OAQ(4)0532(HSS)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:04

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr i Simon Thomas. Mae problemau iechyd meddwl pobl ifanc yn gallu cael eu trin yn effeithiol mewn amryw o leoliadau. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion a'r gwasanaethau iechyd meddwl cynradd newydd yr ydym wedi eu sefydlu yng Nghymru. Mae gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol i blant a phobl ifanc ar gael i roi triniaeth effeithiol i'r bobl ifanc hynny sydd â phroblemau iechyd meddwl mwy difrifol.

Thank you, Simon Thomas. Adolescent mental health problems can be treated effectively in a variety of settings. These include school counselling services and the new primary mental health services that we have established in Wales. Specialist mental health services for children and adolescents are available to provide effective treatment for those young people who have more severe mental health problems.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:04

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Weinidog, am yr ateb. Nid wyf yn gwybod a gawsoc gyfle i weld rhaglen 'Y Byd ar Bedwar' neithiwr, a oedd yn ymdrin â'r mater hwn. Un o'r bobl ifanc a oedd yn siarad mor huawdl am ei phroblemau yn mynd i gael cefnogaeth iawn yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru ar gyfer problemau iechyd meddwl oedd un o'r bobl ifanc a oedd wedi cyfrannu hefyd at waith y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r adroddiad a gyhoeddwyd gennym tua phythefnos yn ôl. Un o'r pethau sydd yn amlwg yn yr adroddiad hwnnw yw bod diffyg ar lefel sylfaenol sy'n arwain at bobl naill ai yn cael mynediad, yn amhriodol, at wasanaethau arbenigol neu, o bosibl, yn cael eu meddyginiaethu yn amhriodol, yn hytrach nag yn cael cefnogaeth therapi siarad, er enghraifft. A oes yna rywbeth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod gwasanaethau cynradd yn ddigonol ar gyfer plant a phobl ifanc?

Thank you, Minister, for that response. I am not sure whether you had an opportunity to see 'Y Byd ar Bedwar' on S4C last night, which dealt with this issue. One of the young people who spoke very eloquently about her problems in seeking appropriate treatment within the NHS in Wales for mental health problems was one of the young people who also contributed to the work of the Children, Young People and Education Committee on the report that we published about a fortnight ago. One of the things that became apparent in that report is that there is deficiency at the basic level leading to young people either being inappropriately referred to specialist services or being inappropriately provided with drugs rather than with talking therapies, for example. Is there anything that the Government could do to ensure that the primary service is appropriate for children and young people?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:05

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Ni welais y rhaglen honno neithiwr, ond mae'r pwynt y mae'n ei wneud wedi cael ei drafod yma yn barod. Rwy'n cytuno. Mae'n rhaid inni drïo cryfhau gwasanaethau cynradd a pherswadio pobl sy'n darparu'r gwasanaethau hynny I wneud mwy I ymdopi â phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau a minnau wedi cytuno I baratoi 'guidance' newydd am yr hyn sy'n mynd ymlaen mewn ysgolion, a'r hyn sy'n mynd ymlaen yn CAMHS. Fodd bynnag, mae mwy y gallwn ei wneud hefyd yn y gwasanaeth newydd rydym wedi'i sefydlu yng Nghymru. Siaradais yn y pwyllgor iechyd tuag wythnos yn ôl gydag aelodau'r pwyllgor am yr hyn y byddwn yn trio ei wneud yn y flwyddyn nesaf er mwyn cryfhau'r hyn y maen nhw'n ei wneud dros bobl ifanc.

I did not see that programme last night, but the point that he has made has already been discussed here. I agree. We must try to strengthen primary services and persuade those who deliver those services to be able to do more to cope with young people with mental health problems in a better way. The Minister for Education and Skills and I have agreed to prepare new guidance about what should go on in schools and in CAMHS, but there is still more that we could do in the new service that we have established in Wales. I spoke at the Health and Social Care Committee about a week ago, with Members there, about what we are endeavouring to do next year to strengthen what they are doing for the young people.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:06

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Could the Minister tell us what progress has been made in ensuring that children cared for by the children and adolescent mental health service have care and treatment plans under Part 2 of the Mental Health (Wales) Measure 2010?

A allai'r Gweinidog ddweud wrthym pa gynnydd a wnaed o ran sicrhau bod cynlluniau gofal a thriniaeth gan y plant sy'n derbyn gofal gan y gwasanaeth iechyd meddwl plant a'r glasgoed o dan Ran 2 o'r Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:06

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As well as improving primary care mental health services for young people, the Measure that this Assembly passed in the last Assembly term also created care and treatment plans, under part 2 of the mental health Measure. They have been very successful, I believe, in making sure that children and young people have those care and treatment plans in place. Cardiff and Vale University Local Health Board, for example, reported in the year before the Measure was introduced that only 55% of children needing secondary mental health services had such a care and treatment plan. In August of this year, it reported that over 95% of young people now had a care and treatment plan in place.

Yn ogystal â gwella gwasanaethau iechyd meddwl gofal sylfaenol i bobl ifanc, mae'r Mesur a gafodd ei basio gan y Cynulliad hwn yn ystod tymor diwethaf y Cynulliad hefyd wedi creu cynlluniau gofal a thriniaeth, o dan ran 2 o'r Mesur iechyd meddwl. Yn fy marn i, maent wedi bod yn llwyddiannus iawn yn sicrhau bod y cynlluniau gofal a thriniaeth hynny ar waith ar gyfer plant a phobl ifanc. Adroddodd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro, er enghraifft, yn ystod y flwyddyn cyn i'r Mesur gael ei gyflwyno, mai dim ond 55% o'r plant a oedd angen gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd oedd â chynllun gofal a thriniaeth o'r fath. Ym mis Awst eleni, nododd fod dros 95% o'r bobl ifanc bellach â chynllun gofal a thriniaeth ar waith ar eu cyfer.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:07

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, the evidence from my own constituency is that CAMHS is overstretched and that young people are forced to access treatment outside the area. Would you agree that young people with mental health issues should be able to access treatment and services locally, close to their homes and families? What can you do to ensure that mental health services are improved in mid Wales specifically?

Weinidog, mae'r dystiolaeth o fy etholaeth i yn awgrymu bod Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasgoed (CAMHS) o dan ormod o bwysau a bod pobl ifanc yn cael eu gorfodi i dderbyn triniaeth y tu allan i'r ardal. A fuasech yn cytuno y dylai pobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl allu cael mynediad at driniaethau a gwasanaethau yn lleol, yn agos at eu cartrefi a'u teuluoedd? Beth allwch chi ei wneud i sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl yn cael eu gwella yng nghanolbarth Cymru yn benodol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:07

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

CAHMS is overstretched; I agree with that. The question is: why is it overstretched? It is overstretched because it has had a 103% increase in referrals over a four-year period. Although today, CAMHS is seeing 70% more young people within four weeks than it was four years ago, it spends its time assessing young people who simply did not need the service to which they were referred. As a result, there are other young people who do need such a service who have to wait too long to get it. The answer, I believe, is the one that Simon Thomas referred to earlier. There are people in the system—not just in the health system, but in the youth service, in the school counselling service and in other places too—who need to do more to respond to the needs of young people who are struggling with the difficult business of growing up and who cannot regard making a referral to somebody else as having discharged their responsibility to that young person.

Mae'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed o dan bwysau; cytunaf â hynny. Y cwestiwn yw: pam eu bod o dan bwysau? Maent o dan bwysau oherwydd eu bod wedi cael cynnydd o 103% mewn atgyfeiriadau dros gyfnod o bedair blynedd. Er eu bod heddiw'n gweld 70% yn fwy o bobl ifanc mewn pedair wythnos nag a welent bedair blynedd yn ôl, maent yn treulio eu hamser yn asesu pobl ifanc nad oedd angen y gwasanaethau y cawsant eu cyfeirio atynt. O ganlyniad, mae pobl ifanc eraill sydd angen gwasanaeth o'r fath yn gorfod aros yn rhy hir amdano. Yr ateb, yn fy marn i, yw'r hyn y cyfeiriodd Simon Thomas ato yn gynharach. Mae angen i bobl o fewn y system—nid yn y system iechyd yn unig, ond yn y gwasanaeth ieuenticid, yn y gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion ac mewn mannau eraill hefyd—wneud mwy i ymateb i anghenion pobl ifanc sy'n cael trafferth gyda'r broses anodd o dyfu i fyny ac sy'n methu ag ystyried eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldeb tuag at y person ifanc os ydynt yn ei atgyfeirio at rywun arall.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:09

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I wish to raise the question of long diagnosis times for those children presenting with a complex package of mental health and additional learning needs, and the breakdown in communication between child psychiatry and child psychology. I wonder if you would consider looking at one-stop-shop models for improving diagnosis rates, whereby families can go to one centre and meet with several specialists on a single day. At the end of that day, they have a case conference for each of those families and are able to resolve things much more quickly.

Weinidog, hoffwn holi cwestiwn am amseroedd hir cyn gwneud diagnosis yn achos plant sydd â chyfuniad cymhleth o anghenion iechyd meddwl ac anghenion dysgu ychwanegol a'r diffyg cyfathrebu rhwng seiciatreg plant a seicoleg plant. Tybed a fydddech yn ystyried edrych ar fodolau siop un stop ar gyfer gwella cyfraddau diagnosis, lle y gall teuluoedd fynd i un ganolfan a chyfarfod â nifer o arbenigwyr mewn un diwrnod? Ar ddiwedd y diwrnod hwnnw, maent yn cynnal cynhadledd achos ar gyfer pob un o'r teuluoedd ac yn gallu datrys pethau yn llawer cyflymach.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:09

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Eluned Parrott for that contribution. She may know that we have asked Professor Dame Sue Bailey, former president of the Royal College of Psychiatrists and an internationally recognised child psychiatrist, to help us with the remodelling of our CAMHS services, and particularly to do it from the professional leadership point of view. That work has already started. We plan a major conference here in Wales in February next year. I will make sure that that possibility is fed in to the work that is going on.

Diolch i Eluned Parrott am ei chyfraniad. Efallai ei bod yn ymwybodol ein bod wedi gofyn i'r Athro Fonesig Sue Bailey, cyn-lywydd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion a seiciatrydd plant sydd wedi cael cydnabyddiaeth ryngwladol, ein cynorthwyo i ailfodelu ein gwasanaethau CAMHS, a gwneud hynny'n benodol o safbwynt arweinyddiaeth broffesiynol. Mae'r gwaith hwnnw eisoes wedi dechrau. Rydym yn bwriadu cynnal cynhadledd bwysig yma yng Nghymru ym mis Chwefror y flwyddyn nesaf. Byddaf yn sicrhau bod y posibilrwydd hwnnw'n cael ei gynnwys yn y gwaith sydd ar y gweill.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:10

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, how would you respond to reports that English authorities are placing looked-after children who need care in a residential home in residential care homes across north Wales with very little supporting evidence accompanying those children? Those children often have to access the support of CAMHS in north Wales. What is your assessment of that issue?

Weinidog, sut y bydddech yn ymateb i adroddiadau bod awdurdodau yn Lloegr yn gosod plant sy'n derbyn gofal ac sydd angen gofal cartref preswyl, mewn cartrefi gofal preswyl yng ngogledd Cymru gydag ychydig iawn o dystiolaeth ategol yn dilyn y plant hynny? Yn aml mae'r plant yn dibynnu ar gefnogaeth CAMHS yng ngogledd Cymru. Beth yw eich asesiad o'r mater hwnnw?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:10

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that Ann Jones has identified a matter that is of genuine emerging concern. It is not just in north Wales, either; it is certainly in north Powys and in parts of Hywel Dda. A very rough and ready headcount has been carried out for me over recent weeks, and that suggests that there are 220, as a minimum, looked-after children from English authorities being placed in north Wales, with 150 and more of those in north-east Wales. That is a very high concentration of young people coming over our border. I met representatives of CAMHS in north Wales during the October half term. What they said to me was that these young people are often placed without the full information being provided about the level of needs that they experience. Then they have an episode, for example, of mental ill health, and it is local services that have suddenly to respond to the sometimes very significant mental health needs of a young person who has been placed from outside. I raised this matter with Baroness Jenny Randerson in my last meeting with her as a Wales Office Minister, and I plan further work with colleagues in the Government at Westminster to make sure that we have a full understanding of the nature of this issue. If costs are being incurred by Welsh services, we will need to make sure that those costs are properly covered by the authorities responsible for them.

Gwasanaethau Ymataliaeth

14:12

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. A wnaiff y Gweinidog amlinellu darpariaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau ymataliaeth yng Nghymru? OAQ(4)0521(HSS)

14:12

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health

I thank the Member for the question. All health boards and Velindre NHS Trust provide continence care to their patients based on their individual needs. The level of support will vary from essential care provided by front-line nursing staff, to more advanced care provided by continence nurse advisers or specialist medical care within the urological medicine and surgical services.

14:12

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Continence is one of the biggest issues for members of the 18 charities that, with Shine Cymru, developed the report 'Improving continence services in Wales: A call to action to the Welsh Government and Local Health Boards'. I understand that they have written twice to the Minister, and he responded positively in terms of services in hospitals and, in a subsequent reply, made reference to services for older people, but I understand that he has not yet acknowledged the wider issues of community care or services for younger people—because it is not just about older people. What action can you, working with the Minister, take to ensure a joined-up, holistic approach to all the findings of that report and the recommendations that it makes, in hospital and in the community for people of all age groups?

Credaf fod Ann Jones wedi nodi mater sy'n dod i'r amlwg ac yn peri pryder gwirioneddol. Nid yng ngogledd Cymru yn unig, chwaith; yn sicr mae i'w weld yng ngogledd Powys a rhannau o Hywel Dda. Cynhaliwyd cyfrifiad bras iawn ar fy rhan dros yr wythnosau diwethaf sy'n awgrymu bod 220, fan lleiaf, o blant sy'n derbyn gofal wedi cael eu lleoli yng ngogledd Cymru gan awdurdodau yn Lloegr, a bod 150 a mwy o'r rheiny yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Mae hynny'n grynodiad uchel iawn o bobl ifanc yn dod dros ein ffin. Cyfarfûm â chynrychiolwyr CAMHS yng ngogledd Cymru yn ystod hanner tymor mis Hydref. Yr hyn y dywedasant wrthyf oedd bod y bobl ifanc hyn yn aml yn cael eu lleoli heb ddarparu gwybodaeth lawn am lefel eu hanghenion. Yna maent yn dioddef pwl o salwch meddwl, er enghraifft, ac yn sydyn, y gwasanaethau lleol sy'n gorffo ymateb i anghenion iechyd meddwl, sylweddol iawn weithiau, sydd gan berson ifanc wedi'i lleoli o'r tu allan. Crybwyllais y mater wrth y Farwnes Jenny Randerson yn fy nghyfarfod diwethaf â hi fel Gweinidog Swyddfa Cymru, ac rwy'n cynllunio gwaith pellach gyda chydweithwyr yn Llywodraeth San Steffan i sicrhau bod gennym ddealltwriaeth lawn o natur y mater hwn. Os yw gwasanaethau Cymraeg yn wynebu costau, bydd angen i ni sicrhau mai'r awdurdodau sy'n gyfrifol amdanynt sy'n eu talu.

Continence Services

6. Will the Minister outline the Welsh Government's provision for continence services in Wales? OAQ(4)0521(HSS)

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae pob bwrdd iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn darparu gofal ymataliaeth i'w cleifion yn seiliedig ar eu hanghenion unigol. Bydd lefel y gefnogaeth yn amrywio o ofal hanfodol a ddarperir gan staff nyrsio rheng flaen, i ofal mwy datblygedig a ddarperir gan gynghorwyr nyrsio ymataliaeth neu ofal meddygol arbenigol o fewn y gwasanaethau meddyginiaeth wrolegol a llawfeddygol.

Mae ymataliaeth yn un o'r materion mwyaf i aelodau o'r 18 elusen a ddatblygodd yr adroddiad 'Improving continence services in Wales: A call to action to the Welsh Government and Local Health Boards' gyda Shine Cymru. Deallaf eu bod wedi ysgrifennu ddwywaith at y Gweinidog ac ymatebodd ef yn gadarnhaol o ran gwasanaethau mewn ysbytai ac mewn ymateb diweddarach, cyfeiriodd at wasanaethau i bobl hŷn, ond deallaf nad yw eto wedi cydnabod y materion ehangach ynghylch gofal yn y gymuned neu wasanaethau i bobl iau—oherwydd nid ymwneud â phobl hŷn yn unig y mae hyn. Gan weithio gyda'r Gweinidog, pa gamau y gallwch chi eu rhoi ar waith i sicrhau ymagwedd gydgyssylltiedig a holistaidd tuag at holl ganfyddiadau'r adroddiad hwnnw a'r argymhellion y mae'n eu gwneud, yn yr ysbty ac yn y gymuned ar gyfer pobl o bob grŵp oedran?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:13

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Mark Isherwood for the second question. He is right to point out that continence issues are not simply a matter for the older population. The continence bundle—the package of care and the assessment tool—is there for people of all ages, and it is important to recognise that this is about assessing somebody's need in the first place, to make sure that there is a consistent way of dealing with that process of assessment, and then to have the appropriate intervention and support, regardless of the care setting. Broadly, we know that continence care is provided with real dignity across Wales most of the time, but I would be happy to look in more detail at the report to understand the depth of the issue that he describes and to understand what more we could do to support the provision of effective continence services across Wales.

Diolch i Mark Isherwood am yr ail gwestiwn. Mae'n iawn nodi nad mater i'r boblogaeth hŷn yn unig yw ymataliaeth. Mae'r bwndel ymataliaeth—y pecyn gofal a'r adnoddau asesu—yno i bobl o bob oedran, ac mae'n bwysig cydnabod bod hyn yn ymwneud ag asesu angen rhywun yn y lle cyntaf, er mwyn sicrhau y ceir ffordd gyson o ddelio â'r broses asesu honno ac yna i gael yr ymyrraeth a'r gefnogaeth briodol, ble bynnag y lleolir y gofal. Yn gyffredinol, gwyddom fod gofal ymataliaeth yn cael ei ddarparu gydag urddas go iawn ledled Cymru gan amlaf, ond byddwn yn hapus i edrych yn fanylach ar yr adroddiad i ddeall dyfnder y mater y mae'n ei ddisgrifio ac i ddeall beth arall y gallem ei wneud i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ymataliaeth effeithiol ledled Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:14

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, last week, I met with a group of physiotherapists from Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board who have been funded for a pilot project to deal with continence issues and, in particular, their psychological impact. It is important that we get the physiotherapists to work with them, because they do a tremendous job in dealing with incontinence issues, particularly urinary incontinence in that sense, and they actually reduce the ability to go to a consultant. You just mentioned the appropriate services. Will you be looking at the way in which physiotherapists are used to deliver on incontinence issues, particularly to avoid going to a consultant in the first instance, so that referral is made to a physiotherapist, thereby perhaps reducing the need to go to consultants? Will you look at the project in Swansea to see how work is being done, particularly in women's health, to tackle this issue, which is something that is very private for many individuals, but needs to be addressed on a wider basis?

Ddirprwy Weinidog, yr wythnos ddiwethaf, cyfarfûm â grŵp o ffisiotherapyddion o Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg sydd wedi cael cyllid i gyflawni prosiect peilot i ymdrin ag ymataliaeth ac yn benodol, ei effaith seicolegol. Mae'n bwysig i ni sicrhau bod y ffisiotherapyddion yn gweithio gyda hwy oherwydd maent yn gwneud gwaith aruthrol yn ymdrin ag anymataliaeth, yn enwedig anymataliaeth wrinol yn yr ystyr hwnnw, ac mewn gwirionedd maent yn lleihau'r gallu i fynd at feddyg ymgynghorol. Rydych newydd sôn am y gwasanaethau priodol. A fyddwch yn edrych ar y ffordd y defnyddir ffisiotherapyddion i gyflawni ar faterion anymataliaeth, yn enwedig o ran osgoi mynd at feddyg ymgynghorol yn y lle cyntaf ac atgyfeirio at ffisiotherapydd, gan leihau'r angen drwy hynny o bosibl i fynd at feddygon ymgynghorol? A fyddwch yn edrych ar y prosiect yn Abertawe er mwyn gweld sut y mae gwaith yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r mater hwn, yn enwedig ym maes iechyd menywod, sy'n rhywbeth preifat iawn i lawer o unigolion, ond sydd angen ei drin ar sail ehangach?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:15

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank David Rees for raising the issue. He is right to point out that urinary incontinence does have a major impact on quality of life, especially in terms of the significant number of women who are affected as he identified in his question. I am pleased that he has pointed out the role of physiotherapists in this because we recognise that physiotherapists have a much wider role to play in the whole system of care and this is another good example. They should be part of a multidisciplinary team. I also recognise that it is clinically and cost-effective too. I recognise importantly the point around providing real dignity and providing a service. I note that he has identified a project in Singleton Hospital and I would be happy to arrange with him and the local Member to visit the team at some point in the future.

Diolch i David Rees am godi'r mater. Mae'n iawn nodi bod anymataliaeth wrinol yn cael effaith sylweddol ar ansawdd bywyd, yn enwedig o ran y nifer sylweddol o fenywod sydd wedi eu heffeithio fel y nododd yn ei gwestiwn. Rwy'n falch ei fod wedi tynnu sylw at rôl ffisiotherapyddion yn y mater oherwydd rydym yn cydnabod bod gan ffisiotherapyddion ran llawer ehangach yn yr holl system ofal ac mae hon yn enghraifft arall dda. Dylent fod yn rhan o dim amlddisgyblaethol. Rwyf hefyd yn cydnabod ei fod yn ddull effeithiol yn glinigol a chosteffeithiol hefyd. Rwy'n cydnabod y pwynt pwysig ynghylch sicrhau urddas go iawn a darparu gwasanaeth. Nodaf ei fod wedi nodi prosiect yn Ysbyty Singleton a byddwn yn hapus i drefnu gydag ef a'r Aelod lleol i ymweld â'r tîm ar ryw adeg yn y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:15	<p>Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography</p> <p>Weinidog, rwy'n deall, efallai bod hyn yn dod o'r hyn mae David Rees yn ei ddweud, fod 20 o ysbytai wedi cael eu cynnwys yn rhan o'r 'spot checks' sy'n edrych ar wasanaethau ymataliol ar draws Cymru gan gynnwys Ysbyty Tywysoges Cymru yn fy ardal i. A allech ddweud wrthym a fyddwn yn gallu cael data am yr ysbytai penodol hyn neu a fyddant yn cael eu dosbarthu fel rhywbeth ar draws Cymru, hynny yw, a ydym yn mynd i allu deall sut mae ysbytai yn ein hardaloedd ni yn gwneud er mwyn ceisio adfer hygredd yn y system?</p>	<p>Minister, I understand, and this may follow on from what David Rees said, that 20 hospitals have been included in the spot checks that will look at continence services across Wales, including the Princess of Wales Hospital in my own area. Can you tell us whether we will have data on the specific hospitals or will the data be provided on an all-Wales basis, that is, are we going to be able to understand how hospitals in our own areas are performing in order to restore credibility in the system?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:16	<p>Vaughan Gething Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank the Member for the question. I do not think there is any lack of credibility about the system and the quality of care that is provided. In terms of dealing with the specifics I will come back to you on whether the data is on an all-Wales basis or is going to be provided on an individual location basis. The broad message from the unannounced spot checks on continence care was that a good standard of care is being provided with excellent examples of good practice. It is about ensuring that that is delivered on a consistent basis. I will happily come back to you with more detail on the specific points that you raise and how the data will be provided. The serious spot checks do provide people with a level of real reassurance. They were unannounced and I am very pleased that they have identified lots of examples and consistent examples of good practice.</p>	<p>Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Nid wyf yn credu bod unrhyw ddiffyg hygredd ynglŷn â system ac ansawdd y gofal a ddarperir. O ran delio â'r manylion penodol, byddaf yn dod yn ôl atoch ynglŷn ag a yw'r data ar sail Cymru gyfan neu a yw'n mynd i gael ei ddarparu ar sail lleoliadau unigol. Y neges gyffredinol o'r hapwiriadau dirybudd ar ofal ymataliaeth oedd bod gofal o safon uchel yn cael ei ddarparu gydag enghreifftiau rhagorol o arferion da. Mae'n ymwneud â sicrhau bod hynny'n cael ei ddarparu'n gyson. Byddaf yn hapus i ddod yn ôl atoch gyda rhagor o fanylion am y pwyntiau penodol a godwch a sut y caiff y data ei ddarparu. Mae'r hapwiriadau difrifol yn rhoi lefel o sicrwydd go iawn i bobl. Roeddent yn ddirybudd ac rwy'n falch iawn eu bod wedi canfod nifer o enghreifftiau, ac enghreifftiau cyson, o arferion da.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Dyfodol Gofal Heb ei Drefnu</p>		<p>The Future of Unscheduled Care</p>	
14:17	<p>Darren Millar Bywgraffiad Biography</p> <p><i>7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol gofal heb ei drefnu yng Nghymru? OAQ(4)0516(HSS)</i></p>	<p><i>7. Will the Minister make a statement on the future of unscheduled care in Wales? OAQ(4)0516(HSS)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:17	<p>Vaughan Gething Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank the Member for the question. Our vision for unscheduled care in Wales is that everyone should be supported to remain as independent as possible, with timely access to the right care, in the right place, at the right time. Chief executives are currently reviewing the unscheduled care programme to ensure that its actions support this aim.</p>	<p>Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Ein gweledigaeth ar gyfer gofal heb ei drefnu yng Nghymru yw y dylai pawb gael cymorth i aros mor annibynnol ag sy'n bosibl, gyda mynediad amserol at y gofal iawn, yn y lle iawn, ar yr adeg iawn. Ar hyn o bryd mae prif weithredwyr yn adolygu'r rhaglen gofal heb ei drefnu i sicrhau bod ei champau gweithredu yn cefnogi'r nod hwn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:17	<p>Darren Millar Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for the answer, Deputy Minister. I think it is very disappointing that figures for October suggest that the worst performing accident and emergency department in England and Wales in terms of the four-hour target is actually in north Wales supporting my constituents, namely Ysbyty Glan Clwyd. The third worst in England and Wales is Wrexham Maelor Hospital. Given that you have two very poorly performing hospitals in one particular health board area, what action is the Welsh Government taking to address the problems in that health board area in terms of its performance against the four-hour waiting-time target?</p>	<p>Diolch am yr ateb, Ddirprwy Weinidog. Credaf mai testun siom fawr yw bod y ffigurau ar gyfer mis Hydref yn awgrymu mai'r adran ddamweiniau ac achosion brys sy'n perfformio waethaf yng Nghymru a Lloegr o ran y targed pedair awr yw Ysbyty Glan Clwyd yng ngogledd Cymru sy'n gwasanaethu fy etholwyr. Y drydedd waethaf yng Nghymru a Lloegr yw Ysbyty Maelor Wrecsam. O ystyried bod gennyh ddau ysbyty sy'n perfformio'n wael iawn mewn un bwrdd iechyd penodol, pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r problemau yn ardal y bwrdd iechyd o ran ei pherfformiad yn erbyn y targed amseroedd aros o bedair awr?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:18

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that it is important to make the point again that it is not a waiting-time target; it is the four hours from entry to discharge having been seen and treated. I think some people really do misunderstand and think that they are going to wait four hours before they are seen and then treated. In terms of points that you raise, it is also important to recognise that the unscheduled care system is part of a wider system of care and the point that I make about trying to prevent people from needing to go into the unscheduled care system in the first place should not be lost. When they then go into the unscheduled care system, if there is a need, our expectation is that they are seen and treated promptly. I was in north Wales and I visited Wrexham Maelor last week in fact and I recognised the significant pressures its staff were under, again because of a significant influx of older people who had come in and the A&E department was nearly full as a result.

I recognise that there is a need to improve the whole unscheduled care system. I met with Adam Cairns, who is the lead chief executive on unscheduled care, and I made it very clear that there is an expectation that they will not only talk about improvement, but they will identify the key drivers for improvement and deliver it on a consistent basis across Wales. There are hotspots in virtually every local health board where the unscheduled care system could and should perform better. There will be particular focus on all of those areas, including in Betsi Cadwaladr. I have made clear that this area of accountability will not go away, but they can expect to have further conversations with me to ensure that improvement is made real and is not simply a matter of theory.

Credaf ei bod yn bwysig ailadrodd y pwynt nad yw'n darged ar gyfer amseroedd aros; mae'n darged o bedair awr rhwng mynediad a rhyddhau ar ôl cael eich gweld a'ch trin. Credaf fod rhai pobl o ddirif yn camdeall ac yn meddwl eu bod yn mynd i aros am bedair awr cyn cael eu gweld ac yna'u trin. O ran y pwyntiau a godwch, mae hefyd yn bwysig cydnabod bod y system ofal heb ei drefnu yn rhan o system ofal ehangach a ni ddylid diystyru'r pwynt a wnaif am geisio atal pobl rhag gorfod mynd i mewn i'r system ofal heb ei drefnu yn y lle cyntaf. Pan fyddant wedyn yn mynd i mewn i'r system ofal heb ei drefnu, os oes angen, disgwylw eu bod yn cael eu gweld a'u trin yn brydlon. Roeddwn i yng ngogledd Cymru yr wythnos diwethaf mewn gwirionedd ac ymwelais ag Ysbyty Maelor Wrecsam a gweld y pwysau sylweddol ar y staff, eto oherwydd bod cymaint o bobl hŷn wedi dod i mewn ac roedd yr adran ddamweiniau ac achosion brys bron yn llawn o ganlyniad i hynny.

Rwy'n cydnabod bod angen gwella'r holl system ofal heb ei drefnu. Cyfarfûm ag Adam Cairns, y prif weithredwr arweiniol ar ofal heb ei drefnu a phwysleisiais fod disgwyl na fyddant yn siarad am welliant yn unig, ond eu bod hefyd yn nodi'r ffactorau allweddol ar gyfer gwella, ac yn ei gyflawni'n gyson ledled Cymru. Ceir manau anodd ym mhob bwrdd iechyd lleol fwy neu lai lle y gallai, ac y dylai'r system ofal heb ei drefnu berfformio'n well. Bydd ffocws penodol ar bob un o'r meysydd hynny, yn cynnwys o fewn Betsi Cadwaladr. Rwyf wedi pwysleisio na fydd y maes atebolrwydd hwn yn diflannu, ond gallant ddisgwyl sgysiau pellach gyda mi er mwyn sicrhau bod gwelliant go iawn yn cael ei wneud ac nad yw'n fater o theori'n unig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:19

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First of all, I would like to thank Mark Drakeford for meeting with me yesterday at extremely short notice to discuss the situation at Withybush hospital. I, like everyone in Pembrokeshire, was hugely relieved by Hywel Dda Local Health Board's categorical rebuttal of the claims that Withybush's A&E department could be anything less than a 24/7 service. You will know better than most, Deputy Minister, that the root cause of many of the pressures and pinch points in the service is recruitment. Every time a leaked document creates a furore like this, Withybush, I suspect, becomes a less attractive prospect for an ambitious, newly qualified consultant, and it becomes a vicious circle. Will you work to ensure that the health pressure groups work more closely with the health board to promote clear lines of communication? What can the Welsh Government do to further support recruitment in the west Wales NHS?

Yn gyntaf oll, hoffwn ddiolch i Mark Drakeford am gwrdd â mi ddoe ar fyr rybudd i drafod y sefyllfa yn Ysbyty Llwynhelyg. Roeddwn i, fel pawb yn Sir Benfro, yn falch dros ben pan wrthododd Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yr honiadau y gallai adran Ddamweiniau ac Achosion Brys Llwynhelyg fod yn unrhyw beth llai na gwasanaeth 24/7. Gwyddoch yn well na'r rhelyw, Ddirprwy Weinidog, mai recriwtio sydd wrth wraidd llawer o'r pwysau a'r manau cyfyng yn y gwasanaeth. Bob tro y bydd dogfen a ddatgelir yn creu helynt fel hyn, daw Llwynhelyg, rwy'n amau, yn ddewis llai deniadol i feddyg ymgynghorol uchelgeisiol newydd gymhwyso, ac mae'n tyfu'n gylch diefflig. A fyddwch yn gweithio i sicrhau bod grwpiau pwyso ym maes iechyd yn gweithio'n agosach gyda'r bwrdd iechyd i hyrwyddo llinellau cyfathrebu clir? Beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i gefnogi recriwtio ymhellach y GIG yng ngorllewin Cymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:21

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the question. I want to recognise at the outset and welcome the response of the clinical community across Hywel Dda to ensure that there is a future for 24-hour emergency-admission coverage. They have provided a solution for the next six months to allow them the space and time to deliver a longer term sustainable service. It is important to have that reassurance for the public.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Rwyf am gydnabod ar y cychwyn a chroesawu ymateb y gymuned glinigol ar draws Hywel Dda i sicrhau bod dyfodol i wasanaeth derbyniadau brys 24 awr. Maent wedi darparu ateb ar gyfer y chwe mis nesaf er mwyn rhoi lle ac amser iddynt gyflwyno gwasanaeth cynaliadwy yn y tymor hwy. Mae'n bwysig i'r cyhoedd gael y sicrwydd hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The point you make around the conversations that take place around hospital sites and the impact that they have on recruitment and staff morale is important. If we think back to different conversations in different hospital settings, there was something similar in another part of Wales that has now largely been resolved because the clinical community and the patient community have managed to have a conversation around what they want to do to improve and sustain the service there. I would like the same conversation take place within Withybush so that the health board, the clinical community and the patients themselves can be reassured that the service will be provided in a sustainable form for the future. The conversation that takes place with the constant suggestion that there is a secret plan to do away with the service, when there is no such thing intended at all, is not helpful for the staff who work there or and for the staff that we want to recruit to and retain in what is, after all, a fantastic place to live and work.

Mae'r pwynt a wneuch ynghylch y sgysiaau sy'n digwydd am safleoedd ysbytai a'r effaith y maent yn ei chael ar recriwtio ac ysbryd staff yn un pwysig. Os meddyliwn am wahanol sgysiaau mewn gwahanol leoliadau ysbytai, bu rhywbeth tebyg mewn rhan arall o Gymru sydd bellach wedi'i ddatrys i raddau helaeth oherwydd i'r gymuned glinigol a chymuned y cleifion lwyddo i drafod beth y maent am ei wneud i wella a chynnal y gwasanaeth yno. Hoffwn i'r un sgwrs ddigwydd yn Llwynhelyg er mwyn i'r bwrdd iechyd, y gymuned glinigol a'r cleifion eu hunain fod yn dawel eu meddwl y bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn ffurf gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Nid yw'r drafodaeth sy'n sy'n digwydd gyda'r awgrym cyson bod cynllun cyfrinachol ar y gweill i gael gwared â'r gwasanaeth, pan na fwriedir gwneud y fath beth o gwbl, yn ddefnyddiol i'r staff sy'n gweithio yno na'r staff rydym am eu recriwtio a'u cadw yn yr hyn sydd, wedi'r cyfan, yn lle gwych i fyw ac i weithio.

14:22 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Specifically on Withybush, Deputy Minister, you will have had a chance to see what the Hywel Dda board proposed yesterday as a temporary fix for emergency care at Withybush. My understanding and reading of that proposal is that it does not meet the College of Emergency Medicine's guidelines on the availability of consultants, and so forth, particularly as there is no 24-hour paediatric service in Withybush. What assessment has the Government made of the safety of that service, and what assessment have you made of the safety of that service going forward?

Yn benodol ar Llwynhelyg, Ddirprwy Weinidog, byddwch wedi cael cyfle i weld beth a awgrymodd bwrdd Hywel Dda ddoe fel ateb dros dro ar gyfer gofal brys yn Llwynhelyg. Fy nealltwriaeth i wrth ddarllen y cynnig hwnnw yw nad yw'n bodloni canllawiau'r Coleg Meddygaeth Frys ar argaeledd meddygon ymgynghorol ac yn y blaen, yn enwedig gan nad oes gwasanaeth pediatrig 24 awr yn Llwynhelyg. Pa asesiad y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud o ddiogelwch y gwasanaeth hwnnw, a pha asesiad a wnaethoch o ddiogelwch y gwasanaeth hwnnw yn y dyfodol?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:23 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for the question. The plan that was announced yesterday provides time for a period of stability to allow a longer term plan to be drawn up about the future of the service. It is important to recognise that the whole clinical community in the health board is engaged in that process. It is no-one's interest for the service to fall over in Withybush, and I appreciate that that will not be happening as a result of the agreement reached.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae'r cynllun a gyhoeddwyd ddoe yn rhoi amser i gael cyfnod o sefydlogrwydd er mwyn llunio cynllun mwy hirdymor ynghylch dyfodol y gwasanaeth. Mae'n bwysig cydnabod bod holl gymuned glinigol y bwrdd iechyd yn rhan o'r broses honno. Nid yw colli'r gwasanaeth yn Llwynhelyg o fudd i neb, ac rwy'n sylweddoli na fydd hynny'n digwydd o ganlyniad i'r cytundeb a gafwyd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

We will support the health board in its efforts to ensure that staff are recruited and retained within that particular area. There is no assessment to be made to say that this is in any form an unsafe service, and I would not want to try to feed any suggestion that it is. We know that there are different models; for example, the Prince Philip Hospital model, which the Royal College of Physicians was very keen to promote as a really positive alternative that is providing care for that local population in a setting that they are familiar with. So, I look forward to seeing more detail from the health board on the workings of the plan it has announced to date, and to seeing the longer term plan that it expects to work up, as I said, with the whole clinical community in the Hywel Dda health board area.

Byddwn yn cefnogi'r bwrdd iechyd yn ei ymdrechion i sicrhau bod staff yn cael eu recriwtio a'u cadw yn y maes penodol hwn. Nid oes unrhyw asesiad i'w wneud i ddweud ei fod yn wasanaeth anniogel mewn unrhyw fodd ac ni fyddwn yn dymuno ceisio awgrymu ei fod. Gwyddom fod gwahanol fodelau yn bodoli; er enghraifft, model Ysbyty'r Tywysog Philip, yr oedd Coleg Brenhinol y Ffisigwyr yn awyddus iawn i'w hybu fel dewis amgen cadarnhaol iawn sy'n darparu gofal i'r boblogaeth leol mewn lleoliad sy'n gyfarwydd iddynt. Felly, edrychaf ymlaen at weld mwy o fanylion gan y bwrdd iechyd ar y gwaith ar y cynllun y mae wedi ei gyhoeddi hyd yn hyn, ac at weld y cynllun mwy hirdymor y mae'n bwriadu ei lunio, fel y dywedais, gyda'r gymuned glinigol gyfan yn ardal bwrdd iechyd Hywel Dda.

14:24

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Would the Deputy Minister agree that the difference between the situation in Llanelli and Pembrokeshire is that people in Llanelli have access to a full A&E and trauma service at Swansea, and that the concern of the people of Pembrokeshire is that they will be a significant distance away from a full A&E? What we know is that the nature of A&E attendances is changing, and that we are having more major and fewer minor cases. Where do you perceive that the major cases in Pembrokeshire will be receiving treatment after May?

A fyddai'r Dirprwy Weinidog yn cytuno mai'r gwahaniaeth rhwng y sefyllfa yn Llanelli ac yn Sir Benfro yw bod gan bobl Llanelli fynediad at wasanaeth damweiniau ac achosion brys a thrawma llawn yn Abertawe, ac mai pryder pobl Sir Benfro yw y byddant gryn bellter i ffwrdd o wasanaeth damweiniau ac achosion brys llawn? Yr hyn a wyddom yw bod natur mynychu unedau damweiniau ac achosion brys yn newid, a'n bod yn gweld llai o fân achosion a nifer uwch o achosion mwy difrifol. Ble rydych chi'n rhagweld y bydd achosion mwy difrifol Sir Benfro yn cael eu trin ar ôl mis Mai?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:24

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You are asking me to forecast the outcome of a plan after the six-month period of time that the health board has designated to provide stability for the service within Withybush. It would be quite wrong for me to try to set out what that service would look like. It is for the clinical community within Hywel Dda to ensure that it can provide a plan for the service within Withybush that meets the need for 24-hour cover for emergency admissions that is delivered in a safe and sustainable way. It is important to talk about the whole clinical community because people in Glangwili will recognise that having services inappropriately moved to them when they could and should be dealt with at Withybush is not desirable. That is why the whole community being engaged in that plan is what is important. It is not the right thing for Ministers here to set out what must or must not happen at the end of that, apart from the architecture of a safe and sustainable service that serves and meets the needs of the local population.

Rydych yn gofyn i mi ragweld canlyniad cynllun ar ôl y cyfnod o chwe mis y mae'r bwrdd iechyd wedi'i ddynodi er mwyn sicrhau sefydlogrwydd i'r gwasanaeth yn Ysbyty Llwynhelyg. Byddai'n gwbl anghywir i mi geisio amlinellu sut beth fyddai'r gwasanaeth hwnnw. Mater i'r gymuned glinigol yn Hywel Dda yw sicrhau y gall ddarparu cynllun ar gyfer y gwasanaeth yn Ysbyty Llwynhelyg sy'n bodloni'r angen am wasanaeth 24 awr ar gyfer derbyniadau brys sy'n cael ei gyflwyno mewn ffordd ddiogel a chynaliadwy. Mae'n bwysig siarad am yr holl gymuned glinigol gan y bydd pobl yn Ysbyty Glangwili yn cydnabod nad yw'n ddymunol fod gwasanaethau'n cael eu symud atynt yn amhriodol pan ellid ac y dylid eu cynnig yn Ysbyty Llwynhelyg. Dyna pam mai cynnwys yr holl gymuned yn y cynllun sy'n bwysig. Nid yw'n iawn i Weinidogion yma nodi'r hyn sy'n rhaid digwydd neu na ddylai ddiwydd ar ddiwedd hynny, ar wahân i saernïo gwasanaeth diogel a chynaliadwy sy'n gwasanaethu ac yn bodloni anghenion y boblogaeth leol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Ariannu Byrddau Iechyd Lleol

Funding Local Health Boards

14:25

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

8. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ariannu byrddau iechyd lleol? OAQ(4)0526(HSS)

8. Will the Minister provide an update on funding local health boards? OAQ(4)0526(HSS)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:25

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Funding to local health boards in Wales has been increased by £200 million in the current financial year and by £225 million in 2015-16 as a result of decisions announced by the Minister for finance on 30 September.

Cafwyd cynnydd o £200 miliwn yn y cyllid i fyrdau iechyd lleol Cymru yn y flwyddyn ariannol bresennol a bydd cynnydd o £225 miliwn yn 2015-16 o ganlyniad i benderfyniadau a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Cyllid ar 30 Medi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:26

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I ask you specifically about funding for wet macular degeneration? It was raised by the leader of the opposition with the First Minister yesterday. You have said this year that you will allocate funds—or rather the Minister for finance has—for treating wet macular degeneration directly to the local health boards, rather than what has been done in previous years when that money has been provided directly. Every year, an additional 1,000 people are diagnosed with wet macular degeneration. We all know that if that condition is not treated within weeks of diagnosis the prognosis is very poor and it often leads to blindness. Given the increasing number of people who are going to be getting that and given that you are giving money to the health boards this year to cover that, will you give a guarantee that, in future years, adequate funding will be provided to the local health boards so that they can effectively treat wet macular degeneration? Will you guarantee that you are not going to do a Pontius Pilate and simply wash your hands of people suffering from this condition in years to come?

A gaf fi eich holi'n benodol am gyllid ar gyfer dirywiad macwlaidd gwlyb? Crybwyllodd arweinydd yr wrthblaid y mater wrth y Prif Weinidog ddoe. Rydych wedi dweud eleni—neu yn hytrach mae'r Gweinidog Cyllid wedi dweud—y byddwch yn dyrannu arian ar gyfer trin dirywiad macwlaidd gwlyb yn uniongyrchol i'r byrddau iechyd lleol, yn hytrach na'r hyn a wnaed yn y blynyddoedd blaenorol pan ddarparwyd yr arian hwnnw'n uniongyrchol. Bob blwyddyn, mae 1,000 o bobl yn ychwanegol yn cael diagnosis o ddirywiad macwlaidd gwlyb. Rydym i gyd yn gwybod os nad yw'r cyflwr hwnnw'n cael ei drin o fewn wythnosau i'r diagnosis mae'r prognosis yn wael iawn a bydd yn aml iawn yn arwain at ddallineb. O ystyried y nifer cynyddol o bobl sy'n mynd i fod yn ei gael ac o ystyried eich bod yn rhoi arian i'r byrddau iechyd eleni i dalu am hynny, a fyddwch yn gwarantu y bydd cyllid digonol yn cael ei ddarparu yn y dyfodol i fyrddau iechyd lleol fel y gallant drin dirywiad macwlaidd gwlyb yn effeithiol? A wnech chi warantu na fyddwch yn dynwared Peilat ac yn golchi'ch dwylo o'r bobl sy'n dioddef o'r cyflwr hwn yn y blynyddoedd i ddod?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:27

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Maybe I could just correct some of the many factual errors in what we have just heard. First of all, it is my decision and not the Minister for finance's decision how to allocate funds within the health portfolio. Secondly, the money is not going to health boards this year. It is an intention from next year, so in this year the way that we have done things since 2008 will continue. As for next year, the £16 million and more that we invest in wet macular degeneration services will go to local health boards. It will go to them against the background of a reporting regime that I have already set out with local health boards, which will require them to report monthly to me on the total number of new patients they are seeing, the total number of new assessments they are undertaking, the total number of wet macular degeneration treatments they are undertaking, the number and percentage of patients who began wet macular degeneration treatment within two weeks of referral, and the number and percentage of patients treated within their clinician's allocated follow-up interval. There is absolutely no sense at all in which the Welsh Government, which now provides £16 million, none of which was provided in 2008, to treat 16,000 patients, none of whom were treated just that time ago, is doing anything other than ensuring that that very significant and important service continues.

Efallai y gallaf gywiro rhai o'r amryw wallau ffeithiol yn yr hyn rydym newydd ei glywed. Yn gyntaf oll, fy mhenderfyniad i ac nid y Gweinidog Cyllid yw sut i ddyrannu arian o fewn y portffolio iechyd. Yn ail, nid yw'r arian yn mynd i fyrddau iechyd eleni. Mae'n fwriad o'r flwyddyn nesaf ymlaen, felly eleni bydd y ffordd rydym wedi gwneud pethau ers 2008 yn parhau. O ran y flwyddyn nesaf, bydd yr £16 miliwn a mwy rydym yn ei fuddsoddi mewn gwasanaethau ar gyfer dirywiad macwlaidd gwlyb yn mynd i'r byrddau iechyd lleol. Byddant yn ei gael yng nghyd-destun y drefn adrodd rwyf eisoes wedi'i disgrifio i'r byrddau iechyd lleol, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt adrodd yn ôl wrthyf yn fisol ar gyfanswm nifer y cleifion newydd y maent yn eu gweld, cyfanswm nifer yr asesiadau newydd y maent yn eu gwneud, cyfanswm nifer y triniaethau dirywiad macwlaidd gwlyb y maent yn eu gwneud, nifer a chanran y cleifion a ddechreuodd driniaeth ar ddirywiad macwlaidd gwlyb o fewn pythefnos i gael eu hatgyfeirio, a nifer a chanran y cleifion sy'n cael eu trin o fewn y cyfnod dilynol a bennwyd gan eu clinigydd. Nid yw Llywodraeth Cymru, sydd bellach yn darparu £16 miliwn na châl ei ddarparu o gwbl yn 2008, i drin 16,000 o gleifion na châl eu trin o gwbl mor ddiweddar â hynny, mewn unrhyw fodd yn gwneud unrhyw beth ar wahân i sicrhau bod y gwasanaeth pwysig a sylweddol hwnnw'n parhau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mynediad i Driniaethau Canser

Access to Cancer Treatments

14:28

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynediad i driniaethau canser yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0528(HSS)

9. Will the Minister make a statement on access to cancer treatments in South Wales Central? OAQ(4)0528(HSS)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:28

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that question. Cancer services in South Wales Central aim to provide patients with a comprehensive package of cost-effective, evidence-based NHS treatment to meet their clinical needs.

Diolch am y cwestiwn. Nod y gwasanaethau canser yng Nghanol De Cymru yw darparu pecyn cynhwysfawr i gleifion o driniaeth gosteffeithiol seiliedig ar dystiolaeth y GIG er mwyn diwallu eu hanghenion clinigol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:28	<p>Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography <i>Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition</i></p> <p>Thank you, Minister, for your answer. Yesterday, you will have heard the exchange I had with the First Minister about a new cancer treatment fund and in particular whether, if consequential were flowing from the budget statement today, the Government would give consideration to allocating moneys to such treatments. I was interested in particular in the third answer that the First Minister gave. I offered him the opportunity to clearly push that firmly out of the way on behalf of the Government and he clearly would not do that. So, I am wondering whether you as Minister for health will now be making the case to seek some of that additional money that the Welsh Government will be having to invest in cancer services here in Wales, but in particular in a new cancer treatments fund, which many patients and clinicians are calling for here in Wales.</p>	<p>Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Ddoe, byddwch wedi clywed y ddadl a gefais gyda'r Prif Weinidog ynghylch cronfa driniaeth canser newydd ac yn benodol ynghylch a fyddai'r Llywodraeth, pe bai'r symiau canlyniadol yn llifo o ddatganiad cyllideb heddiw, yn ystyried dyrannu arian i driniaethau o'r fath ai peidio. Roedd gen i ddi-ddordeb benodol yn nhrydydd ateb y Prif Weinidog. Cynigiais gyfle iddo wthio hynny o'r neilltu'n bendant ar ran y Llywodraeth ac roedd yn amlwg na fyddai'n gwneud hynny. Felly, tybed a fyddwch chi fel Gweinidog lechyd yn awr yn cyflwyno achos dros geisio rhywfaint o'r arian ychwanegol y bydd Llywodraeth Cymru yn gorfod ei fuddsoddi mewn gwasanaethau canser yma yng Nghymru, ond yn arbennig mewn cronfa driniaethau canser newydd y mae llawer o gleifion a chlinigwyr yn galw amdani yma yng Nghymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:29	<p>Mark Drakeford Bywgraffiad Biography</p> <p>Well, Llywydd, there is a whole series of ifs and buts in that question that I am not in a position to answer. When I came across to the Chamber this afternoon, the Chancellor of the Exchequer was still on his feet, so I have no idea whether there is money coming to Wales. If money does come to Wales as a result of the autumn statement, the leader of the opposition will be very well aware of the constitutional arrangements that mean that the money comes to the Welsh Government for purposes that the Welsh Government will then propose and bring to the floor of the National Assembly. It is far, far too early in that for me to anticipate anything in the way that he invites me to.</p>	<p>Wel, Lywydd, mae sawl os yn gysylltiedig â'r cwestiwn nad wyf mewn sefyllfa i'w hateb. Pan ddeuthum i'r Siambr y prynhawn yma, roedd Canghellor y Trysorlys yn dal ar ei draed, felly nid oes gennyf unrhyw syniad a oes arian yn dod i Gymru ai peidio. Os yw'r arian yn dod i Gymru yn sgil datganiad yr hydref, bydd arweinydd yr wrthblaid yn ymwybodol iawn o'r trefniadau cyfansoddiadol sy'n golygu bod yr arian yn dod i Lywodraeth Cymru at ddibenion y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cynnig ac yn eu cyflwyno ar lawr y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n llawer, llawer rhy fuan felly i mi ragweld unrhyw beth yn y ffordd y mae'n fy ngwahodd i wneud.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:30	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you very much.</p>	<p>Diolch yn fawr iawn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:30	<p>Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol</p> <p>Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>There are no questions.</p>	<p>Questions to the Counsel General</p> <p>Nid oes unrhyw gwestiynau.</p>	<p>Y Senedd.tv Fideo Video</p>
14:30	<p>Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad</p> <p>Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>There are no questions, so we move to the next item, which is a statement by—[Interruption.] Am I missing something? No. Thank you. We now move to the next item, which is a statement by Kirsty Williams.</p>	<p>Questions to the Assembly Commission</p> <p>Nid oes unrhyw gwestiynau, symudwn at yr eitem nesaf, sef datganiad gan—[Torri ar draws.] A ydw i'n methu unrhyw beth? Na. Diolch yn fawr. Symudwn yn awr at yr eitem nesaf, sef datganiad gan Kirsty Williams.</p>	<p>Y Senedd.tv Fideo Video</p>
14:30	<p>Datganiad: Cyflwyno Bil Arfaethedig Aelod—y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru)</p> <p>Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call on Kirsty Williams to speak.</p>	<p>Statement: Introduction of a Member-proposed Bill—Safe Nurse Staffing Levels (Wales) Bill</p> <p>Galwaf ar Kirsty Williams i siarad.</p>	<p>Y Senedd.tv Fideo Video</p>

Thank you very much, Presiding Officer. On Monday, I laid the Safe Nurse Staffing Levels (Wales) Bill in the Table Office. I would like to place on record my thanks for the strong cross-party support that the Bill has received to date and to allow me to get to this point.

The purpose of this Bill is to ensure that nurse staffing levels within the Welsh NHS are sufficient to provide safe, effective and quality nursing care to all patients, at all times. It is about providing nurses with the time to provide compassionate care. This Bill is about transforming the quality of care provided within the Welsh NHS, with the ambition of putting it among world leaders in this field.

It is a staggering statistic that a major European study, published in 'The Lancet', revealed that, for each extra patient a nurse is responsible for, the likelihood of an in-patient dying within 30 days of admission increases by 7%. A study across 30 English acute trusts found that hospitals with the highest numbers of patients per nurse had a 26% higher mortality rate.

The premise of this Bill is simple: nurses with fewer patients to care for can spend more time with each patient, and, as a result, they can provide better care. They have more opportunity to identify and address potential problems with a patient's care, and can play a preventative, rather than simply a reactive, role. So, this would mean fewer patients needing treatment—for instance, for falls or bed sores—and it would also, consequently, mean less cost to the NHS. There is clear evidence that safe staffing levels lead to a decrease in delayed discharge from hospital, and also a reduction in readmissions to hospital.

Now, I believe that this legislation is needed because the current regime alone is simply not getting the job done. The Chief Nursing Officer for Wales issued guidance in 2012, setting out that the number of patients per registered nurse should not exceed seven by day. However, health boards' responses to freedom of information requests in May to June 2013, sometime later, which are set out in table 1 of my explanatory memorandum, clearly demonstrate that this guidance is not being consistently met across Wales. Let me make it clear: this is not to suggest that health boards, or the Welsh Government, have been complacent. The Welsh Government has progressed plans to introduce workforce planning tools, based on the severity of patients' conditions, to assist NHS organisations in determining appropriate nurse staffing levels at a local level. The first of these, which focused on adult acute hospital wards, was introduced in April 2014.

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Ddydd Llun, cyflwynais y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru) yn y Swyddfa Gyflwyno. Hoffwn gofnodi fy niolch am y gefnogaeth drawsbleidiol gref y mae'r Bil wedi ei dderbyn hyd yn hyn ac am ganiatáu i mi gyrraedd y pwynt hwn.

Diben y Bil hwn yw sicrhau bod lefelau staffio nyrsys yn y GIG yng Nghymru yn ddigonol er mwyn darparu gofal nyrsio effeithiol, diogel a safonol i bob claf, bob amser. Mae'n ymwneud â rhoi amser i nyrsys allu darparu gofal tosturiol. Mae'r Bil yn ymwneud â thrawsnewid ansawdd y gofal a ddarperir gan y GIG yng Nghymru, gyda'r nod o'i osod ymhlith y gorau yn y byd yn y maes hwn.

Cyhoeddodd 'The Lancet' ystadegyn syfrdanol o astudiaeth fawr Ewropeidd a ddatgelodd fod y tebygolrwydd y bydd claf mewnlol yn marw o fewn 30 diwrnod yn cynyddu 7% gyda phob claf ychwanegol y bydd nyrs yn gyfrifol amdano. Canfu astudiaeth o 30 ymddiriedolaeth aciwt yn Lloegr fod gan yr ysbytai â'r niferoedd uchaf o gleifion i bob nyrs gyfradd farwolaethau a oedd 26% yn uwch.

Mae cynsail y Bil hwn yn syml: gall nyrsys â llai o gleifion i ofalu amdanynt dreulio rhagor o amser gyda phob claf, ac o ganlyniad i hynny, gallant ddarparu gwell gofal. Mae ganddynt fwy o gyfle i nodi ac i fynd i'r afael â phroblemau posibl yng ngofal claf, a gallant chwarae rhan ataliol yn hytrach nag adweithiol yn unig. Felly, byddai hyn yn golygu bod llai o gleifion angen triniaeth—er enghraifft, ar gyfer cwmpiaidau neu friwiau gorwedda byddai hefyd, o'r herwydd, yn costio llai i'r GIG. Mae tystiolaeth glir fod lefelau staffio diogel yn arwain at ostyngiad yn nifer yr achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion o ysbytai, yn ogystal â lleihad yn nifer yr aildderbyniadau i ysbytai.

Yn awr, credaf fod angen y ddeddfwriaeth hon yn syml am nad yw'r drefn bresennol yn cyflawni'r gwaith. Yn 2012, cyhoeddodd Prif Swyddog Nyrsio Cymru ganllawiau a nodai na ddylai nifer y cleifion i bob nyrs gofrestredig fod yn fwy na saith yn ystod y dydd. Fodd bynnag, mae ymatebion byrddau iechyd i geisiadau rhyddid gwlybodaeth rhwng mis Mai a mis Mehefin 2013, beth amser yn ddiweddarach, sydd wedi eu nodi yn nhabl 1 fy memorandumw esboniadol, yn dangos yn glir nad yw'r canllawiau hyn yn cael eu dilyn yn gyson ledled Cymru. Gadewch i mi ddweud yn glir: nid awgrymu bod byrddau iechyd, neu Lywodraeth Cymru, wedi bod yn hunanfodlon yw diben hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cynlluniau i gyflwyno adnoddau cynllunio gweithlu yn seiliedig ar ddirifoldeb cyflyrau cleifion er mwyn cynorthwyo sefydliadau GIG i bennu lefelau staffio priodol ar gyfer nyrsys ar lefel leol. Cyflwynwyd y cyntaf o'r rhain, a ganolbwyntiai ar wardiau ysbytai aciwt i oedolion, ym mis Ebrill 2014.

However, the experience of nurses on the ground feels very different. In January 2014, the Royal College of Nursing employment survey for Wales reported that over half—56%—of nursing staff still felt unable to give the level of care that they would like to. Currently, in Wales no duty exists to deliver safe nurse staffing levels. This Bill will place a duty on health service bodies in Wales to have regard to the importance of ensuring an appropriate level of nurse staffing wherever NHS nursing care is provided. It requires the Welsh Government to issue guidance for adult acute hospital wards, setting out the methods and processes by which NHS organisations will be expected to determine nurse staffing levels that are locally appropriate and safe at all times.

This Bill will also place a statutory duty on health service boards to take steps to ensure that nurse staffing levels on adult acute wards do not fall below certain levels. These minimum levels are to be included in the statutory guidance as minimum nurse-to-patient ratios, and nurse-to-healthcare-support ratios. There is provision for this duty to be extended to other healthcare settings at a future date.

The Bill will also place a duty on health service bodies in Wales to monitor their compliance with safe nurse staffing requirements and to take action where failings occur. Furthermore, it provides a statutory basis upon which patients and staff can challenge poor levels of nurse staffing.

Safe nurse staffing levels are the bedrock, I believe, for effective care. Nurses provide round-the-clock care for patients and work in every kind of healthcare setting. Quite simply, nurse staffing levels are too important to be left to non-statutory guidance, or addressed by temporarily raising their status to a tier 1 priority, leaving them still vulnerable to subsequently being identified for efficiency savings. Legislation changes behaviour in a way that non-statutory guidance does not. It ensures that staffing levels are adhered to, that performance is measured and monitored, and that action is taken where there is non-compliance. Making safe nursing levels a statutory responsibility will also provide a legislative basis for patients and staff to challenge poor levels of nurse staffing.

Before closing, Presiding Officer, I would like to thank everyone who has engaged in the two consultations that I have conducted in the development of this Bill, and the hundreds of individuals who have spoken personally with me about its proposals. I am pleased that the majority of responses have been very positive about the Bill, and I believe that the Bill has been improved as a result of that input. I continue to welcome such input, and look forward to open-minded and thorough discussions in the course of this Bill's legislative journey through the Assembly.

This is one of the most concise Bills introduced before the Assembly, but it is also a Bill filled with a big vision. It looks to deliver real outcomes for people in Wales—both now and in the years to come. I commend it to the Chamber.

Fodd bynnag, mae profiad nyrsys ar lawr gwlad yn teimlo'n wahanol iawn. Ym mis Ionawr 2014, adroddodd arolwg cyflogaeth Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru fod dros hanner—56%—o staff nyrsio yn dal i deimlo na allent ddarparu'r lefel o ofal y byddent yn hoffi ei darparu. Ar hyn o bryd yng Nghymru, nid oes unrhyw ddyletswydd yn bodoli i sicrhau lefelau diogel o staff nyrsio. Bydd y Bil hwn yn creu dyletswydd ar gyrff gwasanaeth iechyd yng Nghymru i roi sylw i bwysigrwydd sicrhau lefelau priodol o staff nyrsio lle bynnag y darperir gofal nyrsio gan y GIG. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ar gyfer wardiau ysbytai aciwt i oedolion, gan nodi'r dulliau a'r prosesau y bydd disgwyl i sefydliadau'r GIG eu defnyddio i bennu lefelau o staff nyrsio sy'n briodol yn lleol ac yn ddiogel bob amser.

Bydd y Bil hwn hefyd yn creu dyletswydd statudol ar fyrddau gwasanaeth iechyd i roi camau ar waith i sicrhau nad yw lefelau staff nyrsio ar wardiau aciwt i oedolion yn gostwng yn is na lefelau penodol. Mae'r lefelau isaf hyn i gael eu cynnwys yn y canllawiau statudol fel cymarebau gofynnol nyrsys/cleifion, a chymarebau nyrsys/cymorth gofal iechyd. Mae darpariaeth i ymestyn y ddyletswydd hon i sefydliadau gofal eraill yn y dyfodol.

Bydd y Bil hwn hefyd yn creu dyletswydd ar gyrff gwasanaeth iechyd yng Nghymru i fonitro eu cydymffurfiaeth â gofynion diogel o ran staff nyrsio ac i roi camau ar waith lle y ceir methiannau. Ar ben hynny, mae'n darparu sail statudol y gall cleifion a staff ei defnyddio ar gyfer herio lefelau staffio gwael.

Credaf mai lefelau diogel o staff nyrsio yw conglaen gofal effeithiol. Mae nyrsys yn darparu gofal ar bob adeg o'r dydd i gleifion ac yn gweithio ym mhob math o leoliad gofal iechyd. Yn syml, mae lefelau staffio ymhlith nyrsys yn rhy bwysig i'w adael i arweiniad anstatudol neu i'w drafod drwy godi eu statws dros dro i flaenoriaeth haen 1, gan eu gadael yn agored o hyd i gael eu clustnodi wedyn ar gyfer gwneud arbedion effeithlonrwydd. Mae deddfu yn newid ymddygiad mewn modd nad yw canllawiau anstatudol yn ei wneud. Mae'n sicrhau bod lefelau staffio yn cael eu dilyn, bod perfformiad yn cael ei fesur a'i fonitro, a bod camau'n cael eu rhoi ar waith lle y ceir diffyg cydymffurfiaeth. Bydd gwneud lefelau nyrsio diogel yn gyfrifoldeb statudol hefyd yn darparu sail ddeddfwriaethol i gleifion a staff allu herio lefelau staffio gwael ymhlith nyrsys.

Cyn cloi, Lywydd, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi bod yn rhan o'r ddau ymgynghoriad rwyf wedi eu cynnal wrth ddatblygu'r Bil hwn, a'r cannoedd o unigolion sydd wedi siarad yn bersonol gyda mi ynglŷn â'i gynigion. Rwy'n falch fod y rhan fwyaf o'r ymatebion wedi bod yn gadarnhaol iawn ynghylch y Bil, ac rwy'n credu bod y Bil wedi ei wella o ganlyniad i'r mewnbwn hwnnw. Parhaf i groesawu mewnbwn o'r fath, ac edrychaf ymlaen at drafodaethau meddwl agored a thrylwyr yn ystod taith ddeddfwriaethol y Bil hwn drwy'r Cynulliad.

Dyma un o'r Biliau mwyaf cryno a gyflwynwyd gerbron y Cynulliad, ond mae hefyd yn Fil â gweledigaeth fawr. Mae'n edrych ar sicrhau canlyniadau gwirioneddol i bobl yng Nghymru—yn awr yn ogystal ag yn y blynyddoedd i ddod. Rwy'n ei gymeradwyo i'r Siambr.

14:37

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call on the Minister for Health and Social Services.

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

14:37

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

Diolch yn fawr, Lywydd. I begin by congratulating Kirsty Williams on the substantial work that she has undertaken over recent months and on having brought her Bill to this stage in the Assembly's processes.

Diolch yn fawr, Lywydd. Dechreuaf drwy longyfarch Kirsty Williams am y gwaith sylweddol y mae wedi'i wneud dros y misoedd diwethaf ac am ddod â'i Bil i'r cam hwn ym mhrosesu'r Cynulliad.

The objective of the Bill, as we said at the time when the Government did not seek to oppose the idea of its being introduced, is one that we share. Once again, this afternoon the leader of the Welsh Liberal Democrats has made an eloquent case for the importance of nursing in the Welsh NHS. What she has now embarked upon, however, is something slightly different to making that case; she is embarking on making the argument as to why legislation is the right means of fulfilling the ambitions that she sets out, and not just why legislation, but why this particular piece of legislation—the Bill as she has presented it to us.

Mae amcan y Bil, fel y dywedasom ar y pryd pan nad oedd y Llywodraeth yn ceisio gwrthwynebu'r syniad o'i gyflwyno, yn un rydym yn ei rannu. Unwaith eto, y prynhawn yma mae arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi cyflwyno achos huawdl dros bwysigrwydd nyrsio yn y GIG yng Nghymru. Mae'r hyn y mae hi bellach wedi dechrau ei wneud, fodd bynnag, ychydig yn wahanol i gyflwyno'r achos; mae hi'n dechrau cyflwyno'r ddatl pam mai deddfwriaeth yw'r ffordd gywir o gyflawni'r uchelgeisiau y mae'n eu nodi, ac nid yn unig deddfwriaeth, ond y darn penodol hwn ddeddfwriaeth—y Bil fel y mae hi wedi ei gyflwyno i ni.

Llywydd, I wanted to recognise the important changes that have taken place between the Bill as presented to the Assembly and the Bill as it might have originally been anticipated. I see on the face of it the new clarity that the Member in charge has brought to the meaning of the term 'nurse' and I see a very welcome pulling back from placing on the face of the Bill a rigid formula about the provision of nurses in favour of providing guidance. I listened carefully to what Kirsty Williams said about being open-minded in the way that the Bill might develop further as a result of the scrutiny that the Assembly will now provide to it.

Lywydd, rwy'n awyddus i gydnabod y newidiadau pwysig sydd wedi digwydd rhwng y Bil fel y'i cyflwynwyd i'r Cynulliad a'r Bil fel y gallai fod wedi ei ragweld yn wreiddiol. Rwy'n gweld ar yr wyneb yr eglurder newydd y mae'r Aelod sy'n gyfrifol wedi ei roi i ystyr y term 'nyrs' ac rwy'n gweld yr ymatal, sydd i'w groesawu'n fawr, rhag rhoi fformiwla anhyblyg ar wyneb y Bil am ddarparu nyrsys yn hytrach na darparu canllawiau. Gwrandewais yn astud ar yr hyn a ddywedodd Kirsty Williams am fod yn feddwl agored ynghylch y ffordd y gallai'r Bil ddatblygu ymhellach o ganlyniad i'r gwaith craffu y bydd y Cynulliad yn ei wneud arno yn awr.

In all of that, it is right and proper that there will be a series of questions that Members here will want to test. Members will want to know how the proposals deliver the objectives that the Member has set out, and how it does so in ways that are notably superior to other ways of achieving the same ends. Members will want to know how the proposals seek to avoid unintended consequences, attempting to fix one problem only to create a series of others. It will be important to understand how the proposals align with the shared ambition across this Chamber for an integrated approach to health and social care. The Member in charge will need to respond to the hostility that the proposed legislation has engendered in some other parts of the workforce, wondering how the privileging of one professional group over and above all others can advance the necessary agenda of multidisciplinary working. From my perspective as Minister, certainly, I will want to think about how Part 3 of the Bill might be improved to prevent it from dragging the NHS away from the focus on patient outcomes, which we need to achieve, back to a world focused on inputs and outputs—counting everything—with far too little interest in where all of that activity actually makes a difference for patients.

Yn hynny oll, mae'n iawn ac yn briodol y bydd cyfres o gwestiynau y bydd yr Aelodau yma am eu profi. Bydd yr Aelodau am wybod sut y mae'r argymhellion yn cyflawni'r amcanion a nododd yr Aelod, a sut y mae'n gwneud hynny mewn ffyrdd sy'n amlwg yn rhagori ar ffyrdd eraill o gyflawni'r un dibenion. Bydd yr Aelodau am wybod sut y mae'r argymhellion yn ceisio osgoi canlyniadau anffriadol, ac ymdrechu i ddatrys un broblem ond i greu cyfres o rai eraill yn sgîl hynny. Bydd yn bwysig deall sut y mae'r cynigion yn cyd-fynd â'r uchelgais a rennir ar draws y Siambur hon i weld ymagwedd integredig tuag at iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd angen i'r Aelod sy'n gyfrifol ymateb i'r elyniaeth y mae'r ddeddfwriaeth arfaethedig wedi ei hennyn mewn rhai rhannau eraill o'r gweithlu, a meddwl tybed sut y gall dyrchafu un grŵp proffesiynol dros y lleill i gyd hybu agenda angenrheidiol gweithio amlddisgyblaethol. O fy mhersbectif fel Gweinidog, yn sicr byddaf am feddwl sut y gellid gwella Rhan 3 y Bil i'w atal rhag llusgo'r GIG i ffwrdd oddi wrth y ffocws ar ganlyniadau cleifion, sy'n rhaid i ni eu cyflawni, yn ôl i fyd sy'n canolbwyntio ar fewnbynnau ac allbynnau—gan gyfrif popeth—heb fawr o ddiddordeb yn lle y mae'r holl weithgaredd hwnnw'n gwneud gwahaniaeth i gleifion mewn gwirionedd.

How, for example, within the list of factors that the Bill claims to constitute indications of safe nursing, are readmission rates indicative of safe nursing ratios in adult inpatient wards in acute hospitals? What causal link does the Member believe can be drawn between such ratios and, let us say, the readmission of a patient for an entirely different reason in an entirely different part of Wales to an entirely different sort of hospital, many weeks after the first episode of care has ended? However, if I have read Part 3 of the Bill incorrectly, I am happy to have my understanding corrected. We will be under an obligation to report readmission rates on the grounds that that tells us something significant about nurse staffing ratios. I do not, myself, see that as yet.

Llywydd, to resort to a cliché I am afraid, the Member in charge will be very well aware, I know, that the hard work in this Bill really does begin now. The Government will engage constructively in that process, but will only be able to support legislation in the end if it meets the high hurdles that are rightly expected of legislation made in this Chamber and of which, in the context of other Bills, the Member in charge of this Bill has been a prominent guardian.

14:42

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you to the Minister for his response this afternoon and for sharing from the outset what I believe is a shared ambition for nursing quality here in the Welsh NHS.

The Minister is right: the Bill, as presented and laid this week, has changed. It has changed to reflect the points raised in the original debate in this Chamber and to reflect issues raised with me during the two consultations that have happened subsequently. I think it is a better and more robust piece of legislation because of that input.

To answer some of the points, first, about the need for legislation, I agree completely with the Minister. We should legislate only when absolutely necessary. However, having seen some of the stuff that has come out of the Welsh Government, I think it is slightly rich now to hear a Minister lecture a backbencher in that regard. The Well-being of Future Generations (Wales) Bill—I do not know the reason why—springs to the forefront of my mind. [Laughter.]

The Minister asks why this particular group of workers as opposed to anyone else. The Minister is right: this is not about putting a particular profession on a pedestal, but nursing is in a unique position within the Welsh NHS, because it is nurses and nurses alone who provide 24-hour round-the-clock care in a way that no other healthcare professionals do. They have more contact with patients and therefore have the ability to transform what happens to that patient and the experience of that patient in a way that other healthcare professionals simply cannot, because they simply do not spend that amount of time with patients.

Er enghraifft, o fewn y rhestr o ffactorau y mae'r Bil yn honni eu bod yn arwyddion o nyrsio diogel, sut y mae cyfraddau aildderbyn yn arwydd o gymarebau nyrsio diogel mewn wardiau cleifion mewnol i oedolion mewn ysbytai aciwt? Pa gysylltiad achosol y mae'r Aelod yn credu sy'n bodoli rhwng cymarebau o'r fath ag aildderbyn claf am reswm hollol wahanol, gadewch i ni ddweud, mewn rhan hollol wahanol o Gymru i fath hollol wahanol o ysbyty, sawl wythnos ar ôl i'r cam cyntaf o ofal ddod i ben? Fodd bynnag, os wyf wedi darllen Rhan 3 o'r Bil yn anghywir, rwy'n fodlon cael fy nghywiro. Byddwn o dan rwymedigaeth i roi gwybod am gyfraddau aildderbyn ar y sail fod hynny'n dweud rhywbeth arwyddocaol wrthym am gymarebau staff nyrsio. Fy hun, nid wyf yn gweld hynny eto.

Llywydd, i droi at ystrydeb mae arnaf ofn, bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn ymwybodol iawn, rwy'n gwybod, fod y gwaith caled yn y Bil hwn yn dechrau nawr o ddifrif. Bydd y Llywodraeth yn ymwneud yn adeiladol yn y broses honno, ond ni fydd ond yn gallu cefnogi deddfwriaeth yn y pen draw os yw'n goresgyn y rhwystrau uchel y mae disgwyl, yn ddigon teg, i ddeddfwriaeth a wneir yn y Siambr hon eu hwynebu, deddfwriaeth y bu'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil yn warcheidwad amlwg drosti yng nghyd-destun Biliau eraill.

Diolch yn fawr i'r Gweinidog am ei ymateb y prynhawn yma ac am rannu o'r cychwyn yr hyn y credaf sy'n uchelgais a rennir ar gyfer ansawdd nyrsio yma yn y GIG yng Nghymru.

Mae'r Gweinidog yn iawn: mae'r Bil, fel y'i cyflwynwyd yr wythnos hon, wedi newid. Mae wedi newid i adlewyrchu'r pwyntiau a godwyd yn y ddafl wreiddiol yn y Siambr hon ac i adlewyrchu materion a godwyd gyda mi yn ystod y ddau ymgynghoriad a gynhaliwyd ers hynny. Rwy'n credu ei bod yn ddeddfwriaeth well a mwy cadarn oherwydd y mewnbwn hwnnw.

I ateb rhai o'r pwyntiau yn gyntaf ynghylch yr angen am ddeddfwriaeth, rwy'n cytuno'n llwyr â'r Gweinidog. Ni ddylem ddeddfu oni fo'n gwbl angenrheidiol i ni wneud hynny. Fodd bynnag, wedi gweld rhai o'r pethau a ddaeth allan o Lywodraeth Cymru, rwy'n synnu dlywed Gweinidog yn pregethu wrth aelod o'r meinciau cefn yn hynny o beth yn awr. Mae Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)—nid wyf yn gwybod pam—yn neidio i'r cof. [Chwerthin.]

Mae'r Gweinidog yn gofyn pam y grŵp penodol hwn o weithwyr yn hytrach nag unrhyw un arall. Mae'r Gweinidog yn iawn: nid yw hyn yn ymwneud â rhoi proffesiwn penodol ar bedestal, ond mae nyrsio mewn sefyllfa unigryw o fewn GIG Cymru, gan mai nyrsys a nyrsys yn unig sy'n darparu gofal 24 awr ar bob adeg o'r dydd mewn ffordd na all gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill ei wneud. Mae ganddynt fwy o gysylltiad â chleifion ac felly mae ganddynt y gallu i drawsnewid yr hyn sy'n digwydd i'r claf a phrofiad y claf mewn ffordd na all gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill ei wneud, yn syml am nad ydynt yn treulio cymaint o amser gyda chleifion.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

It is also clear from international evidence that, rather than actually depleting resources for other professions within the healthcare system, that has not happened. Actually, decent nursing and the time to do decent nursing is an aid—it is a boon—to other professionals who work alongside nurses, whether that be in the community or on the ward.

I agree completely that we should be focused on outcomes. I agree completely. There is no greater outcome for me than the studies that have been done that show that there is a direct correlation between nurse numbers and mortality. You cannot get more of an outcome than a reduction in mortality rates for patients, let alone a reduction in the length of stay, reductions in falls and other reductions in harm.

Actually, I do think that readmission is a positive outcome for patients. We know that there are patients who are discharged from hospital who find their way back into the system as a result of their initial episode of care. I take the point that there may be some patients somewhere who will be discharged from Glangwili today, who may be visiting a relative somewhere in the north of the country later on this weekend, and who may find themselves back in the hospital. However, for the majority of patients, readmission is something that we need to look at, and it is an indicator, I believe, of the initial experience within the hospital ward. I appreciate that the Minister is going to participate in good faith in the process as we go forward. I look to having more interesting discussions and debates with him as we progress.

14:45

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I also offer my congratulations to Kirsty Williams on the publication of this Bill? I extend that to the Royal College of Nursing, which I know has been particularly active in promoting the Bill. Of course, this Bill's production is, essentially, an outcome from its Time to Care campaign, which has been ongoing for a number of years. Can I put on record the fact that we fully support the principles behind this Bill? Whether the legislation is something that we will be able to support at the end of Stage 1, I do not know at the moment. We will have to wait to see and hear more of the evidence that is out there through the legislative process. However, the information that has been collated and put into the explanatory memorandum certainly seems rather compelling in terms of making a case for the need for a statutory basis to be put down in Wales, to ensure that there is an adequate ratio of nursing staff to patients.

We all know as well, of course, that we have seen horrific reports in England and Wales about the impact of staff shortages on wards, and how that has an effect on patient outcomes. Francis certainly exposed that problem and, indeed, Healthcare Inspectorate Wales, in some of its inspections across Wales, has exposed that problem in some of its dignity and essential care inspections. So, it is very important that we have the right staff to patient ratios, whether that is nursing or other allied health professionals.

Mae hefyd yn amlwg o'r dystiolaeth ryngwladol, yn hytrach na disbyddu adnoddau ar gyfer proffesiynau eraill y system ofal iechyd, nid yw hynny wedi digwydd. A dweud y gwir, mae nyrsio gweddus a'r amser i wneud gwaith nyrsio gweddus yn gymorth—mae'n hwb i weithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio ochr yn ochr â nyrsys, boed hynny yn y gymuned neu ar y ward.

Cytunaf yn llwyr y dylem ganolbwyntio ar ganlyniadau. Cytunaf yn llwyr. I mi, ni ellir sicrhau gwell canlyniad na'r astudiaethau a wnaed sy'n dangos bod cydberthynas uniongyrchol rhwng nifer y nyrsys a chyfraddau marwolaethau. Ni allwch gael gwell canlyniad na gostyngiad yng nghyfraddau marwolaethau cleifion, heb sôn am ostyngiadau yn hyd arosiadau, nifer cwmpiaiadau a lefelau mathau eraill o niwed.

A dweud y gwir, rwy'n meddwl bod aildderbyn yn ganlyniad cadarnhaol i gleifion. Gwyddom fod yna gleifion sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty sy'n dod o hyd i'w ffordd yn ôl i mewn i'r system o ganlyniad i'w cyfnod cychwynnol o ofal. Rwy'n derbyn y pwynt y gall fod rhai cleifion yn rhywle a fydd yn cael eu rhyddhau o Langwili heddiw, a allai fod yn ymweld â pherthynas yn y gogledd yn nes ymlaen y penwythnos hwn, ac a allai lano'n ôl yn yr ysbyty. Fodd bynnag, i'r rhan fwyaf o gleifion, mae lefelau aildderbyn i'r ysbyty yn rhywbeth sy'n rhaid i ni edrych arnynt, ac rwy'n credu eu bod yn ddangosydd o'r profiad cychwynnol ar ward ysbyty. Rwy'n gwerthfawrogi bod y Gweinidog yn mynd i gymryd rhan gyda phob ewyllys da yn y broses wrth i ni symud ymlaen. Rwy'n gobeithio cael trafodaethau a dadleuon mwy diddorol gydag ef wrth i ni symud ymlaen.

A gaf fi hefyd longyfarch Kirsty Williams ar gyhoeddi'r Bil hwn? Rwy'n ehangu hynny i gynnwys y Coleg Nyrsio Brenhinol y gwn ei fod wedi bod yn arbennig o weithgar yn hyrwyddo'r Bil. Wrth gwrs, yn y bôn, canlyniad ei ymgyrch Time to Care yw cynhyrchu'r Bil hwn, ymgyrch sydd wedi bod ar y gweill ers nifer o flynyddoedd. A gaf fi gofnodi'r ffaith ein bod yn cefnogi'n llwyr yr egwyddorion sy'n sail i'r Bil hwn? Pa un a yw'r ddeddfwriaeth yn rhywbeth y gallwn ei gefnogi ar ddiwedd Cam 1, nid wyf yn gwybod ar hyn o bryd. Bydd yn rhaid i ni aros i weld a chlywed mwy o'r dystiolaeth sydd ar gael drwy'r broses ddeddfwriaethol. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth sydd wedi'i chasglu a'i rhoi yn y memorandwm esboniadol yn sicr i'w gweld yn argyhoeddi o ran cefnogi'r achos dros yr angen i greu sylfaen statudol yng Nghymru, er mwyn sicrhau cymhareb ddigonol o staff nyrsio ar gyfer cleifion.

Rydym i gyd yn gwybod hefyd, wrth gwrs, ein bod wedi gweld adroddiadau erchyll yng Nghymru a Lloegr am effaith prinder staff ar wardiau, a sut y mae hynny'n effeithio ar ganlyniadau cleifion. Yn sicr, datgelodd Francis y broblem honno ac yn wir mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, yn rhai o'i harolygiadau ledled Cymru, wedi amlygu'r broblem mewn rhai o'i harolygiadau urddas a gofal hanfodol. Felly, mae'n bwysig iawn i mi gael y cymarebau staff / cleifion cywir, boed hynny'n nyrsio neu weithwyr proffesiynol eraill sy'n gysylltiedig ag iechyd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

One aspect of the work that the committee, no doubt, will embark upon will be interrogating particularly some of the financial information that is contained within the Bill, which I thought was quite difficult to fathom, at times. It will be interesting if the Member in charge of the Bill can explain that in a little bit more detail, and particularly the wider health economic impact of minimum nurse staffing ratios, particularly given that there are going to be some beneficial outcomes as well in terms of cost reduction, perhaps elsewhere within the NHS, if the Bill were to be implemented.

I have to say that I was a little bit baffled by part of the Bill referring simply to adult in-patient wards rather than all in-patient wards. I appreciate that the Bill itself has the opportunity to expand the provisions into other care settings beyond acute wards in our hospitals, but there is a specific reference in section 2 of the Bill to 'adult inpatient wards', which seems to be a little strange to me.

Can I just ask the Member in charge why there has been a proposal to measure things at two-yearly intervals in terms of the annual report? Why did she feel that two-yearly intervals rather than an annual report on the impact of the Bill were important? Given the measures that she has identified could be useful in determining whether the impact of the Bill has been positive, or otherwise, how did she arrive at those measures? I fully agree with the Minister that not all of them seemed directly linked specifically to nurse staffing ratios. I think that there are perhaps others that may be more appropriate. I would be interested to know, through the consultation exercises that she has already undertaken, just how those were arrived at in the finality, as it were, in terms of their presentation in the explanatory memorandum.

14:49

Kirsty Williams [Bywgraffiad Biography](#)

I thank the Member for his questions. The Member is absolutely right to remind me, and it was remiss of me not to mention the Royal College of Nursing in my opening introduction. The Royal College of Nursing has been a massive support in crafting the Bill. It comes, as he quite rightly says out of its campaign, Time to Care. That campaign arose from consultation with its members, who are experiencing these challenges in Welsh hospitals day in, day out. They are trained to do a job and often express extreme frustration that they feel unable to provide the care that they are trained to and want to provide, because of pressures on their time. They often feel quite compromised. One thing that we do know is that, sometimes, people leave the profession because of that. What a waste to the public purse. The Welsh Government has supported an individual through their training, to create that resource for Welsh patients, only to have that resource lost to Welsh taxpayers because of that individual's frustration with their ability to do their job on the ward.

With regard to finances, it is quite difficult to come up with detailed financial implications because, of course, the ratios are not on the face of the Bill. The ratios are not on the face of the Bill for very good reasons. Therefore, it is difficult to provide detailed costings, because of the nature of how the Bill is drafted.

Un agwedd ar y gwaith y bydd y pwyllgor, yn ddiau, yn dechrau ei wneud fydd cwestiynu rhywfaint o'r wybodaeth ariannol, yn arbennig, sydd wedi'i chynnwys yn y Bil, y credwn ei bod yn eithaf anodd ei dirnad ar adegau. Bydd yn ddiddorol pe gallai'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil ei hesbonio ychydig bach yn fwy manwl, ac yn arbennig effaith economaidd ehangach cymarebau sylfaenol staff nyrsio ar iechyd, yn enwedig o ystyried y bydd rhai canlyniadau buddiol yn ogystal â lleihau costau, mewn rhannau eraill o'r GIG o bosibl, pe bai'r Bil yn dod i rym.

Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod ychydig yn ddryslyd ynghylch rhan o'r Bil sy'n cyfeirio'n syml at oedolion mewn wardiau cleifion mewnol yn hytrach na'r holl wardiau cleifion mewnol. Rwy'n derbyn bod cyfle i'r Bil ei hun ehangu'r darpariaethau i gynnwys lleoliadau gofal eraill y tu hwnt i wardiau aciwt yn ein hysbytai, ond mae cyfeiriad penodol yn adran 2 o'r Bil at 'wardiau cleifion mewnol i oedolion', sy'n ymddangos ychydig yn rhyfedd i mi.

A gaf fi ofyn i'r Aelod sy'n gyfrifol pam y bu cynnig i fesur pethau bob dwy flynedd o ran yr adroddiad blynyddol? Pam y teimlai ei bod hi'n bwysig mai cyfnodau o ddwy flynedd a ddylai fod rhwng adroddiadau yn hytrach nag adroddiad blynyddol ar effaith y Bil? O ystyried y gallai'r camau a nododd fod yn ddefnyddiol i bennu a fu effaith y Bil yn gadarnhaol, neu fel arall, sut y daeth i benderfyniad ynghylch y camau hynny? Cytunaf yn llwyr â'r Gweinidog nad yw pob un ohonynt i'w gweld yn cysylltu'n benodol â chymarebau staff nyrsio. Credaf fod yna rai eraill a allai fod yn fwy priodol efallai. Byddai gennyf ddiddordeb mewn gwybod sut yn union y cytunwyd arnynt yn y derfynol fel petai, drwy'r ymarferion ymgynghori a gynhaliodd eisoes, o ran y modd y cânt eu cyflwyno yn y memorandwm esboniadol.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiynau. Mae'r Aelod yn llygad ei le yn fy atgoffa, ac rwyf ar fai na soniais am y Coleg Nyrsio Brenhinol yn fy nghyflwyniad agoriadol. Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol wedi bod yn gefn mawr wrth lunio'r Bil. Fel y nododd yn gwbl gywir, mae'n deillio o'u hymgyrch, Time to Care. Deilliodd yr ymgyrch honno o'i ymgynghoriad â'i aelodau, sy'n profi'r heriau hyn yn ysbytai Cymru yn feunyddiol. Maent wedi eu hyfforddi i wneud y gwaith ac yn aml yn mynegi rhwystredigaeth eithafol na allant ddarparu'r gofal y cawsant eu hyfforddi i'w roi a'r gofal y maent eisiau ei roi, oherwydd pwysau ar eu hamser. Maent yn aml yn teimlo eu bod mewn sefyllfa amhosibl. Un peth rydym yn ei wybod yw bod pobl weithiau'n gadael y proffesiwn oherwydd hynny. Dyna wastraff ar bwrs y wlad. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi unigolyn drwy ei hyfforddiant i greu adnodd ar gyfer cleifion yng Nghymru, ddim ond i amddifadu trethdalwyr Cymru o'r adnodd oherwydd rhwystredigaeth unigolyn ynglŷn â'i allu i wneud ei waith ar y ward.

O ran cyllid, mae'n eithaf anodd llunio goblygiadau ariannol manwl, wrth gwrs, gan nad yw'r cymarebau ar wyneb y Bil. Nid yw'r cymarebau ar wyneb y Bil am resymau da iawn. Felly, mae'n anodd darparu costau manwl, oherwydd natur y modd y drafftwyd y Bil.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

However, what we do know is that LHBs in Wales are spending a great deal of money on the employment of bank and agency staff. We know that that is an expensive way to staff our wards. We also know that it is not an effective way to staff our wards. Of course, it is better to have a bank or agency staff member than no nurse at all, but evidence shows that they are simply not as efficient as a permanent member of staff. What we know from the example of the Nye Bevan trust, which has used resources from Welsh Government to create the perfect ward scenario, is that reliance on bank and agency staff when it increased the number of permanent nurse jobs on its wards dropped dramatically. It dropped dramatically by over 60%. So, we do know that there is a direct relation between having permanent staff on wards and a reduction in what is a significant bill for the Welsh NHS, and a bill that does not deliver optimum care for people.

On the two years, I am trying to strike a balance between what the Minister would regard as bureaucracy, an added complication, and a reason why he will not vote for the Bill with a practical way of monitoring the impact of this legislation. The time of two years is up for discussion, but I think it is a balance between putting too much bureaucracy into the system and being sure that we are making a difference, and that the legislation is making a difference.

The list in section 3 reflects academic evidence and advice and good practice, and that is why that list has been included. Those seemed to me to be key factors in establishing whether people have had the care and the level of care that one would anticipate in the setting. With regard to adults in section 2, you will be aware that the new section 10A(1)(a) that it inserts talks about all settings. We specifically draw out adults in section 10A(1)(b) because that is where the evidence is strongest. I am trying to work with an evidence-based approach, and that is where the evidence, to date, is strongest, but the Bill ensures that all health boards have to have regard for safe staffing across all sectors.

Fodd bynnag, yr hyn rydym yn ei wybod yw bod Byrddau Iechyd Lleol Cymru yn treulio llawer iawn o arian ar gyflogi staff cronfa ac asiantaeth. Gwyddom ei bod yn ffordd ddrud o staffio ein wardiau. Rydym hefyd yn gwybod nad yw'n ffordd effeithiol o staffio ein wardiau. Wrth gwrs, mae'n well cael aelod o staff cronfa neu asiantaeth na pheidio â chael nyrs o gwbl, ond dengys tystiolaeth nad ydynt, yn syml, mor effeithiol ag aelod parhaol o staff. Yr hyn a wyddom o nghraifft ymddiriedolaeth Nye Bevan, sydd wedi defnyddio adnoddau gan Lywodraeth Cymru i greu senario'r ward berffaith, yw bod dibyniaeth ar staff cronfa ac asiantaeth pan gynyddodd nifer y swyddi nyrsio parhaol ar ei wardiau wedi gostwng yn ddramatig. Gwelodd ostyngiad dramatig o dros 60%. Felly, gwyddom fod perthynas uniongyrchol rhwng cael staff parhaol ar wardiau a lleihad yn yr hyn sy'n fil sylweddol i GIG Cymru, ac un nad yw'n darparu'r gofal gorau posibl i bobl.

Ar fater y ddwy flynedd, rwy'n ceisio taro cydbwysedd rhwng yr hyn y byddai'r Gweinidog yn ei ystyried yn fiwrocratiaeth, yn gymhlethdod ychwanegol ac yn rheswm pam na fydd yn pleidleisio dros y Bil, a ffordd ymarferol o fonitro effaith y ddeddfwriaeth hon. Mae mater y ddwy flynedd i'w drafod, ond rwy'n credu ei fod yn gydbwysedd rhwng cynnwys gormod o fiwrocratiaeth yn y system a bod yn siŵr ein bod yn gwneud gwahaniaeth, a bod y ddeddfwriaeth yn gwneud gwahaniaeth.

Mae'r rhestr yn adran 3 yn adlewyrchu tystiolaeth a chynghor academiaidd ac arfer da, a dyna pam y mae'r rhestr honno wedi ei chynnwys. Roeddent i'w gweld i mi yn ffactorau allweddol o ran pennu a yw pobl wedi cael y gofal a'r lefel o ofal y byddai rhywun yn ei ddisgwyl yn y lleoliad. O ran oedolion yn adran 2, byddwch yn ymwybodol fod yr adran 10A newydd (1)(a) y mae'n ei fewnosod yn sôn am bob lleoliad. Rydym yn sôn yn benodol am oedolion yn adran 10A (1)(b) am mai dyna lle mae'r dystiolaeth gryfaf. Rwy'n ceisio gweithio gyda dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a dyna lle y mae'r dystiolaeth gryfaf hyd yma, ond mae'r Bil yn sicrhau bod yn rhaid i bob bwrdd iechyd ystyried staffio diogel ar draws pob sector.

14:54

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Llongyfarchiadau i'r Aelod ar gael ei dewis i gyflwyno deddfwriaeth, ac am ddewis maes a deddfwriaeth mor ddiddorol â hyn, a hynny mewn maes arloesol i ni yma yng Nghymru. Fel mae eraill wedi sôn, rwy'n gefnogol o'r egwyddor o sicrhau lefelau saff o staffio nyrsys ar wardiau, ac rwy'n agored iawn i feddwl y gall deddfwriaeth chwarae rhan cwbl hanfodol i sicrhau bod hyn yn digwydd. Rwy'n edrych ymlaen at y broses sgrwtini sydd yn awr yn cychwyn, ac i'r atebion sydd yn cael eu rhoi heddiw ac a fydd yn cael eu rhoi dros gyfnod y sgrwtineiddio gan yr Aelod a chan eraill.

Os caf, gofynnaf y cwestiynau sydd yn fy nharo i yn syth. Cyn gwneud hynny, hoffwn longyfarch yr Aelod hefyd, oherwydd roedd yn bleser neithiwr i ddarllen y Bil hwn. Mae'n Fil mor gryno, ar bedair tudalen, fel ei fod yn bosibl ei ddarllen mewn cyfnod gweddol o fyr. Fel y dylai Bil ei wneud, wrth gwrs, mae'n codi cynifer o gwestiynau ag y mae'n eu hateb.

Congratulations to the Member on being selected to bring forward legislation and for choosing such an interesting area for legislation in what is an innovative area for us here in Wales. As others have mentioned, I am supportive of the principle of ensuring safe nurse staffing levels on wards, and I am very open-minded in thinking that legislation can play a crucial role in ensuring that this is achieved. I look forward to the scrutiny process that will now commence, and to hearing the responses given today and that will be given during the scrutiny process by the Member and by others.

Perhaps I could ask some of the questions that strike me immediately. Before doing so, I also congratulate the Member because it was a pleasure yesterday evening to read this Bill. It is such a succinct Bill, over just four pages, that one can digest it in a relatively brief period. As a Bill should do, of course, it raises as many questions as it answers.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Un o'r pynciau wnaeth fy nharo i o ddarllen y Bil oedd sut y byddai'r Bil ac unrhyw ganllawiau sy'n deillio o Fil o'r fath yn caniatáu i wardiau a byrddau iechyd sicrhau bod rotas yn gallu amrywio ar unrhyw ward yn ôl gofynion cleifion y wardiau hynny. Rydym yn gyfarwydd â sefyllfaoedd lle gall fod ward feddygol mewn ysbyty un dydd o'r wythnos a neb, efallai, o'r cleifion arni â chyflwr dementia yn ogystal â chyflwr meddygol, ond y diwrnod nesaf, gall fod canran llawer uwch o'r cleifion hynny â dementia ac anghenion nyrsio ychwanegol. Felly, sut ydych chi'n rhagweld y byddai'r canllawiau sy'n deillio o'r Bil yn caniatáu y hyblygrwydd sydyn yna sydd ei eisiau i weithio'r rotas staffio?

Mae'r Bil, a'ch datganiad chi y prynhawn yma, yn cadarnhau y gellid defnyddio'r Bil hwn a'r ddeddfwriaeth i sicrhau lleiafswm 'ratio' nyrs a chlaf mewn sefyllfa iechyd arall yn ychwanegol at sefyllfa aciwt. Efallai y gallech ymhelaethu ar y posibilid hwn, a dweud wrthym a fydded chi'n cytuno y dylid ystyried hyn yn benodol iawn ar gyfer nyrsys yn y gymuned, lle mae polisi cyhoeddus yn awr yn edrych i drosglwyddo mwyfwy o ofal nyrsio i'r gymuned. Efallai mai'r cwestiwn cychwynnol i chi ar hyn yw pam na wnaethoch chi gynnwys lefelau staffio ar gyfer nyrsys sy'n gweithio yn y gymuned yn rhan o'r ddeddfwriaeth hon, a gosod hynny ar wyneb y Bil.

Mae'r cwestiwn olaf i chi yn debyg i gwestiwn a gawsoch gan Darren Millar, am y gost o gyflwyno'r canllawiau sy'n deillio o'r Bil hwn. Dywedasoeh yn eich ateb nad oedd unrhyw gostau yn deillio o'r hyn sydd ar wyneb y Bil, ac felly nad yw'n angenrheidiol amlinellu'r costau yn fanwl ar y pwynt hwn. Fodd bynnag, rydych chi'ch hunan wedi bod yn feiriadol o'r Llywodraeth wrth gyflwyno deddfwriaeth am beidio ag amlinellu holl hyd y costau sy'n deillio ohoni, ac rwy'n cofio'n benodol am y ddeddfwriaeth ar y gwasanaethau cymdeithasol. Efallai y gallech roi mwy o arweiniad i ni ynghylch sut y byddwch chi'n rhoi mwy o wybodaeth i ni fel Aelodau am oblygiadau ariannol cyflwyno deddfwriaeth o'r fath.

One of the issues that struck me in reading the Bill was how the Bill and any guidance emerging from such a Bill would allow wards and health boards to ensure that rotas could vary on any ward according to patient need on those wards. We are familiar with situations where a medical ward in a hospital could have no patients suffering from dementia as well as another medical condition on one day, but the next day, there could be a far higher proportion of patients who have dementia and other additional nursing needs. So, how do you anticipate the guidance arising from this Bill allowing that swift flexibility that is so important in terms of staffing rotas?

The Bill, along with your statement this afternoon, confirms that this Bill and the legislation could be used to ensure a minimum nurse-to-patient ratio in other health settings as well as the acute setting. Perhaps you could expand on this possibility, and tell us whether you would agree that this should be considered specifically for nurses in the community, given that it is public policy now to consider transferring more and more nurse-led care into community settings. Perhaps the initial question for you on this is why you did not include staffing levels for nurses working in the community as part of this legislation, and why you did not put that on the face of the Bill.

The final question to you, which is similar to a question asked by Darren Millar, is on the cost of implementing guidance arising from this Bill. You said in your response that there were no costs arising from what was on the face of the Bill and, therefore, it is not essential for the costs to be outlined in detail at this point. However, you yourself have been critical of the Government when it has brought forward legislation, for failing to outline the full extent of the costs arising from legislation. I particularly recall the legislation on social services. Perhaps you could give us more of a steer as to how you are going to provide us as Members with further information on the financial implications of introducing legislation of this kind.

14:58 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Do you know what, Presiding Officer? I always knew that my scrutiny would come back to haunt me. [Laughter.] I am really wishing that I had been a bit nicer in my questions to other people who have appeared before the health committee, and also in some of the criticisms I have made of the Welsh Government in the past.

A wyddoch chi beth, Lywydd? Roeddwn i bob amser yn gwybod y byddai fy ngwaith craffu yn dod yn ôl i fy mlino. [Chwerthin.] Hoffwn yn wir pe bawn i wedi bod yn llai hallt wrth holi pobl eraill sydd wedi ymddangos gerbron y pwyllgor iechyd, ac yn rhai o'r beirniadaethau a wneuthum o Lywodraeth Cymru yn y gorffennol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:58 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Answer the question. [Laughter.]

Atebwch y cwestiwn. [Chwerthin.]

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:58 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am just taking a leaf out of your book, Leighton.

Dysgu gennych chi ydw i, Leighton.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

First of all, I thank the Member for her general support for the principle of the Bill. I am glad that she approves of the length of the Bill, and that I did not keep her away from her Argentinian Malbec for too long last night. I apply a basic rule to legislation, and that is that size does not matter, and it is what you do with it that counts. I hope that what we have been able to do is produce a concise piece of legislation that is very clear in its aims and objectives, rather than simply using up a rainforest-worth of paper.

The Member asked some specific questions about flexibility. I think that you are absolutely right to raise those questions. During the consultation, there have been concerns that an issue around minimum numbers may, by default, become the maximum. I know that there are concerns about that, hence why this is now the safe nurse staffing Bill, rather than the minimum nurse staffing Bill, because I have recognised, during this journey, that actually what is important is not just the minimum number, but the skill mix and having the right numbers of staff on a ward at any one time, hence the change in emphasis in the Bill. Also, section 2(1) talks about involving the use of evidence-based and validated workforce planning tools. The Welsh Government has worked very hard to produce those, so there are systems already coming on-stream that allow you to be able to vary your skill depending on the nature of the patients who are on the ward. The Welsh Government has already done a lot of work in that area. It also allows for the exercise of professional judgment within the planning process, therefore empowering staff on the ward to say, 'Look, today I need additional support and help', and it also makes for the provision that the skill mix does need to reflect patient care needs and local circumstances. So, we have tried to draft that into the Bill.

I share your ambition that, actually, in the future, more and more care for Welsh patients will be delivered in the community, whether that is in people's own homes or in the renaissance of the community hospital model that the recent mid Wales healthcare report called for. Therefore, we do need to not have this as a barrier to that shift.

It is important to recognise that the first line, I think, of the Bill addresses that by saying that the purpose of this Act is to ensure that nurses are deployed in sufficient numbers in all settings. That is the overarching catch-all. There is specific provision for acute wards, because, again, that is where we have the most up-to-date and compelling evidence of the impact. That is not to say that the evidence is not being worked on in other areas. Powys local health board and other organisations are working very hard to establish what safe staffing levels in the community, in the district nursing service, look like—that is, how many people, realistically, one nurse can care for in the community. That work is ongoing and there is provision in this legislation to allow the Welsh Government to bring forward regulations in that area, as and when that evidence is developed.

Yn gyntaf oll, hoffwn ddiolch i'r Aelod am ei chefnogaeth gyffredinol i egwyddor y Bil. Rwy'n falch ei bod yn cymeradwyo hyd y Bil ac na chedwais i hi rhag ei Malbec Archentaidd yn rhy hir neithiwr. Mae gen i reol sylfaenol mewn perthynas â deddfwriaeth, sef nad yw maint yn bwysig, ac mai'r hyn a wnewch â hi sy'n cyfrif. Gobeithio mai'r hyn rydym wedi gallu ei wneud yw cynhyrchu darn cryno o ddeddfwriaeth sy'n glir iawn o ran ei nodau a'i hamcanion, yn hytrach na defnyddio gwerth coedwig law o bapur.

Gofynnodd yr Aelod rai cwestiynau penodol am hyblygrwydd. Credaf eich bod yn llygad eich lle i godi'r cwestiynau hynny. Yn ystod yr ymgynghoriad, cafwyd pryderon y gallai problem godi wrth i leiafswm ddod yn uchafswm yn ddiodyn. Gwn fod pryderon ynghylch hynny, a dyna pam mai Bil lefelau diogel staff nyrsio yw hwn yn hytrach na Bil lefelau isaf o staff nyrsio, gan fy mod wedi cydnabod dros y daith hon nad y nifer lleiaf yn unig sy'n bwysig mewn gwirionedd ond y cymysgedd sgiliau a chael y nifer cywir o staff ar ward ar unrhyw adeg benodol, a dyna pam y newid pwyslais yn y Bil. Hefyd, mae adran 2(1) yn sôn am gynnwys y defnydd o adnoddau cynllunio gweithlu dilys yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n galed iawn i gynhyrchu'r rhain felly mae systemau eisoes yn cael eu mabwysiadu sy'n eich galluogi i amrywio eich sgiliau yn dibynnu ar natur y cleifion sydd ar y ward. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi gwneud llawer o waith yn y maes hwnnw. Mae hefyd yn caniatáu ar gyfer arfer barn broffesiynol o fewn y broses gynllunio, gan rymuso staff ar y ward i ddweud, 'Edrychwch, heddiw mae angen cefnogaeth a chymorth ychwanegol arnaf', ac mae hefyd yn darparu ar gyfer yr angen i'r cymysgedd sgiliau adlewyrchu anghenion gofal cleifion ac amgylchiadau lleol. Felly, rydym wedi ceisio drafftio hynny yn y Bil.

Rwy'n rhannu eich uchelgais y bydd mwy a mwy o ofal i gleifion Cymru yn cael ei ddarparu yn y gymuned yn y dyfodol mewn gwirionedd, boed hynny yng nghartrefi pobl eu hunain neu yn adfywiad y model ysbyty cymuned y galwodd adroddiad gofal iechyd canolbarth Cymru amdano'n ddiweddar. Felly, mae angen i ni beidio â chael hyn i rywstro'r newid hwnnw.

Mae'n bwysig cydnabod bod llinell gyntaf y Bil, rwy'n credu, yn mynd i'r afael â hynny drwy ddweud mai pwrpas y Ddeddf hon yw sicrhau bod nyrsys yn cael eu defnyddio mewn niferoedd digonol ym mhob lleoliad. Dyna'r amcan trosfwaol. Ceir darpariaeth benodol ar gyfer wardiau aciwt, oherwydd, unwaith eto, dyna lle y mae gennym y dystiolaeth fwyaf cyfredol a grymus o'r effaith. Nid yw hynny'n golygu nad oes gwaith ar y dystiolaeth yn digwydd mewn ardaloedd eraill. Mae bwrdd iechyd lleol Powys a sefydliadau eraill yn gweithio'n galed iawn i bennu beth fyddai'n lefelau staffio diogel yn y gymuned ac yn y gwasanaeth nyrsio ardal—hynny yw, faint o bobl, yn realistig, y gall un nyrs ofalu amdanynt yn y gymuned. Mae'r gwaith hwnnw yn mynd rhagddo ac mae darpariaeth yn y ddeddfwriaeth hon i alluogi Llywodraeth Cymru i gyflwyno rheoliadau yn y maes wrth i'r dystiolaeth gael ei datblygu.

15:02

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I just wanted to say how much I support the principles of this Bill. I know how hard it must have been for you and how much hard work behind the scenes that you have done. I want to echo the point that you made about the reliance on agency staff. In the Betsi Cadwaladr region, we have seen enormous sums—millions and millions and millions of pounds—spent on agency staff, and I have had nurses writing to me saying how demoralised they are to see agency staff coming in from outside to work in their health board area and getting paid so much more than they are, and that the health board is not recruiting when there is a clear need for those positions to be filled on a full-time basis.

Roeddwn i am ddweud yn syml cymaint rwy'n cefnogi egwyddorion y Bil hwn. Rwy'n gwybod pa mor anodd yw hi wedi bod arnoch a chymaint o waith caled rydych chi wedi'i wneud y tu ôl i'r llenni. Rwyf am adleisio'r pwynt a wnaethoch am y ddibyniaeth ar staff asiantaeth. Yn rhanbarth Betsi Cadwaladr, rydym wedi gweld symiau enfawr—miliynau ar filiynau ar filiynau o bunnoedd—yn cael eu gwario ar staff asiantaeth ac rwy'n cael nyrsys yn ysgrifennu ataf i ddweud pa mor ddigalon ydynt wrth weld staff asiantaeth yn dod i mewn o'r tu allan i weithio yn ardal eu bwrdd iechyd a chael eu talu cymaint yn fwy na hwy, ac nad yw'r bwrdd iechyd yn recriwtio pan fo angen amlwg i'r swyddi hyn gael eu llenwi ar sail amser llawn.

May I also give my support to your 'size does not matter; it is what you do with it that counts' comment? Looking at the Planning (Wales) Bill and the Well-being of Future Generations (Wales) Bill that we have been struggling through, it is a lesson that the Welsh Government would do well to learn itself.

A gaf fi hefyd roi fy nghefnogaeth i'ch sylw nad yw maint yn bwysig, ac mai'r hyn rydych yn ei wneud ag ef sy'n cyfrif? O edrych ar Fil Cynllunio (Cymru) a Bil Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) y buom yn ymdrechu i'w basio, mae'n wers y byddai'n dda gweld Llywodraeth Cymru ei hun yn ei dysgu.

15:03

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member for her support. She is absolutely right: we are spending millions of pounds on bank and agency nurses. As I said earlier, that is, of course, better than not having a nurse on the ward at all, but it is a source of great frustration to permanent members of staff. They feel very strongly about it. However, what we know from the evidence is that it is not an effective and efficient way of staffing your ward. Nurses coming into an unfamiliar setting simply cannot be as effective as a full-time member of that team. There is strong evidence to suggest that the outputs that a nurse can deliver over a shift are not the same as those of a permanent member of staff. Therefore, we are having a more expensive system that is actually delivering less. We know that money is tight in the NHS, so we need to make sure that every single £1 of that counts.

Diolch i'r Aelod am ei chefnogaeth. Mae hi'n llygad ei lle: rydym yn gwario miliynau o bunnoedd ar nyrsys cronfa ac asiantaeth. Fel y dywedais yn gynharach, mae hynny, wrth gwrs, yn well na pheidio â chael nyrs ar y ward o gwbl ond mae'n destun rhwystredigaeth fawr i aelodau parhaol o staff. Maent yn teimlo'n gryf iawn am y peth. Fodd bynnag, yr hyn a wyddom o'r dystiolaeth yw nad yw'n ffordd effeithiol ac effeithlon o staffio eich ward. Yn syml, ni all nyrsys sy'n dod i mewn i leoliad anghyfarwydd fod mor effeithiol ag aelod amser llawn o'r tîm hwnnw. Ceir tystiolaeth gref sy'n awgrymu nad yw'r allbynnau y gall nyrs eu cyflawni dros shifft yr un fath â rhai aelod parhaol o staff. Felly, mae gennym system ddrutach sydd mewn gwirionedd yn cyflawni llai. Rydym yn gwybod bod arian yn brin yn y GIG, felly mae angen i wneud yn siŵr bod pob un £1 ohono'n cyfrif.

15:04

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I have no more questions for you this afternoon.

Nid oes gennyf ragor o gwestiynau i chi y prynhawn yma.

Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv): Plismona

Debate by Individual Members under Standing Order 11.21(iv): Policing

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Mike Hedges to move the motion.

Galwaf ar Mike Hedges i gynnig y cynnig.

Cynnig NNDM5625 Mike Hedges, Jocelyn Davies, Peter Black

Motion NNDM5625 Mike Hedges, Jocelyn Davies, Peter Black

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn credu y dylid datganoli plismona (heblaw am Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol y DU a diogelwch gwladol).

Believes that policing (excluding the UK National Crime Agency and national security) should be devolved.

15:05

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Presiding Officer. I move the motion.

Diolch i chi, Lywydd. Cynigiaf y cynnig.

I am very pleased to open this debate. I also find that this type of debate, such as today's and the one on reserved powers last year, gives the National Assembly an opportunity to show the direction of travel that it wants devolution to take. In February last year, First Minister Carwyn Jones called for powers over policing to be devolved to Wales. Alun Michael, a former Home Office Minister and currently the police and crime commissioner for south Wales, has said that many of the levers that affect levels of crime have already been devolved to Wales, such as community safety, education, training, mental health services, alcohol and drug abuse, housing, healthy communities, as well as many other services relating to social factors. Tackling crime and reducing offending and reoffending necessitates working with other public services that already operate on a pan- or sub-Wales level. For example, support for those with mental health conditions—before they reach crisis point and then when they need police intervention and once they have entered the criminal justice system—means working with the Welsh NHS and local health boards, which are devolved.

I believe that if policing powers were devolved, it would allow for much greater liaison between services locally and with Ministers and civil servants at a strategic level within Wales, rather than between Wales and Westminster. There is real potential for a successful Welsh model that would build on the strengths of devolution without cutting us adrift of being part of the United Kingdom. That is why I agree with the notion that it should not include the UK's National Crime Agency or national security, and I would add the strategic policing requirements and counter-terrorism. It is important that police services continue to be able to provide mutual support for large events, which we saw an incredibly successful demonstration of during the recent NATO summit in south Wales. Co-operation in policing clearly needs to extend not just to the British isles, but to Europe and beyond. We know that crime, especially terrorism, crosses borders and knows no borders, more so than ever before. We need to co-ordinate measures to make sure that criminals cannot avoid charges by fleeing to Spain or anywhere else, as once seemed the case—the so-called Costa del Crime. The Welsh Government has shown the capacity for leadership and common sense, implementing policies developed by Welsh Labour through its investment in 500 extra community support officers, which have been invaluable during the harsh period of austerity.

Rwy'n falch iawn o agor y ddadl hon. Rwyf i hefyd yn teimlo bod dadl fel hon, fel dadl heddiw a'r un ar gadw pwerau y llynedd, yn rhoi cyfle i'r Cynulliad Cenedlaethol ddangos y cyfeiriad y mae ei eisiau ar gyfer datganoli. Ym mis Chwefror y llynedd, galwodd y Prif Weinidog Carwyn Jones am ddatganoli pwerau dros blismona i Gymru. Mae Alun Michael, cyn-Weinidog yn y Swyddfa Gartref ac sydd ar hyn o bryd yn gomisiynydd heddlu a throseddu dros dde Cymru, wedi dweud bod llawer o'r ysgogiadau sy'n effeithio ar lefelau troseddu eisoes wedi cael eu datganoli i Gymru, fel diogelwch cymunedol, addysg, hyfforddiant, gwasanaethau iechyd meddwl, camddefnyddio alcohol a chyffuriau, tai, cymunedau iach, yn ogystal â llawer o wasanaethau eraill yn ymwneud â ffactorau cymdeithasol. Mae mynd i'r afael â throseddu a lleihau troseddu ac aildroeddu yn galw am weithio gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill sydd eisoes yn gweithredu ar lefel Cymru gyfan neu ranbarthol. Er enghraifft, mae cymorth i bobl â chyflyrau iechyd meddwl—cyn iddi fynd yn argyfwng arnynt, ac yna pan fyddant angen ymyrraeth yr heddlu ac ar ôl iddynt fynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol—yn golygu gweithio gyda GIG Cymru a byrddau iechyd lleol, sydd wedi eu datganoli.

Yn fy marn i, pe bai pwerau plismona yn cael eu datganoli, byddai'n caniatáu llawer mwy o gyswllt rhwng y gwasanaethau yn lleol ac â Gweinidogion a gweision sifil ar lefel strategol yng Nghymru, yn hytrach na rhwng Cymru a San Steffan. Mae yna botensial go iawn i fodel llwyddiannus yng Nghymru a fyddai'n adeiladu ar gryfderau datganoli heb ein torri'n rhydd o fod yn rhan o'r Deyrnas Unedig. Dyna pam rwy'n cytuno â'r syniad na ddylai gynnwys Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol y DU neu ddiogelwch gwladol, a byddwn yn ychwanegu'r gofynion plismona strategol a gwrthderfysgaeth. Mae'n bwysig bod gwasanaethau'r heddlu yn parhau i allu darparu cymorth i'w gilydd mewn digwyddiadau mawr, a gwelsom arddangosiad anhygoel o lwyddiannus o hynny yn ystod uwchgynhadledd NATO yn ne Cymru yn ddiweddar. Mae'n amlwg fod angen i gydweithredu mewn plismona ymestyn nid yn unig dros ynysoedd Prydain ond i Ewrop a thu hwnt. Rydym yn gwybod bod trosteddu, yn enwedig terfysgaeth, yn croesi ffiniau ac nad yw'n cydnabod ffiniau, yn fwy felly heddiw nag erioed o'r blaen. Mae angen i ni gydlynu camau i wneud yn siŵr na all trosteddwy'r osgoi cyhuddiadau drwy ffoi i Sbaen neu unrhyw le arall, fel oedd yn wir ar un adeg—yr hyn a elwid yn Costa del Crime. Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos y gallu i arwain ac arfer synnwyr cyffredin, gan weithredu polisïau a ddatblygwyd gan Lafur Cymru drwy ei buddsoddiad mewn 500 o swyddogion cymorth cymunedol ychwanegol a fu'n amhrisiadwy yn ystod y cyfnod anodd o galedi.

Turning to the proposals, first, I will deal with the two exceptions to the proposals—the UK's National Crime Agency and national security. Obviously, national security needs to be excluded, but dealing with spies or terrorists needs to be done at least on a British basis, and in many cases needs to be done on a whole European basis. The National Crime Agency is a crime-fighting agency with national and international reach, and it has a mandate and powers to work in partnership with other law enforcement organisations to bring the full weight of the law to bear in cutting serious and organised crime. Dealing with border policing command is a vital part of keeping our borders safe and stopping terrorists and other undesirables from coming in. The economic crime command is at the forefront of the fight against economic crime, which affects the UK as well as other places in the world. A lot of this starts outside the United Kingdom, with people setting up in small islands in the Caribbean or countries in Africa, and doing that without the national Governments there knowing. The national cyber crime unit provides a joined-up national response to cyber and cyber-enabled crime to ensure that expertise is focused where it can deliver the most impact and add most value. Also, perhaps many people here will feel that the most important thing is the work done to eradicate the sexual exploitation and sexual abuse of children and young people. The organised crime command leads support and co-ordinates the national effort to identify, pursue and disrupt serious and organised crime. So, those are the bits that are excluded.

What that leaves is the day-to-day policing carried out by the four Welsh police forces. Police do not work in isolation. First of all, they work very closely with the fire and ambulance services, which are both devolved. Most people, when accidents occur, call the police, call the fire brigade and call for an ambulance. Another argument in favour of devolving the police is the ability to better connect policing with other devolved services, such as support for victims of domestic abuse and the health service, as Alun Michael has made out. The Welsh Government's expansion of community support officers by an additional 500 will increase their visibility and will have a positive effect on crime and anti-social behaviour. Community support officers are now the public face of policing in many communities. In many cases, they have built up excellent relationships with their local communities. I am aware of how visible and popular PCSOs are in Swansea East, and I would imagine that that would be the same throughout the whole of Wales.

Gan droi at y cynigion, rwyf am ymdrin yn gyntaf â'r ddau eithriad i'r cynigion—Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol y DU a diogelwch gwladol. Yn amlwg, mae angen eithrio diogelwch gwladol ond rhaid ymdrin ag ysbïwyr neu derfysgwyr ar sail Brydeinig fan lleiaf, ac mewn llawer o achosion mae angen ei wneud ar sail Ewrop gyfan. Asiantaeth sy'n ymladd troseddu yw'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol gyda chyrhaeddiad cenedlaethol a rhyngwladol, ac mae ganddi fandad a phwerau i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill sy'n gorfodi'r gyfraith i sicrhau bod holl rym y gyfraith yn cael ei gyfeirio tuag at ostwng lefelau troseddau difrifol a threfnedig. Mae ymdrin â threfn blismona ffiniau yn rhan hanfodol o gadw ein ffiniau'n ddiogel ac atal terfysgwyr a phobl annymunol eraill rhag dod i mewn. Mae trefn blismona troseddau economaidd ar flaen y gad yn y frwydr yn erbyn troseddu economaidd, sy'n effeithio ar y DU yn ogystal â manau eraill yn y byd. Mae llawer o hyn yn dechrau y tu allan i'r Deyrnas Unedig gyda phobl yn ymsefydlu mewn nysoedd bach yn y Caribî neu wledydd yn Affrica ac yn gwneud hynny heb i'r Llywodraethau cenedlaethol yno wybod. Mae'r uned seiberdroseddu genedlaethol yn darparu ymateb cenedlaethol cydgysylltiedig i droseddu seiber a throseddu wedi'i alluogi gan dechnoleg seiber i sicrhau bod yr arbenigedd yn cael ei gyfeirio at lle y gall sicrhau'r effaith fwyaf ac ychwanegu fwyaf o werth. Hefyd, efallai y bydd llawer o bobl yma yn teimlo mai'r peth pwysicaf yw'r gwaith a wneir i gael gwared ar gamfanteisio rhywiol a cham-drin plant a phobl ifanc yn rhywiol. Mae trefn blismona troseddau trefnedig yn arwain cymorth ac yn cydlynu'r ymdrech genedlaethol i nodi, mynd ar drywydd ac atal troseddau difrifol a threfnedig. Felly, dyna'r agweddau sy'n cael eu heithrio.

Yr hyn sydd ar ôl yw'r gwaith plismona o ddydd a wneir gan y pedwar heddlu yng Nghymru. Nid yw'r heddlu yn gweithio ar eu pen eu hunain. Yn gyntaf oll, maent yn gweithio'n agos iawn gyda'r gwasanaethau tân ac ambiwlans, sydd wedi eu datganoli. Pan fydd damweiniau'n digwydd mae'r rhan fwyaf o bobl yn galw'r heddlu, yn galw'r frigâd dân ac yn galw am ambiwlans. Dadl arall o blaid datganoli'r heddlu yw'r gallu i gysylltu plismona'n well â gwasanaethau eraill sydd wedi'u datganoli, fel cymorth i ddiodefnyr cam-drin domestig a'r gwasanaeth iechyd, fel y nododd Alun Michael. Bydd y modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ychwanegu 500 o swyddogion at y ddarpariaeth o swyddogion cymorth cymunedol yn cynyddu eu gweledd ac yn effeithio'n gadarnhaol ar lefelau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Swyddogion cymorth cymunedol yw wyneb cyhoeddus plismona bellach mewn nifer o gymunedau. Mewn llawer o achosion, maent wedi meithrin perthynas ragorol â'u cymunedau lleol. Rwy'n ymwybodol o ba mor weledol a phoblogaidd yw Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn nwyrain Abertawe, a byddwn yn dychmygu bod hynny'n wir ledled Cymru gyfan.

Many of the older generation would remember when we had watch committees responsible for policing in Wales. During most of the twentieth century, policing was a local government function controlled by the local watch committee of the relevant county or, in Swansea, Cardiff, Merthyr and Newport, by the county borough council. We then moved to the local watch committees to two police committees covering the whole of Glamorgan and Gwent, and two others covering the rest of Wales, with very little control over the local police force. The replacement of our police authorities by police commissioners is the only major structural change to have taken place in the forces since the 1960s.

Byddai llawer o'r genhedlaeth hŷn yn cofio pan oedd gennym bwyllgorau'r heddlu yn gyfrifol am blismona yng Nghymru. Dros y rhan fwyaf o'r ugeinfed ganrif, swyddogaeth llywodraeth leol oedd plismona wedi'i rheoli gan bwyllgor heddlu lleol y sir berthnasol neu gan y cyngor bwrdeistref sirol yn Abertawe, Caerdydd, Merthyr a Chasnewydd. Yna, symudasom o bwyllgorau heddlu lleol i ddau bwyllgor heddlu i gwmpasu Morgannwg a Gwent, a dau arall i gwmpasu gweddill Cymru, gydag ychydig iawn o reolaeth dros yr heddlu lleol. Cyfnewid ein hawdurdodau heddlu am gomisiynwyr heddlu yw'r unig newid strwythurol mawr a fu i'r heddluoedd ers y 1960au.

15:10 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:10 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Certainly.

Yn sicr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:10 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member has just gone over the history of the different ways we have governed the police over the years. If we were to see the police force devolved here in Wales, I would support, but would the Member support, having what has happened in Scotland, which is a single police force with a divisional control structure, here in Wales?

Mae'r Aelod wedi mynd dros hanes y gwahanol ffyrdd rydym wedi llywodraethu'r heddlu dros y blynyddoedd. Pe baem yn gweld yr heddlu'n cael eu datganoli yma yng Nghymru, byddwn yn cefnogi, ond a fyddai'r Aelod yn cefnogi'r hyn sydd wedi digwydd yn yr Alban, a chael un heddlu gyda strwythur rheoli isadrannol yma yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:10 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that that is a matter for another debate. I would go for a slightly different system. I would probably go for two: a south Wales police and a mid, west and north Wales police. However, I think that that is a debate for another day, and if we get devolved policing, and we are both here, I think it is a matter that we can engage in during that debate, and I look forward to it.

Rwy'n credu mai testun trafodaeth arall yw hynny. Byddwn yn dewis system ychydig yn wahanol. Mae'n debyg y byddwn yn dewis dwy: heddlu ar gyfer de Cymru a heddlu ar gyfer y canolbarth, y gorllewin a'r gogledd. Fodd bynnag, credaf mai dadl at eto yw honno ac os datganolir plismona, a'n bod ein dau yma, rwy'n credu mai mater i'w drafod yn ystod y ddadl honno fydd hynny, ac edrychaf ymlaen at wneud hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Policing is devolved to Scotland and Northern Ireland, so it is anomalous that it has not been devolved to Wales. The Northern Ireland Assembly, in March 2010, voted in favour of the devolution of policing, with just the Ulster Unionist Party voting against. What happened then? Well, three or four months later they had a department of justice in Northern Ireland and powers were devolved later that year. If we vote today in favour of devolving policing, who thinks that, come the summer of next year, we will have devolved policing?

Mae plismona wedi'i ddatganoli i'r Alban a Gogledd Iwerddon, felly mae'n anghyson nad yw wedi cael ei ddatganoli i Gymru. Ym mis Mawrth 2010, pleidleisiodd Cynulliad Gogledd Iwerddon o blaid datganoli plismona, a Phlaid Unoliaethwyr Ulster yn unig a bleidleisiodd yn erbyn. Beth a ddigwyddodd wedyn? Wel, dri neu bedwar mis yn ddiweddarach, roedd ganddynt adran gyfiawnder yng Ngogledd Iwerddon a datganolwyd pwerau yn ddiweddarach y flwyddyn honno. Pe baem yn pleidleisio heddiw o blaid datganoli plismona, pwy sy'n meddwl y bydd gennym blismona wedi'i ddatganoli erbyn yr haf y flwyddyn nesaf?

Looking at continental Europe and North America, it is Wales that appears out of step. Across most of the democratic world, other than the control of national security and serious crime, policing is carried out by the regional or local police forces. Law enforcement in Germany lies with the 16 federal states or Länder. Each lays down the organisation and duties of its police. Germany also has a central police force that is responsible for border security and the protection of federal buildings, and a mobile response force that is able to help out to reinforce state policing if requested. Law enforcement in Spain is complicated, but it basically breaks down into local policing and national policing. The United States of America, as people who watch television will be well aware, has federal agencies like the FBI, state agencies such as highway patrols and local policing by county and sheriff departments. What all of these have in common is that local policing is local and major crime and national security are dealt with at a national level.

What do the Welsh people think? A poll commissioned by the Silk commission arguing the case for the devolution of more powers to the Welsh Government from Westminster has reported significant public support for moving police powers for Wales to Cardiff. A survey carried out by Beaufort Research for the Silk commission found that 63% of the 2,009 respondents polled between May and June last year were in favour of policing powers in Wales being devolved from central Government in England. Only 35% of those who responded said that they wanted policing powers to remain as they are now, with eight in 10 also saying that they felt that the National Assembly for Wales worked in the best interests of the country and had given Wales a stronger voice in the UK.

I believe that the way forward is to devolve most policing to the National Assembly, but to keep the UK National Crime Agency and national security service. Just remember that, in 1960, the large cities of Britain policed themselves, without anyone outside the Home Office having any concerns. The Home Office then set about nationalising them. We should get back the right to police ourselves and hand local policing to the Welsh Government.

15:13

Mark Isherwood [Bywgraffiad Biography](#)

Just as devolution of the UK National Crime Agency and national security would be irresponsible, so would devolution of policing. We cannot agree with the Silk commission that there would not be substantial additional costs. As I said in the February 2006 debate on the then proposed Wales police merger, the police authorities told us that the additional all-Wales annual cost of reorganisation would be up to £57 million, with the chief constables saying that it would be even more. The introduction of the police and crime commissioners did mark an act of real devolution, empowering local communities to have their say on policing priorities and to hold an elected representative to account. We are concerned by evidence that—[Interruption.] Laughter, I am afraid, is pathetic. [Laughter.] We are concerned by evidence that the devolution of policing would compromise—[Interruption.] You weaken yourselves further. It could compromise cross-border working between police forces.

Gan edrych ar gyfandir Ewrop a Gogledd America, Cymru sydd i'w gweld ar ei hôl hi. Ar draws y rhan fwyaf o'r byd democrataidd, ac eithrio rheoli diogelwch gwladol a throseddu difrifol, caiff gwaith plismona ei wneud gan yr heddluoedd rhanbarthol neu leol. Yr 16 o wladwriaethau ffederal neu Länder sy'n gorfodi'r gyfraith yn yr Almaen. Mae pob un yn pennu trefn a dyletswyddau ei heddlu. Hefyd, mae gan yr Almaen heddlu canolog sy'n gyfrifol am ddiogelwch ar y ffin a gwarchod adeiladau ffederal, a heddlu ymateb symudol sy'n gallu helpu i atgyfnerthu plismona'r wladwriaeth os oes gofyn. Mae gorfodi'r gyfraith yn Sbaen yn gymhleth, ond yn y bôn mae'n cynnwys plismona lleol a phlismona cenedlaethol. Fel y bydd pobl sy'n gwyllo'r teledu yn gwybod, mae gan yr Unol Daleithiau asiantaethau ffederal fel yr FBI, asiantaethau'r wladwriaeth fel patrolau priffyrdd a phlismona lleol gan adrannau sirol a siryfion. Yr hyn sy'n gyffredin rhwng pob un o'r rhain yw bod plismona lleol yn lleol a bod troseddu mawr a diogelwch gwladol yn cael eu trin ar lefel genedlaethol.

Beth y mae pobl Cymru yn ei feddwl? Mae arolwg a gomisiynwyd gan gomisiwn Silk sy'n dadlau'r achos dros ddatganoli mwy o bwerau i Lywodraeth Cymru o San Steffan wedi nodi cefnogaeth gyhoeddus sylweddol i symud pwerau'r heddlu yng Nghymru i Gaerdydd. Yn ôl arolwg a gynhaliwyd gan Beaufort Research ar gyfer comisiwn Silk, roedd 63% o'r 2,009 o ymatebwyr a holwyd rhwng mis Mai a mis Mehefin y llynedd o blaid datganoli pwerau plismona yng Nghymru o'r Llywodraeth ganolog yn Lloegr. Dim ond 35% o'r rhai a ymatebodd a ddywedodd eu bod eisiau i bwerau plismona aros fel y maent yn awr, gydag wyth o bob 10 yn dweud hefyd eu bod yn teimlo bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gweithio er lles y wlad ac wedi rhoi llais cryfach i Gymru yn y DU.

Credaf mai'r ffordd ymlaen yw datganoli'r rhan fwyaf o waith plismona i'r Cynulliad Cenedlaethol, a chadw Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol y DU a gwasanaeth diogelwch gwladol. Ond cofiwch fod dinasoedd mawr Prydain yn plismona eu hunain ym 1960 heb i neb y tu allan i'r Swyddfa Gartref bryderu am y peth. Aeth y Swyddfa Gartref ati i'w gwladoli. Dylem ennill yr hawl i blismona ein hunain yn ôl a rhoi plismona lleol yn nwylo Llywodraeth Cymru.

Yn union fel y byddai datganoli Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol y DU a diogelwch gwladol yn anghyfrifol, felly hefyd y byddai datganoli plismona. Ni allwn gytuno â chomisiwn Silk na fyddai costau ychwanegol sylweddol. Fel y dywedais yn y ddadl ym mis Chwefror 2006 ar y cynnig i uno heddlu Cymru bryd hynny, dywedodd awdurdodau'r heddlu wrthym y byddai ad-drefnu'n costio hyd at £57 miliwn yn ychwanegol bob blwyddyn i Gymru, gyda'r prif gwnstabiaild yn dweud y byddai hyd yn oed yn fwy. Roedd cyflwyno'r comisiynwyr heddlu a throseddu yn weithred o ddatganoli go iawn, gan rymuso cymunedau lleol i gael llais ynghylch blaenoriaethau plismona ac i wneud cynrychiolydd etholedig yn atebol. Rydym yn bryderus ynglŷn â thystiolaeth fod—[Torri ar draws.] Mae'n druenus eich bod yn chwerthin, mae arnaf ofn. [Chwerthin.] Roeddem yn bryderus ynglŷn â thystiolaeth fod datganoli plismona yn bygwth—[Torri ar draws.] Rydych yn gwanhau eich hunain ymhellach. Byddai'n bygwth gwaith trawsffiniol rhwng heddluoedd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

When the Assembly's Social Justice and Regeneration Committee reviewed the structure of policing in 2005, our report noted that criminal activity does not recognise national or regional boundaries and that cross-border partnerships must reflect operational reality. As I said then, almost all the population of Wales lies along the M4 and A55 corridors, separated by a vast expansive rural hinterland, geography, history, transport links and very different policing requirements. Some, I said, had even suggested that the North Wales Police force should combine forces with the north-west of England. As I stated in the 2009 debate on cross-border issues, the Welsh Affairs Committee had identified a lack of co-ordination of cross-border services between England and Wales and stated that citizen engagement should not stop at the border. Mold Town Council had stated that there was no recognition of the relationship that the area's population had with north-west England. The border between England and Wales is long and porous and, as a result, cross-border movements in services are a long established fact of life, reflecting geographic and demographic realities. It should be a cause for celebration and co-operation rather than an obstacle to efficiency and effectiveness. The objective must be to do things better rather than being different just for the sake of it. We must avoid at all costs a slate curtain in services between these two British nations. As the Police and Crime Commissioner for Dyfed-Powys, Christopher Salmon, said, devolving policing was a 'power grab'. The Welsh Government's creeping politicisation of devolved public services is damaging, but the risk of this infecting policing is chilling.

As Labour MP David Hanson said when he was shadow Minister for police, devolving the control of the police to Cardiff would be a major step with many challenges and reducing crime was more important than deciding which Government manages the police.

He added,

'there are some really complex issues around this in relation to serious organised crime, counter terrorism, the legal system, justice, probation'.

It is not just a simple matter of devolving policing to Wales, he said,

'because counter terrorism, serious organised crime, cross-border issues, much of the crime in my part of Wales derives from people who live in England'.

Pan adolygodd Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio'r Cynulliad strwythur plismona yn 2005, nododd ein hadroddiad nad yw gweithgarwch troseddol yn cydnabod ffiniau cenedlaethol na rhanbarthol ac mae'n rhaid i bartneriaethau trawsffiniol adlewyrchu realiti gweithredol. Fel y dywedais bryd hynny, mae holl boblogaeth Cymru bron ar hyd coridorau'r M4 a'r A55, wedi'u gwahanu gan gefnwlad helaeth eang wledig, daearyddiaeth, hanes, cysylltiadau trafniadaeth a gofynion plismona gwahanol iawn. Fel y dywedais, roedd rhai hyd yn oed yn awgrymu y dylai Heddlu Gogledd Cymru uno â gogledd-orllewin Lloegr. Fel y dywedais yn y ddatl yn 2009 ar faterion trawsffiniol, roedd y Pwyllgor Materion Cymreig wedi nodi diffyg cydgysylltiad rhwng gwasanaethau trawsffiniol rhwng Cymru a Lloegr a dywedodd na ddylai ymgysylltiad dinasyddion ddod i ben ar y ffin. Roedd Cyngor Tref yr Wyddgrug wedi nodi nad oedd unrhyw gydnabyddiaeth o'r berthynas rhwng poblogaeth yr ardal a gogledd-orllewin Lloegr. Mae'r ffin rhwng Cymru a Lloegr yn hir a hydraid ac o ganlyniad, mae symudiadau trawsffiniol gwasanaethau yn un o ffeithiau hirsefydlog bywyd, sy'n adlewyrchu realiti daearyddol a demograffig. Dylai fod yn achos dathlu a chydweithredu yn hytrach na'n rhwystr i effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Gwneud pethau'n well ddylai'r nod fod yn hytrach na bod yn wahanol dim ond er mwyn bod yn wahanol. Ar bob cyfrif, rhaid i ni osgoi gosod llen lechi rhwng gwasanaethau'r ddwy genedl Brydeinig hon. Fel y dywedodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, Christopher Salmon, 'cythru am bŵer' oedd datganoli plismona. Mae dull Llywodraeth Cymru o wleidyddoli graddol ar wasanaethau cyhoeddus datganoledig yn niweidiol, ond mae'r perygl y bydd hyn yn heintio plismona yn codi ofn.

Fel y dywedodd AS Llafur David Hanson pan oedd yn Weinidog yr wrthblaid dros yr heddlu, byddai datganoli rheolaeth ar yr heddlu i Gaerdydd yn gam mawr gyda llawer o heriau ac roedd lleihau troseddu yn bwysicach na phenderfynu pa Lywodraeth sy'n rheoli'r heddlu.

Ychwanegodd,

'Mae rhai materion gwirioneddol gymhleth yn codi o hyn mewn perthynas â throseddu difrifol a threfnedig, gwrthderfysgaeth, y system gyfreithiol, cyfiawnder, y gwasanaeth prawf'.

Nid mater syml o ddatganoli plismona i Gymru yn unig yw hyn, meddai,

'Oherwydd gwrthderfysgaeth, troseddu difrifol a threfnedig a materion trawsffiniol, mae llawer o'r troseddu yn fy rhan i o Gymru yn tarddu o bobl sy'n byw yn Lloegr'.

As my contacts in North Wales Police told me last week, they have a closer affiliation with north-west England than the rest of Wales, including a joint firearms unit, protective services and emergency backup. They added that there is a lack of competence in Welsh Government to handle the devolution of policing, unlike in England and Scotland. They asked where the money would come from to set up the equivalent of a Welsh Home Office and stated that the focus should instead be on unscheduled healthcare and care in the community, where they said hospitals are at capacity, no ambulances are available and people are therefore ringing the police, putting real and growing pressure on them.

The police federation has taken a neutral position. In its 'A Consensus on Policing in Wales' book, launched here last night, former Gwent chief constable Mick Giannasi states:

'whilst I could see there might be some strategic benefits from the devolution of police, there are also serious operational risks...putting aside the ideological arguments... the list of potential benefits for me is a relatively short one'.

'With under 7,000 police officers, Wales is too small to stand alone in Policing terms. In a devolved environment, it would continue to rely heavily on English Forces for its resilience both in terms of mutual aid for major incidents and large scale events and in terms of specialist support in areas like Counter Terrorism and serious and organised crime'.

As he said,

'the cost of creating 'stand alone' resilience would be prohibitive and difficult to justify'.

Fel y dywedodd fy nghysylltiadau yn Heddlu Gogledd Cymru wrthyf yr wythnos diwethaf, mae ganddynt gysylltiad agosach â gogledd-orllewin Lloegr na gweddill Cymru, yn cynnwys uned arfau tanio ar y cyd, gwasanaethau diogelu a chymorth wrth gefn mewn argyfwng. Ychwanegant fod diffyg cymhwysedd gan Lywodraeth Cymru i ymdrin â datganoli plismona, yn wahanol i Loegr a'r Alban. Gofynasant o ble fyddai'r arian yn dod i sefydlu'r hyn a fyddai'n cyfateb i Swyddfa Gartref Gymreig a dywedasant y dylid canolbwyntio yn lle hynny ar ofal iechyd heb ei drefnu a gofal yn y gymuned, lle roeddent yn dweud fod yr ysbytai'n llawn, nid oes ambiwlansys ar gael ac mae pobl felly'n ffonio'r heddlu, gan roi pwysau go iawn a chynyddol arnynt.

Mae ffederasiwn yr heddlu wedi datgan safbwynt niwtral. Yn ei lyfr, 'A Consensus on Policing in Wales' a lanswyd yma neithiwr, mae cyn-brif gwnstabl Gwent, Mick Giannasi, yn datgan fel hyn:

'Er fy mod yn gallu gweld y gallai fod rhai manteision strategol o ddatganoli'r heddlu, mae yna beryglon gweithredol difrifol hefyd... gan roi'r dadleuon ideolegol o'r neilltu... mae'r rhestr o fanteision posibl i mi yn un gymharol fer'.

'Gyda llai na 7,000 o swyddogion yr heddlu, mae Cymru yn rhy fach i sefyll yn annibynnol o ran Plismona. Mewn amgylchedd datganoledig, byddai'n parhau i ddibynnu'n drwm ar heddluoedd yn Lloegr i fod yn gydnherth o ran cymorth ar y cyd ar gyfer digwyddiadau ac achlysuron mawr ac o ran cymorth arbenigol mewn meysydd fel gwrthderfysgaeth a throseddau difrifol a threfnedig '.

Fel y dywedodd,

'byddai'r gost o greu cydnherthedd annibynnol yn afresymol ac yn anodd ei chyfiawnhau.

15:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I just want to remind Members that this is a debate for backbenchers, so if we can just remember that.

Hoffwn atgoffa'r Aelodau mai dadl i aelodau'r meinciau cefn yw hon, felly os gallwn gofio hynny, dyna'i gyd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:18 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The devolution of policing is not simply a point of principle. I think that it is a fundamental step forward on our devolution journey that we must take to secure integrated, cohesive public services. The second Silk commission report made new powers over policing a key recommendation for the future of devolution as part of a package of reform to create a clear and stable devolution settlement. It was encouraging to see a positive response from the Welsh Government on those recommendations, even if its Labour colleagues in Westminster are not quite so enthusiastic. However, I am optimistic that the question relating to the devolution of policing is now not 'if' but 'when'.

Nid mater o egwyddor yn syml yw datganoli plismona. Credaf ei bod yn gam hollbwysig ymlaen ar ein taith ddatganoli sy'n rhaid i ni ei gymryd er mwyn sicrhau gwasanaethau cyhoeddus integredig, cydlynol. Gwnaeth ail adroddiad comisiwn Silk bwerau newydd dros blismona yn un o'r argymhellion allweddol ar gyfer dyfodol datganoli clir a sefydlog. Roedd yn galonogol gweld ymateb cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru ar yr argymhellion hynny, hyd yn oed os nad yw eu cydweithwyr Llafur yn San Steffan yr un mor frwdfrydig. Fodd bynnag, rwy'n obeithiol mai cwestiwn ynghylch 'pa bryd' yn hytrach nag 'os' yw datganoli plismona bellach.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

As set out by Mike Hedges earlier, the devolution of policing is in the interest of all those living in Wales. Far from weakening policing, which is the fear sometimes expressed by opponents, it would strengthen it by enabling greater integration between the police and other public services—an area that I think needs considerable improvement.

Last week, Her Majesty's Inspectorate of Constabulary published a report following an investigation into all the police forces in England and Wales, which found that Gwent police, in my own area, is failing on all levels of policing. I want to draw your attention in particular to the significant concerns raised by HMIC over how the force responds to victims of domestic abuse. This is despite tackling domestic violence being a stated priority of the Gwent force following a number of high-profile cases where serious institutional failings were found to have taken place. Joanna Michael was murdered by her partner after calling 999 twice for help. Three years later, Caroline Parry was shot dead by her estranged husband in the street in Newport, again following contact with the police, when she had asked for help. Despite promises to improve, the Independent Police Complaints Commission is once again investigating Gwent Police after a woman was stabbed by her ex-partner within hours of letting the force know that he was contacting her, in breach of a harassment order. The IPCC reports on Welsh police force cases make for very sorry reading.

These cases, of course, are tragic and the issues are not confined to Gwent. I will be watching the outcomes of the investigations to see what action needs to be taken. Meanwhile in the Assembly, the Gender-based Violence, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill is making its way through our processes. While I have been an outspoken critic of some of the limitations of this Bill, I appreciate that the Welsh Government's intention is improving and ending the postcode lottery for services for victims. However, this will have no impact on the police until powers over policing are devolved.

So, how can the Welsh Government successfully improve all services for victims of domestic abuse under a devolution settlement that limits the scope of its work, and how can any Welsh Government deliver successful and integrated public services without the powers to do so? It is already the case that devolution has benefited the police in Wales; an HMIC report from 2011 on the impact of austerity cuts showed that Dyfed-Powys, North Wales and South Wales Police forces faced less than average cuts in their budgets because of decisions made by the One Wales Government. I believe that the Welsh Government has the competence to deliver improvements on policing.

Fel y nodwyd gan Mike Hedges yn gynharach, mae datganoli plismona o fudd i bawb sy'n byw yng Nghymru. Ymhell o fod yn gwanhau plismona, sef yr ofn a fynegir weithiau gan wrthwynebwyr, byddai'n ei gryfhau drwy alluogi mwy o integreiddio rhwng yr heddlu a gwasanaethau cyhoeddus eraill—maes sydd angen ei wella'n sylweddol yn fy marn i.

Yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd Arolygiaeth Ei Mawrhydi adroddiad yn dilyn ymchwiliad i holl heddluoedd Cymru a Lloegr, a ganfu fod Heddlu Gwent, yn fy ardal fy hun, yn methu ar bob lefel o blismona. Rwyf am dynnu eich sylw yn arbennig at y pryderon sylweddol a godwyd gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi ynghylch y modd y mae'r heddlu yn ymateb i rai sy'n dioddef cam-drin domestig. Mae hyn er bod trais domestig yn flaenoriaeth sydd wedi'i datgan gan heddlu Gwent yn dilyn nifer o achosion proffil uchel lle canfuwyd bod diffygion sefydliadol difrifol wedi digwydd. Cafodd Joanna Michael ei llofruddio gan ei phartner ar ôl ffonio 999 ddwywaith am help. Dair blynedd yn ddiweddarach, saethwyd Caroline Parry yn farw ar y stryd yng Nghasnewydd gan ei gŵr ymddieithriedig, unwaith eto ar ôl cysylltu â'r heddlu i ofyn am gymorth. Er gwaethaf addewidion i wella, mae Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu unwaith eto'n ymchwilio i Heddlu Gwent ar ôl i ddynes gael ei thrywanu gan ei chynbartner o fewn oriau i adael i'r heddlu wybod ei fod yn cysylltu â hi, gan dorri gorchymyn aflonyddu. Mae adroddiadau'r Comisiwn Cwynion ar achosion heddluoedd Cymru yn ddiflas i'w darllen.

Mae'r achosion hyn, wrth gwrs, yn drasig ac nid yw'r materion wedi eu cyfyngu i Went. Byddaf yn gwylio canlyniadau'r ymchwiliadau i weld pa gamau sydd angen eu rhoi ar waith. Yn y cyfamser yn y Cynulliad, mae'r Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) yn gwneud ei ffordd drwy ein prosesau. Er fy mod wedi bod yn hyglyw fy meirniadaeth ynghylch rhai o gyfyngiadau'r Bil hwn, rwy'n gwerthfawrogi mai bwriad Llywodraeth Cymru yw gwella gwasanaethau a dod â'r loteri cod post i ben ar gyfer gwasanaethau i ddiodeffwyr. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn cael unrhyw effaith ar yr heddlu hyd nes y datganolir y pwerau dros blismona.

Felly, sut y gall Llywodraeth Cymru lwyddo i wella'r holl wasanaethau ar gyfer diodeffwyr cam-drin domestig o dan setliad datganoli sy'n cyfyngu ar gwmpas ei waith, a sut y gall unrhyw Lywodraeth Cymru gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus llwyddiannus ac integredig heb y pwerau i wneud hynny? Mae eisoes yn wir fod datganoli wedi bod o fudd i'r heddlu yng Nghymru; dangosodd adroddiad Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi yn 2011 ar effaith toriadau caledi fod Heddluoedd Dyfed-Powys, Gogledd Cymru a De Cymru wedi wynebu toriadau llai na'r cyfartaledd yn eu cyllidebau oherwydd penderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru'n Un. Credaf fod gan Lywodraeth Cymru y cymhwysedd i gyflawni gwelliannau ym maes plismona.

Devolving policing would also prevent the confusion over issues such as police and crime commissioners. The UK Government needed the Assembly's agreement for the reform of police authorities into police and crime panels as part of the introduction of police and crime commissioners. When we voted 'No' to give it that authority to change the rules in Wales, the UK Government brought the change through the backdoor anyway, undermining the democratically elected voice of the police. I hope that one of the first actions of the Welsh Government with powers over policing would be to abolish the police and crime commissioners completely, because far from empowering the electorate, they set the record for the lowest ever election turnout. We would never have had police and crime commissioners in Wales if we had the powers over policing that we need. I would prefer to scrutinise the Minister here in this Chamber than try to hold the regional crime commissioners to account through the inadequate structures available to me and to the public currently.

We need to improve the Welsh policing system so that it is firmly rooted in the needs and requirements of our communities. It will only be possible when powers over the police are devolved here.

15:23

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before I start my speech on this, I declare an interest, in that my son is a serving police officer with North Wales Police.

I rise to just ask a few questions. I remain to be convinced that it is possible to devolve policing without devolving powers over the criminal justice system. I know that the Silk commission and the Welsh Government have recommended that we should have devolution of policing, but without the criminal justice system question being addressed, it leaves me with a very stark choice to make as to whether that is the right choice for the people of Wales.

Criminal justice and policing are, in my mind, intrinsically linked. If you have the policing levers, I believe that you need the levers to change the criminal justice system. All of the agencies within the justice sphere have to work in collaboration in order to reduce offending and to protect the public. That is hard enough sometimes, and by devolving the police we would risk having yet another body—this time, the Welsh Government—with no real benefit being felt by our constituents.

There are issues around where offenders would serve their time. Who would pay for the time those prisoners served in England if we devolved the policing system?

Byddai datganoli plismona hefyd yn osgoi dryswch ynghylch materion megis y comisiynwyr heddlu a throseddu. Roedd Llywodraeth y DU angen cytundeb y Cynulliad i ddiwygio awdurdodau'r heddlu yn baneli'r heddlu a throseddu fel rhan o'r broses o gyflwyno comisiynwyr heddlu a throseddu. Wedi i ni bleidleisio yn erbyn rhoi'r awdurdod iddi i newid y rheolau yng Nghymru, cyflwynodd Llywodraeth y DU y newid drwy'r drws cefn beth bynnag, gan danseilio llais yr heddlu a etholwyd yn ddemocrataidd. Rwy'n gobeithio mai un o gamau cyntaf Llywodraeth Cymru gyda phwerau dros blismona fyddai dileu'r comisiynwyr heddlu a throseddu yn gyfan gwbl, gan eu bod ymhell o fod yn grymuso etholwyr, ac wedi torri'r record o ran y nifer isaf i bleidleisio mewn etholiad erioed. Ni fyddem byth wedi cael comisiynwyr heddlu a throseddu yng Nghymru pe bai gennym y pwerau dros blismona sydd eu hangen arnom. Byddai'n well gennyf graffu ar waith y Gweinidog yma yn y Siambr hon na cheisio dwyn y comisiynwyr troseddau rhanbarthol i gyfrif drwy'r strwythurau annigonol sydd ar gael i mi ac i'r cyhoedd ar hyn o bryd.

Mae angen i ni wella'r system blismona yng Nghymru er mwyn ei sefydlu'n gadarn ar anghenion a gofynion ein cymunedau. Bydd ond yn bosibl pan fydd pwerau dros yr heddlu wedi'u datganoli yma.

Cyn i mi ddechrau fy araith ar hyn, rwy'n datgan buddiant, gan fod fy mab yn gweithio fel swyddog heddlu gyda Heddlu Gogledd Cymru.

Rwy'n codi i ofyn ychydig o gwestiynau, dyna'i gyd. Rwy'n parhau heb fy argyhoeddi ei bod yn bosibl datganoli plismona heb ddatganoli pwerau dros y system cyfiawnder troseddol. Gwn fod comisiwn Silk a Llywodraeth Cymru wedi argymhell y dylem ddatganoli plismona, ond heb fynd i'r afael â'r cwestiwn ynglŷn â'r system cyfiawnder troseddol, mae'n ei gwneud yn anodd iawn i mi benderfynu ai dyna'r dewis iawn ar gyfer pobl Cymru.

Mae cyfiawnder troseddol a phlismona yn sylfaenol gysylltiedig â'i gilydd yn fy meddwl i. Os oes gennych yr ysgogiadau plismona, rwy'n credu eich bod angen yr ysgogiadau i newid y system cyfiawnder troseddol. Mae'n rhaid i bob asiantaeth ym maes cyfiawnder gydweithio er mwyn lleihau troseddau ac i ddiogelu'r cyhoedd. Mae hynny'n ddigon anodd weithiau, a thrwy ddatganoli'r heddlu byddem mewn perygl o gael corff arall eto—Llywodraeth Cymru y tro hwn—heb i'n hetholwyr deimlo unrhyw fudd go iawn.

Mae materion yn codi ynghylch ble y byddai troseddwyr yn cael eu carcharu. Pwy fyddai'n talu am yr amser y byddai carcharorion yn ei dreulio yn Lloegr pe baem yn datganoli'r system blismona?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cross-border collaboration is an important part of protecting the public in my constituency. Mark Isherwood has referred to the North Wales Police firearms unit, which is now being shared in collaboration with Cheshire Police. I do not know who Mark's people are, but senior officers have told me that this is a good collaboration for financial and operational reasons. However, I do think that that could be at risk if policing was to be devolved. One thing I am sure of, if policing were devolved, is that there is a consensus, if you take the Tories out of the equation, that we would scrap police and crime commissioners. Of course, I would welcome that proposal with open arms, as policing should remain being run operationally by officers who have served through every rank within the police force and got to the top. Police and crime commissioners have been an expensive failed experiment, and while police and crime commissioners do not have responsibility for day-to-day operations, the lack of clear boundaries for them from the Home Office has led to some of them overstepping those marks.

I cannot agree with Simon Thomas on this occasion on the fact that we should have one Wales police force as they have done in Scotland. I cannot buy into this idea of 'for Wales, see Scotland'. We are on a different devolution journey here, I think, and we need to guard against any knee-jerk reactions that just push us down the same road of having one national police force. The Assembly and the Welsh Government just need to look at these issues a little bit more clearly than we are doing. I have always thought that we should devolve powers where we can make a real difference and where there are clear policy considerations to make for that case. Simply saying that we want powers because Scotland has them is a very weak argument.

However, we also need to guard against calls for devolving powers as a knee-jerk reaction to austerity. We know that a Tory Government, whose main goal is to cut out most of the much-needed public services, is not inevitable. Crime sharply reduced under Blair and Brown, and the role of community safety was expanded by introducing community support officers here and other measures. Given the steep reduction we have seen in police numbers and with further revelations in the media that officer numbers under a future Tory Government could be driven down even further, we will see the police being able to function only as a reactionary service and jeopardise all of the proactive work that really helps those communities. Here, I just want to pay tribute to chief inspector Jason Davenport from my own central patch who initiated a clean-up arrangement along with beat bobby Les Jones from west Rhyl. They have done that through a multi-agency approach and actually gone out proactively, talking to the community. In the process, I think that they arrested a person as well so that was an extra bonus.

Mae cydweithredu trawsffiniol yn rhan bwysig o ddiogelu'r cyhoedd yn fy etholaeth. Cyfeiriodd Mark Isherwood at uned arfau tanio Heddlu Gogledd Cymru sydd bellach yn cael ei rhannu gyda Heddlu Swydd Gaer. Nid wyf yn gwybod pwy yw'r bobl y soniodd Mark amdanynt, ond mae uwch swyddogion wedi dweud wrthyf fod hon yn enghraifft dda o gydweithredu am resymau ariannol a gweithredol. Fodd bynnag, rwy'n credu y gallai hynny fod mewn perygl pe bai plismona'n cael ei ddatganoli. Un peth rwy'n sicrhono, os datganolir plismona, rhaid cael consensws, heb gynnwys y Torïaid, y byddem yn cael gwared ar y comisiynwyr heddlu a throseddu. Wrth gwrs, byddwn yn croesawu'r cynnig hwnnw gyda breichiau agored gan y dylai plismona barhau i gael ei redeg yn weithredol gan swyddogion sydd wedi gwasanaethu drwy bob rheng o fewn yr heddlu cyn cyrraedd y brig. Mae comisiynwyr heddlu a throseddu wedi bod yn arbrawf drud sydd wedi methu ac er nad oes gan gomisiynwyr heddlu a throseddu gyfrifoldeb am weithrediadau o ddydd i ddydd, mae'r diffyg ffiniau clir ar eu cyfer gan y Swyddfa Gartref wedi golygu bod rhai ohonynt wedi croesi'r ffiniau hynny.

Ni allaf gytuno â Simon Thomas ar yr achlysur hwn ynghylch cael un heddlu i Gymru fel y maent wedi'i wneud yn yr Alban. Ni allaf dderbyn y syniad 'ar gyfer Cymru, gweler yr Alban'. Rydym ar daith ddatganoli wahanol yma yn fy marn i, ac mae angen i ni wyllo rhag unrhyw adweithiau difeddwl sy'n ein gwthio ar hyd yr un ffordd o gael un heddlu cenedlaethol. Mae angen i'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru edrych ar y materion hyn ychydig yn fwy gofalus na rydym yn ei wneud. Rwyf bob amser wedi meddwl y dylem ddatganoli pwerau lle y gallwn wneud gwahaniaeth go iawn a lle y ceir ystyriaethau polisi clir dros achos o'r fath. Mae dweud yn syml ein bod eisiau pwerau am fod gan yr Alban bwerau yn ddadl wan iawn.

Fodd bynnag, mae angen i ni warchod rhag galwadau i ddatganoli pwerau fel adwaith difeddwl i galedi. Gwyddom nad yw Llywodraeth Doriáidd, gyda dileu'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau cyhoeddus mawr eu hangen yn brif nod iddi, yn anochel. Cafwyd gostyngiad mawr yn lefelau troseddu o dan Blair a Brown, ac ehangwyd swyddogaeth diogelwch cymunedol drwy gyflwyno swyddogion cymorth cymunedol yma ynghyd â mesurau eraill. O ystyried y gostyngiad serth a welsom yn niferoedd swyddogion heddlu a datgeliadau pellach yn y wasg y gallai Llywodraeth Doriáidd yn y dyfodol gwtogi niferoedd swyddogion hyd yn oed ymhellach, gwelwn mai fel gwasanaeth adweithiol yn unig fydd yr heddlu'n gallu gweithredu gan beryglu'r holl waith rhagweithiol sy'n help go iawn i'r cymunedau hynny. Yn y fan hon, hoffwn dalu teyrnged i'r prif arolygydd Jason Davenport o fy milltir sgwâr fy hun a aeth ati i weithredu cynllun ar gyfer cael gwared ar droseddu gyda'r heddwas bit, Les Jones o orllewin y Rhyl. Gwnaethant hynny drwy ddull amlasiantaethol a mynd allan yn rhagweithiol i siarad â'r gymuned. Yn y broses, rwy'n credu eu bod wedi arestio rhywun hefyd felly roedd hynny'n fonws ychwanegol.

However, the simple solution to this is to elect a UK Labour Government next May—a Labour Government that will scrap PCCs and invest in making our society safer. Presiding Officer, devolution is a journey. I want to see us take more decisions here in Wales, by politicians elected by the people of Wales. As a founding Member of this Assembly, I have been proud as we have seen the capacity and competence of the Assembly grow. However, there is still much more work needed on this. I thank the individual Members for bringing this forward. I think that it is an opportunity for backbenchers to express their views.

15:29

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am delighted to have the opportunity to talk in this debate. I think that it is very healthy that we have this debate. It really does need to be had. I come at it from an operational angle, I suppose. My previous job was as a police officer for 32 years in the Metropolitan Police. The last eight years of those I spent on the National Crime Squad, which was the forerunner of today's National Crime Agency.

During my time as a police officer, there were always many experts lining up with ideas and plans to reform policing. It was to some of us a source of annoyance that there were always people who knew better. It was often, if not always, the case that these people lacked some understanding of what policing and operational policing are really about and lacked practical knowledge of policing. I do not believe that policing should be devolved to Wales as I do not believe there is a demand for it. I firmly believe that police and crime commissioners have already delivered real community policing, in England and Wales. I will say it quite openly: I had reservations about the police and crime commissioners at the outset, and I was not that enthusiastic about them. However, I have to say that it is a very democratic process, and, no matter how many people vote for it, the fact is that it does work. When I look—as has already been mentioned—to people like Chris Salmon down in Dyfed Powys, who is making an excellent job of it, I think that it really does have a future.

I will now turn to cross-border crime—and I will return to it again in a moment. Cross-border crime, international crime and online crime make the case for the Welsh Government taking over from the Home Office very weak indeed. I simply do not understand where the demand for the devolution for policing lies. Despite claims to the contrary, other than perhaps a passion for control, I have seen no public demand here in Wales for the Welsh Government to run policing; in fact, it is quite the opposite when I speak to operational officers, as I did even last night at the police federation function.

Fodd bynnag, yr ateb syml i hyn yw ethol Llywodraeth Lafur ar gyfer y DU fis Mai nesaf—Llywodraeth Lafur a fydd yn cael gwared ar Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau ac yn buddsoddi yn y gwaith o wneud ein cymdeithas yn fwy diogel. Lywydd, taith yw datganoli. Rwyf am ein gweld yn gwneud mwy o benderfyniadau yma yng Nghymru gan wleidyddion wedi'u hethol gan bobl Cymru. Fel un o Aelodau gwreiddiol y Cynulliad hwn, rwyf wedi bod yn falch o weld gallu a chymhwysedd y Cynulliad yn tyfu. Fodd bynnag, mae llawer o waith yn dal i'w wneud ar hyn. Diolch i'r Aelodau unigol am gyflwyno hyn. Credaf ei fod yn gyfle i aelodau'r meinciau cefn fynegi eu barn.

Rwyf wrth fy modd yn cael cyfle i siarad yn y ddadl hon. Rwy'n credu ei bod yn iach iawn ein bod yn cael y ddadl hon. Mae gwir angen ei chael. Rwy'n edrych ar y mater o safbwynt gweithredol, mae'n debyg. Bûm yn heddwes gyda'r Heddlu Metropolitaidd am 32 mlynedd, dyna oedd fy swydd flaenorol. Treuliais yr wyth mlynedd olaf o'r rheiny gyda'r Uned Droseddau Genedlaethol, sef rhagflaenydd yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol presennol.

Yn ystod fy amser fel swyddog yr heddlu, roedd yna bob amser lawer o arbenigwyr yn barod i gyflwyno syniadau a chynlluniau ar gyfer diwygio plismona. Roedd yn achos diflastod i rai ohonom fod yna bob amser bobl a oedd yn gwybod yn well. Roedd yn aml yn wir, os nad bob amser, fod y bobl hyn yn brin o ddealltwriaeth o'r hyn roedd plismona a phlismona gweithredol yn ei olygu mewn gwirionedd ac roeddent yn brin o wybodaeth ymarferol am blismona. Nid wyf yn credu y dylai plismona gael ei ddatganoli i Gymru gan nad wyf yn credu bod galw am wneud hynny. Credaf yn gryf fod y comisiynwyr heddlu a throseddau eisoes wedi darparu plismona cymunedol go iawn yng Nghymru a Lloegr. Rwy'n ei ddweud yn gwbl agored: roedd gennyf amheuan ynghylch y comisiynwyr heddlu a throseddau ar y dechrau, ac nid oeddwn yn frwd iawn yn eu cylch. Fodd bynnag, rhaid i mi ddweud ei bod yn broses ddemocrataidd iawn ac ni waeth faint o bobl a bleidleisiodd drosti, y ffaith yw ei bod yn gweithio. Fel sydd eisoes wedi cael ei grybwyll, pan edrychaf ar bobl fel Chris Salmon yn Nyfed Powys, sy'n gwneud gwaith rhagorol, credaf fod dyfodol go iawn i'r broses.

Trof yn awr at droseddau trawsffiniol—a byddaf yn dychwelyd ato eto mewn munud. Mae troseddau trawsffiniol, troseddau rhyngwladol a throseddau ar-lein yn gwneud achos Llywodraeth Cymru dros gymryd drosodd gan y Swyddfa Gartref yn wan iawn yn wir. Yn syml, ni allaf ddeall ble y mae'r galw am ddatganoli plismona. Er gwaethaf honiadau i'r gwrthwyneb, ac eithrio ysa am reolaeth o bosibl, nid wyf wedi gweld unrhyw alw cyhoeddus yma yng Nghymru ar i Lywodraeth Cymru ysgwyddo'r cyfrifoldeb am blismona; yn wir, mae'r gwrthwyneb yn wir wrth i mi siarad â swyddogion gweithredol fel y gwneuthum neithiwr ddiwethaf hyd yn oed yn y digwyddiad a gynhaliwyd gan ffederasiwn yr heddlu.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Why would the Welsh Government run policing better than the UK Government, or police and crime commissioners? The truth is that there is little discussion around Wales about policing with the general public, and about policing being given to the Welsh Government, and, indeed, why should there be? I think that it is divisive, and it would possibly open such issues as regional pay—something that I very much object to.

Crime is falling year on year under the UK Government currently, and the figures point to that. Police and crime commissioners now offer the most radical, localised policing solutions that we have seen. Indeed, talk to lawyers—and my own son is a barrister—and they will say the same, namely that they currently have the ability to practice across a jurisdiction that is seen as one of the fairest and most successful in the world.

The Welsh Government made the devolution of policing the main plank of its submission to the second part of the Silk commission process into the powers of the National Assembly, saying that it made sense when other emergency services were devolved already. Let me say this loudly and clearly: the only similarity between the emergency services is three little numbers—999. So, that logic is flawed, and, I think, demonstrates a real lack of understanding of operational policing.

Policing is about intelligence gathering and intelligence sharing. This is a national issue.

Pam y byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith plismona'n well na Llywodraeth y DU, neu'r comisiynwyr heddlu a throseddu? Y gwir yw nad oes llawer o drafodaeth wedi bod gyda'r cyhoedd yng Nghymru ynghylch plismona ac ynghylch rhoi plismona yn nwylo Llywodraeth Cymru, ac yn wir, pam y dylai fod? Rwy'n credu ei fod yn bwnc a allai achosi rhywyg, a byddai o bosibl yn agor y drws ar faterion fel cyflog rhanbarthol—rhywbeth rwy'n ei wrthwynebu'n fawr iawn.

Mae lefelau troseddu'n gostwng o flwyddyn i flwyddyn o dan Lywodraeth y DU ar hyn o bryd, ac mae'r ffigurau'n dynodi hynny. Comisiynwyr heddlu a throseddu bellach sy'n cynnig yr atebion plismona mwyaf radical a lleol a welsom. Yn wir, siaradwch â chyfreithwyr—ac mae fy mab yn fargyfreithiwr—a byddant yn dweud yr un peth, sef eu bod ar hyn o bryd yn gallu gweithio ar draws awdurdodaeth sy'n cael ei hystyried yn un o'r tecaf a mwyaf llwyddiannus yn y byd.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru fater datganoli plismona yn brif destun ei chyflwyniad i'r ail ran o broses comisiwn Silk ar bwerau'r Cynulliad Cenedlaethol, gan ddweud ei fod yn gwneud synnwyr am fod gwasanaethau brys eraill wedi'u datganoli eisoes. Gadewch i mi ddweud hyn yn uchel ac yn glir: yr unig debygrwydd rhwng y gwasanaethau brys yw'r tri rhif bach—999. Felly, nid yw'r rhesymeg honno'n dal dŵr ac rwy'n credu ei bod yn dangos diffyg dealltwriaeth go iawn o blismona gweithredol.

Mae plismona'n ymwneud â chasglu gwybodaeth a rhannu cuddwybodaeth. Mae hwn yn fater cenedlaethol.

- 15:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Will you take an intervention? A wnech chi dderbyn ymyriad?
- 15:32 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Oh, yes, certainly. O gwnaf, yn sicr.
- 15:32 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Just on the point that all three emergency services are the same, you will know that my background was in the fire service, and I would argue that, if I was to have an intruder, I would phone the fire service, because I know that I would get five firefighters as opposed to one officer. Ar y pwynt fod y tri gwasanaeth brys yr un fath, byddwch yn gwybod bod gen i gefndir yn y gwasanaeth tân, a byddwn yn dadlau y byddwn yn ffonio'r gwasanaeth tân pe bai gen i rywun yn tresmasu gan fy mod yn gwybod y byddwn yn cael pump o ddiffoddwyr tân yn hytrach nag un swyddog.
- 15:32 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
A matter of personal preference, I would suggest. I know who I would be phoning. Mater o ddewis personol, byddwn yn awgrymu. Rwy'n gwybod pwy y byddwn i'n eu ffonio.
- As I said, policing is about intelligence gathering and intelligence sharing. This is a national issue and organised criminals do not respect constabulary boundaries, and neither will they stop and consider our national boundary. Technology, transport and the internet have changed the face of policing, which demands a UK approach. Fel y dywedais, mae plismona'n ymwneud â chasglu gwybodaeth a rhannu cuddwybodaeth. Mae hwn yn fater cenedlaethol ac nid yw troseddwy'r trefnedig yn parhau ffiniau heddlu ac ni fyddant ychwaith yn ystyried ein ffiniau cenedlaethol. Mae technoleg, trafnidiaeth a'r rhyngwryd wedi newid plismona, sy'n gofyn am ymagwedd ar sail y DU gyfan.

I know that Mark Isherwood has already quoted from David Hanson's words, and I am not going to repeat them, other than to say that I would repeat just the bit that says:

'It isn't just a simple matter of devolving policing to Wales because counter terrorism, serious organised crime, cross-border issues, much of the crime in my part of Wales derives from people who live in England'.

I have to say that, during my time on the national crime squad, with cross-border issues, chief constables are very parochial sorts of people, and they look after their budgets, and it is very difficult, actually, to get them to spend money on cross-border initiatives. I think that devolving policing would make that even more challenging on a Wales-England basis. So, I think that David Hanson was spot on. Policing between England and Wales—unlike Scotland—is intrinsically linked, due to the porous nature of our border and the density of the population on either side.

Looking also to major events is a terrific testament to the England and Wales police forces—for example, how they safeguarded the NATO conference—and they are to be congratulated. The organisation at the moment can move resources with ease and very little bureaucratic or political interference. So, for me, it is certainly a case of keeping it as it is. Why on earth mess with the fundamentals of a system that is admired around the world, and that, frankly, proves itself on a daily basis?

15:34

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to congratulate Mike Hedges, and other colleagues here, for putting forward this motion; I am very pleased to support it. I do believe very strongly that policing should be devolved to Wales, and I believe that it has the support of most of the public in Wales.

It is a major public service and I believe that it should be working along with the other public services. I think that they are very much interchanged. Levels of crime are affected by the youth provision, education provision, community safety and public protection. All of those areas affect what level the crime is at, and all of those services are devolved. I believe that devolution would lead to more joined-up Government, a consistency of approach and an integrated approach, and I believe that that would lead to the reduction of crime. It is very important, when we look at what we would like to see devolved, that we see the actual impact of it. I agree with what Ann Jones said that we do not want to rush to devolve things just because Scotland has had them. I think that we need to look at them closely and see what the impact is on the people of Wales. I do believe that this would provide a better service for the people of Wales and would lead to crime reduction.

Gwn fod Mark Isherwood eisoes wedi dyfynnu o eiriau David Hanson ac nid wyf yn mynd i'w hailadrodd, heblaw'r darn bach sy'n dweud:

'Nid mater syml o ddatganoli plismona i Gymru yn unig yw hyn: oherwydd gwrthderfysgaeth, troseddu difrifol a threfnedig a materion trawsffiniol, mae llawer o'r troseddu yn fy rhan i o Gymru yn tarddu o bobl sy'n byw yn Lloegr'.

Mae'n rhaid i mi ddweud, yn ystod fy amser gyda'r uned droseddau genedlaethol, gyda materion trawsffiniol, fod prif gwnstabiliaid yn bobl blwyfol iawn eu natur, ac maent yn gofalu am eu cyllidebau, ac mae'n anodd iawn, mewn gwirionedd, i'w cael i wario arian ar fentrau trawsffiniol. Credaf y byddai datganoli plismona yn gwneud hynny hyd yn oed yn fwy heriol ar sail Cymru a Lloegr. Felly, credaf fod David Hanson yn llygad ei le ar hynny. Mae plismona rhwng Cymru a Lloegr—yn wahanol i'r Alban—wedi'i gysylltu'n annatod, oherwydd natur hydraiddd ein ffin a dwysedd y boblogaeth ar y naill ochr a'r llall.

Mae edrych hefyd ar ddigwyddiadau mawr yn cynnig tystiolaeth wych o waith heddluoedd Cymru a Lloegr—er enghraifft y modd yr aethant ati i warchod cynhadledd NATO—ac maent i'w llongyfarch. Ar hyn o bryd, gall y sefydliad symud adnoddau'n rhwydd a heb lawer o ymyrraeth fiwrocraidd neu wleidyddol. Felly, i mi, mae'n sicr yn fater o gadw pethau fel y maent. Pam ar y dddear y byddem yn ymyrryd yn hanfodion system sy'n cael ei hedmygu ym mhob cwr o'r byd ac sydd, a bod yn onest, yn profi ei gwerth yn ddyddiol?

Hoffwn longyfarch Mike Hedges a chydweithwyr eraill yma am gyflwyno'r cynnig hwn; rwy'n falch iawn o'i gefnogi. Rwy'n credu'n gryf iawn y dylai plismona gael ei ddatganoli i Gymru ac rwy'n credu ei fod yn cael cefnogaeth y rhan fwyaf o'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae'n wasanaeth cyhoeddus pwysig a chredaf y dylai fod yn gweithio ochr yn ochr â'r gwasanaethau cyhoeddus eraill. Rwy'n credu eu bod yn cydgyffwrdd yn aml iawn. Mae lefelau troseddu yn cael eu heffeithio gan y ddarpariaeth ieuentid, y ddarpariaeth addysg, diogelwch cymunedol a gwarchod y cyhoedd. Mae pob un o'r meysydd hynny'n effeithio ar lefel troseddu ac mae pob un o'r gwasanaethau hynny wedi'u datganoli. Rwy'n credu y byddai datganoli yn arwain at lywodraethu mwy cydgysylltiedig, cysondeb o ran ymagwedd a dull integredig, ac rwy'n credu y byddai hynny'n arwain at ostwng lefelau troseddu. Mae'n bwysig iawn, pan edrychwn ar yr hyn y byddem yn hoffi ei weld yn cael ei ddatganoli, ein bod yn gweld ei effaith wirioneddol. Rwy'n cytuno â'r hyn a ddywedodd Ann Jones nad ydym am ruthro i ddatganoli pethau oherwydd bod yr Alban wedi eu cael, a dim mwy na hynny. Credaf fod angen i ni edrych arnynt yn ofalus a gweld beth yw'r effaith ar bobl Cymru. Rwy'n credu y byddai hyn yn darparu gwell gwasanaeth i bobl Cymru ac yn arwain at leihau troseddu.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Several people here have already mentioned the issue of police and crime commissioners. I think that it would be very good if we did have police and crime commissioners devolved to Wales because we would then be able to legislate to remove them. In south Wales, of course, we do have the good fortune of having an experienced politician with a background in youth justice and the Home Office, and a deputy who has extensive knowledge of equal opportunities and policies to address domestic abuse. I want to pay tribute to them because this has meant that South Wales Police has had great foresight and has put domestic abuse at the top of the policy agenda. Alun Michael has given his views on this debate today and has sent in his strong support for the devolution of policing. So, I certainly want to acknowledge their contribution—

Mae nifer o bobl yma eisoes wedi crybwyll mater y comisiynwyr heddlu a throseddu. Credaf y byddai'n beth da iawn pe bai comisiynwyr heddlu a throseddu yn cael eu datganoli i Gymru oherwydd wedyn galledd ddeddfu i gael gwared arnynt. Yn ne Cymru, wrth gwrs, rydym yn ddigon ffodus i gael gwleidydd profiadol gyda chefnid ym maes cyfiawnder ieuencid a'r Swyddfa Gartref a dirprwy sydd â gwybodaeth helaeth am gyfle cyfartal a pholisïau i fynd i'r afael â cham-drin domestig. Hoffwn dalu teyrnged iddynt gan i hyn olygu bod Heddlu De Cymru wedi bod yn flaengar iawn ac wedi rhoi cam-drin domestig ar frig yr agenda bolisi. Mae Alun Michael wedi rhoi ei farn ar y ddatl hon heddiw ac wedi mynegi ei gefnogaeth gref i ddatganoli plismona. Felly, rwy'n sicr am gydnabod eu cyfraniad—

- 15:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Are you taking the intervention? I call Mark Isherwood. A ydych am gymryd yr ymyriad? Galwaf ar Mark Isherwood.
- 15:36 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Will you also acknowledge that the Police and Crime Commissioner for North Wales has supported funding for independent sexual violence advisers and the development of a north Wales domestic abuse strategy, and that there is good work going on across Wales on this basis? A wnewch chi hefyd gydnabod bod Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru wedi cefnogi cyllid ar gyfer cynghorwyr trais rhywiol annibynnol a datblygu strategaeth gam-drin domestig yng ngogledd Cymru, a bod gwaith da yn digwydd ledled Cymru ar y sail hon?
- 15:37 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I am not saying that there is no good work going on, but I am saying that the work on the domestic abuse agenda is outstanding in south Wales. I want to acknowledge that work, while saying at the same time that I think that we should get rid of police and crime commissioners. I know that the Labour Party in Westminster has said that if it gains power it will do so, and I think that that is absolutely the right thing to do. It is really ridiculous to think that they have the support of the public. Somebody has already mentioned the vote when they were actually elected. The votes for police and crime commissioners were absolutely derisory. The Electoral Commission says that the 15.1% turnout in the PCC elections was the lowest recorded level of participation at a peace time, non-local government election in the UK. Throughout the UK, the PCCs are totally male dominated, there is no-one from an ethnic minority, and also, bringing in the police and crime commissioners has brought a whole structure of expense that I think could be much better spent on front-line policing. I know that the Tories have an obsession with electing commissioners and mayors, but on the whole, the public does not want them. Nid wyf yn dweud nad oes unrhyw waith da yn digwydd, ond rwy'n dweud bod y gwaith ar yr agenda gam-drin domestig yn rhagorol yn ne Cymru. Hoffwn gydnabod y gwaith hwnnw gan ddweud ar yr un pryd fy mod yn credu y dylem gael gwared ar y comisiynwyr heddlu a throseddu. Gwn fod y Blaid Lafur yn San Steffan wedi dweud y bydd yn gwneud hynny os daw i rym, a chredaf mai hynny'n bendant yw'r peth iawn i'w wneud. Mae'n wirioneddol chwerthinllyd meddwl bod y cyhoedd yn eu cefnogi. Mae rhywun eisoes wedi sôn am y bleidlais pan gawsant eu hethol. Roedd y bleidlais dros y comisiynwyr heddlu a throseddu yn hollol wrthun. Dywed y Comisiwn Etholiadol mai'r nifer a bleidleisiodd yn etholiadau'r Comisiynwyr, sef 15.1%, oedd y lefel isaf o gyfranogiad a gofnodwyd adeg heddych mewn etholiad nad oedd yn etholiad llywodraeth leol yn y DU. Ledled y DU, dynion yw'r mwyafrif llethol o'r Comisiynwyr, nid oes neb o leiafrif ethnig, a hefyd, mae cyflwyno'r comisiynwyr heddlu a throseddu wedi creu strwythur cost cyfan y credaf y gellid ei wario'n llawer gwelld ar blismona rheng flaen. Gwn fod y Torïaid yn obsesiynol ynglŷn ag ethol comisiynwyr a meiri, ond ar y cyfan, nid yw'r cyhoedd mo'u heisiau.
- 15:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Are you taking another intervention? A wnewch chi dderbyn ymyriad arall?
- 15:38 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Oh sorry; yes. I did not see. O, mae'n ddrwg gen i. Nid oeddwn yn gwelld.
- 15:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call Nick Ramsay. Galwaf ar Nick Ramsay.

- 15:38 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- That is alright; I was not rising to vent an obsession on democracy, but we are all democrats here, and you must accept, Julie, that if you look at the voting figures for the National Assembly back in 1999, they were not wonderful. It takes a while for democratic institutions to bed in, does it not?
- Mae'n iawn; nid codi i wyntyllu obsesiwn gyda democratiaeth ydw i, ond rydym i gyd yn ddemocratiaid yma, a rhaid i chi dderbyn, Julie, os edrychwch ar y ffigurau pleidleisio ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol yn ôl ym 1999, nid oeddent yn wych. Mae'n cymryd ychydig o amser i sefydliadau democrataidd ymwreiddio, onid yw?
- 15:39 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I do not think that this institution is bedding in and, certainly, the vote was not 15%. I strongly support the devolution of policing and I also support getting rid of the police and crime commissioners. I know that Silk, and I believe that the Welsh Government has also said, that it will take longer to devolve justice, the courts, the prison service and probation, and I know that it has been said today that maybe policing should not be devolved before those other parts. However, I personally think that it is possible to devolve policing by itself, and I hope that we will be able to move towards devolved policing and then, later, move towards the devolution of probation, courts, criminal justice and all the justice system.
- Nid wyf yn credu bod y sefydliad hwn yn ymwreiddio ac yn bendant, nid oedd y bleidlais yn 15%. Rwy'n cefnogi datganoli plismona yn gryf ac rwyf hefyd yn cefnogi cael gwared ar y comisiynwyr heddlu a throseddu. Gwn fod Silk wedi dweud, a chredaf fod Llywodraeth Cymru hefyd wedi dweud y bydd yn cymryd mwy o amser i ddatganoli cyfiawnder, y llysoedd, y gwasanaeth carchardai a'r gwasanaeth prawf, ac rwy'n gwybod ei fod wedi ei ddweud heddiw efallai na ddylid datganoli plismona cyn y rhannau eraill hynny. Fodd bynnag, yn bersonol rwy'n credu ei bod hi'n bosibl datganoli plismona ar ei ben ei hun, ac rwy'n gobeithio y gallwn symud tuag at blismona datganoledig ac yna, yn nes ymlaen, tuag at ddatganoli'r gwasanaeth prawf, y llysoedd, cyfiawnder troseddol a'r holl system gyfiawnder.
- 15:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I call on the First Minister to speak on behalf of the Government—Carwyn Jones.
- Galwaf ar y Prif Weinidog i siarad ar ran y Llywodraeth—Carwyn Jones.
- 15:39 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- I thank Members for their contributions. A number of issues have arisen that have been missed, I think, on the Tory benches, and some issues that need to be addressed. First, as the Member for Swansea East has made very clear, he is not suggesting that the national crime agency should be devolved nor counter terrorism; that was as clear as daylight in what he said. Yet, from the Conservative benches, you would swear that that is exactly what he had said.
- Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau. Mae nifer o faterion wedi codi nad ydynt wedi cael eu clywed ar feinciau'r Torïaid, rwy'n credu, ac mae angen rhoi sylw i'r materion hynny. Yn gyntaf, fel y dywedodd yr Aelod dros Ddwyrain Abertawe yn glir iawn, nid yw'n awgrymu y dylid datganoli'r asiantaeth troseddu cenedlaethol na gwrthderfysgaeth; roedd hynny mor glir â golau dydd yn yr hyn a ddywedodd. Eto i gyd, o feinciau'r Ceidwadwyr, byddech yn tyngu mai dyna'n union a ddywedodd.
- No-one is suggesting that those issues should be devolved. What is being suggested—he did not put it quite this way, but if I could take the liberty—is roughly what Scotland has. There is a template there already in terms of devolution. In Scotland, policing is devolved subject to certain reservations with regard to serious crime. That is a template that would serve Wales, in my view, very well.
- Nid oes neb yn awgrymu y dylai'r materion hynny gael eu datganoli. Yr hyn sy'n cael ei awgrymu—nid fel hyn yn hollol y disgrifiodd ef y peth, ond os caniatewch i mi—yw'r hyn sydd gan yr Alban yn fras. Mae templed yno'n barod o ran datganoli. Yn yr Alban, mae plismona'n fater wedi ei ddatganoli gyda rhai eithriadau o ran troseddau difrifol. Dyna'r templed a fyddai'n gwasanaethau Cymru'n dda iawn yn fy marn i.

In listening to what Mark Isherwood said, he sounded like a voice of a man from 17 years ago, telling us how bad devolution was. Yes, of course Wales has a porous border, but the reality of the situation is that that does not stop us from delivering services in our own way. Of course there has to be cross-border co-operation, everybody understands that, but that does not mean that the responsibility for policy and funding should not rest in Wales. He made the point about the PCCs. For the PCC elections, the turnout, on average, was three times lower than the average turnout of an Assembly election. I accept, of course, that we would all like to see an Assembly election turnout being much higher, but at least it is not at the level of the PCCs. To suggest that they are widely accepted and widely supported in the community is certainly stretching it.

The reality is this: Wales had PCCs imposed. We had no choice. Scotland and Northern Ireland did not have them imposed. Wales alone of the 'four equal nations', as the Prime Minister has put it, had no choice as to whether this policy was taken forward. That must never happen again. Regardless of what a future Welsh Government might do if policing is devolved, at least the decision will be taken in Wales, by the people of Wales, and not by bureaucrats in Whitehall.

A lot has been made of cross-border co-operation. This is normal in the UK, unless you are arguing that Scotland should lose control over policing. Scotland has full cross-border co-operation with England and it has a porous border. There is not, as far as I am aware, an electric fence strung across the banks of the Tweed that means that the Scottish border is not porous. In the same way, you only have to look at the border between Northern Ireland and the Republic of Ireland to see an equally porous border compared to Wales, where there are large communities on both sides of the border. Yet, there is co-operation between two different sovereign states in those circumstances, particularly with regard to counter terrorism, but also with regard to ordinary crime. Are we really saying that it is beyond the realms of possibility for Wales and England to co-operate with policing when everybody else does it, even within the UK? Of course not. It is perfectly possible.

If we look at the NATO conference as one example: on the one hand, it is said that if you devolve policing, you will not get that co-operation; yet, on the other hand, it is also said that that co-operation was there even though two of the police forces that were involved are devolved anyway. So, of course you get co-operation, even at the moment, when there are two devolved police forces in Scotland and Northern Ireland.

Wrth wrando ar yr hyn a ddywedodd Mark Isherwood, swniai fel llais dyn 17 mlynedd yn ôl yn dweud wrthym peth mor wael oedd datganoli. Oes, wrth gwrs bod gan Gymru ffin hydraiddd ond realiti'r sefyllfa yw nad yw hynny'n ein hatal rhag cyflwyno gwasanaethau yn ein ffordd ein hunain. Wrth gwrs fod rhaid cael cydweithrediad trawsffiniol, mae pawb yn deall hynny, ond nid yw hynny'n golygu na ddylai'r cyfrifoldeb am bolisi a chyllid aros yng Nghymru. Gwnaeth y pwynt ynghylch y Comisiynwyr. Ar gyfer etholiadau'r Comisiynwyr, roedd y nifer a bleidleisiodd, ar gyfartaledd, dair gwaith yn is na'r nifer cyfartalog sy'n pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad. Rwy'n derbyn, wrth gwrs, y byddem i gyd yn hoffi gweld y nifer sy'n pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad yn llawer uwch, ond o leiaf nid yw ar yr un lefel â'r Comisiynwyr. Mae awgrymu eu bod yn cael eu derbyn yn eang a'u cefnogi'n helaeth yn y gymuned yn ymestyn pethau, yn bendant.

Dyma'r realiti: Bu i'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddau gael eu gorfodi ar Gymru. Ni chawsant eu gorfodi ar yr Alban a Gogledd Iwerddon. O'r 'pedair cenedl gyfartal', fel y disgrifiodd y Prif Weinidog, Cymru oedd yr unig genedl i beidio â chael dewis ynglŷn â gweithredu'r polisi hwn. Ni ddylai hynny ddigwydd byth eto. Waeth beth allai Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ei wneud os datganolir plismona, o leiaf bydd y penderfyniad yn cael ei gymryd yng Nghymru, gan bobl Cymru, ac nid gan ffwrocraidiaid yn Whitehall.

Mae llawer wedi sôn am gydweithredu trawsffiniol. Mae hyn yn normal yn y DU, oni bai eich bod yn dadlau y dylai'r Alban gollu rheolaeth dros blismona. Mae gan yr Alban gydweithrediad trawsffiniol llwyr â Lloegr ac mae'r ffin yn hawdd ei chroesi. Hyd y gwn i, nid oes ffens drydan wedi'i thaenu ar hyd glannau'r Tweed sy'n golygu na ellir croesi'r ffin i'r Alban. Yn yr un modd, nid oes ond rhaid edrych ar y ffin rhwng Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon i weld ffin yr un mor hwylus o'i chymharu â Chymru, lle ceir cymunedau mawr ar ddwy ochr y ffin. Eto i gyd, mae cydweithredu'n digwydd rhwng y ddwy wahanol wladwriaeth sofran dan yr amgylchiadau hynny, yn enwedig o ran atal terfysgaeth, ond hefyd o ran troseddau cyffredin. Ai dweud ydym mewn gwirionedd ei bod yn gwbl amhosibl i Gymru a Lloegr gydweithredu o ran plismona pan mae pawb arall yn gwneud hynny, hyd yn oed o fewn y DU? Nage, wrth gwrs. Mae'n gwbl bosibl.

Os edrychwn ar y gynhadledd NATO fel un enghraifft: ar y naill law, mae rhai'n dweud os datganolir plismona, na fydd y cydweithrediad hwnnw'n gallu digwydd; eto, ar y llaw arall, dywedir hefyd fod y cydweithrediad hwnnw wedi bodoli er bod dau o'r heddluoedd a oedd yn cymryd rhan wedi eu datganoli beth bynnag. Felly, wrth gwrs bod cydweithredu'n digwydd, hyd yn oed ar hyn o bryd, gyda'r heddluoedd datganoledig yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

In terms of the point that Ann Jones was making, she makes a fair point and it is one that needs addressing. Can you separate policing from the criminal justice system? Sorry, Ann. My answer is different to hers. I would say that you can. The reason I say that is that the police bring people to the door of the criminal justice system. The CPS escorts them through it. Once they are through that door, then the courts are involved, judges are involved, probation is involved and the prison service is involved. It is very difficult to devolve any of those services individually. For example, with probation, if you want to control the number of people coming through probation, you have to control sentencing policy and you have to control the way that criminal law is interpreted. None of this applies with the police. If you have control over the policy and funding of the police, it does not affect the criminal justice system.

Byron Davies made the point that he thought that this would affect the practice of law. It has no effect at all on the practice of law, because if policing policy and funding is devolved, the legal system is the same and nobody, regardless of what happens in the future, would want to make it difficult for barristers and solicitors in England and Wales to practice cross-border. That happens now in Northern Ireland, so that should not happen in Wales.

O ran y pwynt yr oedd Ann Jones yn ei wneud, sy'n bwynt teg ac yn un y dylem fynd i'r afael ag ef. Allwch chi wahanu plismona oddi wrth y system cyfiawnder troseddol? Mae'n ddrwg gennyf, Ann. Mae fy ateb yn wahanol i'w hun hi. Byddwn yn dweud y gallwch. Y rheswm a roddaf yw bod yr heddlu'n dod â phobl at ddrws y system cyfiawnder troseddol. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) yn eu hebrwng drwyddo. Unwaith y byddant wedi mynd drwy'r drws hwnnw, daw'r llysoedd yn rhan o'r sefyllfa, y barnwyr, y gwasanaeth prawf a'r gwasanaeth carchardai. Mae'n anodd iawn datganoli unrhyw un o'r gwasanaethau hynny yn unigol. Er enghraifft, gyda'r gwasanaeth prawf, os ydych am reoli nifer y bobl sy'n dod drwy'r gwasanaeth prawf, rhaid i chi reoli polisi dedfrydu a rhaid i chi reoli'r ffordd y mae cyfraith droseddol yn cael ei dehongli. Nid oes a wnelo hyn o gwbl â'r heddlu. Os oes gennych reolaeth dros bolisi a chyllid yr heddlu, nid yw'n effeithio ar y system cyfiawnder troseddol.

Gwnaeth Byron Davies y pwynt ei fod o'r farn y byddai hyn yn effeithio ar ymarfer y gyfraith. Nid yw'n cael unrhyw effaith o gwbl ar ymarfer y gyfraith, oherwydd os datganolir polisi plismona a chyllid, mae'r system gyfreithiol yr un fath ac nid oes neb, waeth beth a ddigwydd yn y dyfodol, am ei gwneud yn anodd i fargyfreithwyr a chyfreithwyr yn Lloegr a Chymru weithio oddeutu'r ffin. Mae hynny'n digwydd yn awr yng Ngogledd Iwerddon, felly ni ddylai hynny ddigwydd yng Nghymru.

15:44 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:44 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes, Ann.

Gwnaf, Ann.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:44 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for taking the intervention. I appreciate what you are saying, but for me, I still think that —. I hear what you say about the police taking them to the door and then the Crown Prosecution Service takes them after that, but what happens if there is delay in the court lists, because barristers will not look at it if we have devolved the policing system? What happens then? What happens to the ordinary member of the public who then has to wait for justice, if it is longer? I just cannot square the circle; that is my problem.

Diolch yn fawr iawn am gymryd yr ymyriad. Rwy'n deal yr hyn rydych yn ei ddweud, ond i mi, rwy'n dal i feddwl bod —. Rwy'n clywed yr hyn a ddywedwch am yr heddlu'n mynd â nhw at y drws a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn eu cymryd wedyn, ond beth sy'n digwydd os oes oedi yn rhestrau'r llys, am na fydd bargyfreithwyr yn ei hystyried os ydym wedi datganoli'r system blismona? Beth sy'n digwydd wedyn? Beth fydd yn digwydd i'r aelod cyffredin o'r cyhoedd sydd wedyn yn gorfod aros am gyfiawnder, os yw'n hirach? Ni allaf ddatrys y pos; dyna fy mhroblem.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:44 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

It would not affect the courts at all if policing was devolved because, of course, the criminal justice system would still be in a position of being an England and Wales system, so there would be no effect whatsoever. The police would arrest somebody, they would take them to the position of the Crown Prosecution Service then deciding whether to prosecute or not, and all the rest of the system is unaffected, whether you devolve policing or not.

Ni fyddai datganoli plismona'n effeithio ar y llysoedd o gwbl, wrth gwrs, oherwydd byddai'r system cyfiawnder troseddol yn parhau i fod yn perthyn i gyfundrefn Lloegr a Chymru, felly ni fyddai unrhyw effaith o gwbl. Byddai'r heddlu'n arestio rhywun, byddent yn eu dwyn gerbron Gwasanaeth Erlyn y Goron wedyn i benderfynu a ddylid erlyn ai peidio, ac mae gweddill y system i gyd heb gael ei heffeithio, pa un a ydych yn datganoli plismona ai peidio.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Some other points that Members have made I think need to be addressed. First of all, we have to remember that the police could not function in Wales anyway without Welsh Government funding, because a chunk—nearly a quarter—of police funding comes from Welsh Government. Without that, the police could not function in any event and yet we do that without any formal control over policing policy. It is true that there are good informal links, but that formality is not there.

I have to say, as far as Byron Davies's comments are concerned, he said that he did not think that there was a demand for devolving policing in Wales. All the polls suggest otherwise. I have to say that more and more people come to me in my surgery convinced that policing is devolved, which is why they come in the first place. When you explain that the police are not devolved, they cannot understand it. That is part of the problem that we have. The other thing that we have to understand as well is that the Home Office has a very poor record of understanding devolution. We deal with it, and it is not deliberate on its part, but it does not understand devolution. It does not understand the difference in structures between Wales and England, and that can cause problems for us. They are usually ironed out, but we could do without those problems.

The final point that is worth making is this: we cannot cherry-pick Silk part 2 and, indeed, the Smith commission. If it is good enough for Scotland and to be on offer to Scotland, it is good enough to be on offer to Wales. The UK Government would not dream of cherry-picking the Smith commission's report, yet it is trying to cherry-pick Silk part 2. No more dithering, no more faffing about, and no more cherry-picking: we need to see Silk part 2 implemented, including policing. We need to make sure that the Smith commission's proposals are on offer to Wales. We need to make sure that air passenger duty is devolved, otherwise how else could we possibly think of it other than discrimination, bluntly? We need to see control over the electoral system of the Assembly devolved to Wales. We need to make sure that funding is resolved. None of these things is happening at the moment. The issue of policing is bound up in that. The whole point about Wales being treated differently and in a more discriminatory way than Scotland: no more of it. Policing needs to be devolved. We need to make sure that we see progress on Silk part 2. We need to make sure that the Smith commission's proposals are on offer to Wales. No more dithering. I say to the UK Government: treat Wales with the respect you give Scotland.

Credaf fod pwyntiau eraill y mae Aelodau wedi eu gwneud sydd angen sylw. Yn gyntaf, mae'n rhaid i ni gofio na allai'r heddlu weithredu yng Nghymru beth bynnag, heb gyllid gan Lywodraeth Cymru, gan fod dogn—bron chwarter—o gyllid yr heddlu yn dod o Lywodraeth Cymru. Heb hynny, ni allai'r heddlu weithredu beth bynnag ac eto rydym yn gwneud hynny heb gael unrhyw reolaeth ffurfiol dros bolisi plismona. Mae'n wir fod cysylltiadau anffurfiol da yn bodoli, ond nad ydynt yn rhai ffurfiol.

Rhaid i mi ddweud, o ran sylwadau Byron Davies pan ddywedodd nad oedd yn credu bod galw am ddatganoli plismona yng Nghymru. Mae pob un o'r arolygon yn awgrymu fel arall. Mae'n rhaid i mi ddweud bod mwy a mwy o bobl yn dod ataf yn fy nghymhorthfa yn argyhoeddedig bod plismona wedi'i ddatganoli, a dyna pam y maent yn dod yn y lle cyntaf. Pan fyddwch yn esbonio nad yw'r heddlu wedi'i ddatganoli, ni allant ei ddeall. Mae hynny'n rhan o'r broblem sydd gennym. Y peth arall sy'n rhaid i ni ei ddeall hefyd yw bod gan y Swyddfa Gartref record wael iawn o ddeall datganoli. Rydym yn delio â hyn, ac nid yw'n fwriadol ar ei ran, ond nid yw'n deall datganoli. Nid yw'n deall y gwahaniaethau strwythurol rhwng Cymru a Lloegr, a gall hyn achosi problemau i ni. Fel arfer, maent yn cael eu datrys, ond gallem wneud heb y problemau hynny.

Y pwynt olaf, sy'n werth ei wneud yw hyn: ni allwn ddewis a dethol o Silk rhan 2 nac, yn wir, o gomisiwn Smith. Os yw'n ddigon da i'r Alban ac yn cael ei gynnig i'r Alban, mae'n ddigon da i'w gynnig i Gymru. Ni fyddai Llywodraeth y DU yn breuddwydio dewis a dethol o adroddiad y comisiwn Smith, ac eto mae'n ceisio gwneud hynny gyda Silk rhan 2. Dim rhagor o betruso nac oedi, a dim mwy o ddewis a dethol: mae angen i ni weld Silk rhan 2 yn cael ei weithredu, gan gynnwys plismona. Mae angen i ni sicrhau bod cynigion y comisiwn Smith yn cael eu cynnig i Gymru. Mae angen i ni wneud yn siŵr bod tollau teithwyr awyr yn cael eu datganoli, fel arall, gan siarad yn blaen, sut yn y byd y gallem weld hyn yn ddim arall nac achos o wahaniaethu? Mae angen i ni weld rheolaeth dros system etholiadol y Cynulliad yn cael ei datganoli i Gymru. Mae angen i ni sicrhau bod yr arian yn cael ei ddatrys. Nid yw'r un o'r pethau hyn yn digwydd ar hyn o bryd. Mae'r ddadl am blismona ynghlwm wrth hynny. Yr holl bwynt ynglŷn â Chymru'n cael ei thrin yn wahanol ac mewn ffordd fwy gwahaniaethol na'r Alban: dim mwy o hyn. Mae angen i blismona gael ei ddatganoli. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn gweld cynnydd ar Silk rhan 2. Mae angen i ni sicrhau bod cynigion y comisiwn Smith yn cael eu cynnig i Gymru. Dim rhagor o betruso. Rwy'n dweud wrth Lywodraeth y DU: rhowch yr un parch i Gymru â'r Alban.

15:47

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Peter Black to reply to the debate.

Galwaf ar Peter Black i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer, and may I thank all those who have contributed to this debate? I thank the First Minister for doing most of my summing up for me in terms of responding to some of the points that have been made. If I can just briefly go through a number of those points, Mike Hedges started off by quoting Alun Michael and the very strong case that Alun Michael circulated to all Assembly Members in the last couple of days in terms of devolving policing, but also, I think, underlined the exceptions in this motion, which are the UK National Crime Agency and national security. I agree that those functions need to be undertaken on a UK-wide basis as they often involve international liaison, tackling sophisticated and determined criminals who operate without borders. For that reason, I think that it is right that we should exclude those from the devolution that is being proposed here. I think that Silk 2 also highlighted that particular issue.

Mike Hedges also highlighted the interaction with other emergency services, as did other Assembly Members, and I think also pointed out that the Welsh Government already deals outside the strict boundaries of devolution. It has already funded the police on areas outside of devolved powers. I have referred in the past to Operation Tarian, which we provided funding for a couple of Assemblies ago, as well as the police community support officers. Also, of course, as the First Minister just pointed out, we currently fund about 50% of the police grant from our own budget, but on the basis of a formula that we do not control and subject to top-slicing for other forces outside of Wales, not to mention the anomalous way that Cardiff is treated as a capital city compared with Edinburgh and London. So, clearly, there are issues there in terms of the funding, which we would be able to address as part of the devolution of functions to Wales, which I think would, again, benefit the police across Wales.

I thought that Mark Isherwood very much confused reorganisation with devolution. Giving responsibility to the Welsh Assembly does not necessarily mean that we going to merge all the forces or reorganise them. Clearly, that would be expensive, and, of course, we rejected that when it was proposed by the last Government. What it would mean, though, is that an important service would work more effectively in a Welsh context and to a Welsh agenda. This is not a power grab. It is a sensible recognition of the reality of policing in Wales. Nor would devolution throw up a wall around Wales—

Mark Isherwood a gododd—

Diolch i chi, Lywydd, a hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu i'r ddaol hon? Diolch i'r Prif Weinidog am wneud llawer o'm gwaith crynhoi ar fy rhan gan ymateb i rai o'r pwyntiau a wnaed. Os caf fi fynd yn fyr drwy nifer o'r pwyntiau hynny, dechreuodd Mike Hedges gan ddyfynnu Alun Michael a'r achos cryf iawn a ddosbarthodd Alun Michael i holl Aelodau'r Cynulliad yn y diwrnodau diwethaf o ran datganoli plismona, ond hefyd, mi gredaf, bu iddo bwysleisio'r eithriadau yn y cynnig hwn, sef Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol y DU a diogelwch cenedlaethol. Cytunaf fod angen cynnal y swyddogaethau hynny ledled y DU gyfan gan eu bod yn aml yn cynnwys cyswllt rhyngwladol, mynd i'r afael â throseddwyd soffistigedig a phenderfynol sy'n gweithredu y tu hwnt i ffiniau. Am hynny, credaf ei bod yn iawn y dylem hepgor y materion hynny o'r datganoli sy'n cael ei gynnig yma. Credaf fod Silk 2 hefyd yn tynnu sylw at y mater penodol hwnnw.

Tynnodd Mike Hedges sylw hefyd at y rhyngweithio â gwasanaethau brys eraill, fel y gwnaeth Aelodau eraill y Cynulliad, a chredaf iddo hefyd dynnu sylw at y ffaith bod Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithredu y tu hwnt i ffiniau caeth datganoli. Mae eisoes wedi ariannu'r heddlu mewn meysydd y tu hwnt i bwerau datganoledig. Cyfeiriais yn y gorffennol at Ymgyrch Tarian, lle bu i Gynullidau'r gorffennol roi cyllid ar ei chyfer, yn ogystal â swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu. Hefyd, wrth gwrs, fel y nododd y Prif Weinidog, rydym ar hyn o bryd yn ariannu tua 50% o grant yr heddlu o'n cyllideb ein hun, ond ar sail y fformiwlâ nad ydym yn rheoli ac yn amodol ar frigdorri ar gyfer heddluoedd eraill y tu hwnt i Gymru, heb sôn am y ffordd anghyson y caiff Caerdydd ei thrin fel prifddinas o gymharu â Chaeredin a Llundain. Felly, yn amlwg, mae problemau'n bodoli o ran y cyllid, a byddem yn gallu eu datrys fel rhan o ddatganoli swyddogaethau i Gymru, a chredaf y byddai, unwaith eto, o fudd i'r heddlu ar draws Cymru.

Roeddwn i'n meddwl bod Mark Isherwood wedi drysu'n fawr rhwng ad-drefnu â datganoli. Nid yw rhoi cyfrifoldeb i'r Cynulliad o reidrwydd yn golygu ein bod yn mynd i uno'r holl luoedd neu eu had-drefnu. Yn amlwg, byddai hynny'n ddud, ac, wrth gwrs, bu i ni wrthod hynny pan gafodd ei gynnig gan y Llywodraeth ddiwethaf. Yr hyn y byddai'n ei olygu, fodd bynnag, yw y byddai gwasanaeth pwysig yn gweithio'n fwy effeithiol mewn cyd-destun Cymreig ac yn unol ag agenda Gymreig. Nid ymgais i gythru am bŵer yw hyn. Mae'n gydnabyddiaeth synhwyrol o realiti plismona yng Nghymru. Ac ni fyddai datganoli chwaith yn codi wal o amgylch Cymru—

Mark Isherwood rose—

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Are you giving way?

A ydych yn ildio?

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will just finish this point, Mark, and I will let you in.

Rwyf am orffen y pwynt hwn, Mark, a gadawaf i chi siarad.

Nor would devolution throw up a wall around Wales as far as policing is concerned. The motion specifically excludes the UK National Crime Agency and national security, while forces would continue to work with partners across the border, as is sensible, and as do other devolved services such as health.

Ac ni fyddai datganoli chwaith yn codi wal o amgylch Cymru yng nghyswllt plismona. Mae'r cynnig yn eithrio yn benodol Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol y DU a diogelwch cenedlaethol, tra byddai heddluoedd yn parhau i weithio gyda phartneriaid ar draws y ffin, fel sy'n synhwyrol, ac fel y mae gwasanaethau datganoledig eraill megis iechyd.

15:50 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Is not the reality that, unlike in Scotland, two thirds of the population of Wales live within 50 miles of England, and that we have a west-east criminal economy, if you want to use that term, in the north and south? The quotations that I gave from North Wales Police, from only last Friday, were made by serving police officers at all levels, not by me.

Onid y realiti, yn wahanol i'r Alban, yw bod dwy ran o dair o boblogaeth Cymru yn byw o fewn 50 milltir i Loegr, a bod gennym economi troseddol gorllewin-dwyrain, os ydych am ddefnyddio'r term hwnnw, yn y gogledd a'r de? Roedd y dyfyniadau a roddais oddi wrth Heddlu Gogledd Cymru, o ddydd Gwener diwethaf yn unig, wedi'u gwneud gan swyddogion yr heddlu ar bob lefel, nid gennyf fi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:50 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, that reality applies to a whole range of devolved services, especially health, but other services as well, and we have to work around those issues. We are talking here about services delivered in Wales, and policing is a service that is delivered in Wales, and that has to be recognised as part of this. However, that is not an argument not to devolve policing. In fact, it is an argument for saying that we need to accommodate that, and I have said that that will continue to happen, as is sensible.

Wel, mae'r realiti hwnnw'n berthnasol i ystod eang o wasanaethau datganoledig, yn enwedig iechyd, ond i wasanaethau eraill hefyd, ac mae'n rhaid i ni weithio o amgylch y materion hynny. Rydym yn sôn yma am y gwasanaethau a ddarperir yng Nghymru, ac mae plismona yn wasanaeth sy'n cael ei ddarparu yng Nghymru, ac y mae'n rhaid ei gydnabod fel rhan o hyn. Fodd bynnag, nid yw hynny'n ddadl dros beidio â datganoli plismona. Yn wir, mae'n ddadl o blaid dweud bod angen i ni ddarparu ar gyfer hynny, ac rwyf wedi dweud y bydd hynny'n parhau i ddigwydd, fel sy'n synhwyrol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 15:51.

The Deputy Presiding Officer took the Chair at 15:51.

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do, however, agree with you, Mark, that commissioners are a form of devolution, but would argue that the arrangement that we are proposing here would make that devolution more desirable, because we have already started the process and we can take it further forward.

Fodd bynnag, cytunaf â chi, Mark, fod comisiynwyr yn ffurf ar ddatganoli, ond byddwn yn dadlau y byddai'r trefniant rydym yn ei gynnis yma yn gwneud y datganoli hwnnw'n fwy dymunol, gan ein bod eisoes wedi dechrau ar y broses a gallwn ei datblygu ymhellach.

Jocelyn Davies talked about the devolution of policing as 'not if, but when', and I agree, but she also reiterated the point that it will strengthen relationships with other public services. She highlighted the domestic abuse Bill currently being considered by the Assembly and the important link between measures in that Bill and the work of police forces, and I think that that is absolutely right and, again, makes the case even stronger in terms of supporting this motion.

Soniodd Jocelyn Davies am ddatganoli plismona gan ddweud 'nid os, ond pan', ac rwy'n cytuno, ond mae hi hefyd yn ailadrodd y pwynt y bydd yn cryfhau'r berthynas â gwasanaethau cyhoeddus eraill. Pwysleisiodd y Bil cam-drin domestig sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd gan y Cynulliad a'r cysylltiad pwysig rhwng mesurau yn y Bil hwnnw a gwaith heddluoedd, a chredaf fod hynny'n gwbl gywir a'i fod, unwaith eto, yn gwneud yr achos hyd yn oed yn gryfach o ran cefnogi'r cynnig hwn.

I understand that Ann Jones remains to be convinced that it is possible to devolve policing without the criminal justice system. I agree, in fact, that the two are intrinsically linked, and I think that Silk also recognises that. I noted the First Minister's point that you cannot cherry-pick Silk 2, and Silk 2 did say that there should be a review within 10 years of the case for devolving legislative responsibility for the courts service, sentencing, legal aid, the Crown Prosecution Service and the judiciary to the National Assembly.

Rwy'n deall bod Ann Jones heb ei hargyhoeddi hyd yma fod modd datganoli plismona heb y system cyfiawnder troseddol. Rwy'n cytuno, mewn gwirionedd, fod y ddau wedi eu cysylltu'n annatod, a chredaf fod Silk hefyd yn cydnabod hynny. Nodais bwynt y Prif Weinidog na allwch ddevis a dethol o Silk 2, ac roedd Silk 2 yn dweud y dyldid cael adolygiad o fewn 10 mlynedd o'r achos dros ddatganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol gyfrifoldeb deddfwriaethol am y gwasanaeth llysoedd, dedfrydu, cymorth cyfreithiol, Gwasanaeth Erllyn y Goron a'r farnwriaeth.

My view is that administrative devolution is possible in the short term, but that the justice system would need to follow and that would involve us having to address gaps in the Welsh prison network, for example, either by building more prisons or, more realistically, working in partnership with England. We certainly need provision for female prisoners in Wales, although there is also a case to reduce or abolish custodial sentences for women in many circumstances, as there is evidence that they are treated more harshly by the courts system. However, clearly, we would have to consider justice, but I think that, in terms of Silk 2, that would come later and as part of a review, and I think that that is the right way to go about it. However, administrative devolution of the police is very much possible and very much a realistic way of doing things.

Byron Davies asked why the Welsh Government would run policing better than the UK Government. The answer actually lies in the many policy and operational synergies that devolved police forces would be able to access, which has already been pointed out by me and by previous speakers. Julie Morgan, in fact, pointed out that the levels of crime are very much affected by devolved services and that the devolution of policing would lead to better linkages within Wales and a better service. I think that that point answers very well the question that Byron Davies posed for us.

The First Minister, of course, drew parallels with Scotland, which already has the responsibilities that we are seeking in this motion and, again, I think that it is right that we should also seek those powers.

I do not think that it is helpful to make this a debate about police commissioners, by the way. The case for devolving policing is much stronger than some people's dislike of a particular innovation. The argument here is that the case for devolving policing is self-explanatory within the context of devolution and strong enough without focusing on other issues. By all means, restructure the accountability framework once devolution has taken place, but that is not and should not be the rationale for change. Change is necessary because it is logical and will deliver a more effective and joined-up service, and, for that reason, I hope that Members are able to support this motion.

Fy marn i yw bod datganoli gweinyddol yn bosibl yn y tymor byr, ond y byddai angen i'r system gyfiawnder ddilyn, a byddai hynny'n golygu bod rhaid i ni fynd i'r afael â bylchau yn rhwydwaith carchardai Cymru, er enghraifft, naill ai drwy adeiladu rhagor o garchardai neu, yn fwy realistig, trwy weithio mewn partneriaeth â Lloegr. Yn sicr, mae arnom angen darpariaeth ar gyfer carcharorion benywaidd yng Nghymru, er bod achos hefyd dros leihau neu ddileu dedfrydau carchar i fenywod dan lawer o amgylchiadau, gan fod tystiolaeth eu bod yn cael eu trin yn fwy llym gan y system llysoedd. Fodd bynnag, yn amlwg, byddai'n rhaid i ni ystyried cyfiawnder, ond credaf, o ran Silk 2, y byddai hynny'n dilyn yn ddiweddarach ac fel rhan o adolygiad, a chredaf mai dyna'r ffordd iawn i fynd o'i chwmpas hi. Fodd bynnag, mae datganoli gweinyddol yr heddlu yn dra phosibl ac yn ffordd realistig iawn o wneud pethau.

Gofynnodd Byron Davies pam y byddai Llywodraeth Cymru yn rhedeg plismona yn well na Llywodraeth y DU. Mae'r ateb mewn gwirionedd i'w chael yn y synergeddau polisi a gweithrediad lluosog y byddai heddluoedd datganoledig yn gallu eu defnyddio, sydd wedi eu crybwyll eisoes gennyf i a siaradwyr blaenorol. Dywedodd Julie Morgan, mewn gwirionedd, fod lefelau troseddu yn cael eu heffeithio i raddau helaeth gan wasanaethau datganoledig ac y byddai datganoli plismona yn arwain at well cysylltiadau o fewn Cymru a gwasanaeth gwell. Credaf fod y pwynt yn ateb y cwestiwn a ofynnodd Byron Davies yn dda iawn.

Bu i'n Prif Weinidog, wrth gwrs, gymharu ein sefyllfa â'r Alban, sydd eisoes yn ysgwyddo'r cyfrifoldebau rydym yn gofyn amdanynt yn y cynnig hwn ac, unwaith eto, credaf ei bod yn iawn i ni ofyn am y pwerau hynny hefyd.

Ni chredaf ei bod yn ddefnyddiol trafod comisiynwyr yr heddlu yn y ddadl hon, gyda llaw. Mae'r achos dros ddatganoli plismona yn llawer cryfach nac anhoffter rhai pobl o drefn newydd neilltuol. Y ddadl yn y sefyllfa hon yw bod yr achos dros ddatganoli plismona yn hunanesboniadol yng nghyd-destun datganoli ac yn ddigon cryf heb ganolbwyntio ar faterion eraill. Ar bob cyfrif, gellir ailstrwythuro'r fframwaith atebolrwydd ar ôl i ddatganoli ddigwydd, ond nid hynny yw'r sail resymegol dros newid, ac ni ddylai fod. Mae angen newid oherwydd ei fod yn rhesymegol ac y bydd yn darparu gwasanaeth mwy effeithiol a chydgyssylltiedig, a dyna'r rheswm felly y gobeithiaf y gall yr Aelodau gefnogi'r cynnig hwn.

15:54

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There is objection. I defer voting on this item until voting time.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Y cynnig yw ein bod yn derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Gohiriaf y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Agwedd Llywodraeth Cymru tuag at Hybu Masnach a Mewnfuddsoddi

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes, William Graham, i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5644 William Graham

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor this Menter a Busnes ar ei Ymchwiliad i Agwedd Llywodraeth Cymru tuag at Hybu Masnach a Mewnfuddsoddi, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2014.

The Enterprise and Business Committee's Report on the Welsh Government's Approach to the Promotion of Trade and Inward Investment

I call on the Chair of the Enterprise and Business Committee, William Graham, to move the motion.

Motion NDM5644 William Graham

The National Assembly for Wales:

Notes the report of the Enterprise and Business Committee on its Inquiry into The Welsh Government's Approach to the Promotion of Trade and Inward Investment, which was laid in the Table Office on 10 October 2014.

William Graham [Bywgraffiad Biography](#)

I move the motion.

I am glad to open this debate today and to move the motion on the Enterprise and Business Committee's report on trade and inward investment. We launched our consultation in November 2013 and had 12 written responses. We then took oral evidence from 16 witnesses over eight evidence sessions, and heard from the First Minister as well as the Minister for Economy, Science and Transport. In addition, we met with Welsh Government officials in Brussels, and spoke with businesses at the Institute of Life Sciences in Swansea. The Assembly's outreach team also produced a video that captured interviews with a range of small and medium-sized enterprises across Wales. I would like to thank everyone who contributed evidence to our inquiry, as well as our members of the committee and our excellent support staff, who supported the work of the committee.

We wanted to look at trade and inward investment because of the significant recent changes in the way that the Welsh Government works in this area. In 2006, the Welsh Development Agency was abolished and replaced by International Business Wales, which formed part of the Department for the Economy and Transport. In 2010, International Business Wales was itself replaced by the integrated sector teams as part of a Government reorganisation. Then, in 2012, the Minister told the committee that a new major projects team had been established to take the lead on trade and inward investment. These changes also attracted the attention of the Welsh Affairs Select Committee at Westminster, which undertook a lengthy inquiry of its own into trade and inward investment, and published its report in 2012. In some key areas we agree with its findings.

The biggest issue that emerged in our inquiry was a lack of confidence in the arrangements that followed the abolition of the WDA. Several witnesses frankly felt that the WDA had been more effective. The Federation of Small Businesses said:

Cyflwynaf y cynnig.

Rwy'n falch o agor y ddatl hon heddiw a chyflwyno'r cynnig ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar fasnach a mewnfuddsoddi. Lansiodd ein hymgyngoriad ym mis Tachwedd 2013 a chawsom 12 o ymatebion ysgrifenedig. Yna, cawsom dystiolaeth lafar gan 16 o dystion mewn wyth sesiwn dystiolaeth, a chlywed gan y Prif Weinidog yn ogystal â Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Bu i ni hefyd gyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru ym Mrwsel, a siarad â busnesau yn y Sefydliad Gwyddorau Bywyd yn Abertawe. Cynhyrnodd tîm allgymorth y Cynulliad fideo hefyd yn dangos cyfweiliadau gydag ystod o fentrau bach a chanolig eu maint ledled Cymru. Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd dystiolaeth i'n hymchwiliad, yn ogystal ag i aelodau'n pwyllgor a'n staff cymorth rhagorol, a oedd yn cefnogi gwaith y pwyllgor.

Roeddem am edrych ar fasnach a mewnfuddsoddi oherwydd y newidiadau sylweddol diweddar yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio yn y maes hwn. Yn 2006, diddymwyd Awdurdod Datblygu Cymru a'i ddisodli gan Busnes Rhyngwladol Cymru, a oedd yn rhan o Adran yr Economi a Thrafnidiaeth. Yn 2010, disodlwyd Busnes Rhyngwladol Cymru hefyd gan y timau sector integredig fel rhan o ad-drefnu Llywodraeth. Yna, yn 2012, dywedodd y Gweinidog wrth y pwyllgor fod tîm prosiectau mawr newydd wedi'i sefydlu i arwain ar fasnach a mewnfuddsoddi. Mae'r newidiadau hyn hefyd yn denu sylw'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig yn San Steffan, a ymgymerodd ymchwiliad hir ei hun i mewn i fasnach a mewnfuddsoddi, gan gyhoeddi'i adroddiad yn 2012. Mewn rhai meysydd allweddol rydym yn cytuno â'i ganfyddiadau.

Y broblem fwyaf a ddaeth i'r amlwg yn ein hymchwiliad oedd diffyg hyder yn y trefniadau yn sgîl diddymu'r WDA. Roedd sawl tyst yn wir yn teimlo bod y WDA wedi bod yn fwy effeithiol. Dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach:

'There can be little doubt that its successor organisations... failed to command the strength of brand that the WDA had achieved'.

Similarly, the Welsh Affairs Select Committee found that the WDA was still more widely recognised, years after its abolition, than the bodies that replaced it. Other witnesses thought that there had been a change of culture since the abolition of the WDA that had not been helpful. Professor Max Munday of Cardiff University pointed out that there had been

'an element of entrepreneurial behaviour and risk-taking'

involved in attracting inward investment, and that this can be more difficult to accommodate in a 'civil-service-oriented environment'.

The Government has responded by pointing out that the economic context has changed dramatically since the days of the WDA, and the First Minister told the committee that he believed that it was 'fruitless' to make such comparisons. We take the point, and our report notes that the expansion of the EU in particular has made it much harder for Wales to compete for inward investment. Nevertheless, we believe that there is scope for the Government to look again at whether the current in-house arrangements represent good practice and value for money.

It is therefore disappointing that the Government has rejected our recommendation to commission an independent evaluation in this regard. In its written response to the report, the Government points to big increases in inward investment over the last two years. We obviously welcome these improvements, but would ask the Minister to carefully consider the concerns that stakeholders expressed. The South Wales Chamber of Commerce spoke of

'an underlying culture of trying to keep everything in-house',

and the FSB believed that there was a 'credibility gap' in the advice that the Government now offers businesses.

One of the key themes of our inquiry was the relationship between the Welsh Government and UKTI. We were pleased to hear that this relationship is a strong one, but we also heard concerns that the sheer number of UKTI events makes it difficult for Wales to attend everything. Professor Gareth Morgan, chair of the life sciences sector panel, told us:

'We have to be there. There is no substitute for that'.

'Does fawr o amheuaeth bod y sefydliadau a'i dilynodd ... wedi methu ag ennyn cryfder y brand a oedd gan Awdurdod Datblygu Cymru'.

Yn yr un modd, canfu'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig fod y WDA yn parhau'n fwy adnabyddus, flynyddoedd ar ôl ei ddiddymu, na'r cyrff a'i disodlodd. Ym marn tystion eraill, roedd y diwylliant wedi newid ers diddymu Awdurdod Datblygu Cymru ac nid oedd hynny wedi bod o gymorth. Nododd yr Athro Max Munday o Brifysgol Caerdydd y bu

'elfen o ymddygiad entrepreneuriaidd a chymryd risg'

wrth geisio denu mewnfuddsoddiad, ac y gall hynny fod yn anos ei wneud mewn 'amgylchedd gwasanaeth sifil'.

Ymatebodd y Llywodraeth drwy nodi bod y cyd-destun economaidd wedi newid yn ddramatig ers dyddiau'r WDA, a dywedodd y Prif Weinidog wrth y pwyllgor ei fod yn credu mai 'ofer' oedd gwneud cymariaethau o'r fath. Rydym yn derbyn y pwynt, ac mae ein hadroddiad yn nodi bod ehangu'r UE yn arbennig wedi ei gwneud yn llawer anos i Gymru gystadlu am fewnfuddsoddi. Serch hynny, credwn fod lle i'r Llywodraeth ailystyried a yw'r trefniadau mewnol cyfredol yn enghraifft o arfer da a gwerth am arian.

Felly, mae'n siomedig bod y Llywodraeth wedi gwrthod ein hargymhelliad i gomisiynu gwerthusiad annibynnol yn hyn o beth. Yn ei hymateb ysgrifenedig i'r adroddiad, dangosodd y Llywodraeth fod cynnydd mawr mewn mewnfuddsoddi yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Rydym yn amlwg yn croesawu'r gwelliannau hyn, ond hoffwn ofyn i'r Gweinidog ystyried y pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid yn ofalus. Siaradodd Siambwr Fasnach De Cymru am

'Ddiwylliant sylfaenol o geisio cadw popeth yn fewnol',

ac yn ôl y Ffederasiwn Busnesau Bach, roedd 'bwlch hygredd' yn y cyngor y mae'r Llywodraeth bellach yn ei gynnig i fusnesau.

Un o themâu allweddol ein hymchwiliad oedd y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Masnach a Buddsoddi y DU (UKTI). Roeddem yn falch o glywed bod y berthynas hon yn un gref, ond clywsom bryderon hefyd fod y nifer fawr o ddigwyddiadau UKTI yn ei gwneud yn anodd i Gymru fynychu popeth. Dywedodd yr Athro Gareth Morgan, cadeirydd y panel sector gwyddorau bywyd wrthym:

'Mae'n rhaid i ni fod yno. Nid oes un dewis arall'.

We therefore recommend that the Welsh Government should explore options for involving the sector panels or the private sector in representing Wales at such events. The Government has accepted this recommendation in principle. Clearly, we welcome that, as well as its positive response to our recommendation on making more use of the private sector to attract inward investment.

Another development since the abolition of the WDA is a lack of clarity about Wales's position on trade and inward investment, both in terms of our aspirations and the results that the Government delivers. The committee heard that it has become more difficult to monitor performance in this area, and several witnesses felt that there was 'a lack of transparency'. The WDA had published yearly and half-yearly reports containing detailed information on progress made against individual targets. These reports stopped after the WDA was brought in-house, with the final one being published in December 2006.

Several of our recommendations ask for improvements in the statistical data that the Welsh Government collects and publishes in this area. We asked for transparent key performance indicators on inward investment to be published annually, and are disappointed that the Government has rejected this recommendation, arguing that commercial confidentiality prevents it from giving a fuller picture. The WDA used to publish more detail, and we feel that this is an area that the Minister could usefully look at again. Professor Munday described the data currently published on foreign direct investment as 'almost completely useless' and argued that the data led to misinterpretation of performance, such as the suggestion that inward investment increased by 191% in 2012-13. The Government repeats this assertion in its written response, but it was rejected by Professor Munday as being based on the number of projects rather than actual capital investment.

Another area where economic statistics can be improved is on gross domestic product. We recommend that the Government should commission GDP figures for Wales on the same basis and frequency as the rest of the United Kingdom. The Government has accepted this recommendation in part, and we look forward to the outcome of the review being undertaken by the chief economist and the chief statistician.

Similarly, we believe there is scope to improve the quality of export statistics in Wales. The Minister agreed that this was a concern, but our recommendation has only been accepted in part. While we understand that it is a complex and expensive business to separate Wales's contribution to exports from that of the United Kingdom as a whole, we urge the Government to work with the Office for National Statistics to improve the data that it publishes in this area.

Felly, rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio opsiynau ar gyfer cael paneli'r sector neu'r sector preifat i gynrychioli Cymru mewn digwyddiadau o'r fath. Mae'r Llywodraeth wedi derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Yn amlwg, rydym yn croesawu hynny, yn ogystal â'i hymateb cadarnhaol i'n hargymhelliad ar wneud mwy o ddefnydd o'r sector preifat i ddenu mewnfuddsoddiad.

Datblygiad arall ers diddymu Awdurdod Datblygu Cymru yw diffyg eglurder ynghylch safbwynt Cymru ar fasnach a mewnfuddsoddi, o ran ein dyheadau a'r canlyniadau y mae'r Llywodraeth yn eu cyflawni. Clywodd y pwyllgor ei fod wedi dod yn fwy anodd monitro perfformiad yn y maes, ac roedd nifer o dystion yn teimlo bod 'diffyg tryloywder'. Roedd y WDA wedi cyhoeddi adroddiadau blynyddol a hanner blwyddyn yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y cynnydd a wnaed yn erbyn targedau unigol. Daeth yr adroddiadau hyn i ben ar ôl i'r WDA gael ei wneud yn fewnol, gan gyhoeddi'r olaf ym mis Rhagfyr 2006.

Mae nifer o'n hargymhellion yn gofyn am welliannau yn y data ystadegol y mae Llywodraeth Cymru yn eu casglu a'u cyhoeddi yn y maes hwn. Rydym yn gofyn am gyhoeddi dangosyddion perfformiad allweddol tryloyw ar fewnfuddsoddi bob blwyddyn, ac yn siomedig bod y Llywodraeth wedi gwrthod yr argymhelliad hwn, gan ddadlau bod cyfrinachedd masnachol yn ei hatal rhag rhoi darlun llawnach. Arferai'r WDA gyhoeddi mwy o fanylion, a theimlwn fod hwn yn faes y byddai'n ddefnyddiol i'r Gweinidog ei ailystyried. Disgrifiodd yr Athro Munday y data a gyhoeddwyd ar fuddsoddi tramor uniongyrchol cyfredol fel 'bron yn gwbl ddiwerth' gan ddadlau bod y data yn arwain at gamddehongli perfformiad, megis yr awgrym bod mewnfuddsoddi wedi cynyddu 191% yn 2012-13. Mae'r Llywodraeth yn ailadrodd yr honiad hwn yn ei hymateb ysgrifenedig, ond cafodd ei wrthod gan yr Athro Munday fel data sy'n seiliedig ar nifer y prosiectau yn hytrach na'r buddsoddi cyfalaf gwirioneddol.

Maes arall y gellir ei wella yw ystadegau economaidd ar gynnyrch mewnwladol crynswth. Rydym yn argymhell y dylai'r Llywodraeth gomisiynu ffigurau cynnyrch domestig gros i Gymru ar yr un sail a mynychder â gweddill y Deyrnas Unedig. Mae'r Llywodraeth wedi derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol, ac edrychwn ymlaen at ganlyniad yr adolygiad sy'n cael ei gynnal gan y prif economegydd a'r prif ystadegydd.

Yn yr un modd, credwn fod lle i wella ansawdd ystadegau allforio yng Nghymru. Cytunodd y Gweinidog fod hwn yn destun pryder, ond dim ond yn rhannol y mae ein hargymhelliad wedi'i dderbyn. Er ein bod yn deall ei fod yn fusnes cymhleth a drud i wahanu cyfraniad Cymru at allforion oddi wrth weddill y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd, rydym yn annog y Llywodraeth i gydweithio â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i wella'r data y mae'n eu cyhoeddi yn y maes hwn.

More worryingly, the Government rejected our recommendation that it should publish annual performance measures for the support it provides to exporters. A number of the small and medium-sized enterprises interviewed by the Assembly's outreach team felt there was a lack of support from the Welsh Government. Indeed, some businesses were not even clear as to the Government's policy or ambition on exports, with the Federation of Small Businesses pointing out that we lack targets in this area, unlike both the Scottish and United Kingdom Governments. The written response suggests that the Government is satisfied with its work to support exporters. If that is indeed the case, I would have thought that publishing annual performance indicators would be a useful tool for the Government to market the strength of its support to potential exporters.

Underlying many of these issues is the lack of a clear economic development strategy. The frequent changes to the support structures for trade and inward investment, and the decline in the quality of data used to measure performance, seem to be symptomatic of a general loss of focus. We heard evidence that questioned whether the Government had a strategy, and at the very least it would seem that more could be done to communicate the strategy to key partners.

In a similar vein, we heard several comments about the weakness of the Welsh brand when it comes to trade and inward investment. This chimes with evidence that we have taken for our current inquiry on tourism, where stakeholders also feel that they would benefit from a more coherent brand to help them promote their business. We are pleased to see from the written response that the Government is working on this, and we hope that the trade, inward investment and tourism brands will form part of a connected strategy.

Finally, may I thank the Minister for Economy, Science and Transport and the First Minister for their engagement with the committee on this inquiry? We appreciate that we have been looking at trade and inward investment during a period of great economic change, and we know that the Government is committed to responding to that change and maximising the benefits for Wales. We hope that our report will help the Government to do so, and although just one of our recommendations was accepted outright, we hope that the ideas that we have put forward, and the views of stakeholders that we have captured, will be a valuable resource for the Government in developing this work.

Testun pryder pellach yw bod y Llywodraeth wedi gwrthod ein hargymhelliad y dylai gyhoeddi mesurau perfformiad blynyddol ar gyfer y gefnogaeth y mae'n ei darparu i allforwyr. Roedd nifer o'r busnesau bach a chanolig eu maint a gyfwelwyd gan dîm allgymorth y Cynulliad yn teimlo bod diffyg cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru. Yn wir, nid oedd rhai busnesau yn glir hyd yn oed ynghylch polisi neu uchelgais y Llywodraeth ar allforion, a nododd y Ffederasiwn Busnesau Bach ein bod yn brin o dargedau yn y maes hwn, yn wahanol i Lywodraethau'r Alban a'r Deyrnas Unedig. Mae'r ymateb ysgrifenedig yn awgrymu bod y Llywodraeth yn fodlon ar ei gwaith i gefnogi allforwyr. Os yw hynny'n wir, yn wir, byddwn wedi meddwl y byddai cyhoeddi dangosyddion perfformiad blynyddol yn offeryn defnyddiol i'r Llywodraeth er mwyn marchnata cryfder ei chefnogaeth i allforwyr posibl.

Yn sail i lawer o'r materion hyn y mae diffyg strategaeth glir ar gyfer datblygu economaidd. Ymddengys fod yr aml newidiadau i'r strwythurau cymorth ar gyfer masnach a mewnfuddsoddi, a'r dirywiad yn ansawdd y data a ddefnyddir i fesur perfformiad, yn symptom o golli ffocws cyffredinol. Clywsom dystiolaeth a oedd yn cwestiynu a oedd gan y Llywodraeth strategaeth, ac o leiaf roedd yn ymddangos y gellid gwneud rhagor er mwyn cyfleu'r strategaeth i bartneriaid allweddol.

Yn yr un modd, clywsom nifer o sylwadau am wendid y brand Cymreig pan ddaw i fasnachu a mewnfuddsoddi. Mae hyn yn cyd-fynd â'r dystiolaeth rydym wedi ei chymryd ar gyfer ein hymchwiliad cyfredol ar dwristiaeth, lle mae rhanddeiliaid hefyd yn teimlo y byddent yn elwa ar frand mwy cydlynol i'w helpu i hyrwyddo eu busnes. Rydym yn falch o weld o'r ymateb ysgrifenedig fod y Llywodraeth yn gweithio ar hyn, a gobeithwn y bydd y fasnach, mewnfuddsoddi a brandiau twristiaeth yn ffurfio rhan o strategaeth gydgyssylltiedig.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a'r Prif Weinidog am eu hymgyssylltiad â'r pwyllgor ar yr ymchwiliad hwn? Rydym yn sylweddoli ein bod wedi bod yn edrych ar fasnach a mewnfuddsoddi mewn cyfnod o newid economaidd mawr, a gwyddom fod y Llywodraeth wedi ymrwmo i ymateb i'r newid hwnnw a gwneud y gorau o'r manteision i Gymru. Gobeithwn y bydd ein hadroddiad yn helpu'r Llywodraeth i wneud hynny, ac er mai dim ond un o'n hargymhellion a dderbyniwyd yn llwyr, gobeithwn y bydd y syniadau a roesom gerbron, a safbwyntiau'r rhanddeiliaid a gasglwyd gennym yn adnodd gwerthfawr i'r Llywodraeth wrth ddatblygu'r gwaith hwn.

16:03

Nick Ramsay [Bywgraffiad Biography](#)

No debate about improving our economic outlook can hope to be complete without recognising the invaluable contribution of inward investment to that debate. The Enterprise and Business Committee's inquiry is therefore highly welcome, and the recommendations are certainly food for thought. Well, they are for some of us anyway. The Welsh Government seems less keen. In fact, it has been a long time since, looking through the Government's response to a report, I have seen 'reject' or 'accept in part' appear so many times.

Ni all unrhyw ddatl ynghylch gwella ein rhagolygon economaidd obeithio bod yn gyflawn heb gydnabod cyfraniad amhrisiadwy mewnfuddsoddiad i'r ddatl honno. Felly, mae ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i'w groesawu'n fawr, ac mae'r argymhellion yn sicr yn rhywbeth i'w pwysu a'u mesur. Wel, i rai ohonom beth bynnag. Ymddengys fod Llywodraeth Cymru yn llai brwd. Yn wir, aeth cryn amser heibio ers imi edrych drwy ymateb y Llywodraeth i adroddiad a gweld 'gwrthod' neu 'dderbyn yn rhannol' yn ymddangos cymaint o weithiau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Now, let me be clear: I think the lessons that we can learn from this report are essential in improving exports and attracting foreign investment. Okay, some on the fringes may argue that we do not need to look outside our home-grown businesses, but those voices are few and far between.

The key thrust of this report is that the Welsh Government should set out a clear economic development strategy that clarifies its aspirations for trade and inward investment. The strategy should include the international markets and sectors it considers to be of strategic importance to Wales and outline how the Welsh Government supports Welsh businesses to exploit the opportunities in those markets. Now, that is obviously a polite, committee-speak way of saying that, if there is a strategy, the current strategy is confusing and may not only be actively discouraging potential future investors, but current investors too, that there are actually far too few clear goals or targets, and, furthermore, that the lack of transparency and communication between the Welsh Government and Welsh businesses is reflected by the exports themselves.

Let us face it. We all know, and it has already been touched upon: Wales had a powerful brand when it came to exports and inward investment. A brand that was called the Welsh Development Agency. Of course, the WDA did so well that it was abolished in 2006, and the rest is history. As the Federation of Small Businesses said:

'There can be little doubt that its successor organisations, including International Business Wales, failed to command the strength of brand that the WDA had achieved.'

The FSB was not alone, of course. Other witnesses during this inquiry raised the same concern, which led to recommendation 1, asking for an independent evaluation by the Welsh Government to assess whether the current in-house approach represents good practice and value for money—an independent evaluation that could have shown the real state of Welsh inward investment and its export strategy. The Welsh Government has, of course, rejected this recommendation. I wonder why.

Recommendation 4: let us look at that. That has been given the boot as well by the Welsh Government. Asking for key performance indicators to be published every year—not an unreasonable request, you might think. It is a request that would not be necessary if there were enough data on investments made in Wales at this point in time anyway. The data that we have are misunderstood. The Welsh Government says that there has been a whacking 191% increase in inward investment. It sounds great, does it not? The only problem is that there has not been, has there? That figure is actually based on the number of projects or jobs, but not on actual capital investment. That is a lot lower.

Yn awr, gadewch i mi fod yn glir: credaf fod y gwersi y gallwn eu dysgu o'r adroddiad hwn yn hanfodol o ran gwella allforion a denu buddsoddiad tramor. Iawn, efallai y bydd rhai ar yr ymylon yn dadlau nad oes angen i ni edrych y tu hwnt i'n busnesau cynhenid, ond prin ar y naw yw'r lleisiau hynny.

Byrdwn allweddol yr adroddiad hwn yw y dylai Llywodraeth Cymru nodi strategaeth datblygu economaidd clir sy'n egluro ei dyheadau ar gyfer masnach a mewnfuddsoddi. Dylai'r strategaeth gynnwys y marchnadoedd a'r sectorau rhyngwladol y mae'n ystyried eu bod o bwysigrwydd strategol i Gymru a dylai amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi busnesau Cymru i fanteisio ar y cyfleoedd yn y marchnadoedd hynny. Yn awr, dyma'n amlwg ffordd gwrtais o ddweud trwy iaith pwyllgor: os oes strategaeth yn bodoli, mae'r strategaeth gyfredol yn ddrylyd ac o bosibl yn mynd ati i annog, nid yn unig darpar fuddsoddwyr i beidio â buddsoddi, ond buddsoddwyr presennol hefyd; bod llawer rhy ychydig mewn gwirionedd o nodau clir neu dargedau; ac, ar ben hynny, fod y diffyg tryloywder a chyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a busnesau Cymru yn cael ei adlewyrchu gan yr allforion eu hunain.

Gadewch inni wynebu'r gwir. Mae pawb yn gwybod, ac mae wedi'i grybwyll yn barod: arferai Cymru fod â brand pwerus o ran allforion a mewnfuddsoddi. Brand a gafodd ei alw'n Awdurdod Datblygu Cymru. Wrth gwrs, roedd perfformiad y WDA cystal iddo gael ei ddi-ddymu yn 2006, ac mae'r gweddill yn hanes. Fel y dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach:

'Does fawr o amheuaeth y bu i'r sefydliadau a'i dilynodd, gan gynnwys Busnes Rhyngwladol Cymru, fethu â hawlio'r un brand cadarn ag a lwyddodd Awdurdod Datblygu Cymru gynt.'

Nid oedd y Ffederasiwn Busnesau Bach ar ei ben ei hun, wrth gwrs. Codwyd yr un pryder gan dystion eraill yn ystod yr ymchwiliad hwn, a arweiniodd at argymhelliad 1, yn gofyn am werthusiad annibynnol gan Lywodraeth Cymru i asesu a yw'r dull mewnlol ar hyn o bryd yn cynrychioli arferion a gwerth da am arian—gwerthusiad annibynnol a allai fod wedi dangos cyflwr gwirioneddol mewnfuddsoddi yng Nghymru a'i strategaeth allforio. Mae Llywodraeth Cymru, wrth gwrs, wedi gwrthod yr argymhelliad hwn. Pam tybed?

Argymhelliad 4: gadewch inni edrych ar hwnnw. Gwrthodwyd hwn hefyd gan Lywodraeth Cymru. Gofyn am gyhoeddi dangosyddion perfformiad allweddol bob blwyddyn—nid yw'n gais afresymol, yn eich barn chi, efallai. Ni fyddai angen y cais o gwbl pe bai digon o ddata ar fuddsoddiadau a wnaed yng Nghymru ar hyn o bryd beth bynnag. Mae'r data sydd gennym wedi'u camddeall. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud y bu cynnydd anferth o 191% mewn mewnfuddsoddi. Mae'n swnio'n wych, onid ydyw? Yr unig broblem yw na chafwyd hynny. Mae'r ffigur mewn gwirionedd yn seiliedig ar nifer y prosiectau neu swyddi, ond nid ar fuddsoddiad cyfalaf gwirioneddol. Mae hynny yn llawer is.

To be fair to be UKTI, this is not its job. The Welsh Government needs to collect data on this, and that is not happening at the moment. It is not just transparency on data. We could look at transparency on the priority sector approach as well. The Federation of Small Businesses complains that there is a difficulty in ascertaining what the sector panels do and how they are supporting businesses. Cardiff Business School has said that the key sector approach adopted by the Welsh Government is causing confusion among inward investors—not ideal. There is, Minister, a general fear that, by targeting specific areas, other parts of the economy will suffer unnecessarily. I really do think that you need to address these concerns.

Recommendation 7? Well, that calls on the Welsh Government to publish annual key performance measures for the support it provides to exporters, such as details of trade missions and fairs, and their relative costs. Recommendation 7—rejected, of course. The South Wales Chamber of Commerce thinks that the missions are not representing value for money. Other witnesses characterise the missions as limiting and focusing on big companies, rather than on real-life business that wants to export. Now, the Government might well think that, on the face of it, those larger companies are more important. However, supporting Welsh SMEs to export their products and services abroad would have an influence on the statistics in the long term. So, SMEs, as we say in so many debates, definitely need more support. However, no, that recommendation was rejected by the Government.

In conclusion, this report has raised some interesting questions. Wales definitely needs a strong brand to survive in an increasingly competitive market—a single, coherent brand that will show what Wales does. This is not rocket science. Let us get regular, detailed information on the budgets, targets and outcomes of the inward investment and export activity.

16:08

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you for the opportunity to speak in this debate on the committee report and to make a few comments on the Government's responses. There were 10 recommendations in all. I will start with recommendation 1, calling for an independent evaluation to assess whether the current in-house approach was working. It is a recommendation, as we have heard, that was rejected. There was clear evidence from the committee's work to show that, since taking inward investment in-house, the marketing message overseas has been inconsistent. Many of the witnesses said that it not only muddied the message but also restricted risk-taking. I am not going to focus this afternoon on the demise of the WDA, but the Welsh Government rejects the recommendation, it seems, because, it says, statistics show that Wales is performing well. Let me tell you what Professor Max Munday, director of the Welsh economy research unit, told us about those statistics. To be blunt, he said,

'The sort of figures that we use...are almost completely useless'.

I fod yn deg i'r UKTI, nid dyma yw ei waith. Mae angen i Lywodraeth Cymru gasglu data ynglŷn â hyn, ac nid yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd. Nid dim ond tryloywder ar ddata. Gallen edrych ar dryloywder ar ddull sector blaenoriaeth hefyd. Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn cwyno ei bod yn anodd canfod yr hyn y mae paneli'r sector yn ei wneud a sut maent yn cefnogi busnesau. Yn ôl Ysgol Fusnes Caerdydd, mae'r dull sector allweddol a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn achosi dryswch ymhlith mewnfuddsoddwyr—nad yw'n ddelfrydol. Mae ofn cyffredinol, Weinidog, trwy dargedu meysydd penodol y bydd rhannau eraill o'r economi yn dioddef yn ddiangen. Credaf yn wir y dylech fynd i'r afael â'r pryderon hyn.

Argymhelliad 7? Wel, mae hwnnw'n galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi mesurau perfformiad allweddol blynyddol ar gyfer y gefnogaeth y mae'n ei darparu i allforwyr, megis manylion am deithiau a ffeiriau masnach, a'u costau cymharol. Argymhelliad 7—fe'i gwrthodwyd, wrth gwrs. Mae Siambr Fasnach De Cymru yn credu nad yw'r teithiau yn cynrychioli gwerth am arian. Yn ôl tystion eraill, roedd y teithiau yn gyfyng ac yn canolbwyntio ar gwmnïau mawr, yn hytrach nag ar fusnes go iawn sydd am allforio. Yn awr, efallai fod y Llywodraeth yn wiry n credu bod cwmnïau mawr ar yr olwg gyntaf, yn fwy pwysig. Fodd bynnag, byddai cefnogi busnesau bach a chanolig yng Nghymru i allforio eu cynhyrchion a'u gwasanaethau dramor yn dylanwadu ar yr ystadegau yn y tymor hir. Felly, fel y dywedir mewn cymaint o ddadleuon, yn bendant mae agen mwy o gefnogaeth ar fusnesau bach a chanolig. Er hynny, na, gwrthodwyd yr argymhelliad hwnnw gan y Llywodraeth.

I gloi, mae'r adroddiad hwn wedi codi rhai cwestiynau diddorol. Yn bendant mae angen brand cryf ar Gymru i oroesi mewn marchnad gynyddol gystadleuol—un brand, cydlynol a fydd yn dangos yr hyn y mae Cymru wedi'i wneud. Nid yw hyn yn rhywbeth astrus. Gadewch i ni gael gwybodaeth reolaidd, fanwl am y cyllidebau, y targedau a chanlyniadau'r gweithgarwch mewnfuddsoddi ac allforio.

Diolch am y cyfle i siarad yn y ddadl hon ar adroddiad y pwyllgor ac i wneud ychydig o sylwadau ar ymatebion y Llywodraeth. Roedd 10 argymhelliad i gyd. Dechreuaf gydag argymhelliad 1, yn galw am werthusiad annibynnol i asesu a yw'r dull mewnlol ar hyn o bryd yn gweithio. Dyma argymhelliad, fel y clywsom, a gafodd ei wrthod. Roedd tystiolaeth glir o waith y pwyllgor yn dangos, ers mewnloli mewnfuddsoddi, fod y neges farchnata dramor wedi bod yn anghyson. Dywedodd llawer o'r tystion fod hyn nid yn unig wedi cymylu'r neges, ond hefyd wedi cyfyngu ar gymryd risg. Nid wyf yn mynd i ganolbwyntio'r prynhawn yma ar dranc y WDA, ond ymddengys fod Llywodraeth Cymru yn gwrthod yr argymhelliad, am fod yr ystadegau'n dangos, yn ôl a ddywed y Llywodraeth, fod Cymru'n perfformio'n dda. Gadewch imi ddweud wrthyhych yr hyn a ddywedodd yr Athro Max Munday, cyfarwyddwr uned ymchwil economi Cymru, wrthym am yr ystadegau hynny. A bod yn onest, meddai,

'mae'r math o ffigurau a ddefnyddiwn ... bron yn gwbl ddiwerth'.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

So, I will jump to recommendation 4, calling for the Welsh Government to develop and publish annually a set of transparent key performance indicators. Professor Munday's comments make the rejection of that recommendation rather surprising and obviously disappointing. Simply stating the number of projects attracted to Wales does not give us a proper understanding of the progress made in making Wales an attractive business destination. Neither does the numbers of jobs created and safeguarded on their own, important as they are.

The same goes for recommendation 5, calling for improving the quality and timeliness of the economic statistics available to us. The Government has accepted this recommendation in part. The wording of the Government's response suggests that the part that it does not accept is to work with the ONS to produce GDP figures for Wales on the same basis and frequency as it does for the UK as a whole. The response states:

'production of a quarterly indicator of GVA at low cost is feasible, but the case for such an indicator is less strong than many assume'.

The latest data we have for Wales are GVA for 2012 and GDP for 2011. Does the Minister really think that that is acceptable? It is not possible to run a country without the tools to analyse your progress, and it certainly is not possible to scrutinise the Government's performance without these indicators. There is a reason the ONS publishes quarterly statistics for the UK: because they are essential statistics. The ONS can do so for Wales at low cost, the Minister admits, but it is only the Welsh Government not asking it to do so that is stopping that from happening. Plaid Cymru wants to make Wales the most business-friendly destination in the British isles. We want businesses from all over the world to want to come here, but without clear, distinct and accurate data on capital investment, joint ventures, acquisitions, expansions and retentions, we cannot develop a strategy to ensure that we get as much investment as possible in future.

When the committee questioned UKTI, incidentally, its representative said that it is up to the Welsh Government to provide these figures, so we are very disappointed and hugely frustrated at the Welsh Government's continued reluctance to be open and transparent about its performance. I will make the point here: we have succeeded in winning the argument for releasing figures on enterprise zones, and this is another area where we are determined to do all we can to get the best possible available performance indicators for Wales.

Felly, af ymlaen at argymhelliad 4, sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu a chyhoeddi bob blwyddyn set o ddangosyddion perfformiad allweddol tryloyw. Yn sgil sylwadau'r Athro Munday, mae i'r llywodraeth wrthod yr argymhelliad hwnnw yn amlwg yn peri siom a syndod. Nid yw dim ond datgan nifer y prosiectau a ddenwyd i Gymru yn rhoi dealltwriaeth briodol i ni o'r cynnydd a wnaed o ran gwneud Cymru yn gyrchfan busnes deniadol. Nid yw datgan nifer y swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd ar eu pen eu hunain o gymorth chwaith, er eu bod yn bwysig.

Mae'r un peth yn wir am argymhelliad 5, sy'n galw am wella ansawdd ac amseroldeb yr ystadegau economaidd sydd ar gael i ni. Mae'r Llywodraeth wedi derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol. Mae geiriad ymateb y Llywodraeth yn awgrymu mai'r rhan nad yw'n derbyn yw gweithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i gynhyrchu ffigurau GDP i Gymru ar yr un sail a mynychder ag y mae'r ei wneud ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd. Mae'r ymateb yn datgan:

'mae cynhyrchu dangosydd chwarterol o werth ychwanegol gros (GVA) ar bris isel yn ymarferol, ond mae'r achos o blaid dangosydd o'r fath yn llai cryf nag y tybia llawer'.

Y data diweddaraf sydd gennym ar gyfer Cymru yw GVA ar gyfer 2012 a GDP ar gyfer 2011. A yw'r Gweinidog yn wir yn credu bod hynny'n dderbyniol? Nid ellir rhedeg gwlad heb y dulliau i ddadansoddi eich cynnydd, ac yn sicr nid oes modd craffu ar berfformiad y Llywodraeth heb y dangosyddion hyn. Mae rheswm paham y mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyhoeddi ystadegau chwarterol ar gyfer y DU: am eu bod yn ystadegau hanfodol. Mae'r Gweinidog yn cyfaddef y gall y Swyddfa Ystadegau Gwladol wneud hynny ar gyfer Cymru am gost isel, a'r unig beth sy'n rhwystro hyn rhag digwydd yw nad yw Llywodraeth Cymru wedi gofyn iddyn nhw wneud hynny. Mae Plaid Cymru am i Gymru fod y cyrchfan mwyaf busnes-gyfeillgar yn ynysoedd Prydain. Rydym am i fusnesau o bob cwr o'r byd fod yn awyddus i ddod yma, ond heb ddata clir, pendant a chywir ar fuddsoddiad cyfalaf, mentrau ar y cyd, caffaeliadau, ehangiadau a pharhad, ni allwn ddatblygu strategaeth i sicrhau ein bod yn cael cymaint o fuddsoddiad â phosibl yn y dyfodol.

Pan holwyd y pwyllgor UKTI, gyda llaw, dywedodd ei gynrychiolydd mai mater i Lywodraeth Cymru yw darparu'r ffigurau hyn, felly rydym yn siomedig iawn ac yn teimlo'n hynod o rwystredig ar amharodrwydd parhaus Llywodraeth Cymru i fod yn agored ac yn dryloyw ynghylch ei pherfformiad. Rwyf am wneud y pwynt yma: rydym wedi llwyddo i ennill y ddadl dros ryddhau ffigurau ar ardaloedd menter, a dyma faes arall lle rydym yn benderfynol o wneud popeth o fewn ein gallu i gael y dangosyddion perfformiad gorau posibl sydd ar gael ar gyfer Cymru.

Finally, I turn to recommendation 8, that the Welsh Government should clarify its brand strategy for trade and inward investment. It is a recommendation that has been accepted in principle. Many witnesses shared concerns at the lack of consistency in brand strategy and messaging. The UKTI, of course, does not sub-brand, so everything that it does will be branded under the Business is GREAT campaign and branded as British as a whole, while Wales is currently using the Just Ask Wales brand, and I guess it is too early to say how well that is performing. While it is important to evolve, to adapt to changing markets and priorities, it is important that the same message is being shared by all and that everyone knows what they are selling, and how and why.

If we want to develop Wales's brand overseas, we need a coherent and consistent message. We are pleased that the Government has accepted that recommendation in principle, and we hope to see clarification and improvement on the clarity of messaging very soon.

16:13

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for the debate. It is an interesting inquiry to have taken part in, but, for me, in many areas, a common factor emerged, and that was how difficult it was to objectively assess what the Welsh Government was hoping to achieve, what actions the Welsh Government is taking to boost trade and inward investment and, even more importantly, what impact those actions are having on a daily basis. I felt that it was particularly disappointing, given that, how faint a picture we felt as a committee we were able to paint from the information available to us, and that it is those four recommendations that appertain to improving transparency in this area of work that the Government has chosen to reject outright, for example recommendation 1, suggesting that the Welsh Government commission an independent evaluation exercise of its current in-house support mechanisms. Now, in response to that, the Welsh Government has rejected re-establishing the WDA.

Yn olaf, trof at argymhelliad 8, y dylai Llywodraeth Cymru egluro ei strategaeth brand ar gyfer masnach a mewnfuddsoddi. Mae'n argymhelliad sydd wedi ei dderbyn mewn egwyddor. Roedd llawer o dystion yn rhannu pryderon ynghylch y diffyg cysondeb yn y strategaeth brand a negeseuon. Nid yw UKTI, wrth gwrs, yn is-frandio, felly mae popeth y mae'n ei wneud yn cael ei frandio o dan yr ymgyrch Business is GREAT a'i frandio dan Brydain gyfan, tra bo Cymru ar hyn o bryd yn defnyddio'r brand Just Ask Wales, ac mae'n debyg ei bod yn rhy gynnar i sut mae'n perfformio. Er ei bod yn bwysig esblygu, ac addasu i farchnadoedd a blaenoriaethau sy'n newid, mae'n bwysig bod yr un neges yn cael ei rhannu gan bawb a bod pawb yn gwybod beth y maent yn ei werthu, a sut a pham.

Os ydym am ddatblygu brand Cymru dramor, mae angen neges gydlynol a chyson. Rydym yn falch bod y Llywodraeth wedi derbyn yr argymhelliad hwnnw mewn egwyddor, ac rydym yn gobeithio gweld eglurhad a gwelliant ar eglurder negeseuon yn fuan iawn.

Diolch am y ddadl. Bu'n ymchwiliad diddorol i mi ymwneud ag ef, ond, i mi, mewn llawer o ardaloedd, daeth ffactor cyffredin i'r amlwg, sef ei bod yn hynod anodd asesu'n wrthrychol yr hyn y mae Llywodraeth Cymru'n gobeithio ei gyflawni, pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i roi hwb i fasnach a mewnfuddsoddi ac, yn bwysicach fyth, pa effaith y mae'r gweithredoedd hynny yn ei chael yn ddyddiol. Roeddwn yn teimlo ei bod yn hynod siomedig, o gofio, mai llun pur amwys oedd y pwyllgor yn teimlo y gallem ei beintio o'r wybodaeth oedd ar gael i ni, ac mai'r pedwar argymhelliad hwnnw sydd a wnelont â gwella tryloywder yn y maes gwaith hwn y mae'r Llywodraeth wedi dewis eu gwrthod yn llwyr, er enghraifft argymhelliad 1, sy'n awgrymu i'r Llywodraeth Cymru gomisiynu ymarfer gwerthuso annibynnol o'i mecanweithiau cymorth mewnol cyfredol. Yn awr, mewn ymateb i hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthod ail-sefydlu'r Awdurdod Datblygu Cymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

To deal with the obvious point first, I thank you, Minister, for giving us your opinion on the WDA, but I wonder whether, in your response today, you would like to give us an idea of how you would respond to the recommendation that we did make, as opposed to a recommendation that we, as a committee, did not make. While we did receive a lot of evidence on the WDA, we distinctly avoided making a recommendation in either direction on that point, and it is the recommendation that we did make that I would like you to respond to. However, the broader point is that, if you are rejecting an evaluation of current activity, I would like to know really why you would do so. It is common practice for the Welsh Government to evaluate its programmes. In the last month alone, your department in the Welsh Government, Minister, has published three evaluation reports to my knowledge: 'Youth Engagement and Progression Framework', 'The Severn Valley Strategic Regeneration Programme' and the Jobs Growth Wales one. So, it is not like it is something out of the ordinary that we have asked you to do. To resist doing so not only leaves people to wonder why you fear that transparency, but it is also fundamentally misunderstanding the primary purpose of those kinds of evaluations. Yes, an evaluation exercise might give your opponents a few pieces of ammunition to use here in the Chamber or elsewhere, but you have never seemed to be unduly worried by that kind of possibility in the past, Minister. The main purpose, of course, of an evaluation is to help improve Government performance by identifying what is working, what is not working and where the resources can best be placed. That is the positive purpose to which strategic organisations put evaluation. It is a critical part of the implementation cycle. Used effectively, it covers the cost of collecting itself by helping you to use your resources more effectively and avoid wasteful spending.

I also want to reflect on the Government's response to recommendation 7 and the First Minister's misunderstanding of my question yesterday on the subject of trade missions. Let me be absolutely clear, I did not suggest and would not suggest that we should not do trade missions. I do not know where he got that idea from. I am very confident that the record will show that I have never asked you for less investment in taking Wales to the world to promote trade, inward investment or indeed tourism. However, I have had businesses raise with me some issues that they have experienced in getting involved with trade missions, for example the timeliness of information, the level of detail that was available in advance, and so on. Setting targets for some of these practical matters could actually help identify areas that need investigation and improvement and could set a strategic direction for the team delivering those missions so that it feels focused on the objectives that it is trying to deliver. I have also had members of the public ask me why we spend so much money on these kinds of missions and why we invest in them. I would love to be able to tell them the return on the investment we get when we do these kinds of exercises, but I cannot, because we do not know.

Rwyf am ymdrin â'r pwynt amlwg yn gyntaf, diolch i chi, Weinidog, am roi eich barn i ni ar y WDA, ond tybed, yn eich ymateb heddiw, a hoffech awgrymu sut y byddech yn ymateb i'r argymhelliad a wnaethom, yn hytrach nag argymhelliad na fu i ni ei wneud fel pwyllgor. Er i ni dderbyn llawer o dystiolaeth am y WDA, bu i ni yn benodol osgoi gwneud argymhelliad i'r naill gyfeiriad na'r llall ar y pwynt hwnnw, a hoffwn gael eich ymateb ar yr argymhelliad y bu i ni ei wneud. Fodd bynnag, y pwynt ehangach yw, os ydych yn gwrthod gwerthusiad o weithgarwch cyfredol, hoffwn wybod mewn gwirionedd pam y byddech yn gwneud hynny. Mae'n arfer cyffredin i Llywodraeth Cymru werthuso ei raglenni. Yn y mis diwethaf yn unig, Weinidog, mae eich adran yn Llywodraeth Cymru, wedi cyhoeddi tri adroddiad gwerthuso y gwn i amdanynt: 'Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid', 'Rhaglen Adfywio Strategol Dyffryn Hafren' a Twf Swyddi Cymru. Felly, nid yw gofyn i chi wneud hyn yn rhywbeth allan o'r cyffredin. Byddai peidio â gwneud hynny nid yn unig yn gwneud i bobl feddwl tybed pam rydych yn ofni'r tryloywder hwnnw, ond mae hefyd yn y bôn yn camddeall prif ddiben y mathau hynny o werthusiadau. Yn wir, gallai ymarfer gwerthuso roi ychydig o fwledi i'ch gwrthwynebwyr i'w defnyddio yma yn y Siambr, ond nid yw wedi ymddangos eich bod erioed wedi poeni'n ormodol am y math hwnnw o bosiblwydd yn y gorffennol, Weinidog. Prif bwrpas gwerthusiad, wrth gwrs, yw helpu i wella perfformiad y Llywodraeth drwy nodi'r hyn sy'n llwyddo, yr hyn sy'n fethiant, a'r lle gorau ar gyfer darparu adnoddau. Dyna yw'r diben cadarnhaol y mae sefydliadau strategol yn ei roi i werthusiad. Mae'n rhan hanfodol o'r cylch gweithredu. O'i ddefnyddio'n effeithiol, mae'n talu cost y casglu ei hun drwy eich helpu i ddefnyddio eich adnoddau'n fwy effeithiol ac osgoi gwariant gwastraffus.

Rwyf hefyd am ystyried ymateb y Llywodraeth i argymhelliad 7 a'r ffordd y bu i'r Prif Weinidog gamddeall fy nghwestiwn ddoe ar fater teithiau masnach. Gadewch imi fod yn gwbl glir, nid oeddwn yn awgrymu ac ni fyddwn yn awgrymu na ddylem wneud teithiau masnach. Nid wyf yn gwybod o ble y cafodd y syniad hwnnw. Rwy'n ffyddiog iawn y bydd y cofnod yn dangos na fu i mi erioed ofyn i chi am lai o fuddsoddiad yn y gwaith o fynd â Chymru i'r byd i hyrwyddo masnach, mewnfuddsoddiad neu yn wir dwristiaeth. Er hynny, mae busnesau wedi codi gyda mi rai materion y cawsant brofiad ohonynt yn ymwneud â chymryd rhan mewn teithiau masnach, er enghraifft, amseroldeb y wybodaeth, lefel y manylder a oedd ar gael o flaen llaw, ac yn y blaen. Pe câi targedau eu gosod ar gyfer rhai o'r materion ymarferol hyn, gallai hynny mewn gwirionedd helpu i ganfod meysydd y mae angen ymchwilio iddynt a'u gwella a gallai osod cyfeiriad strategol ar gyfer y tîm sy'n darparu'r teithiau hynny er mwyn teimlo ei fod yn canolbwyntio ar yr amcanion y mae'n ceisio eu cyflawni. Rwyf hefyd wedi cael aelodau o'r cyhoedd yn gofyn i mi pam yr ydym yn gwario cymaint o arian ar y mathau hyn o deithiau a pham rydym yn buddsoddi ynddynt. Hoffwn yn fawr allu dweud wrthynt ba elw a gawn ar y buddsoddiad pan fyddwn wedi cynnal ymarferion o'r fath, ond ni allaf, oherwydd nad ydym yn gwybod.

Finally, turning to recommendation 5, the committee has called for more data, as Rhun ap Iorwerth mentioned, for exactly the reason that I set out at the start—we felt we were groping in the dark far too much and that Welsh Government did not really have the tools at its disposal to respond quickly to what is a very rapidly changing economic picture globally. In particular, I have long expressed the opinion that the Welsh Government should commission the GDP(E) statistics from the Office for National Statistics. I am glad that the availability of data is now under review but I would ask the Minister if she could explain or expand on the statement regarding the quarterly statistics that the case for such an indicator as GDP(E) is less strong than many assume. I am one of the people assuming that it is a reasonably strong case, particularly if, as the quote suggests, that they can be obtained at a reasonable cost. So, I am surprised by the suggestion that, with more and more economic levers devolved to Wales and the creation of a Welsh treasury, that we would not want the economic indicator that is the international standard by which economies are judged to be as up to date, as detailed and as accurate as possible.

Yn olaf, i droi at argymhelliad 5, mae'r pwyllgor wedi galw am fwy o ddata, fel y crybwyllodd Rhun ap Iorwerth, am yr union reswm a nodais ar y dechrau—teimlem ein bod yn ymbalfalu yn y tywyllwch lawer gormod ac nad oedd gan Lywodraeth Cymru'r arfau angenrheidiol i ymateb yn gyflym i'r hyn sy'n ddarlun economaidd byd-eang cyfnewidiol tu hwnt. Yn benodol, rwyf wedi mynegi'r farn ers tro y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ystadegau GDP(E) gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Rwy'n falch bod adolygiad ar waith bellach ar gyfer argaeledd data, ond a gaf fi ofyn i'r Gweinidog, pe gallai hi esbonio neu ehangu ar y datganiad ynghylch yr ystadegau chwarterol y byddai'r achos dros ddangosydd o fath CMC (E) yn llai cryf nag y mae llawer yn ei dybio. Rwyf finnau'n un o'r bobl sy'n tybio bod yr achos yn weddol gryf, yn enwedig os, fel y mae'r dyfyniad yn ei awgrymu, y gellid eu cael am gost resymol. Felly, mae'n synod i mi, gyda mwyfwy o liferi economaidd yn cael eu datganoli i Gymru a chreu trysorlys Cymreig, fod awgrym na fyddem am gael y dangosydd economaidd sy'n safon ryngwladol ar gyfer barnu i'r graddau gorau posibl pa mor gyfredol, manwl a chywir yw economi.

16:18 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Weiniidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Edwina Hart.

I call on the Minister for Economy, Science and Transport, Edwina Hart.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:18 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I would like to start by thanking the Chair of the Enterprise and Business Committee and the committee members for their work on this report. I would also like to thank the Chair for his comprehensive and even-handed introduction to this particular debate. As a Government, we are committed to economic development through internationalisation and continue to build the momentum that we began in 2012 to further develop our approach to trade and investment to meet the demands of the global market and the companies in Wales.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes ac aelodau'r pwyllgor am eu gwaith ar yr adroddiad hwn. Hoffwn hefyd ddiolch i'r Cadeirydd am ei gyflwyniad cynhwysfawr a chyson i'r ddadl benodol hon. Fel Llywodraeth, rydym wedi ymrwmo i ddatblygiad economaidd trwy ryngwladoli ac rydym yn parhau i ddatblygu'r momentwm a ddechreuwyd gennym yn 2012 i ddatblygu ein hymagwedd at fasnachu a buddsoddi ymhellach er mwyn bodloni gofynion y farchnad fyd-eang a'r cwmnïau yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Obviously, there are recommendations that we accept in principle, but I will deal with the recommendations that we will probably reject and do some more on those. In terms of recommendation 1, we did have our strongest performance in 30 years. We did see a large increase in inward investment projects and I am aware, because I have read the evidence myself, that witnesses have been critical of the approach adopted by the Welsh Government towards trade and investment. Of course, I do take very much to heart Eluned Parrott's point that you did not recommend the WDA returning, because, usually in debates, I hear the nice music about 'what if we had a WDA' as some sort of theme song, which, of course, I do not find attractive in any way whatsoever. As far as I am concerned, it is fruitless making a comparison with former bodies such as the WDA, Wales Trade International and International Business Wales because the world has moved on from their day. However, people do say to me that WDA advertisements were shown by every airline when they flew to the United States, therefore it did have an impact, and I am aware of the comments that have been made today on this particular issue.

Yn amlwg, mae argymhellion yr ydym yn eu derbyn mewn egwyddor, ond byddaf yn ymdrin â'r argymhellion y byddwn yn ôl pob tebyg yn eu gwrthod ac yn gwneud rhywfaint mwy arnynt. O ran argymhelliad 1, dyma oedd ein perfformiad cryfaf ers 30 mlynedd. Gwelsom gynnydd mawr mewn prosiectau mewnffuddsoddi ac rwy'n ymwybodol, gan fy mod wedi darllen y dystiolaeth fy hun, fod tystion wedi bod yn feirniadol o'r dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru tuag at fasnach a buddsoddi. Wrth gwrs, rwy'n llwyr werthfawrogi pwynt Eluned Parrott nad ydych yn argymhell atgyfodi'r WDA, oherwydd, fel arfer mewn dadleuon, clywaf yr alaw hyfryd 'beth petai gennym Awdurdod Datblygu Cymru' fel rhyw fath o brif thema, nad yw , wrth gwrs, yn apelio ataf o gwbl. O'm rhan i, ofer yw cymharu â hen gyrff megis y WDA, Masnach Cymru Rhyngwladol a Busnes Rhyngwladol Cymru oherwydd y mae'r byd wedi symud ymlaen ers eu dyddiau hwy. Fodd bynnag, mae pobl yn dweud wrthyf fod hysbysebion y WDA wedi'u dangos gan bob cwmni hedfan pan fyddent yn hedfan i'r Unol Daleithiau, felly, bu i hynny gael effaith, ac rwy'n ymwybodol o'r sylwadau sydd wedi'u gwneud heddiw ar y mater penodol hwn.

We accept recommendation 3 in principle, because we already attend a large number of overseas events. You will be aware that an enormous amount of overseas events are organised by UK Trade and Investment, and we could not necessarily afford or be able to attend all of those events. We do use the good offices of UKTI to help us, but we have started to go to more events. We sent large delegations this year to Medica in Dusseldorf, we went to the rail technology show in Berlin as well as to the Games Developers Conference in San Francisco. So, we have accepted the recommendation in principle, and I think that there is further work to be done in that area about how we expose Wales.

I understand that there was disappointment as a result of the rejection of recommendation 4. We already publish details of inward investment on an annual basis in accordance with our agreement with UKTI. There are issues about putting details of investment in the public domain because of commercial confidentiality, because we want to ensure that we have the trust element with those investors. That is why the recommendation has been rejected, but I have heard the comments today and I will say something further about those.

In terms of recommendation 5, we have accepted in the past that this is primarily a matter for the Minister for finance in terms of statistics. You will know that a review of the economic data is being carried out by the chief statistician and the chief economist. Their preliminary findings have been shared with the council for economic renewal and the sector panels. I think that William Graham made a good point about the sector panels and their involvement in work with us, which is quite important. In terms of the council for economic renewal, that is the Confederation of British Industry, the Institute of Directors and the Federation of Small Businesses, who I understand feel that there is a credibility gap in all of our policy agendas.

The assessment of economic performance requires reference to a basket of indicators, and there are real conceptions of fiscal issues in developing robust models of gross value added. However, as I have accepted this recommendation in part, this is something that we will return to.

Likewise, recommendation 6 is also linked to national statistics. I will have further discussions with the council for economic renewal and the Minister for finance, and I will probably look again at some of the statistical information that we require.

We rejected recommendation 7 because trade missions are just elements of that. However, I was taken by the point that Eluned Parrott made about providing further information so that you can sell the fact that we do it. So, although we have rejected the recommendation, it is something that I will look at positively because there is an important point about what information is useful to give, so that it can allow you to be ambassadors to business and to the world to say why parts of the budgets are being used in that way.

Rydym yn derbyn argymhelliad 3 mewn egwyddor, gan ein bod eisoes yn mynychu nifer fawr o ddigwyddiadau tramor. Gwyddoch fod llawer iawn o ddigwyddiadau tramor yn cael eu trefnu gan Masnach a Buddsoddi'r DU, ac ni allem o reidrydd fforddio neu allu mynd i bob un o'r digwyddiadau hynny. Rydym yn defnyddio swyddfeydd da UKTI i'n helpu ni, ond rydym wedi dechrau mynd i ragor o ddigwyddiadau. Bu i ni anfon dirprwyaethau mawr eleni i Medica yn Dusseldorf, a mynd i'r sioe dechnoleg rheilffordd yn Berlin yn ogystal ag i Gynhadledd Datblygwyr Gemau yn San Francisco. Felly, rydym wedi derbyn yr argymhelliad mewn egwyddor, a chredaf fod gwaith pellach i'w wneud yn y maes hwnnw ynghylch hyrwyddo Cymru.

Deallaf y bu siom o ganlyniad i ni wrthod argymhelliad 4. Rydym eisoes yn cyhoeddi manylion mewn fuddsoddi bob blwyddyn yn unol â'n cytundeb gyda UKTI. Mae materion ynglŷn â rhoi manylion am fuddsoddiad yn y parth cyhoeddus oherwydd cyfrinachedd masnachol, gan ein bod yn awyddus i gynnal ymddiriedaeth y buddsoddwyr hynny. Dyna pam y gwrthodwyd yr argymhelliad, ond clywais y sylwadau heddiw, a byddaf yn dweud rhywbeth pellach am hynny.

O ran argymhelliad 5, rydym wedi derbyn yn y gorffennol mai mater i'r Gweinidog cyllid yn nhermau ystadegau yw hyn yn bennaf. Byddwch yn gwybod bod adolygiad o'r data economaidd yn cael ei gynnal gan y prif ystadegydd a'r prif economegydd. Rhannwyd eu canfyddiadau rhagarweiniol gyda chyngor adnewyddu'r economi a phaneli'r sectorau. Credaf fod William Graham wedi gwneud pwynt da am baneli'r sectorau a'u cyfranogiad i'n gwaith, sy'n eithaf pwysig. O ran y cyngor adnewyddu'r economi, hynny yw Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, Sefydliad y Cyfarwyddwyr a Ffederasiwn Busnesau Bach, roeddent hwy'n teimlo, yn ôl a ddeallaf, fod bwlch hygredd ym mhob un o'n hagendâu polisi.

Mae asesu perfformiad economaidd yn gofyn am gyfeirio at fasged o ddangosyddion, ac mae cysyniadau real o faterion cyllidol wrth ddatblygu modelau cadarn o werth ychwanegol crynswth. Fodd bynnag, gan fy mod wedi derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol, mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn dychwelyd ato.

Yn yr un modd, mae argymhelliad 6 hefyd yn gysylltiedig ag ystadegau cenedlaethol. Byddaf yn cael trafodaethau pellach gyda chyngor adnewyddu'r economi a'r Gweinidog cyllid, a byddaf, yn ôl pob tebyg, yn edrych eto ar ychydig o'r wybodaeth ystadegol sydd ei hangen arnom.

Bu i ni wrthod argymhelliad 7 gan fod teithiau masnach ddim ond yn elfen o hynny. Fodd bynnag, derbyniais y pwynt a wnaeth Eluned Parrott ynglŷn â darparu rhagor o wybodaeth er mwyn i chi allu gwerthu'r ffaith ein bod yn eu cynnal. Felly, er i ni wrthod yr argymhelliad, mae'n rhywbeth i mi ei ystyried yn gadarnhaol gan fod y wybodaeth sy'n ddefnyddiol i'w darparu yn fater pwysig, er mwyn eich galluogi i fod yn llysgenhadon ymhlith busnesau a ledled y byd i ddweud pam y mae rhannau o'r cyllidebau yn cael eu defnyddio yn y ffordd honno.

In terms of recommendation 8, we have accepted it in principle. There are clearly issues around branding that we need to look at further, and further work is being developed. It is very important that we do the brand issue so that it links, as William Graham indicated, with tourism and what is going on there, and that those are brought together. That will develop quite clearly over the next few months.

In terms of recommendation 9, we did reject that because I do not think it is useful just to isolate a report on one component of various things. It is important that we look at that in the round.

On recommendation 10, we did accept it in principle and Nick Ramsay said that we did not have a strategy. However, we do have the 'Economic renewal: a new direction' strategy, but I think that there is scope to refresh the trade and inward investment approach contained within that strategy. There will be further work done in that particular area, which I will be able to report back on in due course.

To conclude, economic benefit for Wales drives the Welsh Government's international agenda; that is a key for us. We have an integrated approach to economic development, including trade and inward investment. Trade and investment are drivers for our economy, and our activity in Wales and overseas to build our profile and reputation is geared towards providing the platform to enable Welsh companies and organisations to take advantage of opportunities when they arise. Some of the practical points about whether or not companies are aware of trade missions, whether they are aware of where we are going and how to get information out to them have been well made in this debate, and it is something that I will look at further. However, against the backdrop of an increasingly competitive marketplace, more and more companies are choosing Wales as a place to invest. You only have to look at the creative industries where we have had enormous success over the last 12 months, and last year was a very successful year.

So, can I say that, even though there will be differences between the Government and the committee on these, I do not rule out any of the discussion we have had in this Chamber today or the hard work that the committee has done? I do recognise that it wanted to contribute very much to the wellbeing and the direction of policy in this area. So, I will reconsider whether I need to revisit any of my responses that I have made formally in light of the comments made in the debate today, and I will issue a written statement in the new year regarding the issues that were raised with me that I might be able to positively do something further on in response to the committee's well-considered report.

O ran argymhelliad 8, rydym wedi ei dderbyn mewn egwyddor. Mae'n amlwg bod materion yn ymwneud â brandio sydd angen ein sylw pellach, ac mae gwaith pellach yn cael ei ddatblygu. Mae'n bwysig iawn bod y brand yn cael ei gysylltu, fel y nododd William Graham, â thwristiaeth a'r hyn sy'n digwydd yno, a bod yr elfennau'n cael eu dwyn at ei gilydd. Bydd hyn yn datblygu'n reit glir dros yr ychydig fisoedd nesaf.

O ran argymhelliad 9, bu i ni ei wrthod oherwydd ni chredaf ei bod yn ddefnyddiol ynysu adroddiad ar un elfen o wahanol bethau. Mae'n bwysig i ni ei ystyried yn ei gyfanrwydd.

O ran argymhelliad 10, bu i ni ei dderbyn mewn egwyddor, a dywedodd Nick Ramsay nad oedd gennym strategaeth. Fodd bynnag, y mae gennym y strategaeth, 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd', ond credaf fod lle i adnewyddu'r agwedd ar fewnfuddsoddi a masnach yn y strategaeth honno. Gwneir gwaith pellach yn y maes penodol hwnnw, a gallaf adrodd yn ôl ar hynny maes o law.

I gloi, budd economaidd i Gymru sy'n gyrru agenda ryngwladol Llywodraeth Cymru; mae hynny'n allweddol i ni. Mae gennym ymagwedd integredig tuag at ddatblygu economaidd, gan gynnwys masnach a buddsoddi mewnol. Mae masnach a buddsoddi yn sbardunwyr ar gyfer ein heconomi, ac mae ein gweithgarwch yng Nghymru a thramor i adeiladu ein proffil a'n henw da yn cael ei anelu at ddarparu'r llwyfan i alluogi cwmnïau a sefydliadau yng Nghymru i fanteisio ar gyfleoedd wrth iddynt godi. Mae rhai o'r pwyntiau ymarferol ynglŷn ag a yw cwmnïau yn ymwybodol o deithiau masnach, a ydynt yn ymwybodol o ble rydym yn mynd a sut i ddsbarthu gwybodaeth iddynt wedi eu cyflwyno'n dda yn y ddadl hon, ac yn rhywbeth y byddaf yn rhoi sylw pellach iddynt. Fodd bynnag, yn erbyn cefndir o farchnad gynyddol gystadleuol, mae mwy a mwy o gwmnïau yn dewis Cymru fel lle i fuddsoddi. Ystyriwch y diwydiannau creadigol i ddechrau, lle rydym wedi cael llwyddiant aruthrol dros y 12 mis diwethaf, ac roedd y llynedd yn flwyddyn lwyddiannus iawn.

Felly, hoffwn ddweud, er bod gwahaniaethau rhwng y Llywodraeth a'r pwyllgor yn hyn o beth, nid wyf yn diystyru dim oll o'r drafodaeth a gawsom yn y Siambr hon heddiw, na'r gwaith caled y mae'r pwyllgor wedi'i wneud. Rwy'n cydnabod ei fod yn awyddus i gyfrannu'n fawr iawn at les a chyfeiriad polisi yn y maes. Felly, byddaf yn ailystyried a oes angen i mi ailedrych ar unrhyw un o'r ymatebion a roddais yn ffurfiol yng ngoleuni'r sylwadau a wnaed yn y ddadl heddiw, a byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn y flwyddyn newydd ynghylch y materion a godwyd gyda mi, y gallaf o bosibl wneud rhywbeth cadarnhaol yn nes ymlaen i ymateb i adroddiad ystyrion y pwyllgor.

16:25

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes i ymateb i'r ddadl.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I wish to refer to the excellent contributions made this afternoon. Nick Ramsay made very valid points about rejection and acceptance and the way in which that was done by the Minister. The Minister has replied to that in her concluding remarks today. Rhun reminded us of the importance of the independent evaluation to give clear evidence, which was hopefully given in the committee's report, and to demonstrate whether or not Wales is really performing well. Clearly, once again, Eluned made the very valid points she made in committee about the key performance indicators and the way those have been addressed by the Minister. The Minister's rejection of recommendation 4 is clearly worrying, but, in her concluding remarks, she has undertaken to look again at some of the recommendations made in the recent report and, recognising where they have been well evidenced, said that she will look at them again. Hopefully, where they definitely contribute to the wellbeing of policy, there will be reconsideration of acceptance of some of those. We do not seek to question the Minister's commitment to the development of the Welsh economy. The point remains, however, that the committee felt that it was operating in something of an information vacuum during this inquiry in relation to the achievements of the Welsh Government in supporting exporters and inward investors. I am glad that the Minister has conceded on this point.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn gyfeirio at y cyfraniadau rhagorol a wnaed y prynhawn yma. Gwnaeth Nick Ramsay bwyntiau dilys iawn ynghylch gwrthod a derbyn a'r ffordd y gwnaed hynny gan y Gweinidog. Ymatebodd y Gweinidog i hynny yn ei sylwadau terfynol heddiw. Cawsom ein hatgoffa gan Rhun am bwysigrwydd y gwerthusiad annibynnol o ran rhoi tystiolaeth glir, a gobeithiwn i hynny gael ei roi yn adroddiad y pwyllgor, ac i ddangos a yw Cymru yn wir yn perfformio'n dda. Yn amlwg, unwaith eto, gwnaeth Eluned bwyntiau dilys iawn a gyflwynodd yn y pwyllgor am y dangosyddion perfformiad allweddol a'r ffordd y rhoddwyd sylw iddynt gan y Gweinidog. Mae'n amlwg yn destun pryder i'r Gweinidog wrthod argymhelliad 4, ond, yn ei sylwadau clo, bu iddi ymrwymo i ailedrych ar rai o'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad diweddar, gan gydnabod lle'r oedd tystiolaeth dda i'w cefnogi, y bydd yn edrych arnynt unwaith eto. Lle y maent yn bendant yn cyfrannu at les polisi, y gobaith yw y bydd yn ailystyried derbyn rhai ohonynt. Ni fyynnwn geisio cwestiynu ymrwymiad y Gweinidog i'r gwaith o ddatblygu economi Cymru. Mae'r pwynt yn parhau, fodd bynnag, fod y pwyllgor yn teimlo ei fod yn gweithredu mewn amgylchedd o ddiffyg gwybodaeth yn ystod yr ymchwiliad hwn mewn perthynas â llwyddiannau Llywodraeth Cymru o ran cefnogi allforwyr a mewnfuddsoddwyr. Rwy'n falch bod y Gweinidog wedi ildio ar y pwynt hwn.

Nick, Rhun and Eluned all referred to the rejection of recommendation 4 in particular. The committee received a strong message from stakeholders that the level of detail in the inward investment figures routinely published for Wales by both UKTI and the Welsh Government was insufficient to adequately understand the inward investment performance of the Welsh economy and, within that, the performance of the Welsh Government.

Cyfeiriodd Nick, Rhun ac Eluned hefyd at y penderfyniad i wrthod argymhelliad 4 yn arbennig. Derbyniodd y pwyllgor neges gref gan randdeiliaid bod lefel y manylder yn y ffigurau mewnfuddsoddi a gyhoeddir yn rheolaidd ar gyfer Cymru gan UKTI a Llywodraeth Cymru yn annigonol er mwyn llwyr ddeall perfformiad mewnfuddsoddi economi Cymru ac, yn sgîl hynny, berfformiad Llywodraeth Cymru.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y cwestiwn yw y dylid nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes. A oes unrhyw wrthwynebiad? Nid oes gwrthwynebiad. Felly, derbynir y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

The question is that the motion to note the Enterprise and Business Committee's report be agreed to. Does any Member object? There are no objections. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Dadl Plaid Cymru: y Bartneriaeth Masnach a Buddsoddi Trawsatlantig

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Paul Davies a gwelliant 2 yn enw Aled Roberts. Os derbynir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-dethol.

Plaid Cymru Debate: the Transatlantic Trade and Investment Partnership

The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Paul Davies and amendment 2 in the name of Aled Roberts. If amendment 1 is agreed, amendment 2 will be deselected.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Leanne Wood to move the motion.

Cynnig NDM5643 Elin Jones

Motion NDM5643 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd cynyddu masnach rhwng Cymru ac Unol Daleithiau America;
2. Yn credu y dylai gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, gael eu heithrio rhag effeithiau y Bartneriaeth Masnach a Buddsoddi Trawsatlantig;
3. Yn credu na ddylid caniatáu i'r Bartneriaeth Masnach a Buddsoddi Trawsatlantig atal llywodraethau democrataidd rhag trefnu unrhyw wasanaethau eraill ar sail perchnogaeth gyhoeddus;
4. Yn gwrthwynebu cynnwys setliad ar gyfer anghydfod rhwng buddsoddwyr a gwladwriaethau yn y cytundeb;
5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ynghylch:
 - a) eithrio gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, o'r Bartneriaeth Masnach a Buddsoddi Trawsatlantig; a
 - b) gwrthod y Bartneriaeth Masnach a Buddsoddi Trawsatlantig os yw'r cytundeb terfynol, pan gaiff ei gyflwyno i'w gadarnhau, yn tansilio pwerau llywodraethau democrataidd i wneud penderfyniadau.

1. Recognises the importance of increasing trade between Wales and the United States of America;
2. Believes that public services, including the National Health Service, should be exempt from the effects of the Transatlantic Trade and Investment Partnership (TTIP);
3. Believes that the TTIP must not be allowed to prevent democratic governments from organising any other services on a publicly owned basis;
4. Opposes the inclusion of the investor-state dispute settlement in the agreement;
5. Calls on the Welsh Government to make representations to the UK Government to:
 - a) exempt public services, including the National Health Service, from the TTIP; and
 - b) reject TTIP if the final agreement, when presented for ratification, undermines the decision-making powers of democratic governments.

16:28

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru

I move the motion in the name of Elin Jones.

The proposed transatlantic trade and investment partnership, TTIP, will be the largest free trade agreement in the world's history. The European Commission is currently in the process of negotiating the deal with the United States, and public interest has only just been awoken. The TTIP is now perhaps the primary issue on the European Parliament's agenda, and Plaid Cymru has tabled this motion in order to bring TTIP onto the National Assembly's agenda. I want to start by setting out some of the issues around trade and exports. Plaid Cymru has recognised the importance of EU membership to the Welsh economy and, in today's motion, we also recognise the importance of trade with the United States of America and the importance of increasing the volume of that trade. In doing so, we understand how the Welsh economy is already an international trading economy and how the European Union is fully integrated into the global capitalist economy. We know that tariffs between the EU and the USA are already at minimal levels. Trade between the United States and the EU accounts for about a third of the world's overall trade. The EU as a whole has a trade surplus when it comes to trade with the USA, and EU investment in the USA is eight times greater than the EU's investment in China and India put together. So, I hope that I have illustrated that a strong and productive relationship already exists between the EU and the United States, and that Wales is a net beneficiary of that relationship.

Cyflwynaf y cynnig yn enw Elin Jones.

Y bartneriaeth masnach a buddsoddi trawsatlantig arfaethedig (TTIP), fydd y cytundeb masnach rydd mwyaf yn hanes y byd. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd ar hyn o bryd yn y broses o drafod y fargen gyda'r Unol Daleithiau, ac mae diddordeb y cyhoedd ddim ond megis dechrau. Y TTIP erbyn hyn o bosibl yw'r prif fater ar agenda Senedd Ewrop, ac mae Plaid Cymru wedi cyflwyno'r cynnig hwn er mwyn gosod TTIP ar agenda'r Cynulliad Cenedlaethol. Rwyf am ddechrau drwy nodi rhai o'r materion sy'n ymwneud â masnach ac allforion. Mae Plaid Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd aelodaeth o'r UE i economi Cymru ac, yn y cynnig heddiw, rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd masnach â'r Unol Daleithiau America a phwysigrwydd cynyddu cyfaint y fasnach honno. Wrth wneud hynny, deallwn sut mae economi Cymru eisoes yn economi sy'n masnachu'n rhyngwladol a sut y mae'r Undeb Ewropeaidd yn cael ei integreiddio'n llawn i mewn i'r economi gyfalafol fyd-eang. Gwyddom fod tariffau rhwng yr UE a'r Unol Daleithiau eisoes ar lefelau isel iawn. Mae masnach rhwng yr Unol Daleithiau a'r Undeb Ewropeaidd yn cyfateb i oddeutu traean o fasnach gyffredinol y byd. Mae gan yr UE yn ei gyfanrwydd warged masnach o ran masnachu gyda'r Unol Daleithiau, ac mae buddsoddiad yr UE yn yr Unol Daleithiau wyth gwaith yn fwy na buddsoddiad yr UE yn Tsieina ac India gyda'i gilydd. Felly, gobeithio i mi ddangos bod perthynas gref a chynhyrchiol eisoes yn bodoli rhwng yr UE a'r Unol Daleithiau, a bod Cymru yn fuddiolwr net yn y berthynas honno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We are not talking about a trade landscape where there are significant barriers. Despite this, the focus of TTIP is to reduce alleged non-tariff barriers. The European Commission's trade directorate identifies these alleged barriers as standards, definition, security and consumer protection. These regulatory protections are some of the most cherished examples of the European Union's role in protecting its citizens.

Furthermore, the TTIP, as it stands, seeks to secure the liberalisation of services markets, including the opening up of public services such as health, education and water to private firms. The risk to public services is noted in the Plaid Cymru motion. Commentators defending TTIP in its current form have pointed to the likelihood of a listed exemption for public services. However, we need to be completely clear on this point. The risk is that areas of public services that have already been privatised or have not yet been taken into public ownership would not be covered by this exemption.

While the final agreement is far from complete, we do know about the market status of areas such as social care and social services and provisions that might be related to expanding or broadening the scope of the NHS in the future.

TTIP, currently, is likely to include the investor- state dispute settlement—ISDS. This is a mechanism where private corporate appointed courts can sue elected Governments over the impact of their policies on corporate and company profits. This is not appropriate in the European Union where the rule of law is well established. ISDS was used against Slovakia, an EU member state, when it sought to bring public health insurance back into the public sector. It is also being used against Australia as a response to that country legislating for plain cigarette packaging. In the Slovak example, a Dutch company used the bilateral trade agreement between Slovakia and the Netherlands to enforce ISDS. Slovakia's argument that its EU membership superseded that treaty was not accepted by the private tribunal. Damages of around €22 million were enforced against Slovakia's assets.

Plaid Cymru is of the view that ISDS is unsuitable in the European Union or the United States, where the rule of law is well established. Democratically elected Governments must always be able to carry out their policies without fear of reprisal. That is a basic democratic principle.

Nid ydym yn sôn am sefyllfa fasnachu lle mae rhwystrau sylweddol. Er gwaethaf hyn, ffocws TTIP yw lleihau rhwystrau di-doll honedig. Mae cyfarwyddiaeth masnach y Comisiwn Ewropeaidd yn nodi'r rhwystrau honedig hyn fel safonau, diffiniad, diogelwch a diogelu defnyddwyr. Mae'r mesurau diogelu rheoleiddiol hyn yn rhai o'r enghreifftiau mwyaf gwerthfawr o rôl yr Undeb Ewropeaidd o ran diogelu ei ddinasyddion.

Ar ben hynny, mae'r TTIP, fel y mae, yn ceisio sicrhau rhyddfrydoli marchnadoedd gwasanaethau, gan gynnwys agor gwasanaethau cyhoeddus fel iechyd, addysg a dŵr i gymnïau preifat. Mae'r risg i wasanaethau cyhoeddus yn cael ei nodi yng nghynnig Plaid Cymru. Mae sylwebwyr sy'n amddiffyn TTIP ar ei ffurf bresennol wedi tynnu sylw at y tebygolrwydd o eithriad rhestredig ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae angen i ni fod yn gwbl glir ar y pwynt hwn. Y risg yw na fyddai meysydd o wasanaethau cyhoeddus sydd eisoes wedi eu preifateiddio neu sydd heb eu cymryd i berchnogaeth gyhoeddus hyd yma'n cael eu cwmpasu gan yr eithriad hwn.

Er bod y cytundeb terfynol yn bell o fod yn gyflawn, gwyddom am statws marchnad meysydd megis gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol a darpariaethau a allai fod yn gysylltiedig â chwyddo neu ehangu cwmpas y GIG yn y dyfodol.

Mae TTIP, ar hyn o bryd, yn debygol o gynnwys y setliad ar gyfer anghydfod rhwng buddsoddwyr a gwladwriaethau— ISDS. Dyma dull lle gall llysoedd a benodwyd gan gorfforaethau preifat erlyn Llywodraethau etholedig am effaith eu polisiau ar elw corfforaethau a chwmnïau. Nid yw hyn yn briodol yn yr Undeb Ewropeaidd lle mae rheolau'r gyfraith wedi'u hen sefydlu. Defnyddiwyd ISDS yn erbyn Slofacia, un o wladwriaethau'r UE, pan geisiodd ddwyn yswiriant iechyd y cyhoedd yn ôl i'r sector cyhoeddus. Mae hefyd yn cael ei ddefnyddio yn erbyn Awstralia fel ymateb i'w deddfiadau ar becynnu plaen ar gyfer sigarêts. Yn achos Slofacia, defnyddiodd cwmni o'r Iseldiroedd y cytundeb masnach dwyochrog rhwng Slofacia a'r Iseldiroedd i orfodi ISDS. Ni dderbyniodd y tribiwnlys preifat ddadl Slofacia bod ei haelodaeth o'r UE yn disodli'r cytundeb hwnnw. Gorfodwyd iawndal o tua €22 miliwn yn erbyn asedau Slofacia.

Mae Plaid Cymru o'r farn bod ISDS yn anaddas yn yr Undeb Ewropeaidd neu'r Unol Daleithiau, lle mae rheolau'r gyfraith wedi'u hen sefydlu. Mae'n rhaid i lywodraethau a etholwyd yn ddemocrataidd bob amser allu cyflawni eu polisiau heb ofni dial. Mae honno'n egwyddor ddemocrataidd sylfaenol.

The Plaid Cymru motion today calls on the Welsh Government to make representations to the UK Government on public services and on the final ratification of the agreement. This is the most appropriate mechanism that we could identify when it comes to ensuring that the voice of Wales is heard, as the UK has a direct role as a member state in influencing the European Commission. It is, of course, possible that international pressures will shape TTIP as the negotiations proceed. A halting of TTIP negotiations before ratification, so that both parties can go back to the drawing board, would be very welcome indeed. However, as things stand, we want a wider debate to take place so that the risks of TTIP are fully understood in Wales and we want to see the debate within the UK include the voice of the devolved Governments and nations.

Mae cynnig Plaid Cymru heddiw yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ar wasanaethau cyhoeddus ac ar gadarnhad terfynol y cytundeb. Dyma'r dull mwyaf priodol y gallm ei ganfod pan ddaw'n fater o sicrhau bod llais Cymru'n cael ei glywed, wrth i'r DU gael rôl uniongyrchol fel aelod wladwriaeth o ran dylanwadu ar y Comisiwn Ewropeaidd. Wrth gwrs, mae'n bosibl y bydd pwysau rhyngwladol yn llunio'r TTIP wrth i'r trafodaethau fynd yn eu blaen. Byddai oedi trafodaethau TTIP cyn cadarnhau, er mwyn i'r ddwy ochr allu ailystyried, i'w groesawu'n fawr iawn yn wir. Fodd bynnag, fel y mae ar hyn o bryd, hoffem gael dadl ehangach fel bod risgiau TTIP yn cael eu deall yn llawn yng Nghymru a hoffem weld y ddadl yn y DU yn cynnwys llais y Llywodraethau a'r gwledydd datganoledig.

16:34

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have selected the two amendments to the motion. If amendment 1 is agreed, amendment 2 will be deselected. I call William Graham to move amendment 1 tabled in the name of Paul Davies.

Rwyf wedi dethol y ddau welliant i'r cynnig. Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol. Galwaf ar William Graham i gynnal gwelliant 1 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

Gwelliant 1—Paul Davies

Amendment 1—Paul Davies

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Delete all and replace with:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd cytundebau masnach rhyngwladol, fel y Bartneriaeth Masnach a Buddsoddi Trawsatlantig, i greu dyfodol economaidd gwell i bobl Cymru;

1. Recognises the importance of international trade and commerce agreements, such as the Transatlantic Trade and Investment Partnership (TTIP), in creating a better economic future for the people of Wales;

2. Yn credu y dylai llywodraethau fod yn ymwybodol o bwysigrwydd sefydliadau cenedlaethol, megis y GIG, wrth gytuno ar y Bartneriaeth Masnach a Buddsoddi Trawsatlantig; a

2. Believes that governments should be conscious of the importance of national institutions, such as the NHS, when agreeing the TTIP; and

3. Yn nodi cynsail partneriaethau masnach presennol sy'n cynnwys dulliau diogelu sy'n eithrio gwasanaethau cyhoeddus allweddol o gyntundebau o'r fath.

3. Notes the precedent of existing trade partnerships which have included safeguards excluding key public services from such agreements.

16:34

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendment 1.

Cyflwynaf welliant 1.

The European Union and the United States have the largest bilateral trade relationship in the world. EU-US trade climbed to over £500 million in 2013, which is an increase of 100% over the previous 13 years. The US and Europe are each other's primary source and destination for foreign direct investment. However, it is a relationship that has significant obstacles preventing it from realising its widest potential. Removing these obstacles would benefit the United Kingdom and Wales. The main drivers for the transatlantic trade and investment partnership are increasing economic growth and employment opportunities on both sides of the Atlantic. It will gain for the EU better access to the US market, achieving greater regulatory compatibility without lowering standards between the EU and the US.

Perthynas fasnach ddwyochrog yr Undeb Ewropeaidd a'r Unol Daleithiau yw'r fwyaf yn y byd. Dringodd masnach yr UE-UDA i dros £500 miliwn yn 2013, sy'n gynydd 100% dros y 13 mlynedd diwethaf. Mae'r Unol Daleithiau ac Ewrop yn brif ffynhonnell a chyrchfan i'w gilydd ar gyfer buddsoddiad uniongyrchol o dramor. Fodd bynnag, mae'n berthynas sydd â rhwystrau sylweddol sy'n ei hatal rhag gwreiddu ei photensial ehangaf. Byddai cael gwared ar y rhwystrau hyn o fudd i'r Deyrnas Unedig a Chymru. Y prif sbardunwyr ar gyfer y bartneriaeth masnach a buddsoddi trawsatlantig yw cynyddu twf economaidd a chyfluoedd cyflogaeth ar ddwy ochr yr Iwerydd. Bydd yn rhoi gwell mynediad i'r UE i farchnad yr Unol Daleithiau, yn sicrhau mwy o gydnewydd rheoleiddio heb ostwng safonau rhwng yr UE a'r Unol Daleithiau.

Specific interests that each member country have may be protected by an investor-state dispute settlement—the ISDS clause. ISDS is not about businesses, big or otherwise, suing Governments for lost profits or for legislating against their possible future commercial interests. The purpose of ISDS is to establish a balance between the right of the state to regulate and the rights of investors to protection and to limit possible arbitrary behaviour of Government towards foreign investors. An ISDS clause would allow UK firms investing in the US to make sure that their rights are respected by the US Government and by state legislatures, ensuring the security of their investment. US investors in the EU would enjoy the same security.

An ISDS clause is not something that is new. Since 1975, the UK has negotiated 94 investment treaties. The overwhelming majority of these include ISDS provisions. The key to removing fears concerning trade and investment is to consider how many laws regulating the environment, food safety, genetically modified foods, and workers' rights the United Kingdom has passed in the intervening years and to reflect upon the fact that the UK Government has only been challenged twice and has won both cases.

An ISDS clause will not stop Governments from legislating as they see fit in the public interest. ISDS tribunals cannot affect domestic UK law. They cannot change UK law, and cannot stop Governments from creating new laws. They only prevent Governments from acting against a foreign investor in an arbitrary and discriminatory way.

Public concern is not limited to ISDS. Again, false fears have been raised about potential opening up of the NHS to competition from American multinationals. The mandate given to the European Commission by the national Government of the United Kingdom does not mention the liberalisation of any national public health service. It should be noted that a recently negotiated comprehensive trade and economic agreement between the EU and Canada included a utilities reservation, which allows the UK to maintain its public policy in the area of public health, which includes, of course, the NHS. Furthermore, neither the EU/South Korea free trade agreement nor the North American free trade agreement included or resulted in the opening of publicly funded health services.

In short, TTIP will create a better economic future for the people of Wales. It acknowledges important national institutions such as the Welsh NHS, continues the presence of existing trade partnerships, which have included safeguards excluding key public services from such agreements. I recommend amendment 1 to the house.

Gellir gwarchod diddordebau penodol pob aelod-wlad gan setliad ar gyfer anghydfod rhwng buddsoddwyr a gwladwriaethau—y cymal ISDS. Nid yw ISDS yn ymwneud â busnesau mawr neu fach yn erlyn Llywodraethau am elw a gollwyd neu am ddeddfu yn erbyn eu buddiannau masnachol posibl yn y dyfodol. Diben ISDS yw sefydlu cydbwysedd rhwng hawl gwladwriaeth i reoleiddio a hawl buddsoddwyr i ddiogelwch ac i gyfyngu ar ymddygiad mympwyol posibl y Llywodraeth tuag at fuddsoddwyr tramor. Byddai cymal ISDS yn caniatáu i gwmnïau yn y DU sy'n buddsoddi yn yr Unol Daleithiau sicrhau bod eu hawliau yn cael eu parchu gan Lywodraeth yr Unol Daleithiau a chan ddeddfwrfeydd taleithiol, gan sicrhau diogelwch eu buddsoddiad. Byddai masnachwyr o'r Unol Daleithiau sy'n buddsoddi yn yr UE yn mwynhau'r un diogelwch.

Nid yw cymal ISDS yn rhywbeth newydd. Ers 1975, mae'r DU wedi negodi 94 o gytundebau buddsoddi. Roedd y mwyafrif llethol o'r rhain yn cynnwys darpariaethau ISDS. Yr allwedd i ddileu pryderon ynglŷn â masnach a buddsoddi yw ystyried faint o ddeddfau sy'n rheoleiddio'r amgylchedd, diogelwch bwyd, bwydydd a addaswyd yn enetig, a hawliau gweithwyr a basiwyd gan y Deyrnas Unedig yn y blynyddoedd cyfamserol a myfyrio ar y ffaith mai dim ond ddwywaith y bu i Lywodraeth y DU gael ei herio ac iddi ennill y ddau achos.

Ni fydd cymal ISDS yn atal Llywodraethau rhag deddfu fel y gwelant yn dda er lles y cyhoedd. Ni all tribiwnlysoedd ISDS effeithio ar gyfraith ddomestig y DU. Ni all newid cyfraith y DU, ac ni all atal Llywodraethau rhag creu deddfau newydd. Eu diben yn unig yw atal llywodraethau rhag gweithredu yn erbyn buddsoddwr tramor mewn ffordd fympwyol ac yn wahaniaethol.

Nid yw pryder cyhoeddus yn cael ei gyfyngu i'r ISDS. Unwaith eto, codwyd pryderon ffug ynghylch y posibilrwydd o agor y GIG i gystadleuaeth gan gwmnïau rhyngwladol Americanaidd. Nid yw'r mandat a roddwyd i'r Comisiwn Ewropeaidd gan Lywodraeth genedlaethol y Deyrnas Unedig yn sôn am ryddfrydoli unrhyw wasanaeth iechyd cyhoeddus cenedlaethol. Dylid nodi y bu i gytundeb masnach ac economaidd cynhwysfawr gael ei negodi'n ddiweddar rhwng yr UE a Chanada a oedd yn cynnwys cadw cyfleustodau, sy'n caniatáu i'r DU gynnal ei pholisi cyhoeddus ym maes iechyd y cyhoedd, sy'n cynnwys wrth gwrs, y GIG. Ar ben hynny, nid oedd cytundeb masnach rydd yr UE/De Korea na chytundeb masnach rydd Gogledd America yn cynnwys neu'n arwain at agor gwasanaethau iechyd a ariennir yn gyhoeddus.

Yn fyr, bydd TTIP yn creu dyfodol economaidd gwell i bobl Cymru. Mae'n cydnabod sefydliadau cenedlaethol pwysig fel y GIG yng Nghymru, yn parhau presenoldeb partneriaethau masnach presennol, sydd wedi cynnwys dulliau diogelu ac eithrio gwasanaethau cyhoeddus allweddol o gytundebau o'r fath. Rwy'n argymhell gwelliant 1 i'r tŷ.

16:38

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Eluned Parrott to move amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts.

Gwelliant 2—Aled Roberts

Galwaf ar Eluned Parrott i gynnig gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

Gwelliant 2—Aled Roberts

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Dileu pwyntiau 2 i 5 a rhoi yn eu lle:

2. Yn croesawu trafodaethau ar fasnach a buddsoddi rhwng yr UE a'r Unol Daleithiau a allai fod werth hyd at £10 biliwn ychwanegol i economi'r DU bob blwyddyn;

3. Yn croesawu sylwadau'r Comisiynydd Ewropeaidd dros Fasnach, Karel de Gucht, a ddywedodd wrth yr *International Business Times*: 'Bydd eithriad i wasanaethau cyhoeddus yn y Bartneriaeth Masnach a Buddsoddi Trawsatlantig, ac rydym wedi gwneud hynny'n glir iawn yn ein trafodaethau gyda'r Unol Daleithiau. Byddai hynny'n cynnwys y GIG...';

4. Yn croesawu'r ffaith na fydd y setliad ar gyfer anghydfod rhwng buddsoddwyr a gwladwriaethau yn berthnasol i ddeddfwriaeth yr aelod-wladwriaethau mewn perthynas ag iechyd, diogelwch y cyhoedd neu ddiogelwch; a

5. Yn croesawu'r ffaith bod y Comisiwn Ewropeaidd yn atal dros dro'r agwedd ar y cytuniad sy'n ymwneud â'r setliad ar gyfer anghydfod rhwng buddsoddwyr a gwladwriaethau er mwyn ymgymryd â gwaith ymgynghori pellach.

Delete points 2 to 5 and replace with:

2. Welcomes trade and investment negotiations between the EU and the USA which could be worth up to £10 billion extra to the UK economy each year;

3. Welcomes the European Commissioner for Trade Karel de Gucht's comments to the *International Business Times*, who stated: 'There will be an exemption for public services [in the TTIP], we've made that very clear in our discussions with the US. That would cover the NHS...';

4. Welcomes that the investor-state dispute settlement will not apply to public security, safety or health legislation of member states; and

5. Welcomes that the European Commission suspended the investor-state dispute settlement aspect of the treaty negotiations for further consultation.

16:38

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 2.

I would like to thank Plaid Cymru for bringing what is a very interesting debate today. I think that it is clear to all of us that the US market is an important opportunity for Welsh businesses. Of course, many of our businesses already trade trans-Atlantically. However, there are barriers to trade that exist between the EU and the US markets that stymie trade in both directions, adding bureaucracy, delay and huge costs for Welsh businesses that want to engage.

As a Liberal, clearly you would expect me to be firmly in favour of the liberalisation of trade, removing those barriers and hurdles for our businesses, and, indeed, I am. That is what the transatlantic trade and investment partnership aims to do. It is that liberalisation that could be worth up to £10 billion a year to the UK economy, with around £1.5 billion of exports stimulated from the Welsh energy and advanced manufacturing sectors every year, according to early impact assessments.

Cyflwynaf welliant 2.

Hoffwn ddiolch i Blaid Cymru am gyflwyno'r hyn a oedd yn ddadl ddiddorol iawn heddiw. Credaf ei bod yn glir i bob un ohonom fod marchnad yr Unol Daleithiau yn gyfle pwysig i fusnesau Cymru. Wrth gwrs, mae llawer o'n busnesau eisoes yn masnachu'n drawsatlantig. Fodd bynnag, mae rhwystrau i fasnach yn bodoli rhwng marchnadoedd yr UE a'r Unol Daleithiau sy'n atal masnach i'r ddau gyfeiriad, sy'n ychwanegu biwrocratiaeth, oedi a chostau enfawr i fusnesau Cymru sy'n awyddus i gymryd rhan.

Fel Rhyddfrydwr, yn amlwg byddech yn disgwyl imi fod yn gadarn o blaid rhyddfrydoli masnach, a dileu'r rhwystrau ar gyfer ein busnesau, ac, yn wir, dyna'r wyf am ei wneud. Dyna yw nod y bartneriaeth masnach a buddsoddi trawsatlantig. Gallai'r rhyddfrydoli hwnnw fod yn werth hyd at £10 biliwn y flwyddyn i economi'r DU, gydag oddeutu £1.5 biliwn o allforion wedi'u hysgogi o'r sectorau gweithgynhyrchu uwch ac ynni Cymru bob blwyddyn, yn ôl asesiadau effaith gynnar.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I think that it would be hugely irresponsible to turn our backs on that. In negotiating any bilateral trade agreements, it is important that protections are in place to ensure that, where there are significant differences in terms of what we see as the role of the public and the private sectors in different territories, the public sector is protected. For that reason, I was extremely pleased that the former European Commissioner responsible for trade, Karel De Gucht, stated that there would be an exemption for public services. We have made it very clear in our discussions with the US that that would cover the NHS. He stated on the record on many occasions that it is exactly those kinds of services that would be protected by the exemptions that we are talking about. It is not unusual for those kinds of exemptions to be there and to be used very effectively.

I also welcome the fact that the European Commission has now paused those negotiations on the ISDS to allow there to be greater consultation and to allow us to have the opportunity to discuss these issues in more detail and to make representations on that basis. I think that that is incredibly important, so I am very glad that, as I say, that ISDS mechanism is going to be given more consideration.

However, I have been surprised by the vehemence of the opposition that some are trying to generate against the TTIP. Plaid Cymru, your aggressive stance here seems to be seeking to paint the agreement as something that is out of the ordinary—that it is incredible and a monolithic thing—but it really is not out of the ordinary. The truth is that, since 1975, the UK has negotiated 94 different bilateral investment agreements. Almost all of those, as William Graham rightly pointed out, have included these ISDS clauses and it is specifically, obviously, to give businesses that are trading internationally protection in law against Governments that are behaving in a way that they do not believe is fair. An independent tribunal process is established to make sure that that is a fair process, and that is established by negotiation between the partners. This knee-jerk reaction simply is not borne out by experience. In all of those years, as has been stated, there have only been two challenges to the UK Government. However, it is true that there are currently 43 UK investors that have brought cases against other Governments to protect their interests when they are trading overseas. I take exception to the suggestion, in terms of the ISDS, that Governments must be free to operate without reprisal. That is what the leader of Plaid Cymru said in her opening statement. That, to me, is a frighteningly totalitarian statement to make. Governments must not be above the law; they must be subject to proper scrutiny, and citizens must have a right of reply to Governments that act in a way that is not appropriate.

Credaf y byddai'n hynod o anghyfrifol i ni droi ein cefnau ar hynny. Wrth negodi unrhyw gytundebau masnach dwyochrog, mae'n bwysig bod camau diogelu yn eu lle i sicrhau, lle mae gwahaniaethau sylweddol o ran yr hyn a welwn fel rôl y sectorau preifat a chyhoeddus mewn gwahanol diriogaethau, bod rôl y sector cyhoeddus yn cael ei diogelu. Am hynny, roeddwn yn hynod falch bod y cyn Gomisinydd Ewropeaidd sy'n gyfrifol am fasnach, Karel De Gucht, wedi datgan y byddai eithriad ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Rydym wedi dweud yn glir iawn yn ein trafodaethau gyda'r Unol Daleithiau y byddai hynny'n cynnwys y GIG. Cofnodir iddo ddweud ar sawl achlysur mai'r union fathau hynny o wasanaethau a fyddai'n cael eu diogelu gan yr esemptiadau rydym yn sôn amdanynt. Nid yw'n anarferol cael y mathau hynny o esemptiadau a'u defnyddio'n effeithiol iawn.

Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith bod y Comisiwn Ewropeaidd bellach wedi oedi'r trafodaethau hynny ar yr ISDS er mwyn caniatáu rhagor o ymgynghori ac i'n galluogi i gael y cyfle i drafod y materion hyn yn fanylach a chyflwyno sylwadau ar y sail honno. Credaf fod hynny'n eithriadol o bwysig, felly rwy'n falch iawn, fel y dywedais, fod y dull ISDS yn mynd i gael ystyriaeth bellach.

Fodd bynnag, synnais at gymaint y gwrthwynebiad y mae rhai'n ceisio'i feithrin yn erbyn y TTIP. Mae eich safiad ymosodol chi, Plaid Cymru, fel petai'n ceisio disgrifio'r cytundeb fel rhywbeth sydd allan o'r cyffredin—ei fod yn rhywbeth anhygoel a monolithig—ond, mewn gwirionedd, nid yw allan o'r cyffredin. Y gwir plaen yw, fod y DU ers 1975, wedi trafod 94 o gytundebau buddsoddi dwyochrog. Mae pob un ohonynt bron, fel y dywedodd William Graham yn hollol gywir, wedi cynnwys y cymalau ISDS hyn ac mae'n gwbl amlwg eu bod yn benodol, er mwyn rhoi i fusnesau sy'n masnachu yn rhyngwladol amddiffyniad o dan y gyfraith yn erbyn llywodraethau sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n annheg yn eu barn hwy. Sefydlir proses dribiwnlys annibynnol i sicrhau bod y broses yn deg, a sefydlir hynny trwy drafodaeth rhwng y partneriaid. Nid yw profiad yn dangos bod unrhyw sail i'r ymateb difeddwl hwn. Ym mhob un o'r blynyddoedd hynny a grybwyllwyd, dim ond dwy her a wynebodd Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, mae'n wir fod 43 o fuddsoddwyr yn y DU ar hyn o bryd sydd wedi dod ag achosion yn erbyn Llywodraethau eraill i amddiffyn eu buddiannau pan fyddant yn masnachu dramor. Ni allaf gytuno â'r awgrym, o ran yr ISDS, fod yn rhaid i Lywodraethau fod yn rhydd i weithredu heb ddial. Dyna'n ddywedodd arweinydd Plaid Cymru yn ei datganiad agoriadol. Mae hynny, i mi, yn ddatganiad dychrynlyd o dotalitaraidd i'w wneud. Rhaid i lywodraethau fod yn uwch na'r gyfraith; rhaid iddynt fod yn destun craffu priodol, a rhaid i ddinasyddion fod â hawl i ateb gan Lywodraethau sy'n gweithredu mewn ffordd nad yw'n briodol.

16:42

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Should corporations have a bigger say than elected Governments?

A ddylai corfforaethau gael mwy o lais na Llywodraethau etholedig?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is not about corporations versus the state; this is about the citizen's right to challenge illegal behaviour. This is about whether or not, fundamentally, there ought to be a right of reply to Governments through the courts. We have it for citizens and we have it for businesses within our own legislation already, and it is wrong, I think, to make the assumption that totalitarianism is better than democratic judicial processes.

In opening, the leader of Plaid Cymru suggested that this is not a market where there are substantial barriers to trade already, and that is simply wrong. While there has been a shared language, culture and history between the UK and the US, particularly, that have enabled us to develop very positive trading relationships, the truth is that there are huge barriers, and any business that trades with America will tell you that. For example, taxes and tariffs on UK goods mean that sportswear from UK companies cost 32% more in America, coats cost 16% more, tableware costs 28% more and slippers cost 26% more—it is absurd. We want to remove those barriers. We want to make sure that UK businesses can compete on an even footing with American businesses in the United States, and I hope that you will support TTIP and make it work, not find ways to make it break.

Nid yw hyn yn ymwneud â chorfforaethau yn erbyn y wladwriaeth; mae hyn yn ymwneud â hawl y dinesydd i herio ymddygiad anghyfreithlon. Mae hyn yn ymwneud yn y bôn ag a ddylai fod hawl i ateb i Lywodraethau drwy'r llysoedd ai peidio. Mae hyn ar gael i ddinasyddion ac i fusnesau o fewn ein deddfwriaeth ein hunain yn barod, a chredaf ei bod yn anghywir gwneud y dybiaeth fod totalitariaeth yn well na phrosesau democrataidd barnwrol.

Wrth agor, awgrymodd arweinydd Plaid Cymru nad oedd hyn yn farchnad lle mae rhwystrau sylweddol i fasnachu yn barod, ac mae hynny'n gwbl anghywir. Er y bu i'r DU a'r Unol Daleithiau rannu iaith, diwylliant a hanes, sydd yn arbennig wedi ein galluogi i ddatblygu perthynas fasnachu gadarnhaol iawn, y gwir yw bod rhwystrau enfawr, a bydd unrhyw fusnes sy'n masnachu gydag America yn dweud hynny wrthyf. Er enghraifft, mae trethi a thollau ar nwyddau o'r DU yn golygu bod dillad chwaraeon gan gwmnïau o'r DU yn costio 32% yn fwy yn America, mae cotiau'n costio 16% yn fwy, llestri bwrdd 28% yn fwy a sliperi 26% yn fwy— mae hyn yn hurt. Rydym yn awyddus i gael gwared ar y rhwystrau hynny. Rydym am sicrhau y gall busnesau'r DU gystadlu ar sylfaen gyfartal gyda busnesau Americanaidd yn yr Unol Daleithiau, ac rwy'n gobeithio y byddwch yn cefnogi'r TTIP ac yn gwneud iddo weithio, nid chwilio am ffyrdd i'w lorio.

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd, am y cyfle i gyfrannu at y ddaidl hon. A gaf i dynnu eich sylw chi eto at, a chanolbwyntio ar, ran gyntaf ein cynnig, sef pwysigrwydd cynyddu masnach rhwng Cymru a'r Unol Daleithiau? Mae Cymru yn wlad gref o ran ei hallforion yn draddodiadol— mae'n balans masnach ni yn well na'r un genedl arall yn y Deyrnas Unedig. Mae allforion gwerth 30% o'n GVA ni. Cynyddodd lefelau allforio 5% yn y flwyddyn at fis Mehefin eleni—y cynnydd mwyaf mewn unrhyw wlad yn y Deyrnas Unedig.

Ein partner masnachu mwyaf ni yw'r Unol Daleithiau. Cynyddodd gwerth ein hallforion i'r Unol Daleithiau eleni i bron i £3 biliwn—rhyw 6% o GVA Cymru ac 20% o'n holl allforion ni. Felly, mae'r ffigurau yn siarad drostyn nhw eu hunain. Mae'n perthynas fasnach ni hefo'r Unol Daleithiau yn dda. Mae'n hanfodol bwysig, a byddai Plaid Cymru wrth gwrs yn dymuno gweld masnachu yn cynyddu rhwng y ddwy wlad.

Ond, nid yw hynny'n golygu ein bod ni eisiau i Gymru na'r Undeb Ewropeaidd fod yn lleoedd lle y gall cwmnïau rhyngwladol mawr wneud fel y mynnon nhw, heb gyfyngiadau o gwbl ar y ffordd y maen nhw'n gweithredu. Mae'n bwysig cofio fod y cynnydd sydd wedi ei wneud o ran allforio i'r Unol Daleithiau yn ddiweddar wedi cael ei gyflawni heb undod llwyr o ran safonau rheoleiddiol a heb gytundeb TTIP. Mae hefyd yn bwysig nodi nad ydy'r rhwystrau masnach rhwng yr Unol Daleithiau a'r Undeb Ewropeaidd, fel dywedodd Leanne Wood yn gynharach, yn rhai sylweddol iawn.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer, for the opportunity to contribute to this debate. May I highlight again and concentrate on the first part of our motion, namely the importance of increasing trade between Wales and the United States? Wales is traditionally a strong country in terms of exports—our trade balance is better than that of any other nation within the UK. Exports are worth 30% of our GVA. The level of exports increased by 5% in the year to June 2014—the greatest increase of any UK nation.

Our largest trading partner is the United States. The value of our exports to the United States increased this year to almost £3 billion—some 6% of Welsh GVA and 20% of our total exports. Therefore, the figures speak for themselves. Our trading relationship with the United States is good. It is crucially important, and Plaid Cymru, of course, would wish to see trade

However, that does not mean that we want Wales or the European Union to become places where multinational companies can do as they choose, without any restrictions at all in terms of how they operate. It is important to bear in mind that the progress made in terms of exporting to the United States recently has been achieved without total uniformity in terms of regulatory standards, and without the TTIP agreement. It is also important to note that the barriers to trade between the United States and the EU, as Leanne Wood said earlier, are not particularly great.

Mae cwmnïau Americanaidd yn buddsoddi tair gwaith yn fwy yn Ewrop yn barod nag y maen nhw'n ei fuddsoddi yn Asia, yn ôl y Comisiwn Ewropeaidd. Rydym yn meddwl bod mwy y buasem yn gallu ei wneud o dan y trefniadau masnachu presennol i gynyddu faint o fasnach sy'n digwydd rhwng America a Chymru. Nid TTIP sydd ei angen i gynyddu masnach. Mae nifer o bethau yr ydym ni'n meddwl y gallai Llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig fod yn eu gwneud nad ydynt yn eu gwneud ar hyn o bryd. Gallen gyfeirio yn ôl yn fan hon at rai o'r pethau y buom yn eu trafod yn gynharach y prynhawn yma yn ystod ein trafodaeth ar adroddiad y pwyllgor menter. Rydym ni, er enghraifft, wedi galw am gorff masnach rhyngwladol newydd, hyd braich o'r Llywodraeth, a fyddai'n hyrwyddo Cymru o gwmpas y byd. Ydy, mae Cymru'n cael ei chynrychioli mewn egwyddor gan UKTI, ond o'r 600 o staff UKTI, gofiwch chi, sy'n gweithio yn y Deyrnas Unedig, mae 500 yn Llundain, 50 yn Glasgow a 54 yn rhanbarthau Lloegr, ond nid oes cynrychiolaeth yng Nghymru. Mae angen ein dulliau a'n prosesau ein hunain i daclo'r math hwnnw o anghyfartaledd sydd yn bodoli ar hyn o bryd. Byddai Plaid Cymru, er enghraifft, yn sefydlu corff newydd yn chwilio am gyfleoedd rhyngwladol ar gyfer busnesau o Gymru, yn adeiladu partneriaethau masnach newydd ac yn ehangu'r rhai sy'n bodoli'n barod. Buasai'r math o bresenoldeb ar y llwyfan rhyngwladol yr ydym ni'n chwilio amdano wrth gwrs yn cynnwys presenoldeb yn yr Unol Daleithiau.

Os ydy Cymru am drwsio ei heconomi, mae'n rhaid i ni wneud hynny o gwmpas ein hallforion ni. Mae Plaid Cymru'n blaid sydd eisiau i fusnes gael y rhyddid a'r gefnogaeth i lwyddo.

To answer Eluned Parrott's points—

16:47 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Will the Member take an intervention?

16:47 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Yes, briefly.

16:47 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I am grateful to the Member for taking the intervention. I am pleased to hear about his views on the importance of trade with North America, but it was a Plaid Cymru Minister who shut down all the offices in North America in the first place in the last Assembly. Therefore, was it a mistake to shut those offices, or do you regret that?

American companies already invest three times more in Europe than they do in Asia, according to the European Commission. We believe that there is more that we can do under the current trade agreements to increase the amount of trade ongoing between the United States and Wales. It is not TTIP that we need to increase that trade. There are a number of things that the Welsh Government and the UK Government could be doing that they are currently not doing. We can refer back here to some of the things that we discussed a little earlier this afternoon in our debate on the Enterprise and Business Committee's report. For example, we have called for a new international trade body that is at arm's length from the Government to promote Wales around the world. Yes, Wales is represented in principle by UKTI, but of the 600 UKTI staff working in the UK, there are 500 in London, 50 in Glasgow, 54 in the English regions, and no representation in Wales. We need our own methods and processes to tackle that type of inequality that currently exists. Plaid Cymru, for example, would establish a new body seeking international opportunities for Welsh businesses, build new trade partnerships and expand those that are already in existence. That kind of presence on the international stage that we are seeking would, of course, include a presence in the United States.

If Wales is to fix its economy, we must do so around our exports. Plaid Cymru is a party that wants businesses to have the freedom and support to succeed.

I ateb pwyntiau Eluned Parrott

A wnaiff yr Aelod dderbyn ymyriad?

Gwnaf, yn fyr.

Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod am gymryd yr ymyriad. Rwy'n falch o glywed ei farn ar bwysigrwydd masnach gyda Gogledd America, ond Gweinidog Plaid Cymru aeth at i gau'r holl swyddfeydd yng Ngogledd America yn y lle cyntaf yn y Cynulliad diwethaf. Felly, ai camgymeriad oedd cau'r swyddfeydd hynny, neu a ydych yn gresynu at hynny?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

- 16:47 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We absolutely have to look for every opportunity to make sure that Wales's presence on the international stage is growing in future. If I could address Eluned Parrott's points in particular, and the point that Eluned Parrott made about Plaid Cymru's anger about what TTIP represents for the Welsh economy, it is not the presence or the existence of international trade deals that worries us at all, but the nature of TTIP. It is important that you draw that distinction. We are looking for many innovative ways of growing links between Wales and America, and indeed the European Union and the United States of America. It is the nature of TTIP itself and its attack on democracy, potentially, that we are concerned about.
- Mae'n rhaid i ni gyd i edrych am bob cyfle i sicrhau bod presenoldeb Cymru ar y llwyfan rhyngwladol yn tyfu yn y dyfodol. A gaf fi fynd i'r afael â phwyntiau Eluned Parrott yn benodol, a'r pwynt a wnaeth Eluned Parrott am ddieter Plaid Cymru am yr hyn y mae TTIP yn ei olygu ar gyfer economi Cymru, nid presenoldeb neu fodolaeth cytundebau masnach rhyngwladol sy'n ein poeni o gwbl, ond natur y TTIP. Mae'n bwysig eich bod yn deall y gwahaniaeth hwnnw. Rydym yn chwilio am nifer o ffyrdd arloesol o feithrin cysylltiadau rhwng Cymru ac America, ac yn wir yr Undeb Ewropeaidd ac Unol Daleithiau'r Amerig. Natur TTIP ei hun a'r ffordd y gall fod yn ymosod ar ddemocratiaeth sy'n ein poeni.
- 16:48 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- What innovative method do you have for boosting trade out of Wales every year by £1.5 billion?
- Pa ddull arloesol sydd gennych ar gyfer hybu masnach o Gymru bob blwyddyn gan £1.5 biliwn?
- 16:48 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- In the 10 seconds that I have left I cannot go through again the points that I made about the need for us to establish arm's-length bodies in order to take Wales's message of being the best place in Britain to do business out to the world. I do not have time to do that now, but we will certainly talk about it again in the future. However, again, I make the point: it is the nature of TTIP. We need to wake up to the dangers of TTIP. Others throughout the European Union are doing so. It is important that we have this opportunity in the Assembly today to face up to the reality that there are other ways of doing this, boosting Welsh links, and boosting European links with the United States, without going down a path that threatens our very democracy.
- Yn y 10 eiliad sydd gennyf ar ôl, ni allaf fynd eto drwy'r pwyntiau y bu imi eu gwneud am yr angen i ni sefydlu cyrff hyd braich er mwyn lledaenu i'r byd neges Cymru o fod y lle gorau ym Mhrydain i wneud busnes. Nid oes gennyf amser i wneud hynny yn awr, ond yn sicr byddwn yn siarad am y peth eto yn y dyfodol. Fodd bynnag, unwaith eto, rwy'n gwneud y pwynt: dyna yw natur TTIP. Mae angen i ni fod yn effro i beryglon TTIP. Mae eraill ledled yr Undeb Ewropeaidd yn gwneud hynny. Mae'n bwysig ein bod yn cael y cyfle hwn yn y Cynulliad heddiw i wynebu'r realiti bod ffyrdd eraill o wneud hyn, gan roi hwb i gysylltiadau Cymreig, a rhoi hwb i gysylltiadau Ewropeaidd â'r Unol Daleithiau, heb ddilyn llwybr sy'n bygwth ein democratiaeth sylfaenol.
- 16:49 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- It is very disappointing to hear the tone that Plaid Cymru is taking in this debate and the basis of its argument, which is entirely unfounded. This is not about the sort of scaremongering that you are trying to bring to this debate. This is about taking advantage of what is a huge opportunity to secure the biggest ever trade deal in the history of the world. That is what we are talking about here: one that has the potential to transform, frankly, the Welsh economy. Yes, we have had some successes in terms of the trade that is going on between Wales and North America—of course we have. However, this gives us the opportunity to do much more than that, much more than just securing additional investment. It is actually about reducing the barriers so that all consumers in Wales can benefit as a result. Of course, our businesses can benefit as a result by selling their goods and services and products overseas in North America, without those barriers that are currently there making them too expensive for American consumers at present.
- Siomedig iawn yw agwedd Plaid Cymru yn y ddatl hon a sail eu dadl, sy'n gwbl ddi-sail. Nid yw hyn yn ymwneud â chodi bwganod fel rydych chi'n ceisio'u cyflwyno i'r ddatl hon. Mae hyn yn ymwneud â manteisio ar yr hyn sy'n gyfle enfawr i sicrhau'r fargen fasnach fwyaf erioed yn hanes y byd. Dyna yw'r hyn rydym yn sôn amdano: cyfle sydd â'r potensial i drawsnewid economi Cymru, a dweud y gwir. Ydym, rydym wedi cael rhai llwyddiannau o ran y fasnach sy'n digwydd rhwng Cymru a Gogledd America—wrth gwsrs ein bod. Fodd bynnag, mae hyn yn rhoi cyfle i wneud llawer mwy na hynny, llawer mwy na dim ond sicrhau buddsoddiad ychwanegol i ni. Mewn gwirionedd, o ganlyniad, mae'n ymwneud â gostwng y rhwystrau fel y gall pob defnyddiwr yng Nghymru elwa. Wrth gwsrs, o ganlyniad gall ein busnesau elwa trwy werthu eu nwyddau a'u gwasanaethau a'u cynnyrch dramor yng Ngogledd America, heb y rhwystrau sydd yn awr yn ei gwneud yn rhy ddrud i ddefnyddwyr America ar hyn o bryd.

16:50 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for taking an intervention. Are you concerned, as I am, about the potential for protected geographical indication status to be taken away from some key Welsh brands, including Halen Môn in my constituency, Welsh lamb and so on? That is a concern that is directly associated with, again, the nature of TTIP.

Diolch am dderbyn ymyriad. A ydych yn pryderu, fel yr wyf innau, am y potensial i statws dynodiad daearyddol gwarchoddedig gael ei gymryd oddi wrth rhai brandiau Cymreig allweddol, gan gynnwys Halen Môn yn fy etholaeth i, cig oen Cymreig ac yn y blaen? Mae hynny'n bryder sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol unwaith eto â natur TTIP.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:50 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am not aware that any of those would be threatened. In fact, I would imagine that, really, Halen Môn is likely to be very disappointed that you not championing the ability of food products from your constituency to be available at a lower cost to North American consumers. I am absolutely baffled as to why you are not making the argument for Welsh lamb, for example, to be available on menus et cetera overseas in the United States of America, because of the barriers that already exist at present. I think this big boost for our economy and the potential of TTIP is being grossly underestimated by you. I have to say, if you try to take these arguments to those people who you argue are feeling the pinch at a time of austerity in terms of public spending, they will tell you that one thing they want is reduced prices in the shops—reduced prices for the goods and services that they purchase—and, of course, this gives an opportunity for that, as well as greater protection, for example, in terms of online trade.

Nid wyf yn ymwybodol y byddai unrhyw un ohonynt dan fygythiad. Yn wir, byddwn yn dychmygu, mewn gwirionedd, y bydd Halen Môn yn debygol o fod yn siomedig iawn nad ydych yn hyrwyddo gallu cynhyrchion bwyd o'ch etholaeth i fod ar gael am gost is i ddefnyddwyr Gogledd America. Rwyf wedi llwyr ddrysus ynghylch pam nad ydych yn dadlau o blaid sicrhau bod cig oen Cymru, er enghraifft, ar gael ar fwydlenni ac ati dramor yn Unol Daleithiau'r Amerig, oherwydd y rhwystrau sydd eisoes yn bodoli ar hyn o bryd. Credaf fod yr hwb mawr i'n heconomi a photensial TTIP wedi'i danbriso'n fawr gennych chi. Rhaid i mi ddweud, os ceisiwch chi fynd â'r dadleuon hyn at y bobl hynny sydd yn ôl yr hyn a ddywedwch chi'n teimlo'r esgid yn gwasgu ar adeg o galedi o ran gwariant cyhoeddus, byddant yn dweud wrthych mai un peth y maent am ei gael yw prisiau is yn y siopau—prisiau is am y nwyddau a'r gwasanaethau y maent yn eu prynu—ac, wrth gwrs, dyma gyfle i wneud hynny, yn ogystal â mwy o ddiogelwch, er enghraifft, o ran masnach ar-lein.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

So, this is hugely beneficial to businesses of all sizes in Wales. It removes the red tape that is currently there and cuts tariffs between Britain, and of course the rest of the EU, and North America, which will lead to those lower prices for UK shoppers. I think that those are extremely positive things. I think we should be emphasising the opportunity that is presented by this. Of course, those safeguards, in terms of the way that we operate our public services, have already been assured. We have been given assurances about that by the people responsible at the EU for negotiating these deals.

Felly, mae hyn o fudd enfawr i fusnesau o bob maint yng Nghymru. Mae'n dileu'r firocratiaeth sydd yno ar hyn o bryd ac yn torri tollau rhwng Prydain, ac wrth gwrs, gweddill yr UE, a Gogledd America, a fydd yn arwain at y prisiau is hynny ar gyfer siopwyr y DU. Credaf fod y pethau hyn yn hynod o gadarnhaol. Credaf y dylem fod yn pwysleisio'r cyfle a ddaw yn sgîl hyn. Wrth gwrs, mae'r mesurau diogelu hynny, o ran y ffordd rydym yn gweithredu ein gwasanaethau cyhoeddus, eisoes wedi cael eu sicrhau. Rydym wedi cael sicrwydd am hynny gan y bobl sy'n gyfrifol am negodi'r bargeinion hyn yn yr UE.

Rhun ap Iorwerth a gododd—

Rhun ap Iorwerth rose—

16:52 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am happy to take the intervention.

Rwy'n barod i gymryd yr ymyriad.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:52 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, again, for taking another intervention. I am interested in your take on driving down prices. Do the farmers in your constituency agree with your position on driving down the prices of their produce?

Diolch i chi, unwaith eto, am gymryd ymyriad arall. Mae gennyf ddiddordeb yn y darlun a gyflwynwyd gennych ar gyfer gyrru prisiau i lawr. A yw'r ffermwyr yn eich etholaeth yn cytuno â'ch safbwynt ar yrru prisiau eu cynnyrch i lawr?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:52	Darren Millar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I am talking about driving down prices for imported goods. It is a shame that the Plaid Cymru economic spokesperson does not understand what trade barriers actually do deliver. What we are talking about here is the barriers. Just to get this right, Rhun, perhaps you need a lesson in economics. I would hope not to have to deliver that, because I am no expert myself, I would profess. However, what I would say is that removing barriers to trade is surely a good thing. It is something that we should all be supporting. Driving down prices of imported goods is a good thing for businesses and for the economy as a whole.</p>	<p>Rwyf fi'n sôn am yrru prisiau nwyddau a fewnforiwyd i lawr. Mae'n drueni nad yw llefarydd Plaid Cymru ar yr economi'n deall yr hyn y mae rhwystrau masnach mewn gwirionedd yn ei gyflawni. Yr hyn rydym yn sôn amdano yma yw'r rhwystrau. Dewch i ni gael hyn yn iawn, Rhun, efallai bod arnoch angen gwers mewn economeg. Rwy'n gobeithio na fydd rhaid i mi wneud hynny, oherwydd nid wyf fi'n honni fy mod i'n arbenigwr fy hun. Fodd bynnag, yr hyn y byddwn yn ei ddweud yw bod cael gwarded ar rwystrau i fasnach yn sicr yn beth da. Mae'n rhywbeth y dylem i gyd fod yn ei gefnogi. Mae gyrru prisiau nwyddau a fewnforiwyd i lawr yn beth da i fusnesau ac i'r economi gyfan.</p>
	<i>Llyr Gruffydd a gododd—</i>	<i>Llyr Gruffydd rose—</i>
16:53	Darren Millar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I will happily take the intervention.</p>	<p>Rwy'n falch o gymryd yr ymyriad.</p>
16:53	Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you for taking the intervention. How would increasing the level of cheap imports help Welsh farmers?</p>	<p>Diolch i chi am gymryd yr ymyriad. Sut y byddai cynyddu lefelau mewnfurion rhad yn helpu ffermwyr Cymru?</p>
16:53	Darren Millar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Look, what I have said very clearly is that trying to get our exports into the North American market is very, very important, both for Welsh farmers and other Welsh businesses, large and small, that will want to export to North America. Remove those barriers—it will be beneficial to everyone.</p>	<p>Gwrandewch, yr hyn rwyf wedi'i ddweud yn glir iawn yw bod ceisio cael ein hallforion i mewn i farchnad Gogledd America yn bwysig dros ben, i ffermwyr Cymru ac i fusnesau eraill yng Nghymru, mawr a bach, a fydd yn awyddus i allforio i Ogledd America. Dileu'r rhwystrau hynny—dyna fydd o fudd i bawb.</p>
	<p>It has been estimated that every family in the UK, including here in Wales, would be at least £400 a year better off as a result of the reduced costs to consumers in the shops. That is a good thing. You should be trumpeting this, cheering it on, rather than causing a barrier yourself to trade between Wales and the rest of the world.</p>	<p>Amcangyfrifwyd y byddai pob teulu yn y DU, gan gynnwys yma yng Nghymru, o leiaf £400 y flwyddyn yn well eu byd o ganlyniad i'r costau is i ddefnyddwyr yn y siopau. Mae hynny'n beth da. Dylech fod yn clodfodi hyn, a'i gefnogi, yn hytrach nag achosi rhwystr eich hun i fasnachu rhwng Cymru a gweddill y byd.</p>
16:54	Elin Jones Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Today's debate is an opportunity to begin exploring the potential effects of TTIP on Welsh public services and to ensure that the Welsh Government represents the concerns of this Assembly to the UK Government and the European Commission as a result of this debate.</p>	<p>Mae'r ddadl heddiw yn gyfle i gychwyn archwilio effeithiau posibl TTIP ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cynrychioli pryderon y Cynulliad hwn i Lywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd o ganlyniad i'r ddadl hon.</p>
	<p>The Conservative amendment today refers to the precedent of previous trade deals. It is not clear that TTIP will contain the same treatment of public services as previous trade deals, such as the general agreement on trade in services—GATS. Under GATS, public services were only defined as services not supplied on a commercial or competitive basis. We know that public services are often provided in a mixed environment. In Wales, such services include social services, some aspects of education, most aspects of transport, postal services and a whole host of other services.</p>	<p>Mae gwelliant y Ceidwadwyr heddiw yn cyfeirio at y cynsail o gytundebau masnach blaenorol. Nid yw'n glir y bydd TTIP yn cynnwys yr un driniaeth o wasanaethau cyhoeddus â bargeinion masnach blaenorol, megis y cytundeb cyffredinol ar fasnach mewn gwasanaethau—GATS. O dan GATS, diffiniwyd gwasanaethau cyhoeddus fel gwasanaethau nas cyflenwir ar sail fasnachol neu'n gystadleuol yn unig. Gwyddom fod gwasanaethau cyhoeddus yn aml yn cael eu darparu mewn amgylchedd cymysg. Yng Nghymru, mae gwasanaethau o'r fath yn cynnwys gwasanaethau cymdeithasol, rhai agweddau ar addysg, mwyafrif yr agweddau ar drafnidiaeth, gwasanaethau post a llu o wasanaethau eraill.</p>

The Liberal Democrat amendment refers to comments made by the EU trade commissioner and the EU chief negotiator in July 2014, which specifically referred to the NHS not being affected by TTIP because there is a general exemption for public services. However, there is no specific exemption for the NHS from TTIP. It is important not to claim that TTIP, if finalised, will automatically lead to NHS privatisation. That is, quite clearly, not the case. The wider issues are around those parts of health provision where there is not complete public ownership. In England, this affects a large number of areas of health—a larger number of areas of health than it affects in Wales or in Scotland, following the Health and Social Care Act 2012. It remains unclear how devolved public services will be protected when they run on a very different model to the public services run by the member state Government directly. However, there is clearly a potential impact on social care and public health in Wales.

There could be issues with taking areas of social care into public ownership as part of an integrated health and social care system. There are problems for public health when we consider the possible inclusion of the investor-state dispute settlement, or ISDS. An obvious concern, given usage of ISDS in health-related cases in the past, is the area of public health, where government intervention can be a force for good. It is easy to think of potential government interventions that might cost private companies money if they affect the consumption of products. We in Plaid Cymru want to see a future Welsh Government introduce a sugary drinks levy and this Government is currently proposing legislation to ban the use of e-cigarettes in public places. Ultimately, we cannot predict that an ISDS case would definitely take place, but we can certainly predict the possibility and potential for such a challenge to government to happen where governments take certain actions such as these.

Mae gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol yn cyfeirio at sylwadau a wnaed gan gomisiynydd masnach yr UE a phrif negodwr yr UE ym mis Gorffennaf 2014, gan ddweud yn benodol nad oedd TTIP yn effeithio ar y GIG oherwydd bod eithriad cyffredinol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, nid oes unrhyw eithriad penodol i'r GIG o ran TTIP. Mae'n bwysig peidio â honni y bydd TTIP, o'i gwblhau, yn arwain yn awtomatig at breifateiddio'r GIG. Mae'n reit amlwg nad hynny yw'r achos. Mae'r materion ehangach yn ymwneud â'r rhannau hynny o'r ddarpariaeth iechyd lle nad oes perchenogaeth gyhoeddus gyflawn. Yn Lloegr, mae hyn yn effeithio ar nifer fawr o feysydd iechyd—mwy nag yng Nghymru neu'r Alban, yn dilyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012. Mae'n parhau'n anegrlus sut y diogelir gwasanaethau cyhoeddus datganoledig pan fyddant yn rhedeg ar fodel gwahanol iawn i'r gwasanaethau cyhoeddus a gynhelir gan aelod-wladwriaeth y Llywodraeth yn uniongyrchol. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod effaith bosibl ar ofal cymdeithasol ac iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

Gellid cael problemau gyda chymryd meysydd gofal cymdeithasol i berchnogaeth gyhoeddus fel rhan o system iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Mae problemau ar gyfer iechyd y cyhoedd wrth i ni ystyried y posibilrwydd o gynnwys y setliad posibl ar gyfer anghydfod rhwng buddsoddwyr a gwladwriaethau, neu'r ISDS. Un pryder amlwg, o ystyried y defnydd o'r ISDS mewn achosion sy'n ymwneud ag iechyd yn y gorffennol, yw maes iechyd y cyhoedd, lle gall ymyrraeth gan y llywodraeth fod yn rym er daioni. Mae'n hawdd meddwl am ymyriadau posibl gan y llywodraeth a allai gostio arian i gwmnïau preifat os ydynt yn effeithio ar y defnydd o gynhyrchion. Rydym ni ym Mhlaid Cymru am weld Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn cyflwyno ardoll ar ddiodydd llawn siwgr ac mae'r Llywodraeth hon ar hyn o bryd yn cynnig deddfwriaeth i wahardd y defnydd o e-sigarêts mewn manau cyhoeddus. Yn y pen draw, ni allwn ragweld y byddai achos ISDS yn bendant yn digwydd, ond gallwn yn sicr ragweld y posibilrwydd a'r potensial y bydd her o'r fath i lywodraeth yn digwydd pan fo llywodraethau yn cymryd camau penodol fel y rhain.

16:57 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Would the Member give way, please?

A wnaiff yr Aelod ildio, os gwelwch yn dda?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:57 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I would.

Gwnaf.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:57 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful. Surely, the point is that since the Act that she has just referred to has taken place in the NHS in England, £16 billion-worth of contracts have been given from the NHS to the private sector in England. If an incoming Labour Government, for example, wanted to take those back, do the Tories really think that the democratic will of the people of the UK would not be thwarted by companies that want to use TTIP to that end?

Diolch i chi. Yn sicr, y pwynt yw, ers cyflwyno'r Ddeddf y mae hi newydd gyfeirio ati yn y GIG yn Lloegr, mae gwerth £16 biliwn o gontractau wedi'u rhoi gan y GIG i'r sector preifat yn Lloegr. Pe bai Llywodraeth Lafur newydd, er enghraifft, yn awyddus i'w cymryd yn ôl, a yw'r Toriaid yn wir yn credu na fyddai ewyllys democrataidd pobl y DU yn cael ei atal gan gwmnïau sydd am ddefnyddio TTIP i'r perwyl hwnnw?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:57 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, there is a very real possibility that that could be the effect of TTIP if it is agreed in what looks like its current form.

Oes, mae posibilrwydd gwirioneddol y gallai TTIP gael yr effaith honno os y'i cytunir fel y mae'n ymddangos yn ei ffurf bresennol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Finally, I want to touch on the issue of public procurement, which we debated and agreed was a good thing in this Assembly yesterday. According to analysis by Unison, TTIP threatens to restrict the ability of local authorities and other public bodies to source and to employ locally. For its part, we know that the EU Commission is on record as seeking to remove the United States' 'buy America' requirements, which it sees as a protectionist feature of US procurement policy. The Commission wants TTIP to cover the procurement policies of all American states. How many of us here have called for 'buy Welsh' or 'buy local' policies and have asked the Government to promote these policies? TTIP would seriously undermine the ability of governments in the future to progress public procurement.

Yn olaf, rwyf am sôn am gaffael cyhoeddus, y bu i ni ei drafod a chytuno ei fod yn beth da yn y Cynulliad hwn ddoe. Yn ôl dadansoddiad Unsain, mae TTIP yn bygwth cyfyngu ar allu awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill i ganfod a chyflogi'n lleol. O'i ran ef, gwyddom fod Comisiwn yr UE ar gofnod yn ceisio cael gwared ar ofynion 'prynu America' yr Unol Daleithiau sydd, ym marn y Comisiwn, yn nodwedd warchodol o bolisi caffael yr Unol Daleithiau. Yn ôl y Comisiwn, dylai TTIP gwmpasu polisiau caffael holl daleithiau America. Sawl un ohonom ni sydd wedi galw am bolisiau 'prynu yng Nghymru' neu 'brynu'n lleol' ac sydd wedi gofyn i'r Llywodraeth hyrwyddo'r polisiau hyn? Byddai TTIP yn tanseilio llywodraethau yn ddirifol yn y dyfodol o ran eu gallu i hyrwyddo caffael cyhoeddus.

16:59 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:59 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that I am running out of time, so I will just make my final point. I want this Assembly today to take a stand for elected Assemblies in the future, to allow them to be free to take democratic decisions on public services and not to be subservient to a corporate-heavy, democracy-light trans-Atlantic trade deal.

Credaf fod fy amser yn do di ben, felly rwyf am wneud fy mhwynt olaf. Rwyf am i'r Cynulliad hwn heddiw wneud safiad dros Gynulladau etholedig yn y dyfodol, i'w galluogi i fod yn rhydd i gymryd penderfyniadau democrataidd ar wasanaethau cyhoeddus ac i beidio â bod yn daeog i'r fargen fasnach drawsatlantig sy'n drwm o blaid corfforaethau ac yn wan o safbwynt democratiaeth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:59 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is interesting that the coalition parties in Westminster have joined together here in the Assembly to tell us that we should welcome TTIP with open arms. The Darren Millar school of economics tells us that producers in Wales will benefit hugely from cheap imports, and their products' value being reduced. Of course, Eluned Parrott assured us that slipper manufacturers in Wales will benefit hugely from this agreement. Of course—

Mae'n ddiddorol bod pleidiau'r glymblaid yn San Steffan wedi dod ynghyd yma yn y Cynulliad i ddweud wrthym y dylem groesawu TTIP gyda breichiau agored. Mae ysgol economeg Darren Millar yn dweud wrthym y bydd cynhyrchwyr yng Nghymru yn elwa'n aruthrol ar fewnforion rhad, a gostyngiad yng ngwerth eu cynnyrch. Wrth gwrs, cawsom sicrwydd gan Eluned Parrott y bydd gweithgynhyrchwyr sliperi yng Nghymru'n elwa'n fawr o'r cytundeb hwn. Wrth gwrs—

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:00 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:00 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Bear with me a minute and I will allow you an intervention later on, if you still want to do that.

Un funud os gwelwch yn dda, rhoddaf gyfle i chi ymyrryd maes o law, os byddwch am wneud hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

It is interesting that the main ally of the United States in trying to influence the European Union is David Cameron. Normally, when you want to influence an institution, you do not choose the most unpopular member of that institution to be your conduit. David Cameron in the European Union is well known—[Interruption.] David Cameron is well known to have the unparalleled ability to light up a whole room in Brussels just by leaving it. [Laughter.] If you want to influence the European Union, quite obviously, you do not choose Billy no-mates to do the discussions on your behalf.

Mae'n ddiddorol mai prif gynghreiriad yr Unol Daleithiau wrth geisio dylanwadu ar yr Undeb Ewropeaidd yw David Cameron. Fel arfer, pan fyddwch am ddylanwadu ar sefydliad, nid aelod mwyaf amhoblogaidd y sefydliad hwnnw y byddech yn ei ddewis. Mae'n hysbys bod gan David Cameron yn yr Undeb Ewropeaidd—[Torri ar draws.] Mae'n hysbys bod gan David Cameron y gallu di-ail i oleuo ystafell gyfan ym Mrwsel dim ond trwy adael yr ystafell. [Chwerthin.] Os ydych am ddylanwadu ar yr Undeb Ewropeaidd, mae'n gwbl amlwg, na ddylech ddewis yr un di-digyfaill i wneud y trafodaethau ar eich rhan.

It is interesting that Wales has suffered in the past from allowing the United Kingdom to make all the decisions about negotiations in Europe on our behalf. Some of us remember, 10 or 15 years ago, that many elements—

Mae'n ddiddorol bod Cymru wedi dioddef yn y gorffennol yn sgîl caniatáu i'r Deyrnas Unedig wneud yr holl benderfyniadau am drafodaethau yn Ewrop ar ein rhan. Bydd rhai ohonom yn cofio, 10 neu 15 mlynedd yn ôl, fod llawer o elfennau

17:01 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Will you take an intervention on that point?

A wnewch chi dderbyn ymyriad ar y pwynt hwnnw?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:01 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Indeed.

Gwnaf.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:01 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I am very grateful. There are times when I am very grateful that the UK makes those decisions, because, had it been down to this place, we would have been in the euro, and look where we would be now. As a European—
[Interruption.] As a European, this is something that is being dealt with at a European level, and I would have thought, Rhodri, that you would have supported that.

Diolch yn fawr. Mae adegau pan fyddaf yn ddiolchgar iawn bod y DU yn gwneud y penderfyniadau hynny, oherwydd, pe baem wedi dibynnu ar y lle hwn, byddem wedi ymuno â'r ewro, ac ystyriwch ble byddem erbyn hyn. Fel brodor o Ewrop [Torri ar draws.] Fel brodor o Ewrop, dyma rywbeth sy'n cael ei drin ar lefel Ewropeaidd, a byddwn wedi meddwl, Rhodri, y byddech wedi cefnogi hynny.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:01 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, this is very interesting, because this is the whole approach of the coalition Government in London: Wales should not have a voice, and those of us who have been elected to represent the people of Wales and the Welsh Government, which has been elected by the people of Wales, should not be trying to safeguard the interests of Wales. Going back 10 or 15 years, of course, what happened was that the UK negotiated in terms of European regulations what was then called 'gold-plating'. Those of us who were in politics at that time remember having discussions with farming unions—you could not have a discussion with FUW or the NFU without 'gold-plating' coming up every two seconds. However, the regulations that came down from Europe, because of the way that they had been negotiated by the UK Government, meant that the Welsh economy lost out hugely, and not only in agriculture. The Welsh economy lost out hugely.

Wel, mae hyn yn ddiddorol iawn, oherwydd dyma ddull cyffredinol y Llywodraeth glymblaid yn Llundain: Ni ddylai Cymru gael llais, ac ni ddylai'r bobl yn ein plith a etholwyd i gynrychioli pobl Cymru a Llywodraeth Cymru, a gawsant eu hethol gan bobl Cymru, fod yn ceisio diogelu buddiannau Cymru. 10 neu 15 mlynedd yn ôl, wrth gwrs, yr hyn a ddigwyddodd oedd bod y DU yn negodi ar gyfer rheoliadau Ewropeaidd yr hyn y cyfeiriwyd ato ar y pryd fel 'gold-plating'. Mae'r rhai ohonom a oedd mewn gwleidyddiaeth ar y pryd yn cofio trafod gydag undebau ffermio—nid oedd modd cael trafodaeth gydag Undeb Amaethwyr Cymru neu Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr heb glywed gold-plating bob munud. Fodd bynnag, mae'r rheoliadau a ddaeth i ni o Ewrop, oherwydd y ffordd y maent wedi cael eu negodi gan Lywodraeth y DU, wedi golygu bod economi Cymru wedi bod ar ei cholled yn aruthrol, ac nid dim ond o ran amaethyddiaeth. Mae economi Cymru wedi bod ar ei cholled yn fawr iawn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

At that time, over 15 years ago, we did not have an institution like the National Assembly for Wales. We did not have a Welsh Government to stand up for the interests of Wales. What we might now be facing is a situation that is the total opposite, in which the over-liberalisation of an agreement like TTIP could again leave the Welsh economy being affected, and the public sector in Wales being hugely endangered by the possibility of private sector interests in America having precedence in those situations. Our responsibility is to look after the interests of Wales, the Welsh economy, and the interests of the public and private sector in Wales, within Europe, from a pro-Europe approach, and not from a pro-United States approach, to take the view that we have to have a cautious approach to TTIP in order to safeguard the interests of the people of Wales. I give way to Darren Millar.

Ar y pryd, dros 15 mlynedd yn ôl, nid oedd gennym sefydliad fel y Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Nid oedd gennym ni Lywodraeth Cymru i sefyll dros fuddiannau Cymru. Yr hyn y gallem fod yn ei wynebu nawr yw sefyllfa gwbl groes, lle gallai gor-ryddfrydoli cytundeb fel TTIP gael effaith ar economi Cymru, a pheryglu'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn fawr gan y posibilrwydd o roi blaenoriaeth i fuddiannau sector preifat America yn y sefyllfaoedd hynny. Ein cyfrifoldeb ni yw gofalu am fuddiannau Cymru, economi Cymru, a buddiannau'r sector cyhoeddus a phreifat yng Nghymru, o fewn Ewrop, o gyfeiriad sydd o blaid Ewrop nid o blaid yr Unol Daleithiau, a chymryd y farn bod yn rhaid inni roi sylw gofalus i TTIP mwy'n diogelu buddiannau pobl Cymru. Ildiaf i Darren Millar.

17:04 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Quickly, Darren Millar.

Yn gyflym, Darren Millar.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:04	Darren Millar Bywgraffiad Biography Thank you very much. Do you accept that the additional trade boost that the UK could receive would generate further tax revenues to invest in public services and therefore have a positive impact on public services, not the negative one that you portray?	Diolch yn fawr iawn. A ydych yn derbyn y byddai'r hwb masnach ychwanegol y gallai'r DU ei dderbyn yn cynhyrchu refeniw treth pellach i'w fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus ac felly'n cael effaith gadarnhaol ar wasanaethau cyhoeddus, nid yr effaith negyddol yr ydych chi'n ei phortreadu?	Senedd.tv Fideo Video
17:04	Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography Well, again—	Wel, unwaith eto—	Senedd.tv Fideo Video
17:04	Darren Millar Bywgraffiad Biography The Nostradamus school of economics.	Dyma ysgol economeg Nostradamus.	Senedd.tv Fideo Video
17:04	Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography Again, this is the Darren Millar school of economics, which will tell us that the private sector is a huge benefit to the NHS in Wales, enhances the NHS and enhances the opportunity for people to get the services they need at the point of entry. That is not in the interests of the people of Wales. Our responsibility is to safeguard that. All we are saying in this motion is: let us take a cautious approach to TTIP. Let us be very careful about the implications.	Unwaith eto, dyma ysgol economeg Darren Millar sy'n dweud wrthym fod y sector preifat yn fudd enfawr i'r GIG yng Nghymru, yn gwella'r GIG ac yn gwella'r cyfle i bobl gael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt yn y man mynediad. Nid yw hynny er budd pobl Cymru. Ein cyfrifoldeb ni yw diogelu hynny. Y cyfan rydym yn ei ddweud yn y cynnig hwn yw: gadewch i ni gymryd agwedd ofalus tuag at TTIP. Gadewch i ni fod yn ofalus iawn ynghylch y goblygiadau.	Senedd.tv Fideo Video
17:04	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography Finish with this, please.	Gorffennwch gyda hyn, os gwelwch yn dda.	Senedd.tv Fideo Video
17:04	Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography Let us not accept it with open arms and not even consider the interests of the Welsh economy and the private and public sectors in Wales.	Gadewch inni beidio â'i dderbyn gyda breichiau agored, heb hyd yn oed ystyried buddiannau economi Cymru a'r sectorau preifat a chyhoeddus yng Nghymru.	Senedd.tv Fideo Video
17:05	Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography The Darren Millar school of economics reminds me of the Welsh farmer—[Interruption.]	Mae ysgol economeg Darren Millar yn fy atgoffa o'r ffermwr o Gymro—[Torri ar draws.]	Senedd.tv Fideo Video
17:05	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography Order, order. I do not want our debates to be anodyne but the speaker has not got going yet and I cannot hear what she is saying.	Trefn, os gwelwch yn dda. Nid wyf am i'n dadleuon fod yn llywaeth ond nid yw'r siaradwr wedi bwrw iddi eto ac ni allaf glywed yr hyn y mae'n ei ddweud.	Senedd.tv Fideo Video
17:05	Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography The Darren Millar school of economics sounds a bit like the Welsh farmer who sticks a UKIP banner in their hedge and then thinks that if we were to leave Europe the money would come back to the farmer through the Westminster Government anyway. So this idea that, because we would open up our wallets to American multinationals, somehow that would enable us to have more money to invest in our public services—I really fail to see that one.	Mae ysgol economeg Darren Millar yn swnio'n debyg i'r ffermwr o Gymro sy'n gosod baner UKIP yn ei wrych ac yna'n meddwl pe baem yn gadael Ewrop y byddai'r arian yn dod yn ôl i'r ffermwr drwy Lywodraeth San Steffan beth bynnag. Felly mae'r syniad hwn, oherwydd y byddem yn agor ein waledi i gwmnïau rhyngwladol Americanaidd, rhywsut y byddai hynny'n ein galluogi i gael mwy o arian i fuddsoddi yn ein gwasanaethau cyhoeddus—ni allaf ddeall hyn o gwbl.	Senedd.tv Fideo Video

I was interested to hear the argument from the Liberal Democrats that, because Plaid Cymru is arguing that the TTIP would fetter future Governments ability to regulate therefore we must be anti the citizen. On the contrary, it is essential that Government and parliamentary institutions are able to regulate the activities of businesses and other institutions on behalf of the citizens. On this day, which is the thirtieth anniversary of the Bhopal disaster, the worst industrial disaster in history, we have to remind ourselves that deregulation is absolutely the antithesis of democratic accountability. Fifty one per cent was owned by an American company, and 49% owned by the Indian Government. Although there has been a pitiful level of compensation for these individuals, no money has been paid for clearing up the industrial pollution disaster that has been there for 30 years.

Going back to TTIP, none of us are opposed to promoting Welsh goods abroad, whether it is in the United States or indeed other parts of the world. The United States is not the only game in town, but the TTIP is not 'it', because there are three pillars to TTIP. One pillar is deregulation, the second is privatisation, and the third is so-called investor protection. On deregulation, the so-called trade barriers include food safety regulations, pesticides—we go back to Bhopal—and genetically modified organisms. At stake is the precautionary principle used by the EU, whereby the onus is on companies to prove that their product is safe. That would go out of the window. You only have to think of the Thalidomide scandal to see why that is not a good idea. TTIP, according to the European Commission itself, will be responsible for the loss of 1 million jobs in the EU as a result of deregulation.

The second point is privatisation, and, as Leanne Wood has already pointed out, even if the NHS were considered an exception, where would that leave the UK blood plasma service, now run by an American company, or the 10-year contract for cancer and palliative care services in Staffordshire, or any other services picked off under the Health and Social Care Act 2012 until the next Government reverses it? The ratchet clause in TTIP means that once you have introduced a level of market liberalisation you can never reverse that. There is also the standstill clause, which means that you cannot expand existing regulation. So, the Well-being of Future Generations (Wales) Bill, the Planning (Wales) Bill and the environment Bill would be out of the window. In fact, which legislation would not be caught in that standstill catch-all?

Yr oedd yn ddiddorol clywed dadl y Democratiaid Rhyddfrydol, oherwydd mae Plaid Cymru yn dadlau y byddai'r TTIP yn llyffetheirio gallu Llywodraethau'r dyfodol i reoleiddio, felly mae'n rhaid ein bod yn wrth-ddinesydd. I'r gwrthwyneb, mae'n hanfodol bod y Llywodraeth a sefydliadau seneddol yn gallu rheoleiddio gweithgareddau busnesau a sefydliadau eraill ar ran y dinasyddion. Ddeg mlynedd ar hugain yn ôl i'r diwrnod hwn y digwyddodd trychineb Bhopal, y trychineb diwydiannol gwaethaf mewn hanes, a heddiw rhaid i ni atgoffa ein hunain bod dadreoleiddio yn gwbl groes i atebolrwydd democrataidd. Roedd pum deg un y cant yn eiddo i gwmni Americanaidd, a 49% yn eiddo i Lywodraeth India. Er y bu lefelau pitw o iawndal ar gyfer yr unigolion hyn, ni thalwyd yr un geiniog am lanhau llygredd y trychineb diwydiannol sydd wedi bod yn ers 30 mlynedd.

Gan fynd yn ôl at TTIP, nid oes yr un ohonom yn gwrthwynebu hyrwyddo nwyddau Cymru dramor, boed hynny yn yr Unol Daleithiau neu yn wir mewn rhannau eraill o'r byd. Nid yr Unol Daleithiau yw'r unig le o bwys, ond nid un peth yw'r TTIP, oherwydd mae tri philer i TTIP. Un pilier yw dadreoleiddio, yr ail yw preifateiddio, a'r trydydd yw'r hyn a elwir yn ddiogelwch buddsoddwyr. O ran dadreoleiddio, mae'r rhwystrau masnach hyn yn cynnwys rheoliadau diogelwch bwyd, plaladdwyr—cofiwn am Bhopal—ac organebau a addaswyd yn enetig. Yn y fantol y mae'r egwyddor ragofalus a ddefnyddir gan yr UE, lle mae'r cyfrifoldeb ar gwmnïau i brofi bod eu cynnyrch yn ddiogel. Byddai hynny'n mynd i'r gwellt. 'Does ond rhaid i chi feddwl am sgandal Thalidomide i weld pam nad yw hynny'n syniad da. Yn ôl y Comisiwn Ewropeaidd ei hun, bydd TTIP yn gyfrifol am golli 1 miliwn o swyddi yn yr UE o ganlyniad i ddadreoleiddio.

Yr ail bwynt yw preifateiddio, ac fel y mae Leanne Wood eisoes wedi nodi, hyd yn oed pe ystyrid y GIG yn eithriad, ym mhle y byddai hynny'n gadael gwasanaeth plasma gwaed y DU, sydd bellach yn cael ei redeg gan gwmni Americanaidd, neu'r contract 10 mlynedd ar gyfer canser a gwasanaethau gofal lliniarol yn Swydd Stafford, neu unrhyw wasanaethau eraill sydd wedi'u cipio dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 tan y caiff hyn ei wrthdroi gan y Llywodraeth nesaf? Mae'r cymal troi a throi yn TTIP golygu unwaith y byddwch wedi cyflwyno lefel o ryddfrydoli'r farchnad, nad oes modd i chi byth wrthdroi hynny. Mae cymal digyfnwid hefyd, sy'n golygu na allwch ehangu rheoleiddio presennol. Felly, byddai Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Bil Cynllunio (Cymru) a'r Bil amgylchedd yn mynd i'r gwellt. Yn wir, a oes unrhyw ddeddfwriaeth na fyddai'n cael ei dal yn y cymal digyfnwid cynhwysfawr hwnnw?

If that were not enough, there is investor protection, and the investor-state dispute settlement mechanism, whereby the World Trade Organization, which currently presides over trade disputes—. The ISDS would give corporations the right to legal redress, not through the WTO, but through secret adjudication panels that are sovereign and have no right of appeal. A London School of Economics study for the Department for Business, Innovation & Skills concluded that the investor-state dispute settlement in TTIP would enable cases to completely bypass the UK domestic courts. To give an example of the sorts of things that would be affected by this, the Slovak Government was sued by a Dutch private medical insurance firm after it had introduced a public health insurance system—

Os nad yw hynny'n ddigon, mae diogelwch buddsoddwr, a'r mecanwaith setliad ar gyfer anghydfod rhwng buddsoddwyr a gwladwriaethau, lle mae Sefydliad Masnach y Byd, sydd ar hyn o bryd yn llywyddu dros anghydfod masnach—. Byddai'r ISDS yn rhoi hawliau iawn cyfreithiol i gorfforaethau, nid drwy'r WTO, ond drwy baneli dyfarnu cyfrinachol sy'n sofran ac sydd heb hawl i apêl. Daeth astudiaeth y London School of Economics ar gyfer yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau i'r casgliad y byddai setliad ar gyfer anghydfod rhwng buddsoddwyr a gwladwriaethau'r TTIP yn galluogi i achosion osgoi llysoedd domestig y DU yn gyfan gwbl. I roi enghraifft o'r math o bethau a fyddai'n cael eu heffeithio gan hyn, erlynwyd Llywodraeth Slofacia gan gwmni yswiriant meddygol preifaf o'r Iseldiroedd ar ôl iddi gyflwyno system yswiriant iechyd cyhoeddus—

- 17:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Quickly now, we have had this example. Yn sydyn os gwelwch yn dda; rydym wedi cael yr enghraifft hon.
- 17:10 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
[Continues.]—and the Australian Government is being sued by Philip Morris International for introducing plain cigarette packaging. [Yn parhau.] —ac mae Llywodraeth Awstralia yn cael ei dwyn i gyfraith gan Philip Morris International am gyflwyno pecynnau plaen ar gyfer sigarêts.
- 17:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I call the Minister for Economy, Science and Transport, Edwina Hart. Galwaf ar Edwina Hart, y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.
- 17:10 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport
Thank you, Deputy Presiding Officer. This has indeed been an interesting debate today; we have had totalitarianism, globalisation and we have had protectionism in our discussions. However, the American economy has been particularly protected in many ways with regard to rules and regulations, and it does need to be opened out in many ways. I am responding to the debate today as there are some elements of the partnership that are particularly relevant to my portfolio. Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Mae hyn yn wir wedi bod yn ddadl ddiddorol heddiw; rydym wedi cael totalitariaeth, globaleiddio ac rydym wedi cael diffyndollaeth yn ein trafodaethau. Fodd bynnag, mae economi America wedi ei gwarchod yn arbennig mewn sawl ffordd o ran rheolau a rheoliadau, ac mae angen ei hagar allan mewn sawl ffordd. Rwy'n ymateb i'r ddadl heddiw gan fod rhai elfennau o'r bartneriaeth sy'n arbennig o berthnasol i fy mhorthfolio.
- While this is, obviously, a reserved matter of the UK Government, we are maintaining a keen interest in developments, given the significance of trade to the Welsh economy and the wider implications of the negotiations on public services. This is an important trade agreement between the European Union and the United States. It does aim to remove trade barriers in a wide range of economic sectors to make it easier to buy and sell goods and services between the EU and the US. Er bod hyn yn, yn amlwg, yn fater a gadwyd yn ôl i Lywodraeth y DU, rydym yn cynnal diddordeb brwd yn y datblygiadau, o ystyried arwyddocâd masnach i economi Cymru a goblygiadau ehangach y negodi ar wasanaethau cyhoeddus. Dyma gytundeb masnach pwysig rhwng yr Undeb Ewropeaidd a'r Unol Daleithiau. Mae'n ceisio symud rhwystrau masnach mewn ystod eang o sectorau economaidd i'w gwneud yn haws i brynu a gwerthu nwyddau a gwasanaethau rhwng yr UE a'r Unol Daleithiau.
- In terms of trade, the US continues to be the top export destination by far for Welsh goods. The value of Welsh exports to the US stood at just £3 billion in 2013, a 1% increase compared with 2012, but a 400% increase since 1999. It being our largest trade market, we have undertaken various activities this year to promote business opportunities for Welsh companies. These have included trade missions to Chicago and San Francisco as well as attendance at key events and exhibitions. O ran masnach, mae'r Unol Daleithiau yn parhau i fod y brif gyrchfan allforio o bell ffordd ar gyfer nwyddau Cymreig. Roedd gwerth allforion o Gymru i'r Unol Daleithiau bron yn £3 biliwn yn 2013, cynnydd o 1% o'i gymharu â 2012, ond cynnydd o 400% ers 1999. Gan mai dyma'n marchnad fasnach fwyaf, bu i ni gynnal amryw weithgareddau eleni i hyrwyddo cyfleoedd busnes ar gyfer cwmnïau o Gymru. Roedd hyn yn cynnwys teithiau masnach i Chicago a San Francisco, yn ogystal â mynychu digwyddiadau ac arddangosfeydd allweddol.

Furthermore, the US accounts for the largest number of foreign-owned businesses active in Wales; one in four foreign-owned companies in Wales is US-owned. In total, there are around 275 US-owned companies in Wales, employing over 50,000 people.

During 2013-14, 34 of the 79 inward investment successes secured were from US-owned companies, and these created over 1,300 new jobs and safeguarded a further 1,300. Having an effective partnership is very important in terms of both trade and investment, especially if we can address some of the barriers faced by SMEs exporting to the US, such as the differences in technical regulations, standards and approval procedures. These are often costly and unnecessary in time and money for companies that want to sell their products in both markets.

However, the transatlantic trade and investment partnership has implications beyond trade links with the US, such as the potential impact on public services in Wales, in particular the national health service. Even though negotiations have been taking place between the EU and the US since July 2013, there is still a lack of clarity on some very important areas, particularly in regard to public services. It is important that there is greater clarification on these areas, and we will be making representations to the UK Government, particularly in regard to the proposed investor-state dispute settlement. It is important that the right balance is struck between encouraging trade, protecting investors and safeguarding the ability to regulate in the public interest. After all, we are a democratically elected body.

We understand and share the very real concerns that have been raised by individuals, organisations and trade unions around Wales, some of which have been repeated in this Chamber today, about the impact that the transatlantic trade and investment partnership could have on the national health service in Wales. Ours is a national health service that remains true to Aneurin Bevan's founding principle. It is comprehensive, universal and free at the point of access. We have a truly national service grounded in the spirit of the public service ethos, working to improve the health of everyone in Wales, just as Bevan envisaged, and not an increasingly fragmented health service wide open to any and every private company that puts the interests of its shareholders above those of patients and staff.

The respected 'British Medical Journal' has said that the NHS in Wales most closely resembles the NHS that Bevan envisaged, and the British Medical Association has reported that doctors in Wales also remain loyal to those founding principles. We want to protect our publicly-funded NHS to ensure it remains safe from market forces. We want our health service to continue to remain true to the public service ethos that is so strong in Wales, as well as the health service's founding principles, as the NHS continues to modernise to meet the needs of the Welsh population and to prevent disease.

Ar ben hynny, yr Unol Daleithiau sydd â'r nifer fwyaf o fusnesau sy'n eiddo tramor sy'n weithredol yng Nghymru; mae un cwmni sy'n eiddo tramor o bob pedwar yng Nghymru yn eiddo i'r Unol Daleithiau. Fel cyfanswm, mae tua 275 o gwmnïau sy'n eiddo i'r Unol Daleithiau yng Nghymru, sy'n cyflogi dros 50,000 o bobl.

Yn ystod 2013-14, roedd 34 o'r 79 o lwyddiannau mewnfuddsoddi a sicrhawyd yn dod o gwmnïau sy'n eiddo i'r Unol Daleithiau, ac mae'r rhain wedi creu dros 1,300 o swyddi newydd ac wedi diogelu 1,300 pellach. Mae cael partneriaeth effeithiol yn bwysig iawn o ran masnach a buddsoddi, yn enwedig os gallwn fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau a wynebir gan fusnesau bach a chanolig sy'n allforio i'r Unol Daleithiau, megis y gwahaniaethau mewn rheoliadau technegol, safonau a gweithdrefnau cymeradwyo. Mae'r rhain yn aml yn gostus ac yn ddiangen o ran amser ac arian ar gyfer cwmnïau sydd am werthu eu cynnyrch yn y ddwy farchnad.

Fodd bynnag, mae gan y bartneriaeth masnach a buddsoddi trawsatlantig oblygiadau y tu hwnt i gysylltiadau masnach â'r Unol Daleithiau, megis yr effaith bosibl ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, yn enwedig y gwasanaeth iechyd gwladol. Er bod trafodaethau wedi bod yn digwydd rhwng yr UE a'r Unol Daleithiau ers mis Gorffennaf 2013, mae diffyg eglurder ar rai meysydd pwysig iawn, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus yn parhau. Mae'n bwysig cael mwy o eglurhad ar y meysydd hyn, a byddwn yn cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU, yn enwedig o ran y setliad arfaethedig ar gyfer anghydfod rhwng buddsoddwyr a gwladwriaethau. Mae'n bwysig bod y cydbwysedd cywir yn cael ei daro rhwng annog masnach, diogelu buddsoddwyr a diogelu'r gallu i reoleiddio er budd y cyhoedd. Wedi'r cyfan, rydym yn gorff a etholwyd yn ddemocrataidd.

Rydym yn deall ac yn rhannu'r pryderon gwirioneddol a godwyd gan unigolion, sefydliadau ac undebau llafur o amgylch Cymru, rhai ohonynt wedi cael eu hailadrodd yn y Siambr hon heddiw, am yr effaith y gallai'r bartneriaeth masnach a buddsoddi trawsatlantig ei chael ar y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru. Mae ein gwasanaeth iechyd gwladol yn parhau i fod yn drwm i egwyddor sylfaenol Aneurin Bevan. Mae'n gynhwysfawr, mae i bawb ac yn rhad ac am ddim yn y pwynt mynediad. Mae gennym wasanaeth gwirioneddol genedlaethol wedi'i seilio ar ethos o wasanaeth cyhoeddus, sy'n gweithio i wella iechyd pawb yng Nghymru, yn union fel y bwriadodd Bevan, ac nid yn wasanaeth iechyd mwyfwy rameidiog sy'n agored i gwmnïau preifat o bob math sy'n rhoi buddiannau eu cyfranddalwyr o flaen rhai'r cleifion a'r staff.

Dywedodd y 'British Medical Journal' uchel ei barch mai'r GIG yng Nghymru yw'r tebycaf i'r GIG a fwriadodd Bevan, ac yn ôl adroddiad Cymdeithas Feddygol Prydain, mae meddygon Cymru hefyd yn parhau i fod yn deyrngar i'r egwyddorion sylfaenol hynny. Rydym am ddiogelu ein GIG a ariennir yn gyhoeddus er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n ddiogel rhag grymoedd y farchnad. Rydym am i'n gwasanaeth iechyd barhau i aros yn drwm i ethos gwasanaeth cyhoeddus sydd mor gryf yng Nghymru, yn ogystal ag egwyddorion sylfaenol y gwasanaeth iechyd, wrth i'r GIG barhau i foderneiddio er mwyn diwallu anghenion poblogaeth Cymru ac atal clefydau.

The UK Government has provided reassurances about the transatlantic trade and investment partnership and its impact on the NHS and other public services, as has the European Union. The UK Government's own documents state that the EU has been clear that market access and national treatment commitments in its free-trade agreement, including the transatlantic trade and investment partnership, do not apply to publicly funded services. However, there are now a lot of private services across our border in terms of the NHS and we are not the party that is negotiating this agreement—it is the parent Government.

Mae Llywodraeth y DU wedi darparu sicrwydd ynghylch y bartneriaeth masnach a buddsoddi trawsatlantig a'i heffaith ar y GIG ac ar wasanaethau cyhoeddus eraill, fel y mae'r Undeb Ewropeaidd. Mae dogfennau Llywodraeth y DU ei hun yn datgan bod yr UE wedi bod yn glir nad yw mynediad i farchnadoedd ac ymrwymadau triniaeth cenedlaethol yn ei gytundeb masnach rydd, gan gynnwys y bartneriaeth masnach a buddsoddi trawsatlantig, yn berthnasol i wasanaethau a ariennir yn gyhoeddus. Fodd bynnag, erbyn hyn mae llawer o wasanaethau preifat ar draws ein ffin o ran y GIG ac nid ni yw'r blaid sy'n negodi'r cytundeb—ond y rhiant-Lywodraeth.

17:15 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

One thing that many people in this Chamber seem to forget is that GPs, dentists, ophthalmologists and chemists are all private companies offering businesses and services to the national health service. It is ridiculous to suggest that the private sector is not involved in the national health service in Wales.

Un peth yr ymddengys y mae llawer o bobl yn y Siambr hon yn ei anghofio yw bod meddygon teulu, deintyddion, offthalmolegwyr a fferyllwyr i gyd yn gwmnïau preifat sy'n cynnig busnes a gwasanaethau i'r gwasanaeth iechyd gwladol. Mae'n chwerthinllyd i awgrymu nad yw'r sector preifat yn cymryd rhan yn y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:15 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can we make it absolutely clear that these are people who contract with us on historic arrangements in terms of contracting? We are not selling out wholesale NHS provision anywhere, and that is an important point for us. We are absolutely grounded in the principles of the NHS, and we need to make sure that the NHS will not be affected. The First Minister will be demanding a guarantee from the Prime Minister that the transatlantic trade and investment partnership will not affect the ability of the Welsh Government to deliver our public services and protect our NHS as we see fit. At the end of the day, when you look at opinion polls in Wales, the thing that concerns people most is the NHS. They want the NHS to remain the way that it is and at the end of the day they accept the principles. [Interruption.] There is no point in trying to mock principles. I understand that, on that side of the Chamber, you may not have any, but on this side of the Chamber we do and we will be supporting the motion.

A gawn ni ei gwneud yn gwbl glir fod y rhai hyn yn bobl sy'n contractio gyda ni ar drefniadau hanesyddol o ran contractio? Nid ydym yn rhoi darpariaeth cyfanwerthu'r GIG ar werth yn unrhyw le, ac mae hynny'n bwynt pwysig i ni. Rydym yn gwbl ymrwymedig i egwyddorion y GIG, ac mae angen i ni wneud yn siŵr na fydd y GIG yn cael eu heffeithio. Bydd y Prif Weinidog yn mynnu gwarant gan y Prif Weinidog na fydd y bartneriaeth masnach a buddsoddi trawsatlantig yn effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i ddarparu ein gwasanaethau cyhoeddus ac i amddiffyn ein GIG fel y gwelom yn briodol. Pan ddaw hi i'r pen, wrth edrych ar bolau piniwn yng Nghymru, y peth sy'n peri'r pryder mwyaf i bobl yw'r GIG. Maent am i'r GIG barhau fel y mae ac yn y pen draw, maent yn derbyn yr egwyddorion. [Torri ar draws.] Nid oes diben ceisio dilorni egwyddorion. Rwy'n deall, ar eich ochr chi o'r Siambr, efallai nad oes gennych ddim, ond ar yr ochr hon o'r Siambr, mae gennym egwyddorion a byddwn yn cefnogi'r cynnig.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:16 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Leanne Wood to reply to the debate.

Galwaf ar Leanne Wood i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:16 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to thank Members from all sides of the Chamber for their contributions this afternoon, even though there does appear to be a level of denial as to what TTIP involves. One point that does appear to be consistent in several contributions is that TTIP is still subject to change. The final details are unknown, and it is still subject to negotiation.

Hoffwn ddiolch i Aelodau o bob ochr y Siambr am eu cyfraniadau'r prynhawn yma, er ei bod yn ymddangos bod rhywfaint o wadu ynghylch yr hyn y mae TTIP yn ei olygu. Un pwynt a oedd yn tueddu i ymddangos yn gyson mewn sawl cyfraniad yw bod posibilrwydd y gall TTIP newid. Nid yw'r manylion terfynol yn hysbys, ac mae'n dal i fod yn destun trafod.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

As Rhodri Glyn Thomas pointed out, European Governments have their own negotiating positions over issues like the investor-state dispute settlement and protecting certain key sectors. It appears that the UK Government has no problem with any of this and it is taking a hands-off approach to TTIP. Some of the arguments that came from the Conservative and Liberal Democrat benches this afternoon go some way towards explaining the reasoning behind this. As Elin Jones and indeed the Minister have argued—and I am in agreement with them in that I am far from convinced that the UK Government's approach reflects the values or policies of the devolved administrations. Nor does its approach show recognition of the way in which we prefer to organise our public services or the fact that we would prefer to keep them public. That is why we are keen for the Welsh Government to try to seek to influence the UK Government's negotiating position.

Elin Jones addressed the fact that marketisation and liberalisation of services will be part of the agreement and are at the very heart of the talks. This is another area where Plaid Cymru considers the effects of TTIP to be potentially damaging. We have a realistic view of which services the state should provide and which services should be provided on a commercial basis, but the key point is that Governments should not have their hands tied when they want to organise services in a certain way.

Rhun ap Iorwerth and others ensured that we understood the importance of Welsh and European trade with the United States and North America. It is important to reflect that the existing value of that trade has been achieved without public services being opened up or regulations weakened. We know that some kind of harmonisation of regulatory standards is a key aspect of the talks. Our Welsh Members of the European Parliament are well placed to seek transparency on those standards and to assess the risks, and I know for our part that Jill Evans MEP has worked hard on this question in Brussels.

Looking at the next steps we can take here, the Plaid Cymru motion calls for the Welsh Government to make representations to the UK Government on the issue of public services and to call for a rejection of TTIP if the final agreement that appears for ratification has implications for democratic decision making. I welcome the Minister's words in relation to this this afternoon.

At this point, we cannot predict whether TTIP will survive until that point, or whether the process will be brought to a halt, but it is clear that we need a wider national debate on TTIP. We need to do much more to raise awareness of the implications of TTIP, and it is up to us, as democratically elected Welsh politicians, to ensure that the Welsh voice is heard loud and clear.

Fel y dywedodd Rhodri Glyn Thomas, rhaid i lywodraethau Ewropeaidd gael eu safbwyntiau negodi eu hunain dros faterion fel y setliad ar gyfer anghydfod rhwng buddsoddwyr a gwladwriaethau a diogelu rhai sectorau allweddol. Ymddengys nad yw hyn yn broblem o gwbl i Lywodraeth y DU a'i bod yn cymryd agwedd ddifater at TTIP. Mae rhai o'r dadleuon a ddaeth o feinciau'r Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol y prynhawn yma'n mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at esbonio'r rhesymeg y tu ôl i hyn. Fel y dadleuodd Elin Jones ac yn wir y Gweinidog—ac rwy'n cytuno â hwy na chefais fy argyhoeddi o gwbl fod dull gweithredu Llywodraeth y DU yn adlewyrchu gwerthoedd neu bolisiau'r gweinyddiaethau datganoledig. Nid yw ychwaith yn ei dull yn dangos cydnabyddiaeth o'r ffordd y mae'n well gennym drefnu ein gwasanaethau cyhoeddus na'r ffaith y byddai'n well i ni eu cadw'n gyhoeddus. Dyna pam rydym yn awyddus i Lywodraeth Cymru geisio mynd ati i ddyllanwadu ar sefyllfa negodi Llywodraeth y DU.

Mae Elin Jones yn rhoi sylw i'r ffaith y bydd marchnadeiddio a rhyddfrydoli gwasanaethau yn rhan o'r cytundeb a'u bod yn gwbl ganolog i'r trafodaethau. Dyma faes arall lle cred Plaid Cymru y gall effeithiau TTIP fod yn niweidiol. Mae gennym olwg realistig o'r gwasanaethau y dylai'r wladwriaeth eu darparu a pha wasanaethau ddylai gael eu darparu ar sail fasnachol, ond y pwynt allweddol yn na ddylai llywodraethau fod â'u dwylo wedi'u clymu pan fyddant am drefnu gwasanaethau mewn ffordd arbennig.

Sicrhodd Rhun ap Iorwerth ac eraill ein bod yn deall pwysigrwydd masnachu rhwng Cymru ac Ewrop a'r Unol Daleithiau a Gogledd America. Mae'n bwysig ystyried bod gwerth presennol y fasnach honno wedi'i sicrhau heb i wasanaethau cyhoeddus gael eu hagar nac i reoliadau gael eu gwanhau. Gwyddom fod rhyw fath o gysoni safonau rheoleiddio yn agwedd allweddol ar y trafodaethau. Mae ein Haelodau o Gymru o Senedd Ewrop mewn sefyllfa dda i ofyn am dryloywder ar y safonau hynny ac i asesu'r risgiau, a gwn fod Jill Evans ASE wedi gweithio'n galed ar ein rhan ar y cwestiwn hwn ym Mrwsel.

O edrych ar y camau nesaf y gallwn eu cymryd yma, mae cynnig Plaid Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ar fater gwasanaethau cyhoeddus ac i alw am wrthod TTIP os bydd gan y cytundeb terfynol a ddaw i'r fei i'w gadarnhau oblygiadau o ran gwneud penderfyniadau democrataidd. Rwy'n croesawu geiriau'r Gweinidog mewn perthynas â hyn y prynhawn yma.

Ar hyn o bryd, ni allwn ragweld a fydd TTIP yn goroesi tan y pwynt hwnnw, neu a fydd y broses yn cael ei hoedi, ond mae'n amlwg fod arnom angen dadl genedlaethol ehangach ar TTIP. Mae angen i ni wneud llawer mwy i godi ymwybyddiaeth o oblygiadau TTIP, a'n gwaiht ni, fel gwleidyddion Cymru a etholwyd yn ddemocrataidd, yw sicrhau bod llais Cymru yn cael ei glywed yn glir.

17:20

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There is objection. I defer voting under this item until voting time, which follows.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Gohiriaf y bleidlais dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio, sy'n dilyn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:20

Cyfnod Pleidleisio**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer**[Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not. We will vote first, then, on the debate on the individual Members' motion, tabled in the names of Mike Hedges, Jocelyn Davies and Peter Black.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5626](#)*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 34, Yn erbyn 10, Ymatal 2.*[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5643](#)*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 33, Yn erbyn 14, Ymatal 0.***Voting Time**

Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nid oes neb. Byddwn yn pleidleisio yn gyntaf, felly, ar y ddadl ar gynnig yr Aelodau unigol, a gyflwynwyd yn enwau Mike Hedges, Jocelyn Davies a Peter Black.

[Result of the vote on motion NDM5626](#)*Motion agreed: For 34, Against 10, Abstain 2.*[Result of the vote on motion NDM5643](#)*Motion agreed: For 33, Against 14, Abstain 0.*Y [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:21

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer[Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would ask Members who are leaving the Chamber to do so quickly and quietly.

A gaf fi ofyn i Aelodau sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:22

**Dadl Fer: Cymru ar y Blaen—
Gwerthuso Cylchffordd Cymru****Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer**[Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I ask William Graham to speak on the topic that he has chosen.

Dangoswyd cyflwyniad PowerPoint i gyd-fynd â'r drafodaeth. Mae'r cyflwyniad ar gael drwy ddilyn y linc hon:

[Cyflwyniad PowerPoint. \(PDF: 66MB\)](#)**Short Debate: Wales Takes the
Chequered Flag—an Appraisal of
the Circuit of Wales**

Galwaf ar William Graham i siarad ar y pwnc y mae wedi'i ddevis.

A PowerPoint presentation was shown to accompany the debate. The presentation can be accessed by following this link:

[PowerPoint presentation. \(PDF: 66MB\)](#)Y [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:22

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have agreed to give Jeff Cuthbert, who kindly offered to contribute to this debate, a minute of my time. I hope that the visual aids will function shortly.

Across the Heads of the Valleys region, we have seen decades of decline in our traditional heavy industries. More recently, many of the industries brought into the region were to replace coal and steel.

Cytunais i roi munud o fy amser i Jeff Cuthbert, a oedd yn cynnig yn garedig i gyfrannu i'r ddadl hon. Gobeithio y bydd y cymhorthion gweledol yn gweithio'n fuan.

Ar draws rhanbarth Blaenau'r Cymoedd, gwelsom ddegawdau o ddirywiad yn ein diwydiannau trwm traddodiadol. Yn fwy diweddar, roedd llawer o'r diwydiannau a ddaeth i mewn i'r rhanbarth wedi dod i gymryd lle glo a dur.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

The regeneration of Valleys communities has been slow, with the majority of inward investment focused around the transport networks along the south Wales coast: the ports, railway and motorway. Too often, the costs of transporting raw materials in and finished goods out have left the Heads of the Valleys region on the sideline whenever potential industrial developments are considered. This was acknowledged by the inclusion of Ebbw Vale in the Conservative Government programme of garden festivals to create rebirth in those areas of decline. The Ebbw Vale Garden Festival of Wales in 1992 attracted over 2 million visitors, and that site evolved into the festival park shopping centre, which still attracts thousands of visitors every year.

In 2006, when the Welsh Government published 'Turning Heads...A Strategy for the Heads of the Valleys 2020', we could have looked to the sky in disbelief—if it had included an aspiration of securing investment to this region, which would create employment opportunities throughout the region, employment opportunities focused upon innovative research and development, and employment opportunities that are not only highly skilled, but will enhance South Wales East within the global market.

The Circuit of Wales could realise this aspiration and then offer us much more. Back in 2000, former First Minister, Rhodri Morgan described Objective 1 funding as a once-in-a-lifetime opportunity. For Blaenau Gwent, the Circuit of Wales is a once-in-a-century opportunity. It is a unique transformational project that can revitalise one of the most deprived economic regions in the United Kingdom and provide the impetus for long-term economic regeneration.

Not only will it create a nucleus of motor sport industries, inspiring research and development, it will have driver and rider training facilities and could attract approximately 400,000 people each year from 2017 until 2024 and beyond. It will not only create a nucleus of motor sport industries, it will incorporate innovative, sustainable energy generation in partnership with Hanergy. These will showcase pioneering thin-film solar technology modules integrated into all the venue's buildings. These will supply cleaner, cost-effective energy, not only to the circuit and the automotive business park, but also to homeowners and businesses in the area.

At the heart of this development will be Britain's first purpose-built motor cycle grand-prix circuit. The 3.5 mile track will be specifically designed to conform to Federation of International Automobile and Federation of International Motorcycle regulations, enabling the highest standards of two-wheel and four-wheel events to be hosted.

What excites riders, drivers and motor enthusiasts alike is that the design for the track has been inspired by the natural topography of the site in order to create a unique setting, challenging competitors to ride and drive to the height of their technical ability, and allowing spectators the best possible vantage points.

Mae adfywio cymunedau'r Cymoedd wedi bod yn araf, gyda mwyafrif y mewnfuddsoddi'n canolbwyntio ar y rhwydweithiau trafnidiaeth ar hyd arfordir de Cymru: y porthladdoedd, y rheilffordd a'r draffordd. Yn rhy aml, mae costau cludo deunyddiau crai i mewn a nwyddau gorffenedig allan wedi gadael rhanbarth Blaenau'r Cymoedd ar y cyrion pryd bynnag y bydd darpar ddatblygiadau diwydiannol yn cael eu hystyried. Cafodd hyn ei gydnabod pan fu i Lyn Ebwy gael ei gynnwys yn rhaglen gwyliau gerddi'r Llywodraeth Geidwadol i geisio aileni'r ardaloedd hynny o ddirywiad. Denodd Gŵyl Gerddi Glyn Ebwy Cymru ym 1992 dros 2 filiwn o ymwelwyr, ac mae'r safle wedi esblygu i fod yn ganolfan siopa parc yr ŵyl, sy'n dal i ddenu miloedd o ymwelwyr bob blwyddyn.

Yn 2006, pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Syniadau Blaengar ... Strategaeth ar gyfer Blaenau'r Cymoedd 2020', gallem fod wedi edrych i'r awyr mewn anghrediniaeth—os oedd wedi cynnwys dyhead i sicrhau buddsoddiad yn y rhanbarth hwn, a fyddai'n creu cyfle ar gyfer cyflogaeth ar draws y rhanbarth, cyfleoedd gwaith yn canolbwyntio ar ymchwil a datblygu arloesol, a chyfleoedd gwaith sy'n galw am sgiliau hyfedr, ond a fydd yn gwella Dwyrain De Cymru o fewn y farchnad fyd-eang.

Gallai Cylchffordd Cymru wireddu'r dyhead hwn a chynnig llawer mwy i ni hefyd. Yn ôl yn 2000, disgrifiodd Rhodri Morgan, y cyn Brif Weinidog arian Amcan 1 yn gyfle unwaith-mewn-oes. Ar gyfer Blaenau Gwent, mae Cylchffordd Cymru yn gyfle unwaith-mewn-canrif. Mae'n brosiect trawsnewidiol unigryw sy'n gallu adfywio un o ranbarthau economaidd mwyaf difreintiedig y Deyrnas Unedig a darparu'r ysgogiad ar gyfer adfywio economaidd yn y tymor hir.

Nid yn unig y bydd yn creu cnewyllyn o ddiwydiannau chwaraeon modur, gan ysbrydoli ymchwil a datblygu, bydd yno gyfleusterau hyfforddi i yrwyr a beicwyr a gallai ddenu tua 400,000 o bobl bob blwyddyn o 2017 tan 2024 a thu hwnt. Bydd yn creu cnewyllyn o ddiwydiannau chwaraeon modur yn ogystal â defnyddio ynni cynaliadwy newydd mewn partneriaeth â Hanergy. Byddant yn enghreifftiau arloesol o fodiwlau technoleg solar ffilm-tenau wedi'u hintegreiddio i holl adeiladau'r lleoliad. Byddant yn darparu ynni cost effeithiol glanach, nid yn unig i'r gylchffordd a'r parc busnes modurol, ond hefyd i berchnogion tai a busnesau yn yr ardal.

Wrth galon y datblygiad hwn, bydd beiciau modur a adeiladwyd yn bwrpasol ar gyfer cylchffordd grand-prix cyntaf Prydain. Bydd y trac 3.5 milltir yn cael ei gynllunio'n benodol i gydymffurfio â rheoliadau'r Ffederasiwn Modurol Rhyngwladol a'r Ffederasiwn Beiciau Modur Rhyngwladol, gan olygu y gellir cynnal digwyddiadau dwy olwyn a phedair olwyn o'r safon uchaf.

Yr hyn sy'n cyffroi beicwyr, gyrwyr a selogion y byd modur fel ei gilydd yw bod y cynllun ar gyfer y trac wedi cael ei ysbrydoli gan dopograffeg naturiol y safle er mwyn creu lleoliad unigryw, sy'n herio cystadleuwyr i reidio a gyrru hyd eithaf eu gallu technegol, a darparu'r lleoliadau gwyllo gorau posibl i'r gwylwyr.

Ben Collins, the man who was Stig on BBC's 'Top Gear', describes the Circuit of Wales racetrack as 'revolutionary' for the next wave of Welsh racers, and that it

'could accelerate the process of finding the next Welsh Formula One driver'.

This is the potential of the Circuit of Wales. It reaches beyond nurturing a Welsh world racing champion. It will challenge our young people to develop the design, engineering and fuel technology skills to drive world motor sports, and to empower the economy of South Wales East.

The British round of FIM MotoGB World Championship alone would be broadcast to over 337 million households across the globe, as well as attracting 150,000 people over the race weekend. The Circuit of Wales has signed a five-year contract, with the option for a further five-year extension, with Dorna Sports SL to host this event. This will challenge our tourist industries, not only to demonstrate the highest qualities of Welsh hospitality, but to take advantage of the Brecon Beacons, the visible backdrop of all the racing broadcast from the circuit. The cultural heritage of the surrounding valley is the perfect advertisement to visit Wales.

We must acknowledge that one of the fundamental goals of the project is the regeneration of Blaenau Gwent. By working with local partners, such as QTS Limited, Sigma Recruitment and Smart Solutions Recruitment, and with further education colleges, including Coleg Gwent's Ebbw Vale campus, the College Merthyr Tydfil, the University of Wales Trinity Saint David and the University of South Wales. It has the aim of prioritising local access to training and recruitment.

The wider aim is to extend local employment opportunities beyond the construction phase so that, once fully operational, and being alongside an enterprise zone focused upon motor industries, it looks to maximise the potential for creating employment opportunities. It will also provide education to both public and private drivers and riders, including the UK's first indoor motor cycle dirt track, enabling riders of all ability levels to learn multidisciplinary skills within a controlled environment. Through academy workshops and the on-site driver training centre, students will benefit greatly from being in close proximity to a world-class operational circuit.

People-focused design facilities will allow mechanics and engineering students to gain experience of motor sport at the highest levels, and to apply their skills to developing the next generation of motor vehicles—vehicles that will not only be faster, but safer, and more energy efficient, using fuels from a wide range of sources. It will further lead the economic regeneration of south-east Wales by establishing hotels and associated retail, leisure and tourist facilities.

Mae Ben Collins, neu Stig ar raglen 'Top Gear' y BBC, yn disgrifio trac rasio Cylchfordd Cymru fel 'chwyldroadol' ar gyfer y don nesaf o raswyr yng Nghymru, ac

'y gall gyflymu'r broses o ddatgelu gyrrwr Fformiwla Un nesaf Cymru'.

Dyma yw potensial Cylchfordd Cymru. Mae'n estyn y tu hwnt i feithrin pencampwyr y byd rasio Cymreig. Bydd yn herio'n pobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau technoleg dylunio, peirianneg a thanwydd i lywio chwaraeon modur y byd, ac i roi grym i economi Dwyrain De Cymru.

Byddai rownd Prydain o Bencampwriaeth MotoGB FIM y Byd ar ei ben ei hun yn cael ei ddarparu i dros 337 miliwn o gartrefi ar draws y byd, yn ogystal â denu 150,000 o bobl dros benwythnos y ras. Mae Cylchfordd Cymru wedi arwyddo cytundeb pum mlynedd, gyda'r opsiwn i ymestyn am bum mlynedd arall, gyda Dorna Sports SL i gynnal y digwyddiad hwn. Bydd hyn yn her i'n diwydiannau twristiaeth, nid yn unig i ddangos y rhinweddau uchaf o letygarwch yng Nghymru, ond i fanteisio ar Fannau Brycheiniog, sy'n gefndir gweladwy i'r holl ddarparu rasio o'r gylchfordd. Mae treftadaeth ddiwylliannol y dyffryn o gwmpas yn hysbyseb perffaith ar gyfer ymweld â Chymru.

Rhaid inni gydnabod mai un o amcanion sylfaenol y prosiect yw adfywio Blaenau Gwent. Trwy weithio gyda phartneriaid lleol, megis QTS Limited, Sigma Recruitment a Smart Solutions Recruitment a chyda cholegau addysg bellach, gan gynnwys campws Coleg Gwent yng Nglyn Ebwy, Coleg Merthyr Tudful, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol De Cymru. Mae ganddo'r nod o flaenoriaethu mynediad lleol i hyfforddi a recriwtio.

Y nod ehangach yw ymestyn cyfleoedd cyflogaeth lleol y tu hwnt i'r cyfnod adeiladu fel y bydd, ar ôl dod yn gwbl weithredol ac yn sgîl ei leoliad wrth ochr ardal fenter sy'n canolbwyntio ar ddiwydiannau modur, yn manteisio i'r eithaf ar y potensial ar gyfer creu cyfleoedd gwaith. Bydd hefyd yn darparu addysg i yrrwyr a beicwyr cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys trac baw dan do cyntaf y DU ar gyfer beiciau modur, gan alluogi beicwyr o bob gallu i ddysgu sgiliau aml-ddisgyblaethol o fewn amgylchedd rheoledig. Drwy weithdai academi a'r ganolfan hyfforddi gyrrwyr ar y safle, bydd myfyrwyr yn elwa'n fawr o fod yn agos at gylchfordd weithredol o safon byd.

Bydd cyfleusterau dylunio sy'n canolbwyntio ar bobl yn galluogi myfyrwyr peirianneg a mecaneg i gael profiad o chwaraeon modur ar y lefelau uchaf, ac i gymhwyso eu sgiliau i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o gerbydau modur—cerbydau fydd nid yn unig yn gyflymach, ond yn fwy diogel, ac yn fwy effeithlon o ran ynni, sy'n defnyddio tanwydd o amrywiaeth eang o ffynonellau. Bydd yn arwain adfywiad economaidd de-ddwyrain Cymru ymhellach drwy sefydlu gwestai a chyfleusterau manwerthu, hamdden a thwristiaeth cysylltiedig.

I acknowledge there are concerns about the site with regard to its impact upon the environment. The development will comply with the Welsh Government's nature recovery plan and will include a series of mitigation programmes, most notably the creation of enhanced habitats for priority species and improved grazing to promote the biodiversity of the area. In addition to the solar generation previously described, the site design includes onsite wind and hydro energy generation. Water will be pumped to high-point reservoirs, allowing it to be released for hydro-generated energy. Environmental designing will provide a renewable energy scheme, which will deliver a fixed-price energy solution.

The Circuit of Wales will host a number of international events, such as world superbikes, world motocross and world touring car, but it will be the British MotoGP that will be the main annual attraction. A truly global event, it will showcase Wales and Welsh design, engineering and innovative skills, together with creating the opportunities for a Welsh rider to become a world champion. The Circuit of Wales will allow Wales to take the chequered flag and ensure that Wales becomes synonymous with high-quality motorsport activity, commerce and entertainment worldwide.

17:30

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very grateful to William Graham for allowing me the opportunity to speak briefly in his debate today. Last month, I, along with several other Members, attended the very informative reception event organised by Circuit of Wales here in the Senedd. The circuit is a big issue on the lips of many people in the Gwent valleys and beyond the boundaries of Blaenau Gwent, including my constituents. Quite often, I am asked about the plans for the circuit by my constituents, especially by young people who visit the Assembly with their schools or colleges. I am excited by the plans for the circuit, and I hope very much that they are realised for the benefit of the people of Wales, but particularly for young people in that area.

As well as being a world-class motorsport facility with the right to secure with the British MotoGP championship, this has the potential to transform training and employment opportunities in the Heads of the Valley region. I am pleased to see that the circuit's on-site members academy will provide training opportunities to boost the skills of local people as part of its commitment to local regeneration. I am also pleased to see plans for the extensive use of green and renewable energy by the circuit and for seeking to limit its environmental impact by working with the Welsh Government's nature recovery plan. Deputy Minister, when the circuit opens as planned in 2016, will you commit to working with the developers, local authorities, FE colleges and other work-based learning providers to ensure that the best employment and training opportunities are provided for local young people, so that those working at the circuit are able to acquire the advanced skills that they will need to sustain it as a world-class motorsports facility as well as to increase their employability in the global labour market?

Rwy'n cydnabod bod pryderon am y safle o ran yr effaith ar yr amgylchedd. Bydd y datblygiad yn cydymffurfio â chynllun adfer natur Llywodraeth Cymru a bydd yn cynnwys cyfres o raglenni lliniaru, yn fwyaf nodedig y cynefinoedd gwell ar gyfer rhywogaethau blaenoriaeth creu a gwella tir pori i hyrwyddo bioamrywiaeth yr ardal. Yn ogystal â'r ynni solar a ddisgrifiwyd yn flaenorol, mae cynllun y safle yn cynnwys cyfarpar cynhyrchu ynni gwynt a dŵr. Bydd dŵr yn cael ei bwmpio i gronfeydd dŵr uchel, a'i ryddhau ar gyfer cynhyrchu ynni dŵr. Bydd dylunio amgylcheddol yn darparu cynllun ynni adnewyddadwy, a fydd yn darparu ynni am bris sefydlog.

Bydd Cylchffordd Cymru'n cynnal nifer o ddigwyddiadau rhyngwladol, megis Superbikes y byd, motocρός y byd a char teithio'r byd, ond y MotoGP Prydeinig fydd y prif atyniad blynyddol. Bydd yn ddigwyddiad gwirioneddol byd-eang, bydd yn gyfle i ddangos Cymru a dyluniadau Cymreig, sgiliau peirianeg arloesol, ynghyd â chreu cyfleoedd ar gyfer beiciwr o Gymru i ddod yn bencampwr byd. Bydd Cylchffordd Cymru'n caniatáu i Gymru chwifio'r faner sgwarog a sicrhau bod enw Cymru'n dod yn gyfystyr â gweithgarwch o ansawdd uchel ym maes chwaraeon modur, masnach ac adloniant ledled y byd.

Rwy'n ddiolchgar iawn i William Graham am roi cyfle imi siarad yn fyr yn ei ddadl heddiw. Y mis diwethaf, ynghyd â nifer o Aelodau eraill, roeddwn yn bresennol yn y derbyniad hynod effeithiol a drefnwyd gan Gylchffordd Cymru yma yn y Senedd. Mae'r gylchffordd yn destun siarad ar wefusau llawer o bobl yng nghymoedd Gwent a thu hwnt i ffiniau Blaenau Gwent, yn cynnwys fy etholwyr. Yn aml iawn, caf gwestiynau am y cynlluniau ar gyfer y gylchffordd gan fy etholwyr, yn enwedig gan bobl ifanc sy'n ymweld â'r Cynulliad gyda'u hysgolion neu golegau. Rwy'n teimlo'n gyffrous gan y cynlluniau ar gyfer y gylchffordd, a gobeithiaf yn fawr iawn y cânt eu gwireddu er budd pobl Cymru, ond yn enwedig ar gyfer pobl ifanc yr ardal honno.

Yn ogystal â bod yn gyfleuster chwaraeon moduro o'r radd flaenaf gyda'r hawl i gynnal pencampwriaeth MotoGP Prydain, mae gan hyn y potensial i drawsnewid cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth yn rhanbarth Blaenau'r Cymoedd. Rwy'n falch o weld y bydd academi i aelodau ar safle'r gylchffordd yn darparu cyfleoedd hyfforddi i roi hwb i sgiliau pobl leol fel rhan o'r ymrwymiad i adfywio lleol. Rwyf hefyd yn falch o weld cynlluniau i ddefnyddio ynni gwyrdd ac adnewyddadwy yn helaeth gan y gylchffordd a cheisio cyfyngu ar yr effaith amgylcheddol trwy weithio gyda chynllun adfer natur Llywodraeth Cymru. Ddirprwy Weinidog, pan fydd y gylchffordd yn agor fel y cynlluniwyd yn 2016, a wnewch chi ymrwymo i weithio gyda'r datblygwyr, awdurdodau lleol, colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith eraill i sicrhau bod y cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant gorau yn cael eu darparu ar gyfer pobl ifanc leol, fel bod y rheiny sy'n gweithio yn y gylchffordd yn gallu ennill y sgiliau uwch y bydd eu hangen arnynt i gynnal y cyfleuster chwaraeon modur o safon byd yn ogystal ag i gynyddu eu cyflogadwyedd yn y farchnad lafur fyd-eang?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:32

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism to reply to the debate—Ken Skates.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth i ymateb i'r ddatl—Ken Skates.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:32

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Thank you, Deputy Presiding Officer. I welcome this short debate today as the Circuit of Wales is the most significant investment in automotive infrastructure in the UK for half a century. May I also congratulate the Member William Graham for bringing this subject to the Chamber? I know of few other politicians with a keener interest in the automotive sector.

The £280 million capital investment programme will build a world-class international motorsport circuit and aims to achieve significant and wide economic benefits for Wales and, of course, the deprived region of Ebbw Vale in particular. This innovative scheme will transform 830 acres of land in Blaenau Gwent into high-quality motorsport activity, commerce and entertainment, regenerating the area by providing significant opportunities in job creation, tourism, research and development. The Circuit of Wales aims to attract 750,000 visitors per year within three to five years of start-up—an astonishing figure that will significantly boost Wales's international profile.

The development will be a major addition among Europe's front-ranking motorsports facilities and will be designed to host international events such as MotoGP, World Superbikes, World Motocross and World Touring Car. The company operates in a growth market and has signed an exceptionally long 10-year contract with Dorna Sport SL for its anchor event, MotoGP, which attracts an enormous worldwide television audience. The contract starts in 2015, but, until the Circuit of Wales is ready, the race will be run at an alternative circuit.

As part of its continued engagement with organisations throughout south-east Wales, Circuit of Wales organised a reception at the Senedd on 19 November, hosted by Alun Davies AM, William Graham AM and Jocelyn Davies AM. I was delighted, along with Jeff Cuthbert, to attend that event. It included an exhibition outlining plans for the delivery of the Circuit of Wales motor-racing track, the progress made so far in securing Wales as a home for MotoGP and the economic benefits that the project will bring not just to the south-east region, but to the whole of Wales. Indeed, I have already got schoolchildren in my constituency in north Wales talking excitedly about the prospect of one day competing on the circuit.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n croesawu'r ddatl fer hon heddiw gan mai Cylchffordd Cymru yw'r buddsoddiad mwyaf sylweddol mewn seilwaith modurol yn y DU ers hanner canrif. A gaf fi hefyd longyfarch yr Aelod, William Graham, am godi'r pwnc yn y Siambr? Prin yw'r gwleidyddion eraill sydd â mwy o ddiddordeb yn y sector modurol.

Bydd y rhaglen buddsoddi cyfalaf gwerth £280 miliwn yn adeiladu cylchffordd chwaraeon modur rhyngwladol gyda'r gorau yn y byd ac yn ceisio cyflawni manteision economaidd sylweddol ac eang ar gyfer Cymru ac, wrth gwrs, ar gyfer rhanbarth difreintiedig Glyn Ebwy yn benodol. Bydd y cynllun arloesol hwn yn trawsnewid 830 erw o dir ym Mlaenau Gwent yn weithgarech chwaraeon modur o ansawdd uchel, masnach ac adloniant, gan adfywio'r ardal trwy ddarparu cyfleoedd sylweddol o ran creu swyddi, twristiaeth, ymchwil a datblygu. Nod Cylchffordd Cymru yw denu 750,000 o ymwelwyr y flwyddyn o fewn tair i bum mlynedd o gychwyn busnes—ffigur anhygoel a fydd yn rhoi hwb sylweddol i broffil rhyngwladol Cymru.

Bydd y datblygiad yn ychwanegiad o bwys ymysg y cyfalestrau chwaraeon modur rheng-flaen yn Ewrop a bydd yn cael ei gynllunio i gynnal digwyddiadau rhyngwladol megis MotoGP, Superbikes Byd, motocrós Byd a Cheir Teithio'r Byd. Mae'r cwmni'n gweithredu mewn marchnad sy'n tyfu ac mae wedi llofnodi cytundeb 10 mlynedd eithriadol o hir gyda Dorna Sport SL ar gyfer ei ddiwyddiad sylfaenol, sef MotoGP, sy'n denu cynulleidfadau fyd-eang enfawr. Mae'r contract yn dechrau yn 2015, ond, hyd nes y bydd Cylchffordd Cymru'n barod, cynhelir y ras mewn cylchffordd arall.

Fel rhan o'u hymrwymiad parhaus gyda sefydliadau ledled de-ddwyrain Cymru, trefnodd Cylchffordd Cymru dderbyniad yn y Senedd ar 19 Tachwedd, a gynhaliwyd gan Alun Davies AC, William Graham AC a Jocelyn Davies AC. Roedd yn bleser gen i a Jeff Cuthbert fod yn bresennol yn y digwyddiad hwnnw. Roedd yn cynnwys arddangosfa yn amlinellu cynlluniau ar gyfer cyflwyno trac rasio ceir Cylchffordd Cymru, y cynnydd a wnaed hyd yn hyn o ran sicrhau Cymru fel cartref i MotoGP a'r manteision economaidd a ddaw yn sgîl y prosiect nid yn unig i ranbarth y de-ddwyrain, ond i Gymru gyfan. Yn wir, rwyf eisoes wedi cael plant ysgol yn fy etholaeth yn y Gogledd yn siarad yn gyffrous am y posibilrwydd o gystadlu ar y gylchffordd rhyw ddiwrnod.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am delighted that, through its training and recruitment programme, Circuit of Wales is also working closely with colleges and is actively engaged in other graduate and student organisations such as the Institution of Civil Engineers' Swansea committee, which has recently delivered an evening lecture outlining the current construction proposals for the Circuit of Wales. I do, of course, commit to working with them in ensuring that the training opportunities are there for young people in the region and across Wales, of course. We have been able to provide the Circuit of Wales with financial support towards the costs of achieving planning consent and progressing the project to a financial close. Therefore, as Deputy Minister with responsibility for culture, sport and tourism, and indeed as a person with a particular interest in cars, I obviously support the construction of such an exceptional project in Wales. I look forward to welcoming international motorsports events to Wales in the very near future.

Rwy'n hynod falch hefyd, trwy ei raglen hyfforddi a recriwtio, fod Cylchffordd Cymru'n cydweithio'n agos â cholegau ac yn cymryd rhan weithredol mewn sefydliadau eraill i raddedigion a myfyrwyr, fel pwyllgor Sefydliad Peirianwyr Sifil Abertawe, a gyflwynodd ddarlith min nos yn ddiweddar yn amlinellu cynigion y gwaith adeiladu presennol ar gyfer Cylchffordd Cymru. Wrth gwrs, byddaf yn ymrwymo i gydweithio â hwy i sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi ar gael i bobl ifanc yn y rhanbarth ac ar draws Cymru. Rydym wedi gallu darparu cefnogaeth ariannol i Gylchffordd Cymru tuag at gostau cyflawni caniatâd cynllunio a symud ymlaen â'r prosiect i derfyn ariannol. Felly, fel y Dirprwy Weinidog â chyfrifoldeb dros ddiwylliant, chwaraeon a thwristiaeth, ac yn wir fel person gyda diddordeb arbennig mewn ceir, rwy'n amlwg yn cefnogi'r gwaith o adeiladu prosiect mor eithriadol yng Nghymru. Rwy'n edrych ymlaen at groesawu digwyddiadau chwaraeon modur rhyngwladol i Gymru yn y dyfodol agos iawn.

17:36

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Minister. That concludes today's business.

Diolch, Ddirprwy Weinidog. Dyna ddiwedd y busnes heddiw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Daeth y cyfarfod i ben am 17:36.

The meeting ended at 17:36.